





# Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr yng Nghymru 2003

DYSGU ac ADDYSGU CYMRU
ELWa
EDUCATION and LEARNING WALES

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1. | CYFLWYNIAD | 001 |
| 1.1 | AMCANION | 001 |
| 1.2 | YMDRINIAETH YR AROLWG - MATHAU O DDARPARIAETH | 002 |
| 1.3 | YMDRINIAETH YR AROLWG - MEYSYDD Y CWESTIYNAU | 003 |
| 1.4 | METHODOLEG A SAMPLO | 003 |
| 1.4.1 | Samplo | 003 |
| 1.5 | STRWYTHUR Y SAMPLO | 004 |
| 1.6 | LLUNIO ADRODDIAD | 004 |
| 1.7 | CANLLAWIAU AR DDEHONGLI'R DATA | 005 |
| 2. | BODDHAD CYFFREDINOL | 006 |
| 2.1 | BRASOLWG | 006 |
| 2.1.1 | Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu | 006 |
| 2.1.2 | Cyrraedd yr amcanion | 007 |
| 2.2 | ADDYSG BELLACH | 008 |
| 2.2.1 | Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu | 008 |
| 2.2.2 | I ba raddau y cyrhaeddwyd yr amcanion oedd gan yr ymatebwyr cyn y cwrs | 010 |
| 2.3 | DYSGU YN Y GWAITH | 016 |
| 2.3.1 | Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu | 016 |
| 2.3.2 | I ba raddau y cyrhaeddwyd yr amcanion cyn y cwrs | 017 |
| 2.3.3 | Pa mor berthnasol a defnyddiol yw'r hyfforddiant i'r sydd gyfredol | 019 |
| 2.3.4 | Pa mor ddefnyddiol yw'r hyfforddiant | 020 |
| 2.4 | ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU | 022 |
| 2.4.1 | I ba raddau y cyrhaeddwyd yr amcanion cyn y cwrs | 023 |
| 2.5 | CYMHARIAETH RHWNG Y MATHAU O DDARPARIAETH | 025 |
| 2.5.1 | Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu | 025 |
| 2.5.2 | Cyrraedd yr amcanion | 026 |
| 2.5.3 | Ffactorau sy'n dylanwadu ar foddhad | 028 |
| 2.6 | Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA | 029 |






**3. GWNEUD Y PENDERFYNIAD 031**

**3.1 BRASOLWG 031**
**3.1.1 Dewis 031**
3.1.2 Cyngor am ddewis cwrs a darparwr 032
3.1.3 Disgwyliadau cyn y cwrs 033

**3.2 ADDYSG BELLACH 034**
3.2.1 Dewis darparwr dysgu 034
3.2.2 Dewis cwrs 036
3.2.3 Y rhesymau am ddewis y darparwr 036
3.2.4 Ffynonellau'r cyngor am ddewis darparwr 038
3.2.5 A wireddwyd y disgwyliadau oedd ganddynt cyn y cwrs 040

**3.3 DYSGU YN Y GWAITH 042**
3.3.1 Dewis darparwr 042
3.3.2 Dewis hyfforddiant 044
3.3.3 Y rhesymau am ddewis y darparwr 045
3.3.4 Ffynonellau'r cyngor yn ôl y cwrs a ddewiswyd 047
3.3.5 A wireddwyd y disgwyliadau oedd gan y dysgwyr cyn y cwrs 049

**3.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU 051**
3.4.1 Dewis darparwr 051
3.4.2 Dewis cwrs 051
3.4.3 Y rhesymau am ddewis y darparwr 052
3.4.4 Ffynonellau'r cyngor am ddewis darparwr 053
3.4.5 A atebwyd y disgwyliadau oedd ganddynt cyn y cwrs 054

**3.5 CYMHARIAETH RHWNG Y GWAHANOL FATHAU O DDARPARIAETH 055**
3.5.1 Eu disgwyliadau am ofynion y cwrs 059

**3.6 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA 061**

**4. ANSAWDD Y DYSGU 064**

**4.1 BRASOLWG 065**

**4.2 ADDYSG BELLACH 067**
4.2.1 Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu/hyfforddiant 067
4.2.2 Ansawdd agweddau penodol o'r addysgu/hyfforddiant 067
4.2.3 Rheoli dysgu 069

**4.3 DYSGU YN Y GWAITH 069**
4.3.1 Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu/hyfforddiant 069
4.3.2 Ansawdd agweddau penodol o addysgu/hyfforddiant 070
4.3.3 Rheoli'r dysgu 076
4.3.4 Nifer yr oriau a dreulir yn hyfforddi tu allan i'r swydd ac a yw'r amser yma'n ddigonol 079
4.3.5 Nifer yr oriau a dreulir ar hyfforddiant y tu allan i'r swydd 079
4.3.6 A yw'r nifer o oriau a dreulir yn hyfforddi y tu allan i'r swydd yn ddigonol? 079

**4.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU 081**
4.4.1 Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu/hyfforddiant 081
4.4.2 Ansawdd agweddau penodol o'r addysgu/hyfforddiant 082
4.4.3 Rheoli dysgu 086

**4.5 CYMHARIAETH RHWNG Y MATHAU O DDARPARIAETH 087**

**4.6 FFACTORAU SY'N DYLANWADU AR FODDHAD GYDA'R ADDYSGU A'R RHEOLI 090**
4.6.1 Addysg Bellach 090
4.6.1.1 Rheoli 092
4.6.2 Dysgu yn y Gwaith 092
4.6.2.1 Rheoli 092
4.6.3 Addysg barhaus oedolion wedi'i hachredu 092
4.6.3.1 Rheoli 092

**4.7 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA 095**

5. CYFLEUSTERAU 098

5.1 BRASOLWG 098

5.2 ADDYSG BELLACH 099

5.3 DYSGU YN Y GWAITH 100

5.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU 103

5.5 CYMHARIAETH RHWNG Y MATHAU O DDARPARIAETH 103

5.6 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA 105

6. FAINT O ADDYSG DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG SYDD AR GAEL 107

6.1 BRASOLWG 107

6.2 ADDYSG BELLACH 108
6.2.1 Gallu yn yr iaith Gymraeg 108
6.2.2 Dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg 109
6.2.3 A ofynnwyd i'r dysgwyr a fydden nhw'n hoffi dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 111
6.2.4 Yr agweddau penodol o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael 112

6.3 DYSGU YN Y GWAITH 113
6.3.1 Gallu yn yr iaith Gymraeg 113
6.3.2 Dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg 113
6.3.3 A ofynnwyd i'r dysgwyr a hoffent ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? 114
6.3.4 Faint o agweddau penodol o ddysgu sydd ar gael yn y Gymraeg 115

6.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU 118
6.4.1 Gallu yn yr iaith Gymraeg 118
6.4.2 A ofynnwyd i'r dysgwyr a hoffent wneud eu ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? 119
6.4.3 Faint o agweddau penodol o ddysgu oedd ar gael yn y Gymraeg? 120

6.5 CYMHARIAETH RHWNG Y MATHAU O DDARPARIAETH A CHRYNODEB 120
6.5.1 Dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg 120

6.6 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA 123






| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **PROBLEMAU** | **124** |
| **7.1** | **BRASOLWG** | **124** |
| **7.2** | **ADDYSG BELLACH** | **125** |
| **7.2.1** | Anableddau ac anawsterau dysgu | **126** |
| **7.2.2** | Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau | **131** |
| **7.3** | **DYSGU YN Y GWAITH** | **133** |
| **7.3.1** | Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau | **137** |
| **7.3.2** | Y boddhad gyda chefnogaeth y cyflogwr | **138** |
| **7.3.3** | Y rhesymau am y boddhad | **139** |
| **7.3.4** | Y rhesymau am yr anfodlonrwydd | **140** |
| **7.4** | **ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU** | **141** |
| **7.4.1** | Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau | **143** |
| **7.5** | **CYMHARIAETH RHWNG Y MATHAU O DDARPARIAETH** | **144** |
| **7.6** | **Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA** | **146** |
| **8.** | **YMADAWYR CYNNAR** | **148** |
| **8.1** | **BRASOLWG O YMADAWYR CYNNAR MEWN ADDYSG BELLACH** | **148** |
| **8.1.1** | Newidynnau demograffig | **148** |
| **8.1.2** | Newidynnau yn ymwneud â'r rhaglen | **148** |
| **8.1.3** | Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu | **149** |
| **8.2** | **PROFIADAU A DISGWYLIADAU YMADAWYR CYNNAR** | **149** |
| **8.2.1** | Eu hamcanion cyn y cwrs | **149** |
| **8.2.2** | Y patrymau ceisio cyngor | **152** |
| **8.2.3** | Problemau a wynebwyd yn ystod y cyrsiau | **153** |
| **8.2.4** | Ansawdd yr addysgu | **153** |
| **8.2.5** | Sgorau ar gyfer Cyfleusterau'r Darparwyr (AB) | **157** |
| **8.3** | **LLWYDDIANT I ENNILL CYMWYSTERAU/MODIWLAU** | **158** |
| **8.4** | **BETH MAEN NHW'N EI WNEUD YN AWR** | **159** |
| **8.5** | **Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA** | **161** |
| **9.** | **BWRIADAU YN Y DYFODOL** | **162** |
| **9.1** | **BRASOLWG** | **162** |
| **9.2** | **ADDYSG BELLACH** | **164** |
| **9.3** | **DYSGU YN Y GWAITH** | **164** |
| **9.4** | **ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU** | **165** |
| **10.** | **ATODIAD TECHNEGOL** | **166** |
| **10.1** | **CYNLLUN Y SAMPL** | **166** |
| **10.1.1** | Cynnwys y sampl | **166** |
| **10.1.2** | Y sampl o AB ac ABO wedi'i Hachredu | **166** |
| **10.1.3** | Y sampl Dysgu yn y Gwaith | **167** |
| **10.2** | **STRWYTHUR Y SAMPL** | **167** |
| **10.3** | **Y GWAITH MAES A'R CYFRADDAU YMATEB** | **167** |
| **10.4** | **CYNLLUN YR HOLIADUR** | **169** |
| **10.5** | **RHEOLI'R CYFWELIADAU FFÔN** | **169** |
| **10.6** | **DADANSODDI'R DATA** | **171** |
| **10.6.1** | Pwysoli'r Data | **171** |
| **10.6.2** | Dadansoddi'r data | **172** |
| **10.7** | Dadansoddiad Atchweliad | **173** |
| **11.** | **RHESTR TERMAU** | **177** |
| **12.** | **ATODIADAU** | **178** |
| **12.1** | **ATODIAD A – STRATEGAETH YMCHWILIO'R CWSMER** | **178** |
| **12.2** | **ATODIAD B – DOSBARTHU PYNCIAU** | **180** |
| **12.3** | **ATODIAD C – LLYTHYRAU** | **181** |
| **12.4** | **ATODIAD D – HOLIADUR** | **185** |





# 1. CYFLWYNIAD

Mae gan ELWa gyfrifoldeb am gynllunio, cyllido a hyrwyddo'r ddarpariaeth ddysgu ôl-16 yng Nghymru ac eithrio Addysg Uwch. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni Addysg Bellach (AB), Addysg Barhaus Oedolion (ABO), Chweched Dosbarthiadau Ysgolion a Dysgu yn y Gwaith (DyG).

Elfen allweddol er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau i'r dysgwyr yw bod ELWa yn deall anghenion a phrofiadau'r dysgwyr ac yn defnyddio'r wybodaeth yma i wella amrediad ac ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael yn wastadol.

Felly mae ELWa wedi comisiynu arolwg o foddhad dysgwyr ôl-16 gyda'u profiadau dysgu. Mae'r arolwg yn nodi beth yw barn y dysgwyr ac yn disgrifio'r profiad dysgu o'u safbwynt hwy. Bydd yr wybodaeth y mae'n ei darparu wedi'i defnyddio i helpu ELWa a budd-ddeiliaid eraill i wella ansawdd addysg a hyfforddiant i bobl ifainc ac oedolion 16+ oed.

Mae cwsmeriaid ELWa yn cynnwys y dysgwyr cyfredol i gyd a holl ddysgwyr posib y dyfodol – mae hyn yn cynnwys pob unigolyn, busnes a chymuned drwy Gymru gyfan. Mae'r gwaith ymchwil yma'n rhan o Strategaeth ELWa i Ymchwilio'r Cwsmer sy'n rhan o ymdrech gyffredinol ELWa i:

- Annog polisïau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth a gwaith cynllunio sydd wedi'i arwain gan y galw
- Dwyn y "cwsmer" i ganol y llwyfan

Mae'r Strategaeth yn amlinellu tri phrif linyn o weithgaredd:

- Deall beth sy'n cymell cwsmeriaid i ddysgu er mwyn ehangu a dyfnhau'r gyfranogaeth mewn dysgu
- Deall beth yw barn cwsmeriaid am y gwasanaethau addysg a dysgu a dderbyniant
- Olrhain a deall y gyfranogaeth ymysg y grwpiau cwsmeriaid (unigolion, busnesau a chymunedau)

## 1.1 AMCANION

Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr yng Nghymru yn ymdrin â'r ail o'r llinynnau yma a'i brif amcanion yw:

- Mesur boddhad y dysgwyr mewn darpariaeth a ariennir gan ELWa ledled Cymru;
- Sefydlu meincnodau sydd, o'u holrhain dros amser, yn dangos beth yw'r tueddiadau ym moddhad y dysgwyr, ac;
- Amlygu'r blaenoriaethau ar gyfer eu gweithredu

**Tabl 1.1: Gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Strategaeth Ymchwilio'r Cwsmer**

| Ymarfer Ymchwilio | Amcanion |
|---|---|
| Arolwg Cartrefi o 2000 o unigolion<br>Creu panel fydd wedi'u cyfweld yn flynyddol | Deall ffactorau sy'n arwain at gyfranogaeth mewn dysgu gan edrych yn arbennig ar ddiffyg cyfranogaeth a phobl mewn ardaloedd difreintiedig |
| Astudiaethau Achos Cyflogwyr | Ffocws y gwaith ymchwil yma h.y. sut i gael mwy o gyflogwyr i gymryd rhan mewn dysgu a chynnig dysgu yn ehangach drwy'r gweithlu i gyd |
| Arolwg Ffôn o 2000 o gyflogwyr | Creu panel fydd wedi'u cyfweld bob chwe mis<br>Deall swyddogaeth dysgu mewn busnesau a sut y mae angen addasu'r ddarpariaeth i gyfateb ag anghenion busnesau |

Fe welwch pa waith arall sydd wedi'i wneud neu sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y chwe mis nesaf dan Strategaeth Ymchwilio'r Cwsmer yn Atodiad D.

## 1.2 YMDRINIAETH YR AROLWG – MATHAU O DDARPARIAETH

Lluniwyd y darn hwn o'r arolwg i ymdrin â'r dysgwyr yma:

- Rheini yn y sector Addysg Bellach (AB)
- Rheini sy'n gwneud rhaglenni Dysgu yn y Gwaith (DyG)
- Rheini sy'n gwneud Addysg Barhaus Oedolion wedi'i Hachredu (ABO)

Rydym yn bwriadu ymdrin â dysgwyr nad ydynt mewn Addysg Barhaus Oedolion wedi'i Hachredu mewn rhannau o'r arolwg yma yn y dyfodol, ond mae angen gwneud rhywfaint o waith paratoi i ganfod y fethodoleg fwyaf addas ar gyfer samplo'r sector yma.

Ar ben hynny, nid oeddem yn ystyried bod y fethodoleg ar gyfer y rhan yma o'r arolwg yn briodol ar gyfer darpariaeth Chweched Dosbarthiadau Ysgolion. Felly, gwnaethpwyd darn o waith ar wahân y gellir ei gymharu â hwn oedd yn cynnwys grwpiau ffocws mewn wyth o ysgolion a holiadur i'w gwblhau gan y dysgwyr eu hunain gydag oddeutu 5,000 o ddisgyblion Blwyddyn 12 ac 13 yn cymryd rhan drwy Gymru. Gallwch weld canlyniadau'r arolwg yma hefyd ar wefan ELWa: www.elwa.org.uk





## 1.3 YMDRINIAETH YR AROLWG – MEYSYDD Y CWESTIYNAU

Dyma'r prif dopigau sydd wedi derbyn sylw gan yr Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr yng Nghymru:

- Ffactorau sy'n effeithio ar y pwnc/dysgu a ddewisir
- Boddhad gyda'r dysgu
- Boddhad gyda'r adnoddau
- Boddhad gyda hygyrchedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu a'r rhesymau am hynny
- Rhesymau am adael cyn diwedd y cwrs

Mae copïau o'r holiaduron i'w gweld yn yr Atodiad.

## 1.4 METHODOLEG A SAMPLO

Gwnaethpwyd yr arolwg yma drwy gyfweliad ffôn, oedd yn para am 20 munud ar gyfartaledd. Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2003.

Yn rhan o'r astudiaeth cynigiwyd opsiwn o dderbyn cyfweliad wyneb-yn-wyneb i'r bobl hynny fyddai'n cael cyfweliad ffôn yn anodd e.e. oherwydd anawsterau iaith neu anawsterau cyfathrebu eraill (cynhaliwyd 15 o gyfweliadau o'r fath).

Hefyd, roedd opsiwn i'r ymatebwyr gynnal eu cyfweliad ffôn yn y Gymraeg – gofynnwyd iddynt ar ddechrau'r cyfweliad a fyddai'n well ganddynt gael cyfweliad Cymraeg. Cysylltwyd eto â'r bobl hynny oedd eisiau cyfweliad Cymraeg gan gyfwelydd oedd yn siarad Cymraeg (cafwyd 7 cyfweliad Cymraeg).

### 1.4.1 Samplo

**Y sampl AB ac ABO wedi'i hachredu**

Tynnwyd y sampl o ddysgwyr yn y sector AB a'r rheini mewn Addysg Barhaus Oedolion o'r Cofnod Myfyrwyr Unigol (CMU [ISR]) ym mis Ebrill 2003. Nid yw'r CMU yn cynnwys enwau neu fanylion cyswllt y dysgwyr ac felly, roedd yr ymarfer samplo yn dibynnu ar gydweithrediad y colegau i ddarparu'r data yma. Roedd y colegau'n darparu enwau a chyfeiriadau ar gyfer rhifau cyfeirnod y myfyrwyr a samplwyd ar hap yn eu coleg hwy. Penderfynodd y mwyafrif o'r colegau gymryd rhan. Dyma'r niferoedd ar gyfer bob rhanbarth:

**Tabl 1.2: Nifer y colegau gymerodd ran**

| Rhanbarth | Nifer y colegau gymerodd ran |
|---|---|
| De Ddwyrain | 6 |
| De Orllewin | 4 |
| Gogledd | 3 |
| Canolbarth Cymru | 1 |

Wrth samplo myfyrwyr, cafwyd gor-samplo ymysg dysgwyr 16-18 oed, dysgwyr yng Nghanolbarth Cymru a mathau penodol o gyrsiau hefyd (gyda'r nod o sicrhau bod digon o gyfweliadau ymhob grŵp er mwyn gallu dadansoddi'r rhain ar wahân). Cywirwyd unrhyw gor-samplo wrth ddadansoddi drwy bwysoli'r cyfweliadau yn ôl i'w cyfraneddau cynrychiadol.

Er bod dysgwyr ABO wedi'u samplo drwy'r Colegau AB, roedd eu dysgu wedi'i ddarparu mewn rhai achosion gan ddarparwyr dysgu oedolion ac i'r darparwyr yma y gofynnwyd iddynt roi sgôr wrth ateb yr holiadur. Mae'r mwyafrif mawr (98%) o'r dysgwyr ABO wedi'u hachredu yn y rhanbarthau De Ddwyreiniol a De Orllewinol, ac mae'r sampl yn adlewyrchu hynny.

Yna, anfonwyd llythyr at y dysgwyr yn amlinellu'r arolwg ac yn rhoi'r cyfle iddynt ddewis peidio â chymryd rhan drwy ffonio rhif rhadffon. Mae copi o'r llythyr yma yn yr atodiad.

Mae manylion llawn y broses samplo yn yr Atodiad Technegol, ynghyd â manylion y sampl a gynhyrchwyd gan y broses hon.

### Y sampl Dysgu yn y Gwaith

Cymerwyd y sampl Dysgu yn y Gwaith o'r Gronfa Ddata Hyfforddiant Cenedlaethol (NTD) ac roedd manylion personol i'w cael ar hon. Tynnwyd hapsampl o 4,000 o enwau o'r gronfa ddata gyda detholydd hap ar gyfrifiadur. Gor-samplwyd y dysgwyr yng Nghanolbarth Cymru a chafodd hyn ei gywiro drwy bwysoli'r canlyniadau ar y cam dadansoddi.

Nid oedd rhaid anfon llythyrau at y dysgwyr yma i roi cyfle iddynt ddewis peidio â chymryd rhan. Y rheswm am hyn oedd bod y dysgwyr DyG i gyd wedi arwyddo datganiad i nodi a oeddent yn awyddus neu beidio i weld eu henwau'n mynd at drydydd parti i bwrpasau ymchwilio. Fodd bynnag, anfonwyd llythyr atynt o ran cwrteisi i esbonio'r arolwg ac i adael i bobl ddewis peidio â chymryd rhan os oeddent yn dymuno hynny.

## 1.5 STRWYTHUR Y SAMPL

Cynhaliwyd y cyfweliadau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst 2003. Cwblhawyd y cyfweliadau cyn cyhoeddi canlyniadau'r arholiadau. Dyma'r nifer o gyfweliadau a gynhaliwyd:

**Tabl 1.3: Nifer y cyfweliadau ar gyfer pob math o ddarpariaeth**

| Math o ddarpariaeth | Nifer y cyfweliadau |
|---|---|
| Addysg Bellach | 4,707 |
| Dysgu yn y Gwaith | 1,000 |
| Addysg Barhaus Oedolion wedi'i Hachredu | 508 |

## 1.6 LLUNIO ADRODDIAD

Mae maint sylweddol y sampl a ddefnyddiwyd a dibynnedd yr wybodaeth a gafwyd yn yr arolwg yn rhoi'r cyfle i ni ddadansoddi'r canlyniadau, yn arbennig ar gyfer y sector Addysg Bellach, mewn mwy o fanylder a gyda mwy o hyder, nag sydd wedi bod yn bosib hyd yn hyn. Ond, er bod modd dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer y sector Addysg Bellach yn ôl rhanbarthau ELWa, dylid pwysleisio y byddai'n amhriodol i ni ddadelfennu'r canlyniadau ar lefel is.

- Bwriad yr adroddiad yma yw amlygu canfyddiadau mwyaf arwyddocaol yr Arolwg Cenedlaethol y Dysgwr yng Nghymru

Rydym wedi cyflwyno pob adran o'r adroddiad yma yn y fformat yma:

- Brasolwg o'r dysgwyr i gyd
- Y canfyddiadau ar gyfer pob math o ddarpariaeth
- Cymhariaeth yn ôl y math o ddarpariaeth
- Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Mae pawb sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn awyddus bod y data a gasglwyd wedi'i ddefnyddio'n llawn. I barchu hynny, bydd y data ar gael ar wefan ELWa: http://www.elwa.org.uk





## 1.7 CANLLAWIAU AR DDEHONGLI'R DATA

Am fod y samplau o ddysgwyr Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith wedi'u pwysoli ar y cam dadansoddi i sicrhau eu bod yn gynrychiadol o ddysgwyr ym mhob un o'r mathau darpariaeth, mae'r tablau yn yr adroddiad yma'n dangos gwybodaeth ar sail heb ei bwysoli ac ar sail wedi'i bwysoli hefyd. Y sail heb ei bwysoli yw'r nifer o gyfweliadau a gynhaliwyd gyda'r grŵp perthnasol. Felly, y tablau ar sail data heb ei bwysoli yw'r sail y byddech yn ei ddefnyddio pe baech yn dweud 'mae'r ffigur yma wedi'i seilio ar gyfweliadau gydag 'x' o bobl'. Y sail wedi'i bwysoli yw'r nifer y mae'r grŵp yma yn ei gynrychioli ar ôl i'r data gael ei bwysoli i gyfateb â phroffil y boblogaeth dysgwyr a gallwch ddefnyddio hwn, er enghraifft, os ydych eisiau dweud bod x grŵp o ddysgwyr yn gwneud x% o'r boblogaeth. Gydag Addysg Barhaus Oedolion wedi'i Hachredu ni wnaethpwyd rhyw bwysoli felly dim ond data ar sail heb ei bwysoli sydd wedi'i ddangos.

Mae cywirdeb y brasamcanion sydd wedi'u seilio ar y data yn yr arolwg yn dibynnu ar ddau beth: yn gyntaf maint y sampl; yn ail, y canlyniad a geir yn yr arolwg. Er enghraifft, ar sail o 1,000 o gyfweliadau ymysg dysgwyr DyG, mae gan y canlyniad o 50% lwfans gwallau o +/- 3.1%. Felly, os bydd 50% o'r myfyrwyr DyG yn yr arolwg yn dweud eu bod yn fodlon gydag ansawdd gyffredinol y dysgu maent wedi'i dderbyn, mae'r ffigur cywir ar gyfer myfyrwyr DyG yn gyffredinol (h.y. y boblogaeth dysgwyr DyG) rhwng 46.9% a 53.1%. Mae'r lwfans gwallau'n uwch ynghanol y raddfa (h.y. ar gyfer canlyniadau oddeutu'r nod 50%) ac yn is ar frig ac ar waelod y raddfa. Mae gan ganfyddiad o 10% (neu ganfyddiad o 90%) lwfans gwallau o +/- 1.9%. Felly os bydd 90% o ddysgwyr DyG yn dweud eu bod yn fodlon gydag ansawdd gyffredinol y dysgu a dderbyniant (neu fod 10% yn anfodlon), mae'r gwir ganfyddiad yn y boblogaeth rhwng 88.1% and 91.9% (neu rhwng 8.1% a 11.9% yn anfodlon).

Nid yw'n syniad i ddadansoddi unrhyw is-grŵp sy'n llai na 100 o ddysgwyr. Y rheswm am hyn yw bod y lwfans gwallau ar sampl sy'n cynnwys llai na 100 yn +/- 10% neu'n fwy, sydd, yn gyffredinol, yn rhy uchel i'w ddefnyddio fel brasamcan dibynadwy ar gyfer dysgwyr yn yr is-grŵp hwnnw.

Wrth gymharu canlyniadau mewn gwahanol is-grwpiau, e.e. ar gyfer myfyrwyr gydag anableddau a dysgwyr heb anableddau, fel rheol gyffredinol, wedi'i seilio ar samplau o 100 neu fwy, mae gwahaniaeth o 12% (neu fwy) rhwng dau grŵp yn ystadegol arwyddocaol bob amser. Felly, os ceir canlyniad o 50% ymysg myfyrwyr gydag anableddau a chanlyniad o 62% ymysg myfyrwyr heb anableddau, mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn wahaniaeth go iawn yn y boblogaeth, ac ni ellir dweud mai canlyniad lwfans gwallau'r arolwg yn unig ydyw. Wrth i faint y sampl fynd yn fwy, mae'r gwahaniaeth sydd ei angen i ddangos gwir wahaniaeth rhwng gwahanol grwpiau yn y boblogaeth gyfan yn mynd yn llai.

Efallai nad yw rhai ffigurau yn y siartiau a thablau'n cyrraedd 100% wrth eu hadio at ei gilydd. Y rheswm am hyn yw bod y ffigurau wedi'u talgrynnu. Os byddwch yn gweld bod atebion yn adio i roi mwy na 100% am fod yr holiadur wedi caniatáu mwy nag un ateb, mae nodyn i esbonio hynny.

Defnyddiwyd y symbolau yma yn y tablau:

| | |
|---|---|
| * | i ddynodi canrannau llai na 0.5 y cant ond yn fwy na sero |
| - | i ddynodi sero y cant |

# 2. BODDHAD CYFFREDINOL

**Mae'r adran yma'n ymdrin â:**

- Boddhad cyffredinol y dysgwyr gyda'u profiad dysgu
- Yr hyn yr oeddent wedi gobeithio ei sicrhau drwy wneud y cwrs ac i ba raddau yr oeddent wedi cyrraedd eu hamcanion
- I ddysgwyr DyG yn unig, pa mor berthnasol yw eu hyfforddiant i'w swydd gyfredol
- Dadansoddiad o'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar foddhad cyffredinol

## 2.1 BRASOLWG

### 2.1.1 Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu

Mae boddhad yn uchel, gyda 70% o'r dysgwyr yn eu disgrifio eu hunain yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn, a mwy na 90% yn mynegi rhywfaint o foddhad. Mae'r ffigur olaf yma mor uchel fel y gellid dadlau mai ychydig o le sydd yna i wella. Fodd bynnag, gellid dadlau hefyd bod y dysgwyr hynny sy'n 'weddol fodlon' yn unig yn is na'r rhai sy'n hollol fodlon ac yn perthyn i'r grŵp y gellid gwella eu profiad. Felly, mae'r grŵp yma'n cynnwys 30% o'r dysgwyr.

**Tabl 2.1: Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| | % |
| Eithriadol fodlon | 27 |
| Bodlon iawn | 43 |
| Gweddol fodlon | 22 |
| Heb fod yn un na'r llall | 2 |
| Gweddol anfodlon | 3 |
| Anfodlon iawn | 1 |
| Eithriadol anfodlon | 1 |
| | |
| Cyfanswm eithriadol fodlon/bodlon iawn | 70 |
| Cyfanswm Bodlon | 92 |
| Cyfanswm Anfodlon | 5 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'



## 2.1.2 Cyrraedd yr amcanion

Yn anochel, mae boddhad yn fesuriad gweddol oddrychol. Bydd wedi'i ddylanwadu, i ryw raddau, gan anianawd y dysgwr (h.y. eu cymeriadau a'r ffordd maen nhw'n edrych ar bethau) a gan eu disgwyliadau. Er mwyn archwilio sut mae eu dysgu'n cyfateb â'u disgwyliadau, gofynnwyd i'r dysgwyr beth roedden nhw wedi gobeithio ei sicrhau drwy wneud y cwrs a faint mae'r cwrs wedi eu helpu nhw i gyrraedd yr amcanion yma. Yn gyffredinol, roedd amcanion y dysgwyr yn ymwneud â hunanddatblygiad neu welliant ond roedd cyfran sylweddol (ychydig dan 75%) yn ystyried dilyniant addysgiadol neu yrfaol.

**Tabl 2.2: Amcanion y dysgwyr wrth wneud eu cyrsiau**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| | % |
| Gwella eu gwybodaeth am y pwnc | 95 |
| Dysgu sgiliau newydd | 93 |
| Cynyddu eu datblygiad personol | 92 |
| Cyfarfod pobl newydd | 83 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd | 76 |
| Mynd ymlaen i gyrsiau eraill/datblygu eu haddysg | 74 |
| Cael mwy o foddhad o'u gwaith | 74 |
| Y gallu i symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol | 73 |
| Cael swydd wahanol/swydd well | 63 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd yr oedden nhw'n ei gwneud ar y pryd | 53 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Mae'r mwyafrif mawr o'r dysgwyr yn teimlo bod y cwrs/hyfforddiant wedi'u helpu nhw'n fawr i gyrraedd eu hamcanion. Mae Tabl 12 yn dangos y canrannau sy'n teimlo bod eu dysgu wedi'u helpu nhw'n fawr ac wedi'u helpu nhw ychydig i gyrraedd pob amcan. O edrych arno'n arwynebol yn unig, mae'n ymddangos bod dysgwyr sydd ag amcanion yn ymwneud â datblygiad yn rhoi sgôr is i effeithioldeb eu dysgu na'r rheini gydag amcanion eraill. Ond, os nad oedd y cyrsiau wedi helpu'r dysgwyr i gyrraedd eu hamcanion, y rheswm am hynny fel arfer oedd bod y cwrs yn barhaus (ac felly ni ellid gwneud asesiad go iawn) neu bod y dysgwr wedi ymadael â'r cwrs cyn ei gwblhau.

**Tabl 2.3: I ba raddau mae'r cwrs wedi helpu'r dysgwr i gyrraedd ei h/amcanion?**

| Sail: Pob dysgwr | Cyfanswm | |
|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 | |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 | |
| | % wedi helpu'n fawr | % wedi helpu rhywfaint |
| Gwella eu gwybodaeth am y pwnc | 86 | 16 |
| Dysgu sgiliau newydd | 76 | 20 |
| Cynyddu eu datblygiad personol | 66 | 25 |
| Cyfarfod pobl newydd | 69 | 25 |
| Mynd ymlaen i gyrsiau eraill/datblygu eu haddysg | 54 | 24 |
| Y gallu i symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol | 60 | 26 |
| Cael mwy o foddhad o'u gwaith | 65 | 25 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd | 69 | 23 |
| Cael swydd wahanol/swydd well | 51 | 19 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd yr oedden nhw'n ei gwneud ar y pryd | 61 | 27 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos nifer y bobl a atebodd 'ni fu o help o gwbl';' Nid ydym wedi dangos yr ateb 'Ni wn'


Mae gweddill yr adran yma'n edrych ar y materion yma'n fanylach ymhob un o'r mathau darpariaeth.

## 2.2 ADDYSG BELLACH

### 2.2.1 Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu

Mae mwy na chwarter y dysgwyr AB (27%) yn eithriadol fodlon gyda'u profiad dysgu cyffredinol ac mae 43% yn fodlon iawn. Mae hyn yn golygu bod 70% o'r ymatebwyr mewn AB wedi rhoi sgôr o fewn y ddau fand uchaf, tra bo 92% o ddysgwyr AB yn mynegi rhywfaint o foddhad. Dim ond 5% o'r ymatebwyr fynegodd anfodlonrwydd, felly mae'r canlyniadau cyffredinol yn gadarnhaol iawn.

**Siart 2.1: Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu (AB)**




Sail: Y Dysgwyr AB i gyd (4707)

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'ni wn' na 'heb fod yn un na'r llall'

Mae boddhad yn amrywio yn ôl y rhywiau gyda'r dynion yn y band oedran 16-18 ychydig yn llai tebygol na'r merched yn yr un band oedran o fod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u profiad dysgu cyffredinol (64% o'i gymharu â 70% yn y drefn honno).

Mae'n ddiddorol hefyd bod barn y dysgwyr hŷn wedi'u polaru ychydig bach yn fwy na barn y dysgwyr iau, gyda chyfrannau uwch yn dweud eu bod yn eithriadol fodlon ond gyda chyfrannau uwch hefyd yn mynegi anfodlonrwydd.





**Tabl 2.4:Y boddhad cyffredinol yn ôl oedran o fewn y rhywiau (AB)**

| | Oedran o fewn y rhywiau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail:Y dysgwyr AB i gyd | Gwryw 16-18 | Gwryw 19-24 | Gwryw 25+ | Benyw 16-18 | Benyw 19-24 | Benyw 25+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 700 | 326 | 733 | 687 | 378 | 1883 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 598 | 320 | 1087 | 555 | 339 | 1807 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Eithriadol fodlon | 23 | 20 | 27 | 29 | 22 | 30 |
| Bodlon iawn | 41 | 43 | 45 | 40 | 40 | 44 |
| Gweddol fodlon | 30 | 30 | 19 | 24 | 30 | 18 |
| Heb fod yn un na'r llall | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | 2 |
| Gweddol anfodlon | 2 | 2 | 4 | 1 | 3 | 4 |
| Anfodlon iawn | * | * | 1 | 1 | 2 | 1 |
| Eithriadol anfodlon | 1 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| | | | | | | |
| Cyfanswm eithriadol fodlon/bodlon iawn | 64 | 62 | 72 | 70 | 62 | 73 |
| Total satisfied | 94 | 92 | 91 | 94 | 92 | 92 |
| Total dissatisfied | 3 | 4 | 7 | 3 | 6 | 6 |

NNodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Dim ond ym maes AB y dadansoddwyd y data yn ôl grŵp ethnig. Er bod y samplau ar gyfer pob math o ddarpariaeth yn gynrychiadol o ethnigrwydd, mae'r gyfran o bobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn isel (2%). Felly, hyd yn oed o fewn y maes AB, mae'r potensial ar gyfer dadansoddiad wedi'i gyfyngu gan y nifer o ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig (98). Yn gyffredinol, mae'r lefelau boddhad gyda'r profiad dysgu yn gyffredinol yn debyg os cymharwn y ddau grŵp, ond mae amrywiadau i'w cael mewn perthynas â'r gyfradd o foddhad. Er enghraifft, mae dysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o ddweud eu bod yn 'eithriadol fodlon' gyda'r profiad dysgu cyffredinol (58% o'i gymharu â 70% o ddysgwyr gwyn).

Mae newidynnau cyrsiol yn dylanwadu ar lefelau cyffredinol y boddhad gyda'r profiad dysgu hefyd. Y grwpiau sy'n fwyaf tebygol o ddatgan eu bod yn 'eithriadol fodlon' neu'n 'fodlon iawn' yw:

- Rheini sy'n astudio cyrsiau 'Lletygarwch/arlwyo' (77%), 'Hamdden/teithio/twristiaeth' (80%) ac 'Ieithoedd' (77%)
- Rheini sy'n byw yng Ngogledd Cymru (76%)

Mae'r grwpiau lleiaf bodlon yn cynnwys:


- Rheini sydd heb feddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau (46%)
- Rheini sy'n gwneud cyrsiau a ddarperir mewn ysgrifen (61% o'i gymharu â 71%+ ar gyfer yr ymatebwyr eraill)

Er bod lleiafswm o ddysgwyr AB wedi mynegi anfodlonrwydd, mae'n ddefnyddiol ystyried y rhesymau am hyn. Mae anfodlonrwydd yn gyffredinol yn ymwneud â'r ffaith nad yw'r profiad dysgu cyffredinol yn cyfateb â'r hyn mae'r dysgwyr wedi'i ddisgwyl (mae hyn yn derbyn mwy o sylw yn yr adrannau nesaf) a safonau dysgu gwael. Mae'r rhesymau eraill am yr anfodlonrwydd yn cynnwys:

- 'Ni chefais y cymorth yr oeddwn ei angen'
- 'Prinder staff/ newidiadau yn y staff'
- 'Heb ei redeg/ei drefnu'n dda'
- 'Nid yw'r tiwtoriaid yn gefnogol/nid yw eu hagwedd yn dda'
- 'Nid yw'r cyfathrebiad yn dda'
- 'Diflas/ailadroddus'
- 'Pwysau amser/llwyth gwaith'

**Siart 2.2 Y rhesymau am yr anfodlonrwydd**

Sail: Pob dysgwr AB sy'n llai na bodlon iawn (1422)




Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'

Dyma esiamplau o sylwadau nodweddiadol:

"Dydw i ddim wedi mwynhau'r cwrs. Dim ond un o'r modiwlau oedd yn ddiddorol i mi. Roedd y lleill i gyd wedi'u hailadrodd. Weithiau doedd yr athro ddim yno pan oeddwn i angen cymorth."

"Roedd y tiwtor yn newid pethau o gwmpas yn aml. Cludiant - weithiau nid yw bysus y coleg yno ar yr amser cywir, maen nhw naill ai'n gynnar neu'n hwyr ac mae hynny'n effeithio ar ein dysgu. Ddwy neu dair o weithiau maen nhw wedi canslo ein gwersi am eu bod mewn cyfarfodydd staff. Yn fy marn i, ddylen nhw ddim cynnal cyfarfodydd yn ystod ein gwersi ni."

"Roedd y tiwtor yn neis iawn ond pan oeddem yn gofyn cwestiwn iddi neu'n cwestiynu rhywbeth, byddai'n dweud 'Dwn i ddim' ac 'Mi chwilia i am yr ateb i ti'. Yn gyffredinol, rydw i wedi mwynhau'r cwrs ond byddai mwy o esboniadau wedi bod yn well."

### 2.2.2 I ba raddau y cyrhaeddwyd yr amcanion oedd gan yr ymatebwyr cyn y cwrs

Mae oedran yn dylanwadu ar ddisgwyliadau pobl mewn perthynas â'u datblygiad gyrfaol tymor hir. Felly, mae'r gyfran o'r dysgwyr sy'n nodi pob un o'r amcanion nesaf yma yn gostwng wrth i oedran y dysgwr gynyddu:

- 'Cael swydd wahanol/swydd well'
- 'Y gallu i ddatblygu fy ngyrfa yn gyffredinol'
- 'I fynd ymlaen i gyrsiau eraill neu wella fy addysg'

Yn nodedig (ac yn annisgwyl) mae'r rheini yn y grwpiau oedran ieuengaf (16-18) a hynaf (55+) yn fwy tebygol na dysgwyr eraill o nodi 'Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda fy amser rhydd' fel amcan oedd ganddynt cyn y cwrs.





Unwaith eto, wrth ystyried yr amcanion cyn y cwrs a nodwyd amlaf i ddechrau, ychydig iawn o amrywiad sydd yna yn ôl y pwnc. Ond mae Siart 16 yn dangos pynciau astudio'r bobl hynny sy'n fwyaf tebygol o fod wedi nodi eu disgwyliadau fel 'Cael swydd wahanol/swydd well' a/neu 'I fynd ymlaen i gyrsiau eraill neu wella fy addysg' (mwy nag 80% o ddysgwyr ymhob achos):

**Diagram 2.1:Y pynciau astudio yn ôl y rheswm am astudio(AB)**



**Tabl 2.5: Amcanion y dysgwyr wrth wneud eu cyrsiau yn ôl eu hoedran (AB)**

| | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr AB i gyd | Cyfanswm | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1387 | 704 | 555 | 1328 | 733 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1153 | 659 | 786 | 1555 | 554 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Cael swydd wahanol/swydd well | 65 | 86 | 82 | 73 | 55 | 16 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roedd yn ei gwneud ar y pryd | 53 | 48 | 62 | 61 | 57 | 29 |
| Y gallu i ddatblygu drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol | 75 | 88 | 91 | 85 | 69 | 30 |
| Cael mwy o foddhad o'u gwaith | 75 | 86 | 85 | 78 | 71 | 50 |
| Mynd ymlaen i gyrsiau eraill neu wella eu haddysg | 76 | 88 | 82 | 81 | 70 | 52 |
| Gwella eu gwybodaeth am y pwnc | 95 | 96 | 95 | 95 | 95 | 94 |
| Dysgu sgiliau newydd | 94 | 98 | 96 | 95 | 89 | 91 |
| Cynyddu eu datblygiad personol | 92 | 93 | 93 | 96 | 90 | 91 |
| Cyfarfod pobl newydd | 83 | 94 | 88 | 75 | 77 | 80 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd | 75 | 81 | 75 | 68 | 71 | 84 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr AB yn teimlo bod eu cwrs wedi'u helpu nhw'n fawr i gyrraedd eu hamcanion cyn y cwrs (Tabl 18). Mae hyn yn arbennig o wir am yr amcanion nesaf yma:

- 'Gwella eu gwybodaeth am y pwnc' (81%)
- 'Dysgu sgiliau newydd' (73%)
- 'Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd' (69%)
- 'Cyfarfod pobl newydd' (68%)



**Tabl 2.6: I ba raddau bu'r cwrs yn help i gyrraedd amcanion (AB)?**

| Sail: Y dysgwyr AB i gyd | I ba raddau y bu'r cwrs yn help i gyrraedd amcanion | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Sail (Heb ei bwysoli) | Sail (wedi'i bwysoli) | Wedi helpu'n fawr | Wedi helpu ychydig | Heb helpu o gwbl |
| | | | % | % | % |
| Cael swydd wahanol/swydd well | 717 | 718 | 49 | 20 | 25 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddent yn ei gwneud ar y pryd | 577 | 627 | 59 | 28 | 9 |
| Y gallu i symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol | 803 | 775 | 58 | 27 | 13 |
| Cael mwy o foddhad o'u gwaith | 821 | 795 | 63 | 27 | 8 |
| I fynd ymlaen i gyrsiau eraill neu wella eu haddysg | 833 | 860 | 55 | 25 | 14 |
| Gwella eu gwybodaeth am y pwnc | 1159 | 1145 | 81 | 16 | 2 |
| Dysgu sgiliau newydd | 1144 | 1121 | 73 | 21 | 5 |
| Cynyddu eu datblygiad personol | 1107 | 1110 | 63 | 27 | 9 |
| Cyfarfod pobl newydd | 1104 | 1081 | 68 | 26 | 4 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd | 970 | 1005 | 69 | 23 | 7 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Nid yw dadansoddiad demograffig o'r dysgwyr hynny sy'n dweud bod eu cwrs wedi'u helpu i gyrraedd eu hamcanion wedi datgelu llawer o amrywiaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn nhermau'r rhywiau, mae dynion ychydig bach yn fwy tebygol na merched o ddweud bod eu cyrsiau wedi eu helpu'n fawr yn nhermau:

- Eu gallu i ddatblygu eu gyrfaoedd yn gyffredinol (61% o'i gymharu â 56%)
- Cael mwy o foddhad o'u gwaith (67% o'i gymharu â 59%)
- Darparu rhywbeth defnyddiol i'w wneud â'u hamser rhydd (72% o'i gymharu â 66%)
- Gwella eu datblygiad personol (32% o'i gymharu â 24%)

Yn nhermau oedran, unwaith eto, ceir ychydig o amrywiaeth, ond mae hi werth nodi'r canlynol:

- Mae'r rheini yn y grwpiau oedran 16-18 a 55+ yn llawer mwy tebygol na dysgwyr AB eraill o deimlo bod eu cyrsiau wedi'u helpu nhw'n fawr yn nhermau gwella eu datblygiad personol (70% a 69% yn y drefn honno)
- Mae'r rheini yn y grwpiau oedran iau (34 mlwydd oed ac yn iau) yn fwy tebygol na dysgwyr hŷn o deimlo bod eu cyrsiau wedi'u helpu nhw'n fawr yn nhermau cyfarfod pobl newydd (82%)

Wrth ddadansoddi'r data yn ôl y gwahanol newidynnau cyrsiol, mae'r themâu yma'n dod i'r amlwg:

- Yn anochel efallai, mae'r rheini sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau yn llai tebygol na dysgwyr AB eraill o ddweud bod eu cyrsiau wedi'u helpu nhw'n fawr yn nhermau ateb eu hamcanion
- Yn gyffredinol, po hiraf yw'r cwrs, y mwyaf tebygol yw'r ymatebwyr o deimlo bod eu profiadau dysgu wedi'u helpu nhw'n fawr i gyrraedd eu disgwyliadau, ac eithrio:
  - 'Y gallu i ddatblygu drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol'
  - 'Mynd ymlaen i gyrsiau eraill/datblygu eu haddysg'
  - 'Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd'
- Mae'r lle i ddadansoddi'r data yn ôl y pwnc yn gyfyngedig o ystyried maint y seiliau. Fodd bynnag, lle mae cymhariaeth gydag un neu fwy o bynciau yn bosib, mae myfyrwyr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn llai tebygol na dysgwyr eraill o deimlo bod eu cyrsiau wedi'u helpu nhw'n fawr mewn perthynas â:
  - 'Cael swydd newydd/well'
  - 'Dysgu sgiliau ar gyfer swydd yr oeddech yn ei gwneud ar y pryd'
  - 'Cael mwy o foddhad o'ch gwaith'
  - 'Cyfarfod pobl newydd'



Mae'r rhesymau pam nad yw cyrsiau wedi helpu dysgwyr AB i ateb eu disgwyliadau yn amrywio, ac mae'r tabl nesaf yma'n crynhoi'r negeseuon allweddol lle mae'r seiliau'n ddigon mawr i'w dadansoddi.

**Diagram 2.2:Y rhesymau pam nad yw cyrsiau wedi helpu i ateb disgwyliadau (AB)**

**Ni fu o gymorth i gael swydd wahanol oherwydd**

Yn yr un swyd do hyd (24%)

Yn hyfforddi o hyd (15%)

Heb orffen y cwrs (11%)

Nid wyf yn gweithio (11%)

**Ni fu o gymorth i fynd ar gyrsiau eraill**

Heb orffen y cwrs (22%)

Problemau gyda'r cwrs (10%)

Heb wneud cais i'r cyrsiau eraill eto (8%)

**Ni fu o gymorth i ddatblygu drwy fy ngyrfa yn gyffredinol**

Angen mwy o gyrsiau/cym.au (14%)

Yn hyfforddi o hyd (12%)

Y cwrs yn amherthnasol i'r swydd (11%)

Heb orffen y swydd (10%)


## 2.3 DYSGU YN Y GWAITH

### 2.3.1 Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu

Mae oddeutu chwarter yr ymatebwyr Dysgu yn y Gwaith yn eithriadol fodlon gyda'u profiad dysgu cyffredinol, tra bo 46% pellach yn fodlon iawn, gan roi cyfanswm o 70% o fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith sy'n fodlon iawn gyda'u profiad dysgu cyffredinol. Yn wir, mae 94% o'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yn mynegi rhyw radd o foddhad a dim ond 4% sy'n anfodlon. Unwaith eto, mae'r rhain yn ganfyddiadau cadarnhaol ac anogol iawn.

**Siart 2.3: Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu (Dysgu yn y Gwaith)**

Sail: Yr holl fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith (1000)




| Crynodeb | |
|---|---|
| Cyfanswm eithriadol/ bodlon iawn | 70% |
| Cyfanswm bodlon | 94% |
| Cyfanswm anfodlon | 4% |

Nodwch: Mae'r ffigur ar gyfer cyfanswm yr atebion eithriadol/bodlon iawn yn adio i roi 70% oherwydd talgrynnu; Nid ydym wedi dangos yr atebion 'ni wn' a 'heb fod yn un na'r llall'

Wrth ystyried boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu ar draws y grwpiau demograffig, mae rhai amrywiadau fel a ganlyn:


- Mae merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod yn eithriadol fodlon gyda'u profiad dysgu cyffredinol (27% o'i gymharu â 21% o ddynion). (Gwelwch Dabl 21)
- Merched yn y grŵp oedran 19+ sydd yn fwyaf tebygol o fod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn (73%) o'i gymharu â 68% o fechgyn

Mae'r grwpiau sy'n llai bodlon yn cynnwys:

- Rheini sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael (mae 84% yn mynegi rhyw radd o anfodlonrwydd o'i gymharu â 98% o'r dysgwyr eraill)
- Dysgwyr DyG sy'n llai na bodlon iawn gyda chefnogaeth eu cyflogwyr (54% o'i gymharu â 80+% o ddysgwyr DyG eraill)

Fel gydag AB, mae'r rhesymau am yr anfodlonrwydd yn ymwneud gan fwyaf â phrofiad dysgu sydd heb gyfateb â'r hyn yr oedd yr ymatebwyr wedi'i ddisgwyl (20% o'r ymatebion). Mae rhesymau eraill am yr anfodlonrwydd yn siart 3.6:

**Y rhesymau am yr anfodlonrwydd**




Sail: Yr holl fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith sy'n llai na bodlon iawn

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Dyma rai o sylwadau nodweddiadol y dysgwyr:

"Weithiau rwy'n teimlo bod y person yma'n rhy brysur i gymryd diddordeb ynom. Ac os bydd yn gwrando mae'n cynnig cyngor da. Ar y dechrau dywedodd y byddai rhywun yn dod i fy ngweld i a phan gychwynnais ni welais neb am 3 mis. Mae'r asesydd presennol yn dda iawn – ond nid oedd y ddau arall mor dda. Hefyd, nid wyf yn hapus â'r prawf yr oedd yn rhaid i ni ei gymryd oherwydd rwy'n teimlo ei fod yn amherthnasol."





**Tabl 2.7: Overall satisfaction by gender and age within gender (WBL)**

| | Oedran | | Oedran o fewn y rhywiau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr DyG i gyd | Gwryw | Benyw | Gwryw 16-18 | Gwryw 19+ | Benyw 16-18 | Benyw 19+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 579 | 421 | 218 | 361 | 133 | 288 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 580 | 421 | 220 | 361 | 136 | 285 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Eithriadol fodlon | 21 | 27 | 21 | 21 | 30 | 26 |
| Bodlon iawn | 47 | 46 | 49 | 45 | 41 | 48 |
| Gweddol fodlon | 26 | 21 | 26 | 27 | 24 | 20 |
| Heb fod yn un na'r llall | 2 | 2 | 1 | 3 | 1 | 3 |
| Gweddol anfodlon | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Anfodlon iawn | * | 1 | - | 1 | 1 | 1 |
| Eithriadol anfodlon | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| | | | | | | |
| Cyfanswm eithriadol/ bodlon iawn | 73 | 70 | 66 | 71 | 73 | 68 |
| Cyfanswm bodlon | 94 | 94 | 95 | 93 | 95 | 93 |
| Cyfanswm anfodlon | 4 | 4 | 4 | 3 | 4 | 4 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

"Yn sylfaenol, pan gawsom y swydd yma, dywedodd ein cyflogwr wrthym y byddem yn cael amser yn rhydd o'r gwaith i wneud y cwrs… ond ni chawsom unrhyw amser o gwbl. Dylem fod wedi cwblhau'r cwrs erbyn hyn ond am fod gennym lai o amser mae'r cwrs yn cymryd yn hirach na'r disgwyl."

### 2.3.2 I ba raddau y cyrhaeddwyd yr amcanion cyn y cwrs

Mae'r cyfraneddau mwyaf o fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith (90%+ ymhob achos) yn nodi'r amcanion nesaf yma ar gyfer eu rhaglen hyfforddiant:

- 'Dysgu sgiliau newydd' (95%)
- 'Gwella gwybodaeth am y pwnc' (94%)
- 'Gwella datblygiad personol' (93%)
- 'Y gallu i symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol' (93%)
- 'Cael mwy o foddhad o'u gwaith' (90%)

Nid yw'n ymddangos bod y disgwyliadau'n amrywio rhwng y rhywiau. Ond, mae oedran yn dylanwadu ar ddisgwyliadau pobl (Tabl 23) gyda'r rheini yn y grŵp iau yn fwy tebygol nag ymatebwyr 19+ oed o nodi 'Cyfarfod pobl newydd' a 'Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd' fel disgwyliadau am eu hyfforddiant.

**Tabl 2.8: Amcanion y dysgwyr wrth wneud yr hyfforddiant yn ôl eu hoedran (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Oedran | |
|---|---|---|---|
| Sail: Pob dysgwr DyG | Cyfanswm | 16-18 | 19+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 351 | 649 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 355 | 646 |
| | % | % | % |
| Cael swydd wahanol/swydd well | 84 | 87 | 83 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roedd yn ei gwneud ar y pryd | 79 | 76 | 80 |
| Y gallu i symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol | 93 | 93 | 93 |
| Cael mwy o foddhad o'u gwaith | 90 | 92 | 89 |
| Mynd ymlaen i gyrsiau eraill neu wella eu haddysg | 82 | 82 | 83 |
| Gwella eu gwybodaeth am y pwnc | 94 | 94 | 95 |
| Dysgu sgiliau newydd | 95 | 95 | 94 |
| Cynyddu eu datblygiad personol | 93 | 91 | 95 |
| Cyfarfod pobl newydd | 84 | 91 | 80 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd | 75 | 81 | 71 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb.

Mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yn teimlo bod eu hyfforddiant wedi eu helpu nhw'n fawr i gyrraedd yr amcanion oedd ganddynt cyn eu hyfforddiant. Mae hyn yn arbennig o wir am y canlynol, lle'r oedd mwy na 75% o fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yn teimlo bod eu hyfforddiant wedi'u helpu nhw'n fawr yn nhermau cyrraedd pob targed:

- 'Dysgu sgiliau newydd' (83%)
- 'Gwella eu gwybodaeth' (81%)
- 'Cyfarfod pobl newydd' (78%)
- 'Cynyddu eu datblygiad personol' (75%)





**Tabl 2.9: I ba raddau y bu'r hyfforddiant yn help i gyrraedd amcanion (Dysgu yn y Gwaith)**

| Sail: Yr holl ddysgwyr DyG | I ba raddau mae dysgu wedi helpu i gyrraedd amcanion | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Sail (heb ei bwysoli) | Sail (wedi'i bwysoli) | Wedi helpu'n fawr | Wedi helpu ychydig | Heb helpu o gwbl |
| | | | % | % | % |
| Cael swydd wahanol/swydd well | 193 | 191 | 63 | 14 | 18 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddent yn ei gwneud ar y pryd | 169 | 171 | 74 | 21 | 4 |
| Y gallu i symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol | 239 | 238 | 68 | 21 | 10 |
| Cael mwy o foddhad o'u gwaith | 198 | 201 | 71 | 22 | 6 |
| Mynd ymlaen i gyrsiau eraill neu wella eu haddysg | 199 | 201 | 59 | 18 | 18 |
| Gwella eu gwybodaeth am y pwnc | 196 | 198 | 81 | 18 | 2 |
| Dysgu sgiliau newydd | 187 | 186 | 83 | 15 | 3 |
| Cynyddu eu datblygiad personol | 215 | 215 | 75 | 20 | 4 |
| Cyfarfod pobl newydd | 196 | 193 | 78 | 16 | 5 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd | 159 | 157 | 64 | 22 | 11 |


Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb.

### 2.3.3 Pa mor berthnasol a defnyddiol yw'r hyfforddiant i'r swydd gyfredol

Mae'r adran yma'n ymwneud â myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith oedd wedi'u cyflogi ar amser y cyfweliad (79% o'r holl fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith).

Mae'r mwyafrif llethol o fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith sy'n gweithio (87%) yn dweud bod eu hyfforddiant yn uniongyrchol berthnasol i'w swydd, tra bo 8% o'r hyfforddiant yn anuniongyrchol berthnasol. Dim ond lleiafrif bychan iawn (4%) sy'n teimlo nad yw eu hyfforddiant yn berthnasol i'w swyddi o gwbl.

**Siart 2.5: Pa mor berthnasol yw'r hyfforddiant i'r swydd**



Yn anuniongyrchol berthnasol i'r swydd 87%
Yn uniongyrchol berthnasol i'r swydd 8%
Nid yw'n berthnasol i'r swydd 4%
Ni wn 1%


Sail: Yr holl fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith mewn swydd (787)

Mae'r rheini sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau yn llai tebygol o ddweud bod eu hyfforddiant yn uniongyrchol berthnasol i'w swyddi (77% o'i gymharu â 89% o'r rheini sydd heb feddwl yn ddifrifol am adael – Tabl 26).

### 2.3.4 Pa mor ddefnyddiol yw'r hyfforddiant

Mae'r mwyafrif o fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith sy'n gyflogedig (66%) yn teimlo bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn mewn perthynas â'u swyddi, tra bo 29% yn teimlo ei fod yn weddol ddefnyddiol (siart 3.6). Dim ond lleiafswm bach iawn sydd heb fod o unrhyw ddefnydd o gwbl yn ôl yr hyn a welir.

**Siart 2.6: Pa mor ddefnyddiol yw'r hyfforddiant i'r swydd**



Defnyddiol iawn 66%
Gweddol defnyddiol 29%
Nid yw'n defnyddiol iawn 4%
Nid yw'n defnyddiol iawn 2%

Sail: Yr holl ddysgwyr mewn swydd (787)

Mae dysgwyr iau (16-18 oed) yn fwy tebygol o ddweud bod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn yn eu swyddi cyfredol (72% o'i gymharu â 63% o ddysgwyr 19+ oed).

Mae asesiad y dysgwyr o ddefnyddioldeb eu hyfforddiant yn cyfateb â'u boddhad gyda chefnogaeth y cyflogwr. Mae'r rheini sy'n llai na bodlon iawn gyda chefnogaeth eu cyflogwyr yn rhoi sgôr is am ddefnyddioldeb eu hyfforddiant. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd y cyflogwr yn y broses o sicrhau profiad dysgu llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith. Ar ben hynny, mae'r rheini sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau yn llawer llai tebygol na'r ymatebwyr eraill o ddweud bod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn.





**Tabl 2.10: Pa mor berthnasol yw'r hyfforddiant yn ôl pwy sydd wedi a phwy sydd heb ystyried gadael y rhaglen (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Wedi meddwl yn ddifrifol am adael y rhaglen hyfforddi | |
|---|---|---|---|
| Sail: Dysgwyr DyG oedd mewn swydd ar amser y dysgu | Cyfanswm | Do | Naddo |
| Sail: Heb ei bwysoli | 787 | 156 | 595 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 787 | 158 | 594 |
| | % | % | % |
| Yn uniongyrchol berthnasol i'r swydd | 87 | 77 | 89 |
| Yn anuniongyrchol berthnasol i'r swydd | 8 | 16 | 6 |
| Nid yw'n berthnasol i'r swydd o gwbl | 4 | 7 | 4 |
| Ni wn | 1 | - | 1 |

**Tabl 2.11: Pa mor ddefnyddiol yw'r hyfforddiant i'w swyddi yn ôl oedran, a ydynt wedi meddwl am adael, a'u boddhad gyda chefnogaeth y cyflogwr (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Oedran | | Wedi meddwl yn ddifrifol am adael | | Eu boddhad gyda chefnogaeth y cyflogwr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr DyG oedd mewn swydd ar amser y dysgu | Cyfanswm | 16-18 | 19+ | Yes | No | Eithriadol | Bodlon iawn | Llai na bodlon iawn |
| Sail: Heb ei bwysoli | 787 | 247 | 540 | 156 | 595 | 230 | 258 | 292 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 787 | 247 | 540 | 158 | 594 | 226 | 264 | 291 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Defnyddiol iawn i'ch swydd | 66 | 72 | 63 | 48 | 71 | 78 | 73 | 51 |
| Gweddol ddefnyddiol i'ch swydd | 29 | 24 | 31 | 40 | 26 | 20 | 24 | 39 |
| Nid yw'n ddefnyddiol iawn i'ch swydd | 4 | 3 | 4 | 8 | 2 | 1 | 1 | 7 |
| Nid yw'n ddefnyddiol o gwbl i'ch swydd | 2 | * | 3 | 4 | 1 | 1 | 2 | 3 |


Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

## 2.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU

Dysgwyr mewn addysg barhaus oedolion wedi'i hachredu yw'r grŵp mwyaf bodlon. Yn fras, mae pedwar ymhob deg o ddysgwyr mewn addysg barhaus oedolion (37%) yn eithriadol fodlon gyda'u profiad dysgu cyffredinol. O ychwanegu'r 41% o'r rheini sy'n fodlon iawn, mae bron i wyth ymhob deg o ymatebwyr ABO yn mynegi lefelau uchel o foddhad ac mae hyn yn eithriadol anogol. Dim ond 4% o ymatebwyr ABO sy'n anfodlon.

**Siart 2.7: Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu (Addysg Barhaus Oedolion)**

Sail: Yr holl ddysgwyr mewn addysg barhaus oedolion (508)




Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'ni wn' a 'heb fod yn un na'r llall'

| Crynodeb | |
|---|---|
| Cyfnaswm eithriadol/bodlon iawn | 78% |
| Cyfanswm bodlon | 94% |
| Cyfanswm anfodlon | 4% |

Mae'r lefelau boddhad yn gyffredinol gyson drwy'r bandiau oedran i gyd. Yn debyg i ddysgwyr AB a myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith, mae dysgwyr benywaidd yn tueddu bod yn fwy bodlon (80% yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn o'i gymharu â 75% o ddynion).

**Tabl 2.12: Boddhad cyffredinol yn ôl y rhywiau (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | Rhyw | |
|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr ABO i gyd | Gwryw | Benyw |
| | 160 | 348 |
| | % | % |
| Eithriadol fodlon | 33 | 39 |
| Bodlon iawn | 42 | 40 |
| Gweddol fodlon | 19 | 15 |
| Heb fod yn un na'r llall | 2 | 2 |
| Gweddol anfodlon | 2 | 2 |
| Anfodlon iawn | 1 | 1 |
| Eithriadol anfodlon | 1 | 1 |
| | | |
| Cyfanswm eithriadol/ bodlon iawn | 75 | 80 |
| Cyfanswm Bodlon | 94 | 95 |
| Cyfanswm Anfodlon | 4 | 4 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'







Pwyntiau eraill sydd werth eu nodi:

- Mae'r dadansoddiad rhanbarthol wedi'i gyfyngu i'r De Orllewin a'r De Ddwyrain am fod maint y samplau yn y rhanbarthau eraill yn rhy isel. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai ychydig o ddysgwyr addysg barhaus oedolion wedi'i hachredu sydd i'w cael yn y rhanbarthau hynny. Mae'r rheini sy'n astudio yn y De Orllewin yn fwy bodlon na'r rheini yn y De Ddwyrain (88% o'i gymharu â 75%)
- Mae'r rheini sy'n astudio yn ystod y min nosau yn llai bodlon na'r rheini sy'n dysgu yn ystod y dydd (72% o'i gymharu â 82% yn y drefn honno)

Dim ond 19 o ymatebwyr fynegodd anfodlonrwydd gyda'u profiad dysgu, ac mae'r sail yma'n rhy fach i wneud dadansoddiad cadarn o'r rhesymau am yr anfodlonrwydd. Fodd bynnag, fel y gwelwyd gydag AB, y rhesymau a nodir amlaf yw nad yw'r cwrs wedi cyfateb â disgwyliadau'r dysgwyr a bod safon y dysgu'n isel. Dyma rai sylwadau nodweddiadol:

"Doedden nhw ond yn ein dysgu am 10 munud allan o'r ddwy awr felly doedden ni ddim yn cael digon o wybodaeth".

"(Y broblem oedd) fy ffaeleddau a'i chael hi'n anodd dysgu triciau newydd. Nid oedd strwythur i'r dosbarth. Roedd hi'n diwtor da ond doedd y cwrs ddim yn union fel y byddwn wedi'i hoffi".

"Roedd y tiwtor yn tueddu canolbwyntio ar bobl oedd â rhai sgiliau yn barod. Roedd rhai pobl yn meddwl nad oedd y tiwtor yn canolbwyntio ar bobl oedd heb unrhyw sgiliau".

### 2.4.1 I ba raddau y cyrhaeddwyd yr amcanion cyn y cwrs

Dyma'r amcanion allweddol ar gyfer y grŵp yma o ddysgwyr:

- 'Gwella eu gwybodaeth am y pwnc' (94%)
- 'Dysgu sgiliau newydd' (91%)
- 'Cynyddu eu datblygiad personol' (91%)

Mae'r amcanion wedi'u dylanwadu gan oedran y dysgwyr (Tabl 31). Mae'r rheini yn y grŵp oedran 16-34 yn llawer mwy tebygol na dysgwyr eraill o nodi amcanion sy'n ymwneud â'u gyrfaoedd:

- 'I fynd ymlaen i gyrsiau eraill neu wella eu haddysg'
- 'Y gallu i ddatblygu eu gyrfa'
- 'Cael swydd wahanol/swydd well'

Mae patrwm tebyg yn dod i'r amlwg pan ystyriwn y dysgwyr sydd â chyfrifoldebau (plant neu blant ag/neu oedolion) o'u cymharu ag ymatebwyr ABO eraill. Mae'r grŵp cyntaf yn llawer mwy tebygol na'r rheini sydd heb unrhyw gyfrifoldebau gartref o nodi bod eu disgwyliadau yn ymwneud i raddau mawr â datblygiad gyrfaol. Nid oes amheuaeth bod hyn yn adlewyrchu'r cam y maent arno yn eu bywydau oherwydd maen nhw'n tueddu bod yn iau na'r dysgwr ABO cymedrig ac felly'n fwy tebygol o fod yn economaidd weithredol neu'n meddwl am ddychwelyd i'r gwaith.

Wrth ystyried a oedd y cwrs yma wedi'u helpu nhw i wireddu'r amcanion oedd ganddynt cyn dechrau'r cwrs, mae'r dadansoddiad wedi'i gyfyngu i'r disgwyliadau hynny lle mae'r seiliau'n ddigon mawr i'w harchwilio, h.y. yr amcanion mwyaf cyffredin cyn y cyrsiau.

Yn y mwyafrif o achosion, mae mwy na thri chwarter y dysgwyr ABO yn teimlo bod eu cwrs wedi helpu'n fawr i wireddu pob amcan. Mae un eithriad sy'n ymwneud â chyfarfod pobl newydd, lle mae 67% yn unig o'r dysgwyr yn teimlo bod eu cyrsiau wedi helpu'n fawr yn y cyswllt hwn. Mae'r wybodaeth yma wedi'i grynhoi yn Nhabl 32.

**Tabl 2.13: Amcanion y dysgwyr wrth wneud y cwrs yn ôl eu hoedran o fewn y rhywiau ac yn ôl eu cyfrifoldebau yn y cartref (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | | Oed | | | Cyfrifoldebau gartref | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr ABO | Cyfanswm | 16-34 | 35-54 | 55 + | Plant yn unig | Plant a/neu oedolion | Dim |
| Sail (Heb ei bwysoli) | 508 | 74 | 194 | 239 | 131 | 177 | 331 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Cael swydd wahanol/ swydd well | 28 | 61 | 38 | 10 | 49 | 45 | 19 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roedd yn ei gwneud ar y pryd | 31 | 41 | 46 | 15 | 43 | 42 | 24 |
| Y gallu i symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol | 41 | 68 | 55 | 21 | 63 | 57 | 32 |
| Cael mwy o foddhad o'u gwaith | 51 | 66 | 59 | 41 | 66 | 62 | 46 |
| I fynd ymlaen i gyrsiau eraill neu wella eu haddysg | 57 | 74 | 62 | 48 | 69 | 68 | 51 |
| Gwella eu gwybodaeth am y pwnc | 94 | 89 | 96 | 95 | 95 | 95 | 94 |
| Dysgu sgiliau newydd | 91 | 95 | 90 | 90 | 91 | 91 | 91 |
| Cynyddu eu datblygiad personol | 91 | 96 | 92 | 89 | 94 | 93 | 89 |
| Cyfarfod pobl newydd | 87 | 92 | 83 | 90 | 85 | 85 | 89 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser | 86 | 82 | 80 | 92 | 77 | 80 | 89 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb;
Heb ei bwysoli Dangosir y sail am na chafodd y data ABO ei bwysoli.







**Tabl 2.14: I ba raddau y bu'r hyfforddiant yn help i gyrraedd amcanion (Addysg Barhaus Oedolion)**

| Sail: Y dysgwyr ABO i gyd | Sail (heb ei bwysoli) | Wedi helpu'n fawr | Wedi helpu ychydig | Heb helpu o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % |
| Gwella eu gwybodaeth am y pwnc | 152 | 86 | 13 | 1 |
| Dysgu sgiliau newydd | 147 | 79 | 18 | 3 |
| Cynyddu eu datblygiad personol | 171 | 75 | 18 | 5 |
| Cyfarfod pobl newydd | 119 | 67 | 26 | 6 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd | 129 | 81 | 16 | 2 |


Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb; Heb ei bwysoli
Mae'r sail wedi'i ddangos am nad oedd data ACE wedi'i bwysoli.

## 2.5 CYMHARIAETH RHWNG Y MATHAU O DDARPARIAETH

### 2.5.1 Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu

Mae'n ganfyddiad eithriadol gadarnhaol bod oddeutu saith ymhob deg o ddysgwyr AB a Dysgu yn y Gwaith yn eu disgrifio eu hunain fel dysgwyr eithriadol fodlon neu fodlon iawn yn gyffredinol, tra bo'r un peth yn wir am bron i wyth ymhob deg o ddysgwyr Addysg Barhaus Oedolion. Yn wir, mae'r lefelau anfodlonrwydd yn isel iawn ar gyfer pob dysgwr, pa fath bynnag o ddysgwyr ydynt.

**Siart 2.8: Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu yn ôl y math o ddarpariaeth**




| Crynodeb | |
|---|---|
| AB: Eithriadol/bodlon iawn | 70% |
| DyG: Eithriadol/bodlon iawn | 70% |
| ABO: Eithriadol/bodlon iawn | 78% |

Nodwch: Mae'r ffigur Dysgu yn y Gwaith ar gyfer y cyfanswm o bobl eithriadol fodlon/bodlon iawn yn adio i roi 70% am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu. Nid ydym wedi dangos yr atebion 'ni wn' a 'heb fod yn un na'r llall'

**Tabl 2.15: Amcanion y dysgwyr wrth wneud y cwrs yn ôl y math o ddarpariaeth**

| Sail: Pob dysgwr | AB | DyG | ABO |
|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Gwella eu gwybodaeth am y pwnc | 95 | 94 | 94 |
| Dysgu sgiliau newydd | 94 | 95 | 91 |
| Cynyddu eu datblygiad personol | 92 | 93 | 91 |
| Cyfarfod pobl newydd | 83 | 84 | 87 |
| Mynd ymlaen i gyrsiau eraill/datblygu eu haddysg | 76 | 82 | 57 |
| Y gallu i symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol | 75 | 93 | 41 |
| Cael mwy o foddhad o'u gwaith | 75 | 90 | 51 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd | 75 | 81 | 86 |
| Cael swydd wahanol/swydd well | 65 | 84 | 28 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd yr oedden nhw'n ei gwneud ar y pryd | 53 | 79 | 31 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Mae anfodlonrwydd yn codi gan fwyaf am nad yw disgwyliadau'r dysgwyr wedi'u gwireddu, er bod safonau dysgu isel wedi'u crybwyll hefyd.

### 2.5.2 Cyrraedd yr amcanion

Mae'r amcanion cyffredin yn ymwneud â gwella'r hunan, naill ai drwy ddysgu gwybodaeth neu sgiliau ychwanegol neu ym maes datblygiad personol/cymdeithasol yn gyffredinol.

Ar gyfer yr amcanion sy'n weddill mae mwy o wahaniaethau rhwng y gwahanol fathau o ddysgu. Mae hyn yn adlewyrchu natur y ddarpariaeth a cham bywyd y gwahanol ddysgwyr yn y cyswllt hwn:

- Mae myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith, fel y byddech yn ei ddisgwyl, yn llawer mwy tebygol o nodi targedau yn ymwneud â gwaith/gyrfa
- Mae amcanion dysgwyr ABO yn gysylltiedig gan fwyaf â datblygiad personol
- Mae dysgwyr AB yn nodi cymysgedd o dargedau sy'n adlewyrchu'r amrediad eang o oedrannau o fewn y grŵp yma o ddysgwyr, a'r amrediad eang o raglenni dysgu a gymerir



**Tabl 2.16: Amcanion y dysgwyr wrth wneud y cwrs yn ôl y math o ddarpariaeth**

| Sail: Pob dysgwr | AB | | DyG | | ABO | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | | 1000 | | 508 | |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | | 1001 | | 508 | |
| | % wedi helpu'n fawr | % wedi helpu ychydig | % wedi helpu'n fawr | % wedi helpu ychydig | % wedi helpu'n fawr | % wedi helpu ychydig |
| Gwella eu gwybodaeth am y pwnc | 81 | 16 | 81 | 18 | 86 | 13 |
| Dysgu sgiliau newydd | 73 | 21 | 83 | 15 | 79 | 18 |
| Cynyddu eu datblygiad personol | 63 | 27 | 75 | 20 | 75 | 18 |
| Cyfarfod pobl newydd | 68 | 26 | 78 | 16 | 67 | 26 |
| Mynd ymlaen i gyrsiau eraill/ datblygu eu haddysg | 55 | 25 | 59 | 18 | N/A | N/A |
| Y gallu i symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd yn gyffredinol | 58 | 27 | 68 | 21 | N/A | N/A |
| Cael mwy o foddhad o'u gwaith | 63 | 27 | 71 | 22 | N/A | N/A |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser rhydd | 69 | 23 | 64 | 22 | 81 | 16 |
| Cael swydd wahanol/swydd well | 49 | 20 | 63 | 14 | N/A | N/A |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd yr oedden nhw'n ei gwneud ar y pryd | 59 | 28 | 74 | 21 | N/A | N/A |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Mae'r mwyafrif mawr o ddysgwyr yn teimlo bod y cwrs/hyfforddiant wedi'u helpu nhw'n fawr i gyrraedd eu hamcanion. Mae'r tabl isod yn dangos y canrannau sy'n teimlo bod eu dysgu wedi'u helpu nhw'n fawr a'r rhai sydd wedi'u helpu nhw ychydig i gyrraedd pob nod. Pan welwch fylchau yn y ffigurau Addysg Barhaus Oedolion (wedi'u marcio fel N/B – Nid yw'n Berthnasol), y rheswm am hyn yw bod maint y sail yn fach.

Mae natur targedau uchel y rhaglenni Dysgu yn y Gwaith wedi'i adlewyrchu yn y cyfraneddau uchel sy'n teimlo bod eu dysgu wedi cyfrannu at eu llwyddiant i gyrraedd eu hamcanion sy'n berthnasol i'w swyddi. Mae mwyafrif amlwg o'r grŵp yma'n teimlo eu bod nhw'n datblygu'n dda. Ar gyfer AB, mae'n ddiddorol bod y sgorau isaf am gyfraniad y cwrs wedi'u rhoi am amcanion yn ymwneud â datblygiad gyrfaol: 'cael swydd well/wahanol', 'mynd ymlaen at gwrs arall, gwella eich addysg', a'r 'gallu i ddatblygu drwy eu gyrfa yn gyffredinol'. Efallai mai'r rheswm am hyn yw ei bod hi'n rhy fuan i'r dysgwyr a gyfwelwyd deimlo eu bod yn elwa fel yma, ond y bydd dysgwyr DyG yn gweld y manteision ar unwaith wedi'u hadlewyrchu yn y gwaith maen nhw'n ei wneud.

Os nad yw cyrsiau wedi helpu'r dysgwyr i gyrraedd eu hamcanion, y rheswm am hyn i raddau helaeth yw bod y cwrs yn barhaus (felly ni ellir gwneud asesiad go iawn), neu fod y dysgwyr wedi ymadael â'u cyrsiau cyn eu cwblhau.

### 2.5.3 Ffactorau sy'n dylanwadu ar foddhad

Defnyddiwyd dadansoddiad atchweliad i ganfod pa ffactorau sy'n dylanwadu ar foddhad/anfodlonrwydd. Roedd y broses yn gofyn olrhain y gydberthynas rhwng y ffordd mae dysgwyr yn ei deimlo am wahanol elfennau o'r profiad dysgu a pha mor fodlon ydynt yn gyffredinol. Mae'r dadansoddiad yn caniatáu i ni bwysoli'r amrywiol ffactorau sy'n dylanwadu ar foddhad ymysg dysgwyr.

Fel y gwelwch o'r tabl isod, mae'r canlyniadau'n weddol debyg ar gyfer pob math o ddarpariaeth os edrychwch ar y ffactorau addysgu a rheoli, ond maen nhw'n amrywio wrth ystyried cyfleusterau a gwasanaethau cefnogi. Mae materion addysgu a rheoli yn dod i'r amlwg fel y materion sy'n cael y dylanwad mwyaf ar y lefelau boddhad cyffredinol.

Mae cyfleusterau'n ffactor pwysig hefyd i greu boddhad ond mae pwysigrwydd y gwahanol fathau o gyfleusterau'n amrywio yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth.

Ymysg y Dysgwyr AB mae'r pedair elfen sy'n dylanwadu ar foddhad yn cael effaith weddol debyg ond, ymysg y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith, rhoddir mwy o bwyslais ar gyfleusterau cymdeithasol a chyfleusterau cynghori/gofal plant. Hefyd, mae'n ymddangos bod lefelau boddhad dysgwyr ABO wedi'u dylanwadu'n gryfach gan gyfleusterau cymdeithasol a bod cyfleusterau dysgu'n chwarae mwy o ran mewn creu boddhad nag sy'n wir am y mathau eraill o ddarpariaeth.

**Tabl 2.17: Dylanwad perthynol gwahanol elfennau o'r profiad dysgu ar foddhad cyffredinol yn ôl y math o ddarparwr**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | AB | DyG | ABO |
|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Addysgu | 37 | 41 | 36 |
| Rheolaeth | 31 | 29 | 34 |
| Cyfleusterau Gofal Plant/Cynghori | 10 | 10 | 6 |
| Gwneud y Dewis Cywir | 8 | | 3 |
| Cyfleusterau Dysgu | 7 | | 11 |
| Cyfleusterau Eraill | 7 | 3 | |
| Cyfleusterau Cymdeithasol | | 12 | 10 |
| Cyfleusterau Technoleg Gwyb. | | 6 | |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'





## 2.6 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA

### AB

Mae'r boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu yn uchel, gyda 70% yn dweud eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn, a 92% yn mynegi rhyw raddfa o foddhad. Y dysgwyr sy'n fwyaf tebygol o deimlo'n eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn yw:

- Merched 25+ oed (74%)
- Dynion 25+ oed (72%)
- Rheini sy'n astudio cyrsiau'n ymwneud â lletygarwch (77%)

Y dysgwyr lleiaf bodlon yw:

- Dynion 16-18 oed (64%)
- Dynion 19-24 oed (63%)
- Merched 19-24 oed (62%)

Mae'r dysgwyr ieuengaf yn llawer mwy tebygol o oleddfu eu hasesiad drwy ddewis y sgôr 'gweddol fodlon'.

Mae'r rhesymau am roi sgôr sy'n is na bodlon iawn yn ymwneud â'r ffactorau yma:

- Nid yw'r dysgu'n cyfateb â'u disgwyliadau
- Mae'r safonau addysgu'n isel
- Mae'r ddarpariaeth wedi'i threfnu'n wael neu'r cyfathrebiad yn wael

Mae'r dysgwyr iau, lleiaf bodlon yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o godi materion yn ymwneud â:

- Nid yw'r dysgu'n cyfateb â disgwyliadau
- Nid yw agwedd y tiwtor yn dda/nid yw'n gefnogol
- Mae'r gwersi'n ddiflas
- Mae prinder staff neu newidiadau aml yn y staff

Yn gyffredinol, mae gan ddysgwyr nifer o amcanion y maen nhw eisiau eu cyrraedd drwy eu dysgu, sy'n amrywio o ddatblygiad gyrfaol, i ddatblygu eu haddysg neu wneud defnydd gwell o'u hamser rhydd. O ystyried bod rhai o'r targedau'n rhai tymor hir, mae'n rhy gynnar i rai dysgwyr asesu pa gyfraniad y mae'r dysgu wedi'i wneud. Ond, yn gyffredinol, mae'r asesiadau'n gadarnhaol iawn gyda'r mwyafrif o ddysgwyr yn teimlo'n barod bod y cwrs wedi'u helpu nhw'n fawr i symud tuag at eu hamcanion unigol.

### Dysgu yn y Gwaith

Mae boddhad gyda'r profiad dysgu cyffredinol yn uchel – mae 70% o'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith naill ai'n eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn. Mae boddhad eithriadol yn fwy tebygol ymysg merched, ond mae oedran yn cael effaith ar hynny hefyd. Merched yn y grŵp oedran 19+ sy'n fwyaf tebygol o fod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn, ond y dynion yn yr un grŵp sy'n lleiaf tebygol o fynegi'r math yma o foddhad.

Mae'r rhesymau am yr anfodlonrwydd yn ymwneud gan fwyaf â'r ffaith nad yw'r profiad yn cyfateb â disgwyliadau'r ymatebwr.

Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr DyG yn teimlo bod eu hyfforddiant wedi helpu'n fawr yn nhermau cyrraedd yr amcanion oedd ganddynt cyn dechrau'r hyfforddiant, yn arbennig mewn perthynas â:

### Dysgu yn y Gwaith

- 'Dysgu sgiliau newydd' (95%)
- 'Gwella eu gwybodaeth' (94%)
- 'Y gallu i ddatblygu eu gyrfa yn gyffredinol' (93%)
- 'Cynyddu eu datblygiad personol' (93%)
- 'Cyfarfod pobl newydd' (84%)

Gofynnwyd i fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith oedd wedi'u cyflogi ar amser eu cyfweliad pa mor berthnasol oedd eu hyfforddiant a pha mor ddefnyddiol oedd yr hyfforddiant hwnnw yn nhermau eu swyddi cyfredol. Mae'r mwyafrif yn teimlo bod eu hyfforddiant yn ymwneud yn uniongyrchol â'u swyddi (87%), tra bo 66% yn teimlo bod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn a 29% yn teimlo ei fod yn weddol ddefnyddiol.

### ABO

Mae dysgwyr ABO yn dangos y lefelau uchaf o foddhad o'r tri math o ddarpariaeth. Mae 78% yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn, tra bo 94% yn mynegi rhyw radd o foddhad. Mae'r lefelau boddhad yn gyffredinol gyson yn y bandiau oedran i gyd. Ond, mae merched ychydig bach yn fwy tebygol na dynion o fod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn.

Wrth ddadansoddi a oedd disgwyliadau'r dysgwyr cyn eu cyrsiau wedi'u gwireddu, mae'r gwaith wedi'i gyfyngu i ddisgwyliadau lle mae'r seiliau'n ddigon mawr. Mae mwy na 75% o ddysgwyr ABO yn dweud bod eu cyrsiau wedi helpu'n fawr yn nhermau:

- 'Gwella eu gwybodaeth am y pwnc' (86%)
- 'Gwneud rhywbeth defnyddiol â'u hamser rhydd' (81%)
- 'Dysgu sgiliau newydd' (79%)
- 'Cynyddu eu datblygiad personol' (75%)



# 3. GWNEUD Y PENDERFYNIAD

**Mae'r adran yma'n ymdrin â:**


- Y dewisiadau mae'r myfyrwyr wedi'u gwneud ac a lwyddodd y dysgwyr i fynd ar eu dewis gyrsiau ac i'w dewis sefydliadau. Gofynnwyd i'r rheini na chawsant le gyda'u dewis ddarparwyr neu ar eu dewis gyrsiau roi manylion am eu dewisiadau a dweud pam nad aethant i astudio gyda'r sefydliad neu ar y cwrs/rhaglen hyfforddi dewisol
- Y cyngor a geisiwyd ganddynt wrth wneud y dewisiadau hynny
- Pa mor ddefnyddiol oedd y cyngor yn eu barn hwy
- A oedd eu disgwyliadau am y cwrs wedi'u hateb

## 3.1 BRASOLWG

### 3.1.1 Dewis


Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr yn astudio gyda'r darparwyr dysgu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (75%) ac yn dilyn y cwrs/hyfforddiant oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (87%).

**Siart 3.1: Dewis y darparwr dysgu**




Sail: Y dysgwyr i gyd (6215)

**Siart 3.2: Dewis y darparwr dysgu**





Sail: Y dysgwyr i gyd (6215)

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Ar gyfer y mathau dysgu i gyd, mae cael lle gyda'r darparydd dewis cyntaf/ar y cwrs dewis cyntaf yn dylanwadu ar foddhad cyffredinol y dysgwyr gyda'r profiad dysgu. Mae'r boddhad cyffredinol yn gostwng wrth i'r gyfran o ddysgwyr sy'n cael lle gyda'u darparwyr dewisol/ar eu cyrsiau dewisol leihau.

**Siart 3.3: Y gydberthynas rhwng llwyddo i gael lle yn eu sefydliad ac ar eu cwrs dewis cyntaf a'u boddhad cyffredinol gyda'r dysgu**




O ran dewis darparwr dysgu, mae 58% o'r dysgwyr yn nodi bod lleoliad cyfleus yn ffactor allweddol, tra bo 27% yn dweud mai ffactor allweddol arall oedd bod y darparwr yn cynnig yr hyfforddiant yr oeddent ei eisiau. (Tabl 40).

**Tabl 3.1:Y rhesymau am ddefnyddio'r darparwr**

| Sail:Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| | % |
| Lleoliad cyfleus | 58 |
| Yn cynnig yr hyfforddiant roeddwn ei eisiau | 27 |
| Mae ganddo'r enw gorau (yn gyffredinol) | 11 |
| Mae ganddo'r enw gorau am gyfraddau pasio | 1 |
| Mae ganddo'r enw gorau am fy nghwrs/hyfforddiant i | 2 |
| Roedd fy ffrindiau'n mynd yno/ argymhellwyd y lle gan gyfaill | 9 |
| Argymhellwyd y lle gan gynghorwr gyrfaoedd/ysgol | 2 |
| Yn cynnig yr hyfforddiant/cwrs ar amseroedd sy'n gyfleus i mi | 6 |
| Ni chefais ddewis – y cyflogwr wnaeth y dewis | 8 |
| Ni chefais ddewis – nid oedd darparwyr eraill yn yr ardal | 4 |
| Roedd yn cynnig hyfforddiant/ addysgu yn yr iaith Gymraeg | * |
| I ddatblygu/i gael cymwysterau | 6 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

### 3.1.2 Cyngor am ddewis cwrs a darparwr

Mae tabl 41 yn dangos mai'r ffynhonnell a ddefnyddir fwyaf i gael cyngor yw 'tiwtoriaid yn y coleg/sefydliad darparu' ond, er hynny, mae'n ymddangos mai dim ond 37% o'r dysgwyr oedd wedi ymgynghori â hwy, ynghyd â 25% pellach oedd wedi ymgynghori â 'swyddfa fynediadau'r coleg'. Mae 'cyfeillion' yn ffynhonnell bwysig ar gyfer cael cyngor (36%). Dywedodd rhai dysgwyr eu bod wedi ymgynghori â 'Chynghorwr Gyrfaol eu Hysgol', a dehonglir hyn i olygu naill ai Cynghorwr Gyrfa Cymru neu athro/athrawes o fewn yr ysgol.

**Tabl 3.2:Y ffynonellau a ddefnyddiwyd i gael cyngor**

| Sail:Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| | % |
| Gyrfa Cymru | 21 |
| Adran mynediadau'r coleg | 25 |
| Athrawon yn yr ysgol | 20 |
| Tiwtoriaid yn y coleg/ sefydliad darparu | 37 |
| Rhieni neu aelodau o'u teuluoedd | 25 |
| Ffrindiau | 36 |
| Cyflogwr | 25 |
| Cynghorwr Gyrfaol yr Ysgol | 20 |
| gwasanaeth learndirect | 7 |
| gwefan learndirect | 4 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb





Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y ffynonellau yn nhermau pa mor ddefnyddiol yw'r cyngor a gynigir. Fodd bynnag, mae'r cyngor a geir gan golegau/darparwyr yn derbyn cyfraddau ychydig bach yn uwch na hwnnw a geir o ffynonellau sy'n gysylltiedig â'r ysgol (Tabl 42). Dangosir y sgorau fel sgorau cymedrig allan o 4 lle mae 4 yn 'ddefnyddiol iawn' ac 1 yn cyfateb â 'heb fod o unrhyw ddefnydd'.

**Tabl 3.3: Pa mor ddefnyddiol oedd y gwahanol ffynonellau - sgôr cymedrig o 4, lle mae 4 yn ddefnyddiol iawn**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| Gyrfa Cymru | 3.4 |
| Adran mynediadau'r coleg | 3.6 |
| Athrawon yn yr ysgol | 3.4 |
| Tiwtoriaid yn y coleg/ sefydliad darparu | 3.7 |
| Rhieni neu aelodau o'u teuluoedd | 3.5 |
| Ffrindiau | 3.5 |
| Cyflogwr | 3.4 |
| Cynghorwr Gyrfaol yr Ysgol | 3.4 |
| gwasanaeth learndirect | 3.5 |
| gwefan learndirect | 3.4 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

### 3.1.3 Disgwyliadau cyn y cwrs

Er mwyn asesu pa mor barod oedd y dysgwyr ar gyfer yr hyn y byddai eu cyrsiau/hyfforddiant yn ei gynnwys, gofynnwyd iddynt nodi a oedd eu disgwyliadau wedi'u hateb mewn perthynas â'r ffactorau yn Nhabl 43.

**Tabl 3.4: Y canran o'r myfyrwyr yr oedd y disgwyliadau oedd ganddynt cyn y cwrs wedi'u hateb**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| | % |
| Faint o waith y byddai'n rhaid i chi ei wneud | 79 |
| Strwythur y cwrs | 79 |
| Faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd | 72 |
| Faint o ddyddiadau terfynol y mae'n rhaid cwblhau gwaith ar eu cyfer | 73 |
| Cynnwys y cwrs | 84 |
| Y dulliau a'r arddulliau dysgu a ddefnyddir yn y sesiynau yma | 79 |
| Safonau'r gwaith a ddisgwylir | 86 |
| Y mathau o bobl ar y cwrs | 70 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Dywedodd y rhan fwyaf o'r gweddill nad oedd ganddynt unrhyw ddisgwyliadau ac, yn arbennig, mae 20% o'r dysgwyr wedi dweud nad oedd ganddynt unrhyw ddisgwyliadau ynghylch y math o bobl fyddai ar eu rhaglenni hyfforddiant/cyrsiau.


Pan oedd y sefyllfa'n wahanol i'r disgwyl, y rheswm mwyaf am hyn oedd:

- 'Gormod o waith'
- 'Nid yw'r athrawon yn drefnus/ yn dda iawn'
- 'Gormod o gyfrifoldeb'
- 'Nid oes digon o amser i wneud y gwaith/gormod ar unwaith'

## 3.2 ADDYSG BELLACH

### 3.2.1 Dewis darparwr dysgu

**Siart 3.4: A oedd y dysgwr yn mynychu'r sefydliad dewis cyntaf ?**




Sail: Yr holl ddysgwyr AB (4707)

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Mae 77% o'r dysgwyr AB yn astudio yn eu sefydliadau darparu dewis cyntaf (siart 4.4). O archwilio'r gyfran yma yn ôl oedran y dysgwyr (Tabl 45), mae'n amlwg bod y rheini sy'n 16 – 18 oed yn llawer mwy tebygol na grwpiau oedran eraill o fod yn astudio yn y sefydliadau darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt, ac yn llawer llai tebygol o ddweud na chawsant ddewis ymhle i astudio (4% o'i gymharu â 15% neu fwy mewn grwpiau oedran eraill).





**Tabl 3.5: A oedd y dysgwr yn mynychu'r sefydliad dewis cyntaf (AB) yn ôl eu hoedran ac oedrannau o fewn y rhywiau**

| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | | Oedran o fewn y rhywiau (G – Gwryw B – Benyw ) | | | | | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Total | G 16-18 | G 19-24 | G 25+ | B 16-18 | B 19-24 | B 25+ | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail: heb bwysoli | 4707 | 700 | 326 | 733 | 687 | 378 | 1883 | 1387 | 704 | 555 | 1328 | 733 |
| Sail:wedi pwysoli | 4707 | 598 | 320 | 1087 | 555 | 339 | 1807 | 1153 | 659 | 786 | 1555 | 554 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Ia – dewis cyntaf | 77 | 89 | 73 | 72 | 86 | 82 | 72 | 88 | 77 | 72 | 71 | 73 |
| Na – nid y dewis cyntaf | 4 | 3 | 2 | 3 | 8 | 2 | 4 | 5 | 2 | 4 | 3 | 3 |
| Ni chefais unrhyw ddewis | 14 | 5 | 21 | 19 | 2 | 10 | 17 | 4 | 15 | 17 | 19 | 17 |
| Ni ystyriais opsiwn arall | 6 | 3 | 4 | 6 | 4 | 5 | 7 | 3 | 5 | 6 | 7 | 7 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Yn nodedig, mae dynion yn yr ystod oedran 19-24 yn llai tebygol na'u cymheiriaid benywaidd o ddweud eu bod yn astudio yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt. I ryw raddau, mae hyn wedi'i ddylanwadu gan y pwnc – mae'r rheini sy'n astudio 'Peirianneg/gweithgynhyrchu' a 'Rheoli/busnes/y gyfraith' (y ddau faes wedi'u dominyddu gan ddynion) ymysg y rheini sy'n lleiaf tebygol o fod yn astudio yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt.

Mae rhanbarth yn dylanwadu ar yr ymateb hefyd. Mae'r rheini sy'n byw yng Ngogledd Cymru ychydig bach yn llai tebygol na dysgwyr AB eraill o ddweud eu bod yn astudio yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (72%) ac yn fwy tebygol o deimlo na chawsant unrhyw ddewis (20%).

**Pwyntiau eraill sy'n werth eu nodi**


- Mae'r dysgwyr hynny sy'n astudio 'Peirianneg/gweithgynhyrchu' ychydig bach yn fwy tebygol na dysgwyr AB eraill o ddweud na chawsant unrhyw ddewis wrth ddethol eu darparwyr (22%)
- Mae'r grwpiau nesaf yma'n llai tebygol na dysgwyr eraill o fod yn astudio yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt:
  - Rheini sy'n astudio ar gyfer CGCau (NVQs) (67%). Mae'r grŵp yma hefyd ychydig bach yn fwy tebygol o ddweud na chawsant ddewis ynghylch lle i astudio
  - Rheini sydd wedi'u cyflogi am 21+ awr (67%)
  - Dysgwyr sy'n dilyn cwrs astudio ysgrifenedig (64%)
  - Ymatebwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg (68%), sydd hefyd yn fwy tebygol o ddweud na chawsant ddewis ynghylch lle i astudio (25%)

Ymysg y dysgwyr AB nad ydynt yn astudio yn y sefydliad oedd yn ddewis cyntaf ganddynt, y rhesymau a nodwyd amlaf oedd:

- 'Nid oedd yn cynnig y cwrs yr oeddwn ei eisiau' (20%)
- 'Lleoliad/nid yw mor gyfleus/rhy bell/cludiant gwael' (14%)
- 'Ni chefais fy nerbyn ar y cwrs hwnnw/roedd fy nghais yn rhy hwyr/ roedd y cwrs yn llawn' (12%)

### 3.2.2 Dewis Cwrs

**Siart 3.5: A oedd y dysgwr yn mynychu'r cwrs dewis cyntaf ?**




Sail: Yr holl ddysgwyr AB

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Mae'r mwyafrif llethol o'r dysgwyr AB (88%) yn astudio eu cyrsiau dewis cyntaf (siart 4.5), ac mae'r gyfran yma'n gyson drwy'r rhywiau ac ymhob grŵp oedran. Ar ben hynny, o ddadansoddi'r data yn ôl y rhaglen, ychydig iawn o amrywiaeth a welir rhwng y rhanbarthau, y math o bwnc a'r math o gymhwyster.

O'r 4% o ddysgwyr nad ydynt yn gwneud eu cwrs dewis cyntaf, dyma'r cyrsiau a nodwyd amlaf fel eu dewisiadau cyntaf:

- 'Celf a'r cyfryngau' (16%)
- 'Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu' (12%)
- 'Y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol' (9%)
- 'Hamdden, teithio a thwristiaeth' (9%)

Ymysg y rhesymau a gafwyd amlaf am beidio â dilyn cwrs dewis cyntaf roedd y rhain:

- 'Nid oedd y coleg yn darparu'r cwrs yr oeddwn ei eisiau' (12%)
- 'Ni allwn gael lle ar y cwrs yr oeddwn wedi'i ddewis' (10%)

### 3.2.3 Y rhesymau am ddewis y darparwr

Lleoliad cyfleus yw prif ystyriaeth y dysgwr wrth ddewis sefydliad darparu yn y grŵp dysgu yma. Mae'r tabl nesaf yma'n dangos y rhesymau a nodwyd amlaf am ddewis darparwr:





**Tabl 3.6:Y rhesymau am ddewis darparwr yn ôl oedran y dysgwr (AB)**
**(Wedi'i nodi gan 3% neu fwy o'r cyfanswm)**

| | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55 + |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1387 | 704 | 555 | 1328 | 733 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1153 | 659 | 786 | 1555 | 554 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Lleoliad cyfleus | 60 | 61 | 62 | 61 | 58 | 63 |
| Yn cynnig yr hyfforddiant roeddwn ei eisiau | 27 | 27 | 22 | 27 | 28 | 32 |
| Mae ganddo'r enw gorau (yn gyffredinol) | 12 | 18 | 15 | 10 | 8 | 8 |
| Roedd fy ffrindiau'n mynd yno /argymhellwyd y lle gan gyfaill | 10 | 21 | 8 | 7 | 6 | 4 |
| Ni chefais ddewis - y cyflogwr wnaeth y dewis | 8 | 2 | 11 | 14 | 10 | 5 |
| Yn cynnig yr hyfforddiant/cwrs ar amser sy'n gyfleus i mi | 5 | 2 | 3 | 8 | 7 | 6 |
| I ddatblygu/i gael cymwysterau | 5 | 4 | 5 | 4 | 7 | 6 |
| Wedi bod i'r coleg o'r blaen | 4 | 2 | 6 | 7 | 3 | 4 |
| Mae ganddo'r enw gorau am fy nghwrs/hyfforddiant i | 3 | 4 | 3 | 3 | 2 | 1 |
| Adnoddau/cyfleusterau da | 3 | 4 | 2 | 2 | 3 | 1 |
| Ni chefais ddewis - nid oedd darparwyr eraill yn yr ardal | 3 | 3 | 4 | 3 | 4 | 5 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Oedran yw'r prif newidyn sy'n dylanwadu ar ddewis y dysgwr wrth iddo ddewis darparwr. Yn fwyaf nodedig, mae dysgwyr yn y grŵp oedran 16-18 yn fwy tebygol na dysgwyr hŷn o gael eu dylanwadu gan eu ffrindiau wrth ddewis eu darparwr. (21% o'i gymharu â chyfartaledd o 10%)

Os edrychwn ar wahanol fathau o gyrsiau, gwelwn fod y grwpiau nesaf yma'n fwy tebygol o ddweud bod eu cyflogwyr wedi dewis y darparwr dysgu:

- Rheini sy'n 19-54 oed
- Rheini sy'n astudio 'Peirianneg/gweithgynhyrchu' (17%), 'Lletygarwch/arlwyo' (21%), 'Adwerthu/dosbarthiad/gwasanaeth y cwsmer' (17%)

- Dysgwyr sy'n gwneud cyrsiau ysgrifenedig (23%)
- Rheini sy'n astudio ar gyfer CGCau (NVQs) (17%)

### 3.2.4 Ffynonellau'r cygor am ddewis darparwr

**Siart 3.6: Ffynonellau'r cyngor am ddewis darparwr(AB)**

| | | Sgôr am ansawdd |
|---|---|---|
| gwefan learndirect | 4% | 3.4 |
| gwasanaeth learndirect | 7% | 3.5 |
| Cynghorwr gyrfaol yn yr ysgol | 20% | 3.4 |
| Cyflogwr | 24% | 3.3 |
| Cyfeillion | 36% | 3.5 |
| Rhieni neu deulu | 25% | 3.5 |
| Tiwtoriaid yn y coleg | 40% | 3.7 |
| Athrawon yn yr ysgol | 22% | 3.4 |
| Cynghorwr yn y coleg | 27% | 3.6 |
| Gyrfa Cymru | 21% | 3.4 |

Sail: Yr holl ddysgwyr AB (4707)

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Mae siart 49 yn dangos mai'r prif ffynonellau cyngor ar gyfer dysgwyr AB yw 'Tiwtoriaid yn y coleg' (40%) a 'Ffrindiau' (36%). Mae'r siart hefyd yn dangos y Sgôr am Ansawdd ar gyfer pob ffynhonnell - dyma'r sgôr cymedrig am ddefnyddioldeb y cyngor a dderbyniwyd lle mae 1 yn golygu 'nid yw'n ddefnyddiol o gwbl' a 4 yn 'ddefnyddiol iawn'. Ychydig o amrywiad sydd rhwng y ffynonellau yn nhermau pa mor ddefnyddiol yw'r cyngor, er bod 'Tiwtoriaid yn y Coleg' ac 'Adran mynediadau'r coleg' yn derbyn sgorau cymedrig sy'n gymharol uwch.

Mae Tabl 49 yn rhoi manylion llawn y cyfraneddau o ddysgwyr AB sy'n nodi pob ffynhonnell cyngor, ac yn dangos yr amrywiaeth mewn ceisio cyngor rhwng y grwpiau oedran. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r rheini yn y grŵp oedran 16-18 yn llawer mwy tebygol o fod wedi ceisio cyngor gan bob un o'r ffynonellau allweddol na'r dysgwyr hŷn. Yr eithriad nodedig yw bod pobl 16-18 oed yn llai tebygol o fod wedi gofyn i'w cyflogwyr na'r rheini sy'n 19-54 oed.

Mae hi werth nodi hefyd bod dysgwyr yn y lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na dysgwyr gwyn o fod wedi ceisio cyngor gan:

- Gyrfa Cymru (40% o'i gymharu â 21%)
- Athrawon yn yr ysgol (45% o'i gymharu â 21%)
- Rhieni/teulu (43% o'i gymharu â 25%)
- Ffrindiau (48% o'i gymharu â 36%)
- Cynghorwr gyrfaol yr ysgol (36% o'i gymharu â 20%)

Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn iau (mae llai o bobl hŷn o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cyfranogi mewn dysgu na phobl wyn o'r un oedran).





**Tabl 3.7: Ffynonellau'r cyngor am ddewis darparwr yn ôl oedran (AB)**

| | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55 + |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1387 | 704 | 555 | 1328 | 733 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 707 | 1153 | 659 | 786 | 1555 | 554 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Gyrfa Cymru | 21 | 55 | 26 | 7 | 7 | 5 |
| Adran mynediadau'r coleg | 27 | 33 | 27 | 26 | 26 | 25 |
| Athrawon yn yr ysgol | 22 | 58 | 26 | 4 | 8 | 5 |
| Athrawon/tiwtoriaid yn y sefydliad darparu | 40 | 59 | 43 | 36 | 30 | 27 |
| Rhieni neu aelodau eraill o'r teulu | 25 | 59 | 36 | 8 | 9 | 7 |
| Ffrindiau | 36 | 58 | 40 | 27 | 26 | 27 |
| Cyflogwr | 24 | 14 | 33 | 31 | 28 | 10 |
| Cynghorwr Gyrfaol yr Ysgol | 20 | 65 | 27 | 1 | 2 | 1 |
| gwasanaeth learndirect | 7 | 9 | 7 | 6 | 6 | 5 |
| gwefan learndirect | 4 | 6 | 3 | 3 | 3 | 4 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb.

Mae dadansoddiad yn ôl y pwnc yn datgelu bod:

- Y rheini sy'n astudio 'Hamdden/teithio/twristiaeth' a 'Llythrennedd/ rhifedd' yn fwy tebygol o fod wedi ceisio cyngor gan 'Gyrfa Cymru' na dysgwyr eraill (48% a 40% yn y drefn honno)
- Y rheini sy'n astudio 'Peirianneg/gweithgynhyrchu' a 'Lletygarwch/ arlwyo' yn fwy tebygol na dysgwyr eraill o fod wedi ceisio cyngor gan eu 'Cyflogwr' (45% a 49% yn y drefn honno)
- Myfyrwyr 'Hamdden/teithio/twristiaeth' a 'Gwyddoniaeth/mathemateg' o leiaf 20% o bwyntiau yn fwy tebygol o fod wedi ymgynghori ag 'Athrawon yn yr ysgol' a 'Chynghorwyr Gyrfaol yr Ysgol'

**Diagram 3.1: Ffynonellau'r cyngor yn ôl y cwrs a ddewiswyd**

**Ffynhonell y cyngor: Cyflogwr**

Peirianneg/
Gweithgynhyrchu
Lletygarwch/Arlwyo

**Ffynhonnell y cyngor: Yn yr ysgol a Chynghorwr Gyrfaol yr Ysgol**

Hamdden/Teithio/Twristiaeth
Gwyddoniaeth
Mathemateg

**Ffynhonnell y cyngor: Gyrfa Cymru**

Hamdden/Teithio/
Twristiaeth
Llythrennedd/Rhifedd

Yn ddiddorol iawn, mae dysgwyr gydag anawsterau dysgu yn llawer mwy tebygol na'r rheini heb yr anawsterau yma o fod wedi ceisio cyngor gan y canlynol:

- 'Gyrfa Cymru' (28% o'i gymharu â 21% o'r rheini sydd heb anawsterau dysgu)
- 'Athrawon yn yr ysgol' (31% o'i gymharu â 21%)
- 'Rhieni/aelodau eraill o'r teulu' (35% o'i gymharu â 24%)
- 'Cynghorwr Gyrfaol yr Ysgol' (30% o'i gymharu â 20%)

Pwyntiau eraill sydd werth eu nodi yn yr adran yma:

- Mae'r rheini sy'n byw yn y De Ddwyrain a'r De Orllewin yn fwy tebygol o nodi 'Gyrfa Cymru' fel ffynhonnell cyngor na dysgwyr AB mewn rhanbarthau eraill (25% a 24% yn y drefn honno)
- Mae dysgwyr AB yng Ngogledd Cymru yn llai tebygol na'r rheini sy'n byw mewn rhanbarthau eraill o fod wedi ceisio cyngor o nifer o ffynonellau cyngor allweddol, sef 'Athrawon yn yr ysgol' (12%), 'Tiwtoriaid yn y coleg' (35%), 'Cynghorwr Gyrfaol yr Ysgol' (7%), 'Rhieni/aelodau eraill o'r teulu' (14%) neu 'Ffrindiau' (29%). Ond, mae'r grŵp yma ychydig bach yn fwy tebygol o fod wedi ceisio cyngor gan 'Gyflogwr' (30%)

### 3.2.5 A wireddwyd y disgwyliadau oedd ganddynt cyn y cwrs

Mae'r mwyafrif eang o ddysgwyr AB yn teimlo bod eu profiad wedi cyfateb â'r disgwyliadau oedd ganddynt cyn y cwrs, sy'n cyfateb â'r lefelau uchel o foddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu.







**Tabl 3.8: A wireddwyd y disgwyliadau oedd ganddynt cyn y cwrs (os oedd rhai ganddynt)**

| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | I ba raddau y gwireddwyd eu disgwyliadau | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli: 4707 | Cyrhaeddwyd | Ni chyrhaeddwyd | Dim disgwyliad |
| Sail: Wedi'i bwysoli: 4707 | % | % | % |
| Faint o waith y mae'n rhaid i chi ei wneud | 79 | 8 | 12 |
| Strwythur y cwrs | 79 | 7 | 13 |
| Faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd | 72 | 3 | 22 |
| Faint o ddyddiadau terfynol y mae'n rhaid cwblhau gwaith ar eu cyfer | 73 | 5 | 20 |
| Cynnwys y cwrs | 84 | 6 | 9 |
| Y dulliau a'r arddulliau dysgu a ddefnyddir yn y sesiynau yma | 79 | 8 | 11 |
| Safonau'r gwaith a ddisgwylir | 86 | 4 | 9 |
| Y mathau o bobl ar y cwrs | 70 | 3 | 25 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'. Mae'r tabl yn dangos canrannau mewn rhesi.

Yn nodedig, roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o ddweud nad oedd ganddynt unrhyw ddisgwyliadau mewn perthynas â:

- 'Y mathau o bobl ar eich cwrs' (25%)
- 'Faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd' (22%)
- 'Faint o ddyddiadau terfynol y mae'n rhaid cwblhau gwaith ar eu cyfer' (20%)

Efallai bod lle i ddarparu mwy o arweiniad am y ddau ddiwethaf o'r materion yma yn arbennig, o gofio bod rhai dysgwyr sydd heb ystyried y byddai cymaint wedi'i ddisgwyl ganddynt yn gadael eu cyrsiau cyn y diwedd.

Mae oedran a rhyw yn ffactorau sy'n dylanwadu ar wireddiad disgwyliadau pobl, fel a ganlyn:

- Mae dynion 19-24 oed yn fwy tebygol na merched o'r un oedran o deimlo bod strwythur y cwrs (84% o'i gymharu â 72%) a faint o ddyddiadau terfynol y byddai'n rhaid cwblhau gwaith ar eu cyfer (81% o'i gymharu â 71%) yn cyfateb â'u disgwyliadau

Pwyntiau eraill sydd werth eu nodi:

- Mae'r rheini sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau yn llai tebygol, yn gyffredinol, o ddweud bod eu disgwyliadau wedi'u gwireddu
- Ychydig o amrywiaeth sydd rhwng y pynciau, ond:
  - Mae'r rheini sy'n astudio 'Lletygarwch/arlwyo' a'r 'Celfyddydau a'r cyfryngau' yn llai tebygol o deimlo bod eu disgwyliadau wedi'u hateb mewn perthynas â faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid iddynt ei gymryd

- Rheini sy'n astudio 'Rheoli/busnes/y gyfraith' yw'r mwyaf tebygol o ddweud nad oedd ganddynt unrhyw ddisgwyliadau am y mathau o bobl fyddai ar eu cyrsiau


Mae'r rhesymau pam nad yw'r disgwyliadau wedi'u gwireddu yn amrywio, ond maent yn fwyaf tebygol o ymwneud â gormod o waith, gormod o ddyddiadau cwblhau, gormod o gyfrifoldeb a gwaith sy'n rhy anodd. Ychydig o ddysgwyr sy'n cwyno am beidio â chael eu hymestyn yn ddigonol!

## 3.3 DYSGU YN Y GWAITH

### 3.3.1 Dewis Darparwr

Mae'r mwyafrif o ymatebwyr sy'n dysgu yn y gwaith (61%) yn dilyn eu rhaglen hyfforddiant yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt. Wrth gymharu â mathau eraill o ddarpariaeth, mae'r gyfran yma'n weddol isel ond mae'n debygol o fod yn ymwneud â'r ffaith fod y cyflogwr yn dweud pa hyfforddiant y mae'r ymatebwyr i'w ddewis – yn wir mae oddeutu chwarter y dysgwyr DyG (23%) yn dweud na chawsant ddewis eu darparwr.

**Siart 3.7: A oedd y dysgwr yn mynychu'r sefydliad dewis cyntaf ?**




Sail: Y dysgwyr DyG i gyd

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Mae'r canlyniadau'n amrywio yn ôl oedran o fewn y rhywiau. Mae dynion yn y grŵp oedran 16-18 yn llai tebygol na merched yn yr un grŵp oedran o ddweud eu bod wedi mynd at eu darparwr dewisol (66% o'i gymharu â 71%). Ar ben hynny, mae dynion yn y grwpiau oedran 16-18 a 19+ yn fwy tebygol na'u cymheiriaid benywaidd o ddweud na chawsant unrhyw ddewis.

**Tabl 3.9: A oedd y dysgwr yn mynychu'r sefydliad dewis cyntaf yn ôl oedran o fewn y rhywiau a'r boddhad cyffredinol (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Oedran o fewn y rhywiau | | | | Boddhad cyffredinol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr DyG i gyd | Cyfan-swm | Gwryw 16-18 | Gwryw 19+ | Benyw 16-18 | Benyw 19+ | Eithriadol | Iawn | Gweddol | Difater/ anfodlon |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 218 | 361 | 133 | 288 | 240 | 458 | 240 | 61 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 220 | 361 | 136 | 285 | 235 | 463 | 242 | 60 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Ia – y dewis cyntaf | 61 | 65 | 55 | 73 | 61 | 66 | 66 | 53 | 41 |
| Na – nid y dewis cyntaf | 7 | 12 | 4 | 10 | 3 | 7 | 5 | 8 | 9 |
| Ni chefais ddewis | 23 | 15 | 32 | 9 | 25 | 18 | 21 | 29 | 39 |
| Ni ystyriais opsiwn arall | 9 | 7 | 8 | 9 | 10 | 9 | 8 | 10 | 11 |
| Ni wn | * | * | * | - | 1 | * | 1 | * | _ |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Mae boddhad cyffredinol gyda'r dysgu yn gostwng wrth i'r gyfran o ddysgwyr sy'n mynychu'r sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt ostwng (Tabl 53).


Mae pwyntiau eraill sydd werth eu crybwyll yn cynnwys:

- Mae'r gyfran o ymatebwyr sy'n hyfforddi yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt yn weddol gyson rhwng y rhanbarthau
- Mae'r ymatebwyr sy'n astudio 'Rheoli/busnes/ y gyfraith' neu 'Iechyd/gofal cymdeithasol' ychydig bach yn fwy tebygol na'r rheini sy'n astudio pynciau eraill o fod yn hyfforddi yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (65%)
- Mae'r rheini sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu hyfforddiant yn llai tebygol o fod wedi'u cyfateb gyda'r darparwr oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (55% o'i gymharu â 63% sydd heb feddwl yn ddifrifol am adael)

### 3.3.2 Dewis hyfforddiant

Yn nhermau dewis hyfforddiant, mae'r mwyafrif eang o fyfyrwyr sy'n Dysgu yn y Gwaith (81%) yn dilyn y pwnc a'r cymhwyster yr oeddent eisiau ei wneud fwyaf. Ond, mae 5% yn dweud nad ydynt yn astudio eu dewis cyntaf, tra bo 8% yn teimlo na chawsant unrhyw ddewis ac roedd 6% heb ystyried opsiwn arall.

**Siart 3.8: A oedd y dysgwr yn derbyn yr hyfforddiant oedd yn ddewis cyntaf ganddynt**




Sail: Yr holl ddysgwyr DyG

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr ateb 'ni wn'

Unwaith eto, mae oedran yn dylanwadu ar y canlyniadau (Tabl 55). Derbyniodd cyfran ychydig bach yn llai o'r rheini yn y grŵp oedran 19+ le ar y cwrs hyfforddi oedd yn ddewis cyntaf ganddynt, o'i gymharu ag ymatebwyr iau (79% o'i gymharu â 85%). Mae ymatebwyr hŷn hefyd ychydig bach yn fwy tebygol o deimlo nad oedd ganddynt unrhyw ddewis mewn perthynas ag opsiynau hyfforddiant (10% yn y categori 19+ o'i gymharu â 3% yn y grŵp oedran 16-18).

Nid oes gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhanbarthau, gyda chyfraneddau tebyg o ymatebwyr yn dilyn cwrs hyfforddiant oedd yn ddewis cyntaf ganddynt yn y pedair ardal.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd nad oedd eu cwrs hyfforddi yn ddewis cyntaf ganddynt (48 o ymatebwyr) nodi beth oedd eu hyfforddiant dewis cyntaf. Y cyrsiau hyfforddi a nodwyd amlaf oedd:

- 'Adeiladu' (crybwyllwyd hyn 10 o weithiau)
- 'Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu' (crybwyllwyd hyn 9 o weithiau)
- 'Peirianneg a gweithgynhyrchu' (crybwyllwyd hyn 4 o weithiau)
- 'Busnes, gweinyddu a'r gyfraith' (crybwyllwyd hyn 4 o weithiau)
- 'Adwerthu, dosbarthiad, gwasanaethau'r cwsmer' (yn cynnwys trin gwallt) (crybwyllwyd hyn 4 o weithiau)
- 'Gwahanol gymwysterau/ gwahanol lefelau o hyfforddiant' (crybwyllwyd hyn 4 o weithiau)

Gofynnwyd i'r ymatebwyr oedd heb gael lle gyda'r darparwr neu ar y cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt roi'r rhesymau am hyn. Roedd hwn yn gwestiwn agored heb opsiynau, a gellid rhoi mwy nag un rheswm.



**Tabl 3.10: A oedd y dysgwyr yn derbyn yr hyfforddiant oedd yn ddewis cyntaf ganddynt yn ôl eu hoedran a'u boddhad cyffredinol (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Oedran | | Boddhad cyffredinol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr DyG i gyd | Cyfan-swm | 16-18 | 19+ | Eithriadol | Iawn | Gweddol | Difater/ Anfodlon |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 351 | 649 | 240 | 458 | 240 | 61 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 355 | 646 | 235 | 463 | 242 | 60 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Ia – y dewis cyntaf | 81 | 85 | 79 | 84 | 86 | 74 | 63 |
| Na – nid y dewis cyntaf | 5 | 6 | 4 | 2 | 4 | 7 | 7 |
| Ni chefais unrhyw ddewis | 8 | 3 | 10 | 6 | 6 | 10 | 19 |
| Ni ystyriais opsiwn arall | 6 | 6 | 5 | 7 | 3 | 8 | 11 |
| Ni wn | 1 | - | 1 | 1 | 1 | - | - |

Y rhesymau a nodwyd amlaf oedd nad oeddent wedi gallu cael lle ar eu rhaglen hyfforddiant ddewisedig neu nad oedd darparwr arbennig yn darparu'r hyfforddiant yr oedd yr ymatebwr ei eisiau. Mae'r rhestr nesaf yn crynhoi'r rhesymau a nodwyd amlaf (wedi'u crybwyll 5 neu fwy o weithiau allan o gyfanswm o 106):

- 'Ni allwn gael lle ar fy nghwrs hyfforddi dewisedig' (crybwyllwyd hyn 17 o weithiau)
- 'Nid oedd lle ar y cwrs hyfforddi' (crybwyllwyd hyn 15 o weithiau)
- 'Nid oedd y darparwr yn darparu'r hyfforddiant yr oeddwn ei eisiau' (crybwyllwyd hyn 13 o weithiau)
- 'Problemau teithio' (crybwyllwyd hyn 7 o weithiau)
- 'Nid oeddwn yn mwynhau'r hyfforddiant dewis cyntaf/ doeddwn i ddim yn hapus yno' (crybwyllwyd hyn 8 o weithiau)
- Mae hwn yn well/yr hyfforddiant/cyfleoedd/profiad yn well' (crybwyllwyd hyn 6 o weithiau)
- 'Gadewais y cwrs/gadewais y swydd/trosglwyddais i un arall, ni roddwyd rheswm' (crybwyllwyd hyn 5 o weithiau)
- 'Roeddwn eisiau gweithio ar yr un pryd/ cael cyflog/ni fyddwn wedi gallu gwneud hynny' (crybwyllwyd hyn 5 o weithiau)
- 'Ni fyddwn wedi derbyn cyflog ar gwrs hyfforddiant arall/cyflog is/dim grant' (crybwyllwyd hyn 5 o weithiau)

### 3.3.3 Y rhesymau am ddewis y darparwr

Ymysg y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith, mae'r rhesymau mwyaf cyffredin am ddewis darparwr hyfforddiant wedi'u crybwyll yn y tabl nesaf – 'Lleoliad cyfleus' a 'Chynnig yr hyfforddiant roeddwn ei eisiau' yw'r rhesymau a nodwyd amlaf.

**Tabl 3.11: Y rhesymau am ddewis darparwr yn ôl oedran (Dysgu yn y Gwaith) (Crybwyllwyd hyn gan 3% neu fwy o'r cyfanswm)**

| | | Oedran | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y Dysgwyr DyG i gyd | Cyfanswm | 16-18 | 19+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 351 | 649 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 355 | 646 |
| | % | % | % |
| Lleoliad cyfleus | 28 | 26 | 29 |
| Yn cynnig yr hyfforddiant roeddwn ei eisiau | 25 | 22 | 27 |
| Ni chefais ddewis – y cyflogwr wnaeth y dewis | 16 | 7 | 21 |
| Mae ganddo'r enw gorau (yn gyffredinol) | 9 | 12 | 8 |
| I ddatblygu/i gael cymwysterau | 9 | 10 | 9 |
| Roedd fy ffrindiau'n mynd yno/argymhellwyd y lle gan gyfaill | 6 | 10 | 4 |
| Roeddwn eisiau swydd dda | 5 | 4 | 6 |
| Ni chefais ddewis – nid oedd darparwyr eraill yn yr ardal | 4 | 5 | 3 |
| Argymhellwyd y darparwr gan y cynghorwr gyrfaol | 4 | 6 | 3 |
| Roeddwn eisiau gweithio/ennill cyflog | 4 | 4 | 4 |
| Roeddwn eisiau hyfforddiant mewn swydd yn y gweithle | 4 | 3 | 5 |
| Yn cynnig yr hyfforddiant/cwrs ar amser sy'n gyfleus i mi | 3 | 3 | 3 |
| Mae ganddo'r enw gorau am fy nghwrs/hyfforddiant i | 3 | 3 | 2 |
| I gael profiad ymarferol | 3 | 4 | 2 |
| I'm helpu i gael swydd/maen nhw'n canfod swydd i chi | 3 | 3 | 3 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Fel y gwelwch uchod, mae cyflogwyr yn chwarae mwy o ran ym mhroses ddethol yr hyfforddeion sy'n 19+ oed. Mae hyfforddeion 16-18 oed ychydig bach yn fwy tebygol o gael eu dylanwadu gan ffrindiau (yn arbennig hyfforddeion benywaidd yn y grŵp oedran yma (15%)) a gan enw da'r darparwr.

Mae 'Lleoliad cyfleus' yn bwysicach ar gyfer rhai grwpiau, fel a ganlyn:

- Dynion yn y grwpiau 16-18 oed a 19+ oed (30% a 33% yn y drefn honno)
- Rheini sy'n astudio cyrsiau 'Adeiladu' sy'n gwrs wedi'i ddominyddu gan ddynion (38%)
- Ymatebwyr yn dilyn cyrsiau 2+ mlynedd o hyd (mae 39% yn nodi hyn o'i gymharu â 28% neu'n llai ar gyfer cyrsiau byrrach)





Ymhob rhanbarth, 'lleoliad cyfleus' yw'r rheswm a nodir amlaf am ddewis eu darparwr, ac eithrio rhanbarth y De Ddwyrain, lle mae 'Cynnig yr hyfforddiant yr oeddwn ei eisiau' wedi'i nodi'n amlach (22% a 27% yn y drefn honno).

### 3.3.4 Ffynonellau'r cyngor yn ôl y cwrs a ddewiswyd

**Siart 3.9: Ffynonellau'r cyngor wrth ddewis darparwr**

| | | Y Sgôr am Ansawdd |
|---|---|---|
| gwefan learndirect | 4% | 3.2 |
| Gwasanaeth learndirect | 7% | 3.4 |
| Cynghorwr Gyrfaol yr Ysgol | 33% | 3.4 |
| Cyflogwyr | 55% | 3.5 |
| Cyfeillion | 37% | 3.4 |
| Rhieni neu deulu | 39% | 3.3 |
| Y tiwtoriaid yn y sefydliad darparu | 36% | 3.6 |
| Athrawon yn yr ysgol | 26% | 3.3 |
| Mynediadau'r coleg | 16% | 3.4 |
| Gyrfa Cymru | 43% | 3.4 |

Sail: Y dysgwyr DyG i gyd (1000)

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Nid yw'n syndod mai'r cyflogwr yw ffynhonnell allweddol y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith ar gyfer cael cyngor – mae 55% yn nodi'r ffynhonnell yma. Yn nhermau'r Sgorau am Ansawdd sy'n ymwneud â pha mor ddefnyddiol yw pob ffynhonnell, ychydig o amrywiaeth a geir lle mae 1 yn golygu 'nid yw'n ddefnyddiol o gwbl' a 4 yn golygu 'defnyddiol iawn'. Ond, mae 'Cyflogwyr' a 'Thiwtoriaid yn y sefydliad darparu' yn sgorio'n gymharol uwch, tra bo 'gwefan learndirect', 'Rhieni/teulu' ac 'Athrawon yn yr ysgol' yn sgorio'n gymharol is. (siart 5.7).

Mae dadansoddiad yn ôl oedran yn dangos patrymau ceisio cyngor sy'n amlwg yn wahanol rhwng y grwpiau oedran 16-18 a 19+. Mae gwahaniaeth yn y ffordd y ceisir cyngor gan y rhywiau hefyd.

Gallwn grynhoi'r negeseuon allweddol fel yma:

- Mae pobl 16-18 oed yn derbyn mwy o gyngor o ystyried eu bod yn llawer mwy tebygol nag ymatebwyr hŷn o fod wedi cael cysylltiad â 'Gyrfa Cymru' ac 'Athrawon yn yr ysgol'. Mae dynion yn fwy tebygol na merched o nodi'r ffynonellau yma
- Mae'r un peth yn wir am 'Gynghorwyr Gyrfaol yr Ysgol' ac mae hyn wedi'i ddehongli i olygu naill ai Cynghorwr Gyrfa Cymru neu athro/athrawes yn yr ysgol. Mae 53% o bobl 16-18 oed yn nodi'r ffynhonnell yma, o'i gymharu â 23% o ymatebwyr hŷn

**Tabl 3.12: Ffynonellau'r cyngor a geisir wrth ddewis darparwr yn ôl oedran y dysgwyr o fewn y rhywiau a hyd y cwrs (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Oedran o fewn y rhywiau | | | | Hyd yr hyfforddiant | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr DyG i gyd | Cyfan-swm | Gwryw 16-18 | Gwryw 19+ | Benyw 16-18 | Benyw 19+ | Hyd at 1 fl | > 1fl hyd at 2 fl | Mwy na 2 fl |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 218 | 361 | 133 | 288 | 330 | 244 | 286 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 220 | 361 | 136 | 285 | 333 | 246 | 281 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Gyrfa Cymru | 43 | 64 | 33 | 66 | 27 | 43 | 42 | 44 |
| Swyddfa adran mynediadau'r coleg | 16 | 17 | 18 | 17 | 13 | 12 | 18 | 22 |
| Athrawon yn yr ysgol | 26 | 40 | 25 | 34 | 12 | 18 | 31 | 34 |
| Athrawon/tiwtoriaid yn y sefydliad darparu | 36 | 40 | 39 | 31 | 30 | 29 | 41 | 43 |
| Rhieni neu aelodau eraill o'r teulu | 39 | 56 | 36 | 50 | 23 | 28 | 41 | 54 |
| Ffrindiau | 37 | 46 | 33 | 49 | 31 | 34 | 38 | 43 |
| Cyflogwr | 55 | 48 | 58 | 55 | 56 | 48 | 56 | 61 |
| Cynghorwr Gyrfaol yr Ysgol | 33 | 53 | 28 | 52 | 16 | 24 | 40 | 42 |
| gwasanaeth learndirect | 7 | 9 | 7 | 6 | 6 | 5 | 7 | 8 |
| gwefan learndirect | 4 | 4 | 4 | 6 | 2 | 5 | 3 | 3 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

- Mae 54% o bobl 16-18 oed yn nodi 'Rhieni/aelodau eraill o'r teulu' fel ffynhonnell y cyngor, o'i gymharu â 30% o bobl 19+ oed
- 'Cyflogwyr' yw'r ffynhonnell a nodir amlaf ar gyfer yr ymatebwyr hŷn, ac mae'r grŵp yma ychydig bach yn fwy tebygol o nodi eu 'Cyflogwyr' fel ffynhonnell cyngor na'r rheini yn y grŵp oedran 16-18 (57% o'i gymharu â 51% yn y drefn honno)

Mae'r pynciau astudio wedi cael rhywfaint o ddylanwad ar y ffynonellau a ddefnyddir gan yr ymatebwyr i gael cyngor. Mae'r diagram nesaf yma'n dangos y pynciau a astudir gan y bobl hynny sy'n fwyaf tebygol o ymgynghori â'r ffynonellau mwyaf poblogaidd – 'Cyflogwyr' a 'Gyrfa Cymru'.





**Tabl 3.2: Ffynonellau'r cyngor yn ôl y cwrs a ddewiswyd**

**Ffynonellau cyngor: Y Cyflogwr**

Adeiladu/Peirianneg/ Gweithgynhyrchu

Iechyd/Gofal cymdeithasol

**Ffynonellau cyngor: Gyrfa Cymru**

Lletygarwch/Hamdden/ Teithio/Twristiaeth/ Gwasanaeth Cwsmeriaid

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Adeiladu/Peirianneg/ Gweithgynhyrchu

Mae hyd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar geisio cyngor hefyd. Yn gyffredinol, po isaf oedd yr ymrwymiad amser, y lleiaf tebygol oedd hi fod yr ymatebwyr wedi ceisio cyngor gan unrhyw un o'r ffynonellau allweddol.

### 3.3.5 A wireddwyd y disgwyliadau oedd gan y dysgwyr cyn y cwrs

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith wedi gwybod beth i'w ddisgwyl er nad oedd pumed rhan o'r ymatebwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl mewn perthynas â'r 'Mathau o bobl ar y cwrs hyfforddi'.

**Tabl 3.13: A wireddwyd y disgwyliadau oedd ganddynt cyn y cwrs (os oedd rhai ganddynt) (DyG)**

| | I ba raddau y gwireddwyd y disgwyliadau oedd ganddynt | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd | Do | Naddo | Dim disgwyliadau |
| Sail: Heb ei bwysoli: 1000 | | | |
| Sail: Wedi'i bwysoli: 1001 | | | |
| | % | % | % |
| Faint o waith y byddai'n rhaid i chi ei wneud | 82 | 5 | 12 |
| Strwythur yr hyfforddiant | 82 | 4 | 13 |
| Faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd | 80 | 4 | 15 |
| Faint o ddyddiadau terfynol y mae'n rhaid cwblhau gwaith ar eu cyfer | 80 | 5 | 14 |
| Cynnwys yr hyfforddiant | 82 | 4 | 13 |
| Y dulliau a'r arddulliau dysgu a ddefnyddir yn y sesiynau yma | 80 | 4 | 15 |
| Safonau'r gwaith a ddisgwylir | 88 | 3 | 9 |
| Y mathau o bobl ar y cwrs | 75 | 2 | 21 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn';
Mae'r tabl yn dangos canrannau mewn rhesi

Pan ddadansoddir y canlyniadau yn ôl newidynnau demograffig a chyrsiol, mae rhai patrymau cyffredinol yn dod i'r amlwg, yn nodedig:

- Mae'n ymddangos bod gan y merched yn yr ystod oedran 19+ well syniad o faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid iddynt ei gymryd na dynion yn yr un grŵp oedran (82% o'i gymharu â 76%)
- Mae dynion yn y grŵp oedran 16-18 ychydig bach yn fwy tebygol na merched yn yr un ystod oedran o fod â disgwyliadau cywir am 'Gynnwys yr hyfforddiant' (87% o'i gymharu â 81%) a 'Dulliau/arddulliau dysgu'. (85% o'i gymharu â 78%)
- Mae'r rheini sy'n astudio 'Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu' a 'Lletygarwch/arlwyo/hamdden/teithio/adwerthu/gwasanaeth y cwsmer' yn llai tebygol na'r rheini ar raglenni eraill o fod wedi gwybod faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid iddynt ei gymryd. (23% a 20% o'i gymharu â 15% yn gyffredinol)
- Fel gydag AB, mae'r rheini sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu hyfforddiant yn llai tebygol nag ymatebwyr eraill, yn gyffredinol, o ddweud bod eu disgwyliadau wedi'u gwireddu





### 3.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU

#### 3.4.1 Dewis Darparwr

Mae'r mwyafrif eang o ddysgwyr mewn addysg barhaus oedolion wedi'i hachredu (78%) yn astudio yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt, ac mae'r gyfran yma'n gyson i raddau mawr rhwng y rhywiau a'r grwpiau oedran. Er bod 10% o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd ganddynt ddewis mewn perthynas â'r darparwr, mae'r gyfran yma'n gyson rhwng y ddau ranbarth y gellir gwneud cymhariaeth rhyngddynt (y De Orllewin a'r De Ddwyrain). Mae hyn yn awgrymu nad yw'r hygyrchedd gwahaniaethol yn fater rhanbarthol ar gyfer y grŵp yma o ddysgwyr.

**Siart 3.10: A oedd y dysgwyr yn mynychu'r sefydliad oedd yn ddewis cyntaf ganddynt?**



Ia - y dewis cyntaf 78%
Ni chefais ddewis 10%
Ni ystyriais opsiwn arall 7%
Na - nid y dewis cyntaf 4%

Sail: Y dysgwyr ABO i gyd

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Mae'n ymddangos bod amseriad cwrs yn dylanwadu ar lwyddiant yr ymatebwyr i fynychu sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt. Mae myfyrwyr ar gyrsiau gyda'r nos ychydig bach yn fwy tebygol o fod yn mynychu eu dewis cyntaf na myfyrwyr yn ystod y dydd, (81% a 76% yn y drefn honno). Mae myfyrwyr sydd ar gyrsiau yn ystod y dydd ychydig bach yn fwy tebygol o deimlo na chawsant unrhyw ddewis mewn perthynas â'u darparwyr.

#### 3.4.2 Dewis Cwrs

Mae'r mwyafrif llethol o ymatebwyr (92%) yn astudio ar gwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt. Unwaith eto, mae'r gyfran yma'n gyson beth bynnag fo'r rhyw a'r grŵp oedran.

Mae gwahaniaeth bychan yn dod i'r amlwg wrth gymharu rhanbarthau – mae'r rheini yn y De Orllewin ychydig bach yn fwy tebygol na'r rheini yn y De Ddwyrain o fod yn astudio ar gwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (96% o'i gymharu â 91%).

**Siart 3.11: A oedd y dysgwr yn mynychu'r cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddo?**



Ia - y dewis cyntaf 92%
Ni chefais ddewis 4%
Ni ystyriais opsiwn arall 2%
Na - nid y dewis cyntaf 2%

Sail: Y dysgwyr ABO i gyd

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Dim ond nifer fechan iawn o ddysgwyr ABO (2%) oedd heb gael lle gyda'r darparwr neu ar y cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt, ac nid yw'r gyfran yma'n ddigon ar gyfer gwneud dadansoddiad meintiol. Dyma rai o'r rhesymau a roddwyd ganddynt:

"Nid oedd un ar gael ar y noson oedd yn rhydd gen i"

"Dim ond cyrsiau cyfrifiadurol lefel uwch oedd ganddynt, ond roeddwn i eisiau cwrs sylfaenol"

"Nid oedd digon o aelodau ar y cwrs"

"[Nid hwn oedd fy newis cyntaf] ond dyma'r lle agosaf oedd yn gwneud Sbaeneg"

### 3.4.3 Y rhesymau am ddewis y darparwr

Y prif ffactorau sy'n gwthio'r grŵp dysgwyr yma i ddewis darparwr arbennig yw bod y lle'n gyfleus a bod cyrsiau arbennig ar gael yno, ac mae hyn yn gyson rhwng y rhywiau, grwpiau oedran a'r ddau ranbarth y gellir eu cymharu (Y De Orllewin a'r De Ddwyrain).

**Tabl 3.14: Y rhesymau am ddewis y darparwr (Addysg Barhaus Oedolion) (3% neu fwy wedi nodi'r rheswm)**

| Sail: Y dysgwyr ABO i gyd | 508 |
|---|---|
| | % |
| Lleoliad cyfleus | 72 |
| Yn cynnig yr hyfforddiant roeddwn ei eisiau | 28 |
| Yn cynnig yr hyfforddiant/cwrs ar amser sy'n gyfleus i mi | 12 |
| Roedd fy ffrindiau'n mynd yno/ argymhellwyd y lle gan gyfaill | 5 |
| Mae ganddo'r enw gorau (yn gyffredinol) | 4 |
| I ddatblygu/i gael cymwysterau | 4 |
| Ni chefais ddewis – dim darparwyr eraill yn yr ardal | 4 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb





Pwyntiau eraill sydd werth eu nodi:

- Mae ymatebwyr sydd mewn swydd ychydig bach yn fwy tebygol o nodi 'lleoliad cyfleus' fel rheswm am ddewis eu sefydliad darparu (76% o'i gymharu â 68% o'r rheini nad ydynt yn gweithio)
- Mae cyfran fwy o'r rheini sy'n astudio gyda'r nos (77%) nag yn ystod y dydd (69%) wedi nodi 'lleoliad cyfleus'
- Mae ymatebwyr gydag anableddau/anawsterau dysgu ychydig bach yn fwy tebygol o nodi 'Roedd fy ffrindiau'n mynd yno/argymhellwyd y lle gan gyfaill' fel rheswm am ddewis eu sefydliad darparu (10% o'i gymharu â 4%)

### 3.4.4 Ffynonellau'r cyngor wrth ddewis darparwr

**Siart 3.12: Ffynonellau'r cyngor am ddewis darparwr (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | % | Quality |
|---|---|---|
| gwefan learndirect | 2% | 3.5 |
| Gwasanaeth learndirect | 5% | 3.7 |
| Cynghorwr Gyrfaol yr Ysgol | 2% | 4.0 |
| Cyflogwyr | 6% | 3.5 |
| Cyfeillion | 31% | 3.6 |
| Rhieni neu deulu | 14% | 3.7 |
| Y tiwtoriaid yn y sefydliad darparu | 22% | 3.9 |
| Athrawon yn yr ysgol | 7% | 3.7 |
| Mynediadau'r coleg | 13% | 3.6 |
| Gyrfa Cymru | 6% | 3.2 |

Sail: Y dysgwyr ABO i gyd (508 – Nodwch: mae'r seiliau'n fach ar gyfer rhai ffynonellau)

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Mae patrwm y ceisio cyngor yn amlwg wahanol ymysg y dysgwyr ABO wedi'i hachredu. Yn arbennig, mae yna ddibynnu ar ffrindiau am gyngor yn hytrach na'r ffynonellau gwybodaeth mwy ffurfiol sydd wedi'u ffafrio gan ddysgwyr AB a Dysgu yn y Gwaith. Mae'r sgorau am ansawdd (lle mae 1 yn cyfateb â 'nid yw'n ddefnyddiol iawn' a 4 yn 'ddefnyddiol iawn') yn dangos amrywiaeth sylweddol rhwng ffynonellau cyngor, ond dylid bod yn ofalus wrth ymdrin â'r rhain, am fod y seiliau ar gyfer defnyddioldeb rhai ffynonellau cyngor yn rhy fach i'w dadansoddi'n effeithiol.

Dyma rai pwyntiau eraill sydd werth eu nodi am ffynonellau cyngor:

- Mae tabl 65 yn dangos bod ymatebwyr ABO yn y grŵp oedran 16-34, fel ymatebwyr AB a DyG, yn fwy tebygol o nodi 'Gyrfa Cymru' fel ffynhonnell cyngor (ond, dylid trin y canlyniadau ar gyfer y grŵp oedran yma yn ofalus oherwydd maint bychan y sail)
- Mae'r rheini gydag anableddau/ anawsterau dysgu yn fwy tebygol o fod wedi ceisio cyngor gan 'Swyddfa adran mynediadau'r coleg' na dysgwyr eraill yn y grŵp yma

**Tabl 3.15: Ffynonellau'r cyngor am ddewis darparwr yn ôl oedran (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | | Oedran | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | 16-34 | 35-54 | 55 + |
| Sail (Heb ei bwysoli) | 508 | 74 | 194 | 239 |
| | % | % | % | % |
| Gyrfa Cymru | 6 | 18 | 6 | 2 |
| Swyddfa adran mynediadau'r coleg | 13 | 14 | 12 | 13 |
| Athrawon yn yr ysgol | 7 | 15 | 8 | 4 |
| Athrawon/tiwtoriaid yn y sefydliad darparu | 22 | 28 | 20 | 21 |
| Rhieni neu aelodau eraill o'r teulu | 14 | 26 | 10 | 14 |
| Ffrindiau | 31 | 35 | 28 | 32 |
| Cyflogwr | 6 | 7 | 12 | 2 |
| Cynghorwr gyrfaol yr ysgol | 2 | 7 | 1 | 1 |
| gwasanaeth learndirect | 5 | 5 | 5 | 5 |
| gwefan learndirect | 2 | 3 | 3 | 2 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb;
Mae'r sail heb ei bwysoli wedi'i ddangos am nad oedd y data ABO wedi'i bwysoli

### 3.4.5 A atebwyd y disgwyliadau oedd ganddynt cyn y cwrs?

Yn gyffredinol, mae disgwyliadau'r dysgwyr ABO wedi'u hateb. Mae'r eithriad mwyaf nodedig yn ymwneud â faint o gyfrifoldeb a dyddiadau cwblhau fyddai ganddynt, lle mae lleiafrifoedd sylweddol o ymatebwyr wedi dweud nad oedd ganddynt unrhyw ddisgwyliadau yn y meysydd yma (Tabl 66).



**Tabl 3.16: A wireddwyd y disgwyliadau oedd ganddynt cyn y cwrs?**

| | **I ba raddau y gwireddwyd y disgwyliadau** | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr ABO i gyd (508) | Do | Naddo | Dim disgwyliad |
| | % | % | % |
| Faint o waith y mae'n rhaid i chi ei wneud | 84 | 4 | 12 |
| Strwythur y cwrs | 82 | 5 | 13 |
| Faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd | 65 | 1 | 30 |
| Faint o ddyddiadau terfynol y mae'n rhaid cwblhau gwaith ar eu cyfer | 65 | 3 | 26 |
| Cynnwys yr hyfforddiant | 85 | 6 | 9 |
| Y dulliau a'r arddulliau dysgu a ddefnyddir yn y sesiynau yma | 85 | 6 | 9 |
| Safonau'r gwaith a ddisgwylir | 87 | 3 | 9 |
| Y mathau o bobl ar y cwrs | 74 | 1 | 24 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'; Mae'r tabl yn dangos canrannau mewn rhesi.


Mae rhai amrywiadau rhwng grwpiau demograffig neu newidynnau cyrsiol, ac eithrio'r canlynol:

- Mae'r rheini sy'n gweithio yn llai tebygol nag ymatebwyr ABO nad ydynt yn gweithio o ddweud na wireddwyd eu disgwyliadau mewn perthynas â'r 'dulliau a'r arddulliau dysgu a ddefnyddir yn y sesiynau yma' (79% o'i gymharu â 89% nad ydynt yn gweithio)
- Maen nhw hefyd yn llai tebygol nag ymatebwyr nad ydynt yn gweithio i ddweud bod eu disgwyliadau wedi'u gwireddu mewn perthynas â'r 'Mathau o bobl ar y cwrs' (67% o'i gymharu â 79% nad ydynt yn gweithio)

## 3.5 CYMHARIAETH RHWNG Y GWAHANOL FATHAU O DDARPARIAETH


Er bod y mwyafrif o'r dysgwyr yn gyffredinol yn astudio yn y sefydliad darparu ac ar y cwrs/hyfforddiant oedd yn ddewis cyntaf ganddynt, mae cyfraneddau llai o ddysgwyr DyG yn astudio yn y sefydliad darparu neu ar y rhaglen hyfforddi oedd yn ddewis cyntaf ganddynt. Mae'n debyg bod hyn yn ymwneud â dylanwadau'r cyflogwr ar ddysgwyr DyG. Yn wir, mae bron i chwarter y dysgwyr DyG yn teimlo na chawsant unrhyw ddewis ynghylch lle'r oedden nhw'n mynd i astudio (23%).

**Siart 3.13:Y darparwr a ddewiswyd yn ôl y math o ddarpariaeth**




(Sail: AB 4707; DyG 1000; ABO 508)

**Siart 3.14: Dewis y cwrs yn ôl y math o ddarpariaeth**




(Sail: AB 4707; DyG 1000; ABO 508)

O ran dewis darparwr, mae 'lleoliad cyfleus' yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar bob un o'r mathau o ddarpariaeth, ond, mae'n llai pwysig yn gyffredinol ar gyfer myfyrwyr sy'n dysgu yn y gwaith. Ffactor arall sy'n allweddol ymhob gwahanol fath o ddarpariaeth yw bod y sefydliad 'Yn cynnig yr hyfforddiant roeddwn ei eisiau'.

**Tabl 3.17:Y rhesymau am ddefnyddio'r darparwr**

| Sail:Y dysgwyr i gyd | AB | DyG | ABO |
|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Lleoliad cyfleus | 60 | 28 | 72 |
| Yn cynnig yr hyfforddiant roeddwn ei eisiau | 27 | 25 | 28 |
| Mae ganddo'r enw gorau (yn gyffredinol) | 12 | 9 | 4 |
| Mae ganddo'r enw gorau am gyfraddau pasio | 2 | 1 | * |
| Mae ganddo'r enw gorau am fy nghwrs/hyfforddiant | 3 | 3 | * |
| Roedd fy ffrindiau'n mynd yno/argymhellwyd y lle gan gyfaill | 10 | 6 | 5 |
| Argymhellwyd y lle gan gynghorwr gyrfaoedd/ysgol | 2 | 4 | 1 |
| Yn cynnig yr hyfforddiant/cwrs ar amseroedd sy'n gyfleus i mi | 5 | 3 | 12 |
| Ni chefais ddewis - y cyflogwr wnaeth y dewis | 8 | 16 | 1 |
| Ni chefais ddewis - yr unig un dderbyniodd fi | 1 | 1 | * |
| Ni chefais ddewis - nid oedd darparwyr eraill yn yr ardal | 3 | 4 | 4 |
| Roedd yn cynnig hyfforddiant/addysg yn yr iaith Gymraeg | * | * | 1 |
| I ddatblygu/i gael cymwysterau | 5 | 9 | 4 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Mae'r patrymau ceisio cyngor yn gwahaniaethu rhwng y grwpiau dysgwyr, gydag un o'r gwahaniaethau mwyaf amlwg yn ymwneud â dysgwyr DyG, sy'n llawer mwy tebygol na dysgwyr eraill o geisio cyngor gan eu cyflogwr a/neu Gyrfa Cymru na dysgwyr eraill.Ymhob math o ddarpariaeth, mae'r dysgwyr 16-18 oed yn llawer mwy tebygol o geisio cyngor na dysgwyr hŷn ac o fod wedi ymgynghori ag amrediad o ffynonellau.

Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, mae'r dysgwyr iau yn gwneud defnydd mawr o staff yr ysgol neu Gyrfa Cymru. Er bod rhain wedi'u hystyried yn ddefnyddiol, mae yna duedd i roi mwy o werth i'r cyngor a dderbynir o'r cyrchnod h.y. y staff yn y sefydliad darparu y maent yn ei fynychu erbyn hyn neu'r cyflogwr y maent yn gweithio iddo/iddi. Efallai mai'r rheswm am hynny yw eu bod nhw'n gallu cynnig gwybodaeth fwy penodol.

**Tabl 3.18: Ffynonellau'r cyngor wrth ddewis darparwr**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | AB | DyG | ABO |
|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Gyrfa Cymru | 21 | 43 | 6 |
| Adran mynediadau'r coleg | 27 | 16 | 13 |
| Athrawon yn yr ysgol | 22 | 26 | 7 |
| Tiwtoriaid yn y coleg/sefydliad darparu | 40 | 36 | 22 |
| Rhieni neu aelodau o'u teuluoedd | 25 | 39 | 14 |
| Ffrindiau | 36 | 37 | 31 |
| Cyflogwr | 24 | 55 | 6 |
| Cynghorwr gyrfaol yr ysgol | 20 | 33 | 2 |
| gwasanaeth learndirect | 7 | 7 | 5 |
| gwefan learndirect | 4 | 4 | 2 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Mae'r sgorau a roddir am ddefnyddioldeb y cyngor yn weddol debyg rhwng y mathau o ddarpariaeth gyda thiwtoriaid y darparwr/coleg yn derbyn y sgôr uchaf. Mae cyngor y cyflogwr yn fwy defnyddiol i ddysgwyr DyG fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl ac mae dysgwyr AB yn rhoi sgôr uwch i'r cyngor a gânt gan rieni neu aelodau eraill o'r teulu.



**Tabl 3.19: Pa mor ddefnyddiol yw'r gwahanol ffynonellau cyngor wrth ddewis darparwr - y sgôr cymedrig allan o 4, lle mae 4 yn ddefnyddiol iawn**

| Sail:Y dysgwyr i gyd | AB | DyG | ABO |
|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | | | |
| Gyrfa Cymru | 3.4 | 3.4 | - |
| Adran mynediadau'r coleg | 3.6 | 3.4 | - |
| Athrawon yn yr ysgol | 3.4 | 3.3 | - |
| Tiwtoriaid yn y coleg/sefydliad darparu | 3.7 | 3.6 | 3.9 |
| Rhieni neu aelodau o'u teuluoedd | 3.5 | 3.3 | - |
| Ffrindiau | 3.5 | 3.4 | 3.6 |
| Cyflogwr | 3.3 | 3.5 | - |
| Cynghorwr gyrfaol yr ysgol | 3.4 | 3.4 | - |
| gwasanaeth learndirect | 3.5 | 3.4 | - |
| gwefan learndirect | 3.4 | 3.2 | - |

(- yn dynodi bod maint y sail yn rhy fach) Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

### 3.5.1 Eu disgwyliadau am ofynion y cwrs

Yn y mwyafrif o achosion, mae'r disgwyliadau wedi'u gwireddu. Ond, y dysgwyr ABO yw'r lleiaf tebygol o ddweud bod eu disgwyliadau wedi'u gwireddu yn nhermau faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid iddynt ei gymryd a faint o ddyddiadau cwblhau y byddai'n rhaid iddynt gadw atynt.

**Tabl 3.20: A wireddwyd y disgwyliadau oedd ganddynt cyn y cwrs**

| | Math o ddarpariaeth | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd | AB | DyG | ABO |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Faint o waith y mae'n rhaid i chi ei wneud | 79 | 82 | 84 |
| Strwythur y cwrs | 79 | 82 | 82 |
| Faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd | 72 | 80 | 65 |
| Faint o ddyddiadau terfynol y mae'n rhaid cwblhau gwaith ar eu cyfer | 73 | 80 | 65 |
| Cynnwys y cwrs | 84 | 82 | 85 |
| Y dulliau a'r arddulliau dysgu a ddefnyddir yn y sesiynau yma | 79 | 80 | 85 |
| Safonau'r gwaith a ddisgwylir | 86 | 88 | 87 |
| Y mathau o bobl ar y cwrs | 70 | 75 | 74 |

Nodwch: Mae'r canrannau wedi'u seilio ar bob un o'r rheini y gwireddwyd eu disgwyliadau cyn y cwrs; Nid ydym wedi dangos yr ateb 'Ni wn'

Yn y tri grŵp, mae mwy na 20% o'r dysgwyr yn dweud nad oedd ganddynt unrhyw ddisgwyliadau am y mathau o bobl fyddai ar eu rhaglen hyfforddi/cwrs.

Pan oedd realiti'n wahanol i'r disgwyliadau, y rhesymau pennaf am hyn oedd:

- 'Gormod o waith'
- 'Yr athrawon yn anhrefnus/nid oeddent yn dda iawn'
- 'Gormod o gyfrifoldeb'
- 'Dim digon o amser i wneud y gwaith/gormod ar yr un pryd'





## 3.6 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA

### AB

Mae llwyddiant dysgwr AB i gael lle gyda'r sefydliad darparu a/neu ar gwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt, yn cael effaith ar eu boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu, felly mae'n beth positif bod y mwyafrif o ddysgwyr AB wedi cael lle gyda'r sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (77%) a/neu yn dilyn y cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (88%).

Y dysgwyr sy'n fwyaf tebygol o gael lle gyda'u sefydliad darparu dewisol yw'r grŵp oedran ieuengaf (16-18).

Y rheini sy'n lleiaf tebygol o fod gyda'u sefydliad darparu dewis cyntaf yw:

- Rheini sy'n byw yng Ngogledd Cymru (sy'n fwy tebygol o ddweud na chawsant ddewis)
- Dynion 19-24 oed
- Rheini sy'n astudio cyrsiau 'Peirianneg/ gweithgynhyrchu' neu 'Astudiaethau busnes'

'Lleoliad cyfleus' yw'r prif ffactor o bell ffordd i ddysgwyr AB pan fyddent yn dewis darparwr – mae 60% yn nodi'r rheswm yma o'i gymharu â 27% sy'n dweud bod 'Gan y darparwr y cwrs yr oeddwn ei eisiau' a 12% sy'n dweud bod 'Gan y coleg yr enw gorau'. Nid yw hyn yn amrywio yn ôl y rhanbarth. Mae'n amlwg nad oes gan lawer o ddysgwyr yr awydd na'r cyfle mewn gwirionedd i gymharu gwahanol opsiynau.

Y prif ffynonellau cyngor ar gyfer y grŵp yma yw'r 'Tiwtoriaid yn y coleg' a 'Ffrindiau'. Mae'r dull o geisio cyngor yn amrywio yn ôl yr oedran – yn nodedig, mae'r rheini yn y grŵp oedran 16-18 yn llawer mwy tebygol o fod wedi ceisio neu dderbyn cyngor o'r holl ffynonellau allweddol, ac eithrio 'cyflogwyr'. Mae 'staff o fewn y coleg' yn derbyn sgorau uwch am ddefnyddioldeb eu cyngor na ffynonellau eraill.

Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o'r disgwyliadau am yr hyn y byddai'r cwrs yn ei gynnwys wedi'u gwireddu. Yr agweddau y cafwyd yr ansicrwydd mwyaf amdanynt yw beth i'w ddisgwyl mewn perthynas â:

- 'y math o bobl ar y cwrs'
- 'faint o ddyddiadau cwblhau fyddai ar y cwrs'
- 'faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i ddysgwyr ei gymryd'

Mae'r ddau olaf o'r rhain yn rhai o'r anawsterau a nodwyd amlaf gan y dysgwyr (edrychwch ar yr adran 'Problemau', adran 8). Mae diffyg cyfatebiaeth rhwng disgwyliadau a realiti yn un o'r rhesymau a nodwyd amlaf am yr anfodlonrwydd ac mae'r gyfran sy'n dweud nad yw eu disgwyliadau wedi'u gwireddu mewn perthynas â ffactorau fel cynnwys a strwythur y cwrs yn cyfateb yn fras â'r lefelau anfodlonrwydd.

### Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

Mae ffactorau sy'n ymwneud â gwneud y dewis cywir yn cyfrif am oddeutu 8% o'r boddhad. O fewn yr elfennau sydd yn y categori yma, dylid rhoi'r prif ffocws ar weithio i wneud y cyngor yn fwy defnyddiol.

## Dysgu yn y Gwaith

Er bod y mwyafrif o fyfyrwyr sy'n Dysgu yn y Gwaith yn astudio yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (61%) ac yn dilyn y cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (81%), mae'r cyfraneddau yma'n is na'r rheini a welwyd ymysg dysgwyr AB ac ABO, gan adlewyrchu efallai bod y grŵp yma wedi'i ddylanwadu'n gryf gan eu cyflogwyr (edrychwch isod).

Mae'r canran sydd wedi cael lle gyda'r darparwr oedd yn ddewis cyntaf ganddynt yn amrywio yn ôl eu hoedran, rhyw a'u pynciau astudio. Wrth ystyried yr hyfforddiant dewis cyntaf, ychydig o amrywiaeth sydd i'w gael rhwng y rhanbarthau, ond mae oedran fel petai'n dylanwadu ar lwyddiant y dysgwyr i gael lle ar eu rhaglenni hyfforddiant dewisol am fod dysgwyr iau yn fwy tebygol o gael eu dewis cyntaf.

Mae 'lleoliad cyfleus' a 'mae'n cynnig yr hyfforddiant yr oeddwn ei eisiau' yn ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau'r grŵp dysgwyr wrth iddynt ddethol darparwr. Mae cyfraneddau tebyg o ddysgwyr DyG yn nodi pob un o'r rhesymau yma, ond mae dylanwad y cyflogwr yn ffactor pwysig hefyd. Gwelir amrywiadau mewn disgwyliadau wrth ystyried oedran, rhyw a phwnc, e.e. mae gan ferched 19+ oed ddisgwyliadau mwy cywir na dynion o'r un oedran ynglŷn â faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid iddynt ei gymryd. Ar ben hynny, mae'r rheini sy'n astudio 'technoleg gwybodaeth a chyfathrebu' a 'lletygarwch/arlwyo/hamdden/teithio/adwerthu/gwasanaeth y cwsmer' yn llai tebygol na'r rheini ar raglenni eraill o fod yn gwybod faint o gyrfrifoldeb y byddai'n rhaid iddynt ei gymryd.

Nid yw'n syndod mai'r ffynhonnell allweddol i ddysgwyr DyG ar gyfer cael cyngor yw eu 'cyflogwyr' – mae 55% ohonynt yn nodi'r ffynhonnell yma, ac mae'n fwy tebygol o fod yn wir ymysg y dysgwyr sy'n 19+ oed. Yn wir, mae oedran yn cael dylanwad cryf ar ddulliau o geisio cyngor. Gwelwn fod dysgwyr yn y categori oedran ieuengaf (16-18) yn llawer mwy tebygol nag ymatebwyr DyG eraill o nodi 'Gyrfa Cymru', 'Athrawon yn yr ysgol', 'Cynghorwr Gyrfaol yr Ysgol' a 'Rhieni/ Aelodau o'r Teulu' fel ffynonellau cyngor.

Cyngor gan gyflogwyr a chyngor gan diwtoriaid yn y coleg/y sefydliad darparu yw'r cyngor sy'n derbyn y sgorau uchaf am ddefnyddioldeb.

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn nhermau beth fyddai gofynion y cwrs ond mae'n ymddangos bod gan ferched 19+ syniad mwy eglur na'u cymheiriaid gwrywaidd o faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid iddynt ei gymryd. Roedd dynion 16-18 oed ar y llaw arall yn fwy tebygol na'u cymheiriaid benywaidd o wybod beth i'w ddisgwyl mewn perthynas â chynnwys yr hyfforddiant a dulliau hyfforddi.

## Y Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

Mae'n ymddangos nad oedd yr agwedd yma o'r ddarpariaeth hyfforddi mor bwysig i ddysgwyr DyG ac ydoedd i ddysgwyr eraill ac ni welwyd unrhyw flaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

## ABO

Mae'r mwyafrif mawr o'r dysgwyr mewn addysg barhaus oedolion wedi'i hachredu yn astudio yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (79%) ac yn dilyn y cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (92%). Mae'r cyfraneddau yma'n gyson i raddau mawr rhwng y grwpiau oedran a'r rhywiau, a dim ond amrywiaeth bach a welwn rhwng y rhanbarthau (mae'r dadansoddiad rhanbarthol wedi'i gyfyngu i'r De Ddwyrain a'r De Orllewin yn unig).

Mae'r lefel sydd wedi cael lle yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt wedi'i effeithio gan amseriad y cyrsiau – mae'r rheini sy'n astudio gyda'r nos ychydig bach yn fwy tebygol o fod yn astudio gyda'r darparwr oedd yn ddewis cyntaf ganddynt o'i gymharu â dysgwyr yn ystod y dydd (81% o'i gymharu â 76%).

Yn debyg i ddysgwyr mewn mathau eraill o ddarpariaeth, y ffactorau allweddol ar gyfer y grŵp yma wrth ddewis darparwr oedd 'Lleoliad cyfleus' ac 'A yw'r cwrs ar gael', ac ychydig o amrywiaeth a welir rhwng y rhanbarthau, y rhywiau a'r grwpiau oedran. Mae'r rheini sy'n gweithio a/neu yn astudio gyda'r nos ychydig bach yn fwy tebygol nag ymatebwyr ABO eraill o nodi 'Lleoliad cyfleus' fel ffactor sy'n dylanwadu arnynt.

Mae dysgwyr ABO wedi'i hachredu yn tueddu i ddibynnu ar 'ffrindiau' am gyngor – mae 31% ohonynt yn nodi'r ffynhonnell yma. Efallai bod hyn yn esbonio pam fo ganddynt ddisgwyliadau ychydig yn is o ofynion y cwrs na dysgwyr eraill.

### Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

Yn union fel y dywedwyd ar gyfer dysgwyr mewn AB, y brif flaenoriaeth yw gwneud y cyngor yn fwy defnyddiol.

# 4. ANSAWDD Y DYSGU

**Cyflwyniad:**

Mae'r adran yma'n ymdrin ag asesiadau dysgwyr o ansawdd yr addysgu/hyfforddiant y maent wedi'i dderbyn. Gofynnwyd iddynt roi sgôr am:

– Eu boddhad cyffredinol gydag ansawdd yr addysgu

– Y perfformiad mewn perthynas â nifer o ddangosyddion manwl yn ymwneud ag addysgu, yn ymwneud â:

- 'Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog i chi'
- 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu'
- 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt, er enghraifft i wella eich technegau astudio neu i reoli eich amser'
- 'Yn defnyddio amser y sesiwn yn dda'
- 'Ansawdd a hygyrchedd y defnydd addysgu a ddefnyddient'
- 'Gosod targedau neu amcanion dysgu clir i'ch helpu i wella'
- 'Darparu adborth rheolaidd a phrydlon am ddatblygiad'
- 'Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar'
- 'Eu gallu i esbonio'r pwnc'
- 'Gwrando ar eich anghenion'

– Perfformiad mewn perthynas â nifer o ddangosyddion rheoli yn ymwneud â:

- 'Sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael'
- 'Darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ddysgwyr eraill'
- 'Helpu pobl newydd i setlo i mewn'
- 'Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr'
- 'Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau'
- 'Aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd'
- 'Gweld yr un aseswr bob tro'

Roedd y dysgwyr yn rhoi sgôr i'r dangosyddion yma ar sail 'pwyntiau allan o 10'. Wrth ddadansoddi'r canlyniadau, mae sgôr o 9 neu 10 allan o 10 wedi'i drin fel sgôr uchel.

– Ffactorau sy'n dylanwadu ar foddhad gydag addysgu

## 4.1 BRASOLWG

Mae'r boddhad gyda'r dysgu yn uchel iawn ymysg y dysgwyr i gyd, gyda mwy na 90% yn nodi rhywfaint o foddhad (naill ai'n eithriadol fodlon, yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon).

**Tabl 4.1:Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu**

| Sail:Y dysgwyr i gyd | Y dysgwyr i gyd |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| | % |
| Eithriadol fodlon | 30 |
| Bodlon iawn | 37 |
| Gweddol fodlon | 24 |
| Heb fod yn un na'r llall | 3 |
| Gweddol anfodlon | 3 |
| Anfodlon iawn | 1 |
| Eithriadol anfodlon | 1 |
| | |
| Cyfanswm eithriadol/ bodlon iawn | 67 |
| Cyfanswm bodlon | 91 |
| Cyfanswm anfodlon | 5 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Dyma'r dangosyddion mewn perthynas â pherfformiad yr athro/athrawes neu'r hyfforddwr/ hyfforddwraig sy'n derbyn y sgôr uchaf:

- 'Eu gallu i esbonio'r pwnc' (54% o'r dysgwyr yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10)
- 'Gwrando ar eich anghenion' (51% o'r dysgwyr yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10)

Dyma'r dangosyddion a gafodd sgôr is (gyda 45% neu lai o'r dysgwyr yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10):

- 'Gosod targedau neu amcanion dysgu eglur' (40%)
- 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' (42%)
- 'Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu' (43%)
- 'Darparu adborth prydlon a rheolaidd' (43%)
- 'Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar' (43%)
- 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt' (44%)
- 'Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn' (45%)

O'r holl ddangosyddion yma, rhoddodd mwy na 20% o'r dysgwyr sgôr o 6 neu lai allan o 10 am y perfformiad.

Gofynnwyd i'r dysgwyr roi sgôr ar gyfer nifer o ffactorau sy'n ymwneud â rheolaeth a gweinyddiad eu dysgu. Mae'r canlyniadau yn Nhabl 75 isod. Mae'r ffactorau sy'n derbyn y sgorau isaf yn ymwneud â rhoi gwybod i'r dysgwyr am newidiadau yn amseroedd eu gwersi/sesiynau a sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael.

**Tabl 4.2: Pa radd fyddech chi'n ei rhoi i'r athrawon/hyfforddwyr/aseswyr am yr agweddau yma (% yn rhoi 9 neu 10 allan o 10)**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| | % |
| Eu gallu i esbonio'r pwnc | 55 |
| Gwrando ar eich anghenion | 52 |
| Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog | 48 |
| Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu | 42 |
| Y gefnogaeth a gewch ganddynt | 44 |
| Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn | 45 |
| Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu | 43 |
| Gosod targedau neu amcanion dysgu eglur | 40 |
| Darparu adborth prydlon a rheolaidd | 43 |
| Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar | 43 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir ar y tabl.

**Tabl 4.3: Pa mor dda gafodd y materion yma eu rheoli yn eich barn chi? (% yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10)**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| | % |
| Sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael | 39 |
| Darparu cefnogaeth pan fydd ei angen arnaf i neu ddysgwyr eraill | 48 |
| Helpu pobl newydd i setlo i mewn | 48 |
| Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr | 40 |
| Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau | 34 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

Yn y darn nesaf yn yr adran yma, y nod oedd archwilio barn y dysgwyr drwy edrych ar yr ymatebion cyffredinol ac ar nodweddion y dysgwyr a'r cyrsiau. Mae hyn yn ein galluogi i ganfod pa grwpiau sy'n teimlo bod agweddau o ansawdd yr addysgu/hyfforddiant yn arbennig o uchel neu isel.






## 4.2 ADDYSG BELLACH

### 4.2.1 Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu/hyfforddiant

Mae tri ymhob deg o ddysgwyr (30%) mewn Addysg Bellach yn eithriadol fodlon gyda safon yr addysgu yn gyffredinol. O ychwanegu hynny at 36% arall sy'n fodlon iawn, mae hyn yn golygu bod mwy na dwy ran o dair yn fodlon iawn â'u hathrawon. Yn wir, mynegodd cyfanswm o 91% ryw lefel o foddhad a dim ond 5% nododd unrhyw lefel o anfodlonrwydd. Mae'r rhain yn ganfyddiadau positif iawn.

**Siart 4.1: Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu (AB)**




| Crynodeb | |
|---|---|
| Cyfanswm eithriadol/bodlon iawn | 67% |
| Cyfanswm bodlon | 91% |
| Cyfanswm anfodlon | 5% |

Sail: Yr holl ddysgwyr AB (4707)

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'ni wn' a 'heb fod yn un na'r llall'; mae'r crynodeb o'r cyfansymiau'n amrywio o 1% oherwydd talgrynnu

Ychydig o amrywiaeth sydd yn y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu/hyfforddiant rhwng y grwpiau demograffig o ddysgwyr AB, ond:

- Mae'r merched ychydig bach yn fwy tebygol o fod yn eithriadol fodlon (32% o'i gymharu â 28% o ddynion)
- Mae'r grwpiau iau yn dangos ychydig bach o duedd i fod yn fodlon iawn yn hytrach nag yn eithriadol fodlon ond nid yw hyn yn sylweddol
- Mae dysgwyr gwyn yn fwy tebygol o fod yn eithriadol fodlon na dysgwyr o leiafrifoedd ethnig (31% o'i gymharu â 15%)

Ond, mae tuedd ymysg rhai grwpiau i fod yn fwy beirniadol, ac mae hyn wedi'i ddangos isod lle mae cydrannau'r addysgu wedi'u rhannu'n ddangosyddion unigol. Er bod yna faterion efallai allai dderbyn sylw ar lefel benodol iawn ar gyfer rhai grwpiau, mae hyn yn awgrymu bod yr argraff a'r canfyddiad cyffredinol am y safon yn dda iawn.

### 4.2.2 Ansawdd agweddau penodol o'r addysgu/hyfforddiant

Dim ond dau o'r dangosyddion dderbyniodd y sgorau uchaf (9 neu 10 allan o 10) gan o leiaf hanner y dysgwyr mewn AB; 'Eu gallu i esbonio'r pwnc' (53%) a 'Gwrando ar eich anghenion' (51%). Y gyfran o ymatebwyr a roddodd y graddau uchaf i'w hathrawon am 'wneud eu pynciau'n hwyliog ac yn ddiddorol' oedd 47%. Rhoddodd oddeutu 40% o'r dysgwyr mewn AB y sgorau uchaf i'w hathrawon am y dangosyddion nesaf yma (Mae'r manylion yn Nhabl 77):

- 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu'
- 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt'
- 'Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn'
- 'Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu'
- 'Gosod targedau neu amcanion dysgu eglur'
- 'Darparu adborth prydlon a rheolaidd'

Roedd merched yn fwy tebygol o roi graddau uchaf i athrawon am yr holl ddangosyddion penodol a nodwyd, ond dyma'r meysydd lle'r oeddent yn debygol o roi o leiaf 5% yn fwy na'u cymheiriaid gwrywaidd:

- 'Gwrando ar eich anghenion' (rhoddodd 55% o ferched y sgorau uchaf (9 neu 10 allan o 10) o'i gymharu â 47% o ddynion)
- 'Gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog' (rhoddodd 49% o ferched y sgorau uchaf o'i gymharu â 43% o ddynion)

- 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' (rhoddodd 44% o ferched y sgorau uchaf o'i gymharu â 35% o ddynion)
- 'Yn gwneud defnydd da o amser y wers' (46% o'i gymharu â 40%)

Yn nhermau oedran, y grŵp oedd yn lleiaf bodlon gyda phob agwedd o'r addysgu oedd y grŵp 19-24 oed. Maen nhw hyd yn oed yn llai bodlon na'r grŵp 16-18 oed. Yn y grŵp 25+ oed, mae lefelau'r boddhad yn cynyddu'n raddol.

**Tabl 4.4: Pa radd fyddech chi'n ei rhoi i'r athrawon/hyfforddwyr/aseswyr am yr agweddau yma (% yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10) yn ôl rhyw ac oedran (AB)**

| | | Rhyw | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB roddodd sgôr | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55 + |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1759 | 2948 | 1387 | 704 | 555 | 1328 | 733 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 2005 | 2702 | 1153 | 659 | 786 | 1555 | 554 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Eu gallu i esbonio'r pwnc | 54 | 53 | 55 | 50 | 44 | 59 | 56 | 61 |
| Gwrando ar eich anghenion | 51 | 47 | 55 | 48 | 44 | 51 | 54 | 59 |
| Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog | 47 | 43 | 49 | 42 | 35 | 46 | 50 | 64 |
| Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu | 40 | 35 | 44 | 36 | 30 | 43 | 42 | 53 |
| Y gefnogaeth a gewch ganddynt | 43 | 41 | 45 | 44 | 31 | 46 | 42 | 55 |
| Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn | 44 | 40 | 46 | 39 | 31 | 48 | 46 | 55 |
| Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu | 43 | 43 | 43 | 43 | 34 | 45 | 43 | 52 |
| Gosod targedau neu amcanion dysgu eglur | 39 | 38 | 41 | 39 | 32 | 39 | 40 | 47 |
| Darparu adborth prydlon a rheolaidd | 42 | 40 | 44 | 38 | 35 | 45 | 43 | 53 |
| Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar | 43 | 41 | 44 | 38 | 35 | 46 | 52 | 48 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor.
Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir ar y tabl.





**Tabl 4.5: Pa mor dda mae'r materion yma wedi'u rheoli yn eich barn chi? (% yn sgorio 9 neu 10 allan o 10) yn ôl rhyw ac oedran (AB)**

| | | Rhyw | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB a roddodd sgôr | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55 + |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1759 | 2948 | 1387 | 704 | 555 | 1328 | 733 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 2005 | 2702 | 1153 | 659 | 786 | 1555 | 554 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Sicrhau bod digon o athrawon ar gael | 43 | 42 | 44 | 34 | 28 | 50 | 49 | 58 |
| Darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ddysgwyr eraill | 50 | 48 | 51 | 44 | 40 | 54 | 52 | 64 |
| Helpu pobl newydd i setlo i mewn | 54 | 52 | 56 | 50 | 43 | 61 | 56 | 64 |
| Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr | 45 | 43 | 47 | 41 | 34 | 49 | 46 | 62 |
| Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau | 41 | 38 | 43 | 33 | 28 | 47 | 45 | 61 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir ar y tabl.

### 4.2.3 Rheoli dysgu

Rhoddodd hanner y dysgwyr AB (50%) y graddau uchaf i'w darparwyr am ddarparu cefnogaeth pan oeddent hwy neu ddysgwyr eraill ei hangen a/neu am helpu pobl newydd i setlo i mewn (54%). Rhoddwyd graddau is am sicrhau bod athrawon ar gael (43%) ac am reoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i anghenion y dysgwyr (45%).


Yn y mwyafrif o achosion roedd dysgwyr benywaidd yn fwy tebygol o roi'r graddau uchaf i'r darparwr am y dangosyddion a restrir (roedd eu graddau hwy'n uwch o 5% na chanran y dynion fel arfer). Yn nhermau oedran, mae'n ymddangos bod dysgwyr iau yn llai bodlon ond nid yw'r gwahaniaethau mor amlwg â'r rheini a nodwyd ar gyfer ansawdd yr agweddau addysgu unigol.

## 4.3 DYSGU YN Y GWAITH

### 4.3.1 Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu/hyfforddiant

Mae ychydig yn fwy na phumed rhan (22%) o'r holl fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yn eithriadol fodlon gyda'u hyfforddwyr/aseswyr yn gyffredinol ac mae 37% arall yn fodlon iawn. Mae hyn yn golygu bod 59% o ddysgwyr yn rhoi'r graddau uchaf i'r hyfforddwyr/aseswyr. Mae'r 41% sy'n weddill wedi'i wneud o 33% sy'n weddol fodlon, 3% sy'n ddifater neu'n amharod i roi sgôr bodlon neu anfodlon a 5% sy'n anfodlon. O ystyried y canfyddiadau yma, dylid nodi bod y lefel o anfodlonrwydd a gofnodwyd yn eithriadol isel.

**Siart 4.2: Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu/hyfforddiant (Dysgu yn y Gwaith)**




| Crynodeb | |
|---|---|
| Cyfanswm eithriadol/bodlon iawn | 59% |
| Cyfanswm bodlon | 92% |
| Cyfanswm anfodlon | 5% |

Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd (1001)

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'ni wn' a 'heb fod yn un na'r llall'

Mae'r cyfraddau boddhad yn gwahaniaethu ychydig rhwng y gwahanol fathau o gyrsiau a ffactorau demograffig. Os edrychwn pa mor debygol fyddai'r dysgwr o roi'r graddau uchaf sef 'eithriadol fodlon', mae'r data yn dangos bod:

- Merched yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn eithriadol fodlon (27% o'i gymharu â 19% o ddynion)
- Mae oedran yn cael effaith gyfunol. Wrth archwilio oedran o fewn y rhywiau, merched hŷn (19+) yw'r mwyaf tebygol o fod yn eithriadol fodlon a'r dynion ieuengaf yw'r lleiaf tebygol (28% o'i gymharu â 14% a roddwyd gan ddynion 16-18 oed)

Dyma bwyntiau eraill i'w nodi:

- Mae dysgwyr cyflogedig yn fwy tebygol o fod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn o'i gymharu â'r rheini nad ydynt mewn swydd (61% o'i gymharu â 52%)
- Yn ôl y pwnc, rheini sy'n hyfforddi mewn 'Rheoli/busnes/y gyfraith' yw'r mwyaf bodlon o'i gymharu â'r rheini mewn 'Adeiladu/peirianneg/gweithgynhyrchu a chludiant' sef y grŵp lleiaf bodlon (dywedodd 68% eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn yn y categori cyntaf o'i gymharu â 53% yn yr ail)
- Mae boddhad gyda 'chefnogaeth y cyflogwr' a 'pa mor ddefnyddiol yw'r hyfforddiant i'r swydd gyfredol' yn gysylltiedig â sgorau boddhad uwch gyda hyfforddwyr ac aseswyr yn gyffredinol

### 4.3.2 Ansawdd agweddau penodol o addysgu/hyfforddiant

Mae tabl 81 (yn nes ymlaen yn yr adran hon) yn dangos y gyfran o ymatebwyr a roddodd y graddau uchaf i'w hyfforddwyr a'u haseswyr (9 neu 10 allan o 10) ar gyfer yr un dangosyddion ochr yn ochr â gwybodaeth ddemograffig. Yn nhermau'r ymateb cyffredinol i ansawdd yr hyfforddwyr/aseswyr, bydd y gyfran fwyaf o fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yn rhoi'r sgôr uchaf am ansawdd i'r datganiadau yma:

- 'Eu gallu i esbonio'r pwnc' (48%)
- 'Gwrando ar eich anghenion' (47%)
- 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt, e.e. i wella eich technegau astudio a rheoli amser' (40%)

Yr elfennau sydd leiaf tebygol o dderbyn sgorau mor uchel yw rheoli adborth, gosod targedau ac ymdrin â dysgwyr aflonyddgar.

Yn y grŵp yma, mae rhyw'r dysgwr yn ddylanwad mawr ar ei h/agwedd tuag at ansawdd yr hyfforddwr/aseswr. Mae'n ymddangos bod y dynion yn llawer llai bodlon na'r merched. Mae oedran yn ddylanwad pwysig hefyd am fod y grŵp oedran 19+, yn ferched a dynion, yn fwy tebygol o fod yn fodlon. Mae'n ymddangos bod y boddhad ymysg myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yn dirywio wrth archwilio'r grwpiau nesaf yma.



**Diagram 4.1:Y boddhad (eithriadol/bodlon iawn) gyda'r dysgu/hyfforddiant yn ôl oedran y dysgwyr o fewn y rhywiau (DyG)**

| | |
|---|---|
| Merched 19+ (65%) | Mae'r boddhad |
| Dynion 19+ (58%) | yn gostwng |
| Merched 16-18 (56%) | wrth fynd |
| Dynion 16-18 (53%) | drwy'r grwpiau |

Mae'r pwyntiau nesaf yn cefnogi'r siart uchod ymhellach (mae tabl 5.6 yn rhoi'r manylion llawn). Mae'r data'n dangos bod rhai o'r amrywiadau mewn sgorau yn arwyddocaol iawn. Y prif bwyntiau i'w nodi yw bod:

- Dynion yn llai tebygol o roi'r graddau uchaf i'w hyfforddwyr/aseswyr ar gyfer pob un bron iawn o'r dangosyddion (gwelwch dabl 81). Yn ychwanegol at nodi hyn ar gyfer y dynion i gyd, mae yna dri dangosydd lle mae'r dynion 19+ oed wedi rhoi pwyntiau canran sydd 5% yn is na dynion yn y grŵp oedran 16-18. Dyma nhw:
  - 'Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog i chi'
  - 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt, e.e. i wella eich technegau astudio a rheoli amser'
  - 'Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu'
- Derbyniodd y ddau ddangosydd 'Gosod targedau' a 'Hybu adborth' y graddau uchaf ar yr un lefel gan y dynion 16-18 oed a'r dynion 19+ oed, sef 32% a 31% yn y drefn honno. Roedd y sgôr am 'gosod targedau' mor uchel â 53% ar gyfer merched 16-18 oed (21% yn uwch). Roedd y sgôr am 'adborth' 13% yn uwch ar gyfer merched nag ar gyfer dynion
- Mae'n ymddangos bod dynion yn llawer llai bodlon gyda'r ffordd mae hyfforddwyr/aseswyr yn ymdrin â dysgwyr aflonyddgar (mae 30% o'r dysgwyr gwrywaidd yn rhoi'r sgorau uchaf o'i gymharu â 46% o'r dysgwyr benywaidd)

Os edrychwn ar y merched, dyma'r dangosyddion sy'n dangos tystiolaeth o lai o fodlonrwydd ymysg y merched hŷn na'r rhai iau (5% o bwyntiau o leiaf), sef:

- 'Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog i chi'
- 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt, er enghraifft i wella eich technegau astudio a rheoli amser'
- 'Gosod targedau neu amcanion dysgu clir i'ch helpu i wella'

Mae tabl 82 yn edrych ar y graddau a roddwyd i hyfforddwyr/aseswyr mewn cymhariaeth â pha ddysgwyr wnaeth eu hyfforddiant mewn coleg y tu allan i'w swyddi, gyda darparwr hyfforddiant preifat, neu yn eu gweithle. Er nad yw'r amrywiaeth mewn boddhad ar yr un raddfa â'r amrywiadau yn ôl oedran a rhyw, mae'r amrywiadau yn ôl y darparwr yn dangos bod:

- Dysgwyr mewn colegau'n llai tebygol o roi sgôr mor uchel i hyfforddwyr/aseswyr mewn perthynas â phob dangosydd. Mae hyn yn arbennig o wir am 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' a 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt'
- Y rheini sy'n derbyn eu hyfforddiant y tu allan i'w swyddi gan ddarparwr hyfforddiant yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o roi'r sgorau uchaf ar gyfer pob dangosydd
- Mae'r canran sy'n rhoi'r sgorau uchaf i'w hyfforddwyr/aseswyr yn y gweithle mor uchel â'r canran sy'n rhoi'r sgorau uchaf ymhlith y rheini sy'n dysgu gyda darparwr hyfforddiant am 'Eu gallu i esbonio'r pwnc', 'Gwrando ar eich anghenion', 'Gosod targedau eglur' a 'Gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn hwyliog'. Mae'r sgôr ar gyfer y dangosyddion sy'n weddill rhywle rhwng y darparwyr hyfforddiant a'r colegau

**Tabl 4.6: Pa sgôr fyddech chi'n ei roi i'r athrawon/hyfforddwyr/aseswyr am yr agweddau yma (% yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10) yn ôl rhyw ac oedran o fewn y rhywiau (DyG)**

| | | Rhyw | | Oedran o fewn y rhywiau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd a roddodd sgôr | Cyfan-swm | Gwryw | Menyw | Gwryw 16-18 | Gwryw 19+ | Menyw 16-18 | Menyw 19+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 579 | 421 | 218 | 361 | 133 | 288 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 580 | 421 | 220 | 361 | 136 | 285 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Eu gallu i esbonio'r pwnc | 48 | 43 | 55 | 43 | 42 | 58 | 54 |
| Gwrando ar eich anghenion | 47 | 38 | 59 | 40 | 37 | 59 | 59 |
| Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog | 36 | 30 | 43 | 33 | 28 | 48 | 41 |
| Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu | 39 | 32 | 48 | 33 | 32 | 50 | 47 |
| Y gefnogaeth a gewch ganddynt | 40 | 34 | 48 | 37 | 32 | 53 | 46 |
| Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn | 37 | 31 | 47 | 31 | 31 | 49 | 45 |
| Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu | 37 | 34 | 43 | 37 | 32 | 42 | 44 |
| Gosod targedau neu amcanion dysgu eglur | 38 | 31 | 48 | 32 | 31 | 53 | 46 |
| Darparu adborth prydlon a rheolaidd | 37 | 31 | 44 | 31 | 31 | 45 | 44 |
| Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar | 36 | 30 | 46 | 34 | 28 | 45 | 46 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

Mae tabl 83 yn edrych ar y canran a roddodd 9 neu 10 allan o 10 yn ôl maes astudio'r pwnc. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, o ystyried bod y dynion yn rhoi sgorau is na merched, mae'r pynciau sy'n rhai traddodiadol wrywaidd yn derbyn sgorau is am foddhad:

- Mae'r meysydd 'Adeiladu/peirianneg/gweithgynhyrchu a chludiant' yn derbyn y sgorau uchaf gan y canran isaf ar gyfer pob dangosydd sy'n ymwneud â'r hyfforddwr/aseswr. Mae'r cyfraneddau'n isel (o'u gymharu â'r cyfartaledd cyffredinol) ar gyfer:

- 'Gwrando ar eich anghenion': 34% o'i gymharu â chyfartaledd o 47%
- 'Gosod targedau eglur': 29% o'i gymharu â chyfartaledd o 38%
- 'Eu gallu i esbonio'r pwnc': 40% o'i gymharu â chyfartaledd o 48%
- 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt': 32% o'i gymharu â chyfartaledd o 40%
- 'Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn': 29% o'i gymharu â chyfartaledd o 37%
- 'Darparu adborth prydlon a rheolaidd': 29% o'i gymharu â chyfartaledd o 37%





**Tabl 4.7: Pa radd fyddech chi'n ei rhoi i'r athrawon/hyfforddwyr/aseswyr am yr agweddau yma (% yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10, yn ôl y math o ddarparwr) (Dysgu yn y Gwaith)**

| | Provider type for off-the-job training | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd yn rhoi sgôr | Cyfanswm | Coleg | Darparwr hyfforddiant | Y gweithle |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 328 | 232 | 648 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 319 | 236 | 649 |
| | % | % | % | % |
| Eu gallu i esbonio'r pwnc | 48 | 43 | 50 | 49 |
| Yn gwrando ar eich anghenion | 47 | 42 | 48 | 50 |
| Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog | 36 | 32 | 38 | 36 |
| Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu | 39 | 32 | 45 | 40 |
| Y gefnogaeth a gewch ganddynt | 40 | 32 | 46 | 41 |
| Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn | 37 | 31 | 44 | 38 |
| Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu | 38 | 36 | 43 | 36 |
| Yn gosod targedau neu amcanion dysgu eglur | 38 | 32 | 42 | 40 |
| Yn rhoi adborth prydlon a rheolaidd | 37 | 32 | 40 | 38 |
| Yn ymdrin â dysgwyr aflonyddgar | 36 | 32 | 44 | 3 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor.
Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

**Tabl 4.8: Pa radd fyddech chi'n ei rhoi i'r athrawon/hyfforddwyr/aseswyr am yr agweddau yma (% yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10) yn ôl y math o bwnc (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Y pwnc | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd a roddodd sgôr | Cyfan-swm | Adeiladu/Peir./Rheoli/ Cludiant | Lletygarwch/arlwyo/ Hamdden a Teithio/ Adwerthu | TGCh | Rheoli/Busnes/Gwein./ Y Gyfraith | Iechyd/Cymdeithas/ Gofal plant | Llythrennedd/rhifedd/ sgiliau sylfaenol | Arall* |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 305 | 300 | 174 | 156 | 114 | 84 | 54 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 304 | 298 | 174 | 157 | 113 | 84 | 56 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Eu gallu i esbonio'r pwnc | 48 | 40 | 48 | 52 | 51 | 49 | 46 | 57 |
| Gwrando ar eich anghenion | 47 | 34 | 48 | 54 | 50 | 52 | 53 | 57 |
| Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog | 36 | 28 | 37 | 40 | 32 | 36 | 44 | 48 |
| Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu | 39 | 30 | 40 | 41 | 47 | 36 | 36 | 41 |
| Y gefnogaeth a gewch ganddynt | 40 | 32 | 39 | 42 | 44 | 38 | 44 | 52 |
| Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn | 37 | 29 | 35 | 36 | 43 | 40 | 42 | 33 |
| Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu | 38 | 32 | 40 | 44 | 41 | 30 | 38 | 45 |
| Gosod targedau neu amcanion dysgu eglur | 38 | 29 | 39 | 40 | 40 | 38 | 35 | 44 |
| Darparu adborth prydlon a rheolaidd | 37 | 29 | 37 | 41 | 40 | 33 | 39 | 48 |
| Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar | 36 | 31 | 38 | 41 | 47 | 32 | 32 | 43 |

*Mae Arall yn cynnwys Ieithoedd/Y Dyniaethau/Y Celfyddydau a'r Gwyddorau
Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor.
Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.



Mae mwy o dystiolaeth i gefnogi'r cysylltiad hanfodol rhwng boddhad cyffredinol a boddhad â'r hyfforddwyr/aseswyr:

- Os yw'r ymatebwr yn eithriadol fodlon yn gyffredinol yna mae'n llawer mwy tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 allan o 10 i'r hyfforddwr/aseswr am agweddau unigol
- Mae'r rheini sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael yn rhoi sgôr llawer is ar gyfer y dangosyddion i gyd. Y pwyntiau mwyaf dadlennol i'w nodi yn y cyswllt hwn yw'r rhai sy'n ymwneud â'r sgorau isel iawn y mae'r dysgwyr yma'n eu rhoi am osod targedau ac adborth. Yn nhermau gosod targedau, mae'r canran o'r rheini sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael ac a roddodd 9 neu 10 allan o 10 i'w hyfforddwr/aseswr 20% yn is na'r rheini sydd heb ystyried gadael o gwbl (22% o'i gymharu â 44%). Yn yr un modd, y gymhariaeth ar gyfer adborth am ddatblygiad y dysgwr yw 22% o'i gymharu â 42%. Mae hyn yn awgrymu bod y rheini sy'n ystyried gadael yn llai hapus ag ansawdd yn gyffredinol ond, o'r holl ddangosyddion, maen nhw'n lleiaf bodlon â'r ffordd y mae eu dysgu wedi'i reoli a'r adborth a dderbyniant
- Mae'n ymddangos bod cefnogaeth gan eu cyflogwyr yn hanfodol. Mae dysgwyr sy'n eithriadol fodlon â'r gefnogaeth a gânt gan eu cyflogwyr yn llawer mwy tebygol o roi sgôr uchel i'w hyfforddwyr/aseswyr. Mewn perthynas â'r mwyafrif o'r dangosyddion, mae'r cyfraneddau sy'n rhoi'r sgorau uchaf o leiaf bedair gwaith yn uwch na'r rheini syn llai na bodlon iawn â'r gefnogaeth a gânt gan eu cyflogwyr. Yn ein sampl ni, roedd 72% o'r rheini sy'n gyflogedig yn gwneud rhywfaint o leiaf o'u hyfforddiant y tu allan i'r swydd yn y gweithle

**Darlun Ysgrifenedig:**
**Dysgwyr wedi'u seilio yn y gwaith**

Mae'r dysgwr yma'n gwneud rhaglen NVQ mewn Peintio ac Addurno (Adeiladu). Mae'n 17 oed. Mae'n gweithio ac yn derbyn hyfforddiant y tu allan i'w swydd yn ei weithle.

Roedd ganddo nifer o resymau am wneud y rhaglen yma; i ddysgu sgiliau ar gyfer swydd mae'n ei gwneud, i roi'r gallu iddo i ddatblygu ei yrfa yn gyffredinol, i gael mwy o foddhad o'i waith, i fynd ymlaen i gyrsiau eraill neu i ddatblygu ei addysg, i wella ei wybodaeth am y pwnc ac i gyfarfod pobl newydd.

Ni ystyriodd y dysgwr yma unrhyw opsiynau eraill a dywedodd bod ei ffrindiau wedi argymell y cwrs a'r math yma o ddarpariaeth iddo. Gofynnodd am gyngor gan ei ffrindiau ac aelodau eraill o'i deulu a hefyd darllenodd erthygl mewn papur newydd. Roedd y rhain i gyd yn ddefnyddiol iawn iddo.

Mae'n eithriadol fodlon â'r hyfforddwyr/aseswyr ac mae'n dweud eu bod yn rhagorol mewn perthynas â'r dangosyddion unigol i gyd. Mae'n dweud eu bod wedi ei helpu'n fawr. Mae'r gefnogaeth a gafodd gan ei gyflogwr yn amlwg. Mae'n eithriadol fodlon gyda'i gyflogwr a dwed ei fod wedi 'dangos popeth i mi, gallaf ofyn unrhyw beth iddo a byddai bob amser yn barod iawn i helpu'.

Mae'r dysgwr yma'n credu bod ei hyfforddiant wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'w swydd. Mae ei ddisgwyliadau i gyd cyn y cwrs wedi'u gwireddu ac mae'r unigolyn yma'n dweud ei fod yn eithriadol fodlon yn gyffredinol. Bydd yn debygol iawn o wneud mwy o ddysgu yn y tair blynedd nesaf.

### 4.3.3 Rheoli'r dysgu

Mae tabl 84 yn dangos bod:

- Mwy na hanner yr ymatebwyr wedi rhoi'r sgorau gorau am 'Aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd' (52%) a 'Gweld yr un aseswr bob tro' (56%)
- Roedd 'helpu pobl newydd i setlo i mewn' a 'sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael' yn debygol o dderbyn sgorau uchel hefyd (rhoddodd 45% sgôr o 9 neu 10 allan o 10 ar gyfer pob un o'r ffactorau yma)
- 'Rhoi gwybod i ni am newidiadau yn amseroedd y sesiynau' oedd y lleiaf tebygol o dderbyn y sgorau gorau (35%)

Yn gyfatebol â'r canfyddiadau cynharach yn yr adroddiad yma, dysgwyr gwrywaidd sy'n lleiaf bodlon â'r dangosyddion sail gweinyddol yma, yn arbennig y dynion 19+ oed. Felly, mae'r arolwg yn adlewyrchu'r problemau a geir nid yn unig â'r berthynas gyda'r hyfforddwyr/aseswyr a safon yr hyfforddwyr/aseswyr ar gyfer yr unigolion yma ond hefyd gyda rheolaeth gyffredinol y rhaglen ar gyfer y grŵp yma:

- Mae'n ymddangos bod 'rheoli amserlenni' yn arbennig yn cael effaith ar y grŵp dynion 19, dim ond 31% a roddodd y sgorau gorau i'r coleg/darparwr hyfforddiant neu weithle o'i gymharu â'r 41% a roddwyd yn gyffredinol
- Mae'n dod i'r amlwg bod cefnogaeth yn fater pwysig unwaith eto, gyda dim ond 34% o'r dynion 19+ oed yn rhoi'r sgorau gorau o'i gymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 43% a'r ffigur 62% gan y grŵp mwyaf bodlon, y merched 16-18 oed

Pan fyddwn yn ystyried y merched yn unig, mae'n ymddangos mai'r patrwm cyffredinol yw bod y grŵp 16-18 oed yn ymddangos ychydig yn fwy bodlon. Yn wir, gyda rhai o'r dangosyddion yma maen nhw'n ymddangos yn llawer mwy bodlon na'r grŵp 19+ oed. Mae'r prif feysydd o foddhad ar gyfer y merched 16-18 oed yn ymwneud â systemau cefnogi:

- 'Sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael' (rhoddodd 59% y sgorau gorau i'r coleg/darparwr neu weithle o'i gymharu â 48% o ferched 19+ oed a 44% yn gyffredinol)
- 'Darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ddysgwyr eraill' (rhoddodd 62% 9 neu 10 allan o 10 i'r coleg/darparwr neu weithle o'i gymharu â 49% o ferched 19+ a 43% yn gyffredinol)
- 'Helpu pobl newydd i setlo i mewn' (rhoddodd 60% 9 neu 10 allan o 10 i'r coleg/darparwr neu weithle o'i gymharu â 49% o ferched 19+ a 45% yn gyffredinol)

O'i gymharu â darparwyr eraill, mae'r colegau'n derbyn y nifer isaf o sgorau 9 neu 10 allan o 10 gan eu dysgwyr (cafwyd sgôr tebyg ar gyfer y dangosyddion sy'n ymwneud â'r hyfforddwyr/aseswyr). Mae darparwyr hyfforddiant yn sgorio'n uchel yn gyson ac mae'r un peth yn wir am ddarparwyr yn y gweithle, er bod y sgorau ar gyfer yr olaf yn tueddu i ostwng mewn perthynas â ffactorau gweinyddol e.e. rheoli amserlenni a sicrhau bod aseswyr yn dod i'r sesiynau fel y cynlluniwyd.





- Mae dysgwyr 'adeiladu/peirianneg/gweithgynhyrchu a chludiant' yn llai tebygol yn gyson na'r pynciau eraill o roi'r sgorau uchaf ar gyfer y dangosyddion rheoli a gweinyddu yma. Mewn rhai achosion, mae'r gyfran o leiaf 1% yn is, er enghraifft:
  - 'Darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ddysgwyr eraill'
  - 'Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr'
  - 'Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau'

**Tabl 4.9: Pa mor dda gafodd y materion yma eu rheoli yn eich barn chi? (y % yn sgorio 9 neu 10 allan o 10) yn ôl y pwnc (Dysgu yn y Gwaith)**

| | Oedran o fewn y rhywiau | | | | | Y math o ddarparwr ar gyfer hyfforddiant y tu allan i'r swydd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd a roddodd sgôr | Cyfan -swm | Gwryw 16-18 | Gwryw 19+ | Menyw 16-18 | Menyw 19+ | Coleg | Darparwr Hyfforddiant | Y gweithle |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 218 | 361 | 133 | 288 | 328 | 232 | 648 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 220 | 361 | 136 | 286 | 319 | 236 | 649 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael | 45 | 41 | 38 | 60 | 49 | 41 | 50 | 45 |
| Darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ddysgwyr eraill | 45 | 40 | 36 | 63 | 50 | 40 | 45 | 46 |
| Helpu pobl newydd i setlo i mewn | 48 | 46 | 40 | 61 | 54 | 45 | 50 | 48 |
| Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr | 42 | 37 | 32 | 58 | 50 | 36 | 50 | 41 |
| Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau | 35 | 29 | 25 | 51 | 44 | 26 | 36 | 39 |
| Aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd | 52 | 48 | 46 | 63 | 57 | 48 | 61 | 50 |
| Gweld yr un aseswr bob tro | 56 | 50 | 51 | 62 | 62 | 49 | 59 | 58 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

**Tabl 4.10: Pa mor dda gafodd y materion yma eu rheoli yn eich barn chi? (y % yn sgorio 9 neu 10 allan o 10) yn ôl y pwnc (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Y pwnc | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd a roddodd sgôr | Cyfan -swm | Adeiladu/Peir./Gweith./ Cludiant | Lletygarwch/Arlwyo/ Hamdden a Theithio/ Adwerthu | TGCh | Rheoli./Busnes./ Gweinyddu/Y Gyfraith | Iechyd/Gofal Plant/ Cymdeithasol | Llythrennedd/Sylfaen-ol/ Sgiliau Sylfaenol | Arall* |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 305 | 300 | 174 | 156 | 114 | 84 | 54 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 304 | 298 | 174 | 157 | 113 | 84 | 56 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael | 45 | 37 | 45 | 49 | 45 | 45 | 43 | 50 |
| Darparu cefnogaeth pan fydd ei angen arnaf i neu ddysgwyr eraill | 45 | 34 | 43 | 46 | 48 | 43 | 45 | 48 |
| Helpu pobl newydd i setlo i mewn | 48 | 36 | 51 | 51 | 57 | 48 | 46 | 62 |
| Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr | 42 | 31 | 43 | 46 | 47 | 45 | 39 | 50 |
| Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau | 35 | 23 | 34 | 36 | 41 | 36 | 31 | 44 |
| Aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd | 52 | 46 | 58 | 59 | 57 | 45 | 58 | 66 |
| Gweld yr un aseswr bob tro | 56 | 49 | 59 | 60 | 61 | 54 | 67 | 66 |

*Mae 'Arall' yn cynnwys Ieithoedd/Y Dyniaethau/Y Celfyddydau a'r Gwyddorau
Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor.
Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.






### 4.3.4 Nifer yr oriau a dreulir yn hyfforddi tu allan i'r swydd ac a yw'r amser yma'n ddigonol

Gofynnwyd i fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith ynghylch y nifer o oriau o hyfforddiant roeddent yn eu derbyn ac a oeddent yn teimlo bod hyn yn ddigonol.

### 4.3.5 Nifer yr oriau a dreulir ar hyfforddiant y tu allan i'r swydd

Roedd bron i wyth ymhob deg (79%) o'r myfyrwyr sy'n Dysgu yn y Gwaith a gyfwelwyd wedi'u cyflogi mewn swydd pan oeddent yn gwneud eu hyfforddiant. Gofynnwyd i'r rheini oedd wedi'u cyflogi faint o oriau yr oeddent yn eu treulio mewn hyfforddiant y tu allan i'r swydd bob wythnos. Mae'r canlyniadau wedi'u taenu'n weddol gyfartal gydag 14% yn treulio llai na dwy awr bob wythnos, 23% yn nodi 2-4 awr bob wythnos, 14% rhwng pump a saith awr bob wythnos a 26% yn fwy na saith awr bob wythnos. Pwynt pwysig i'w nodi yw bod 20% o'r ymatebwyr wedi methu ateb y cwestiwn yma am nad oeddent yn derbyn hyfforddiant y tu allan i'r swydd bob wythnos.

**Siart 4.3: Nifer yr oriau bob wythnos a dreulir ar hyfforddiant y tu allan i'r swydd**




Sail: Yr holl fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith sydd mewn swydd (787)

Mae'r nifer o oriau a dreulir ar hyfforddiant y tu allan i'r swydd bob wythnos yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar fath a lleoliad yr hyfforddiant. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae'r rheini sy'n hyfforddi mewn colegau o'i gymharu â sefydliadau darparu hyfforddiant neu yn y gweithle yn derbyn nifer uwch o oriau hyfforddi y tu allan i'r swydd.

Hefyd, mae'r rheini sy'n astudio pynciau 'Adeiladu/peirianneg/gweithgynhyrchu/cludiant' yn llawer mwy tebygol o fod yn gwneud hyfforddiant y tu allan i'r swydd am fwy na saith awr bob wythnos (43% sy'n derbyn hyfforddiant yn y pynciau yma o'i gymharu â'r cyfanswm cyffredinol o 25%). Yn cysylltu â hyn, y myfyrwyr gwrywaidd sy'n dysgu yn y gwaith sy'n elwa fwy o'r hyfforddiant y tu allan i'r swydd (mae 34% ar raglenni sy'n rhoi mwy na saith awr bob wythnos iddynt o'i gymharu â dim ond 13% o'r merched).

Os awn ati i ganolbwyntio ar ddysgwyr a ddywedodd eu bod yn cael o leiaf 7 awr o hyfforddiant y tu allan i'w swyddi bob wythnos, mae'r siart isod yn dangos sut mae pwnc yr hyfforddiant yn gyfatebol â nifer yr oriau.


### 4.3.6 A yw'r nifer o oriau a dreulir yn hyfforddi y tu allan i'r swydd yn ddigonol?

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr Dysgu yn y Gwaith oedd wedi'u cyflogi a oedd y nifer o oriau o hyfforddiant a gânt y tu allan i'r swydd yn ddigonol neu a fyddent yn hoffi cael mwy. Er bod y mwyafrif o'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yn ymddangos yn hapus â nifer yr oriau (dywedodd 71% eu bod wedi cael digon o amser) hoffai chwarter ohonynt gael mwy o amser neilltuedig.

**Tabl 4.11: Nifer yr oriau bob wythnos ar hyfforddiant y tu allan i'r swydd yn ôl rhyw a'r math o sefydliad darparu hyfforddiant y tu allan i'r swydd (Dysgu yn y Gwaith)**

| | Rhyw | | | Y math o sefydliad darparu hyfforddiant y tu allan i'r swydd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm | Gwryw | Menyw | Coleg | Darparwr hyfforddiant | Y gweithle |
| Sail: Heb ei bwysoli | 787 | 465 | 322 | 273 | 136 | 568 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 787 | 465 | 322 | 273 | 136 | 568 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Llai na 2 awr | 14 | 11 | 19 | 4 | 11 | 16 |
| 2-4 o oriau yn gynwysedig | 23 | 20 | 27 | 13 | 25 | 26 |
| 5-7 o oriau yn gynwysedig | 14 | 14 | 15 | 24 | 18 | 13 |
| Mwy na 7 awr | 26 | 35 | 12 | 46 | 27 | 21 |
| Nid wyf yn derbyn hwn bob wythnos | 20 | 17 | 23 | 10 | 16 | 22 |
| Ni wn | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 |

**Siart 4.4: A yw'r nifer o oriau a dreulir bob wythnos yn hyfforddi y tu allan i'r swydd yn ddigonol (Dysgu yn y Gwaith)**



Digon o amser 71%
Hoffwn gael mwy o amser 25%
Ni wn 4%

Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd mewn swydd (787)

Ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu bod angen mwy o oriau hyfforddi y tu allan i'r swydd ar unrhyw grŵp arbennig o fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith. Nid yw dysgwyr ar raglenni/pynciau sy'n cynnig llai o oriau bob wythnos mewn hyfforddiant y tu allan i'w swyddi (h.y. Lletygarwch/Arlwyo/ Hamdden a Theithio/Adwerthu ac Iechyd/ Cymdeithasol/Gofal Plant) yn fwy tebygol o ddweud eu bod eisiau mwy o amser.





**Tabl 4.12: Nifer yr oriau bob wythnos yn hyfforddi y tu allan i'r swydd yn ôl y pwnc (DyG)**


| | Y % yn nodi mwy na 7 awr bob wythnos y tu allan i'r swydd | |
|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd | | |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | |
| | % | |
| Adeiladu/Peirianneg/Gweithgynhyrchu/Cludiant | 46 | Y nifer mwyaf o oriau |
| Llythrennedd/Rhifedd/Sgiliau Sylfaenol | 31 | |
| TGCh | 29 | |
| Arall (Ieithoedd/Y Dyniaethau/Y Celfyddydau a'r Gwyddorau) | 27 | |
| Cyfanswm (yn gyffredinol) | 26 | |
| Rheoli/Busnes/Gweinyddu/Y Gyfraith | 15 | Y nifer lleiaf o oriau |
| Lletygarwch/Arlwyo/Hamdden a Theithio/Adwerthu | 13 | |
| Iechyd/Gofal Plant/Cymdeithasol | 11 | |

## 4.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU

### 4.4.1 Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu/hyfforddiant

Mae bron i bedwar ymhob deg (39%) o ddysgwyr mewn addysg barhaus oedolion yn eithriadol fodlon gyda'u hathrawon yn gyffredinol. Gyda 40% arall yn fodlon iawn, mae hyn yn golygu bod bron i wyth ymhob deg yn perthyn i'r ddau fand uchaf o sgorau. Mae'r gyfran sy'n dewis opsiynau eithriadol fodlon/bodlon iawn yn uwch nag ymysg myfyrwyr AB a myfyrwyr dysgu yn y gwaith ac yn cadarnhau bod yr ansawdd yn eithriadol uchel ym marn y grŵp dysgwyr yma. Dim ond 4% oedd yn anfodlon i ryw raddau.

**Siart 4.5: Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu (Addysg Barhaus Oedolion)**




| Crynodeb | |
|---|---|
| Cyfanswm eithriadol/bodlon iawn | 70% |
| Cyfanswm bodlon | 94% |
| Cyfanswm anfodlon | 4% |

Sail: Y dysgwyr ABO i gyd (508)

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'ni wn' a 'heb fod yn un na'r llall'

**Tabl 4.13: Number of hours per week off-the-job training by subject (WBL)**

| | | Y Pwnc | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfan-swm | Adeiladu/Peir./Gweith./ Cludiant | Lletygar/Arlwyo/Hamdden a Theithio/Adwerthu | TGCh | Rheoli/Busnes/Gwein./ Y Gyfraith | Iechyd/Cymdeith./ Gofal Plant | Llythren./Sylfaenol/ Sgiliau Sylfaenol | Arall* |
| Sail: Heb ei bwysoli | 787 | 265 | 222 | 109 | 129 | 86 | 62 | 39 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 787 | 264 | 221 | 110 | 129 | 85 | 61 | 40 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Llai na 2 awr | 14 | 7 | 13 | 16 | 17 | 14 | 16 | 15 |
| 2-4 o oriau yn gynwysedig | 23 | 14 | 22 | 28 | 28 | 32 | 24 | 28 |
| 5-7 o oriau yn gynwysedig | 14 | 15 | 19 | 17 | 14 | 16 | 10 | 19 |
| Mwy na 7 awr | 26 | 46 | 31 | 29 | 15 | 11 | 31 | 27 |
| Nid wyf yn hyfforddi bob wythnos | 20 | 15 | 13 | 10 | 24 | 23 | 19 | 12 |
| Ni wn | 3 | 4 | 3 | 1 | 2 | 4 | - | - |

*Mae 'Arall' yn cynnwys Ieithoedd/Y Dyniaethau/Y Celfyddydau a'r Gwyddorau

**4.4.2 Ansawdd agweddau penodol o'r addysgu/hyfforddiant**

Mae oedran a rhyw yn dylanwadu ar y sgorau boddhad ymysg dysgwyr ABO. Mae merched hŷn yn fwy tebygol bob amser o roi sgorau o 9 neu 10 allan o 10 am bob dangosydd. Yn y mwyafrif o achosion mae'r merched iau yn fwy bodlon na'r dynion hŷn. Y dynion dan 55 oed sy'n lleiaf bodlon Yn arbennig, mae sgorau'n llawer is am y materion yma:

- 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' (gyda 47% yn rhoi'r sgorau uchaf, mae hyn 10% yn is na'r cyfartaledd cyffredinol ac 19% yn is na'r grŵp mwyaf bodlon, y merched 55+)
- 'Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn' (gyda 48% yn rhoi'r sgorau uchaf, mae hyn 10% yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a 16% yn is na'r merched 55+)
- 'Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu' (12% yn is na'r cyfartaledd cyffredinol)
- 'Darparu adborth prydlon a rheolaidd' (20% yn is na'r cyfartaledd cyffredinol)



**Tabl 4.14:Y graddau gorau ymysg y dangosyddion dysgu/hyfforddi yn ôl oedran o fewn y rhywiau ac oedran gadael yr ysgol (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | | Oedran o fewn y rhywiau | | | | Oedran gadael yr ysgol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail:Y dysgwyr ABO i gyd sy'n rhoi sgôr | Cyfan -swm | Gwryw <55 | Gwryw 55+ | Benyw <55 | Benyw 55+ | <16 | 16-18 | Hŷn na18 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Eu gallu i esbonio'r pwnc | 64 | 55 | 61 | 65 | 67 | 70 | 64 | 54 |
| Yn gwrando ar eich anghenion | 62 | 55 | 57 | 60 | 72 | 72 | 61 | 51 |
| Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog | 62 | 54 | 63 | 59 | 72 | 77 | 59 | 55 |
| Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu | 57 | 47 | 51 | 56 | 66 | 67 | 56 | 47 |
| Y gefnogaeth a gewch ganddynt | 52 | 43 | 41 | 54 | 59 | 63 | 50 | 41 |
| Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn | 58 | 48 | 60 | 56 | 63 | 69 | 58 | 45 |
| Ansawdd a hygyrchedd y defnyddiau addysgu | 51 | 39 | 48 | 52 | 57 | 63 | 47 | 44 |
| Yn gosod targedau neu amcanion dysgu eglur | 47 | 40 | 43 | 47 | 54 | 62 | 44 | 36 |
| Yn darparu adborth prydlon a rheolaidd | 53 | 33 | 45 | 57 | 60 | 59 | 51 | 44 |
| Yn ymdrin â dysgwyr aflonyddgar | 59 | 47 | 59 | 57 | 71 | 61 | 58 | 57 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

Mae'r sgorau'n dangos bod y merched 55+ oed yn eithriadol fodlon gydag ansawdd y dysgu. Dangosyddion arbennig i'w nodi h.y. lle mae'r cyfraneddau'n rhoi'r sgorau uchaf o 9% o leiaf yn uwch na'r cyfartaledd, yw 'Gwrando ar eich anghenion' ac 'Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog'.

Gan ystyried y pedwar grŵp oedran/rhyw, gellir cyffredinoli a dweud bod y 'llwybr boddhad yn dilyn y llinellau yma' (mae tabl 93 yn rhoi'r manylion llawn):

**Siart 4.6: Boddhad gyda'r dysgu/ hyfforddiant (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | |
|---|---|
| Merched 55 + | Mae'r boddhad |
| Merched iau na 55 | yn lleihau |
| Dynion 55 + | wrth symud |
| Dynion iau na 55 | drwy'r grwpiau |

Mae'r nifer o newidynnau eraill yn cael effaith ar y dangosyddion boddhad gyda'r dysgu. O'r holl ddangosyddion, mae'n ymddangos bod:

- Dysgwyr a adawodd yr ysgol yn ifanc (yn iau nag 16 oed) yn fwy bodlon na'r rheini a gwblhaodd neu a arhosodd mewn addysg (edrychwch ar dabl 93). Mewn gwirionedd, fel grŵp, maen nhw o leiaf 10% yn uwch na'r cyfartaledd o roi 9 neu 10 allan o 10 ar gyfer y dangosyddion nesaf yma i gyd:
  - Gwrando ar eich anghenion'
  - 'Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/ hwyliog'
  - 'Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn'
  - 'Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu'
  - 'Yn gosod targedau neu amcanion dysgu eglur'
- Mae dysgwyr ABO nad ydynt yn gweithio yn rhoi sgorau uwch am bob ffactor na'r rheini sy'n gweithio (efallai bod ffactor oedran ar waith yn y fan yma)
- Mae'r rheini sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu yn fwy bodlon na'r rheini sydd heb rai. Roedd y cyfraneddau a roddodd 9 neu 10 allan o 10 i'r athrawon yn llawer uwch ar gyfer y grŵp yma mewn perthynas â'r materion hyn:
  - 'Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn'
  - 'Yn gosod targedau neu amcanion dysgu eglur'
  - 'Yn darparu adborth prydlon a rheolaidd'

Mewn perthynas â dangosyddion detholedig, mae'n ymddangos bod dysgwyr sydd â chyfrifoldebau (naill ai plant yn unig a/neu blant ac oedolion) yn fwy bodlon na'r rheini sydd heb gyfrifoldebau:

- 'Gwrando ar eich anghenion' (Rhoddodd 67% o'r rheini gyda phlant yn unig i ofalu amdanynt a 68% o'r rheini gyda phlant ac oedolion i ofalu amdanynt y sgorau uchaf i'r athrawon o'i gymharu â 59% o'r dysgwyr oedd heb unrhyw gyfrifoldebau o'r fath)
- 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' (Rhoddodd 64% o'r rheini gyda phlant yn unig i ofalu amdanynt a 62% o'r rheini gyda phlant ac oedolion i ofalu amdanynt y sgorau uchaf i'r athrawon o'i gymharu â 54% o'r dysgwyr sydd heb unrhyw gyfrifoldebau o'r fath)
- 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt' (Rhoddodd 57% o'r rheini gyda phlant yn unig i ofalu amdanynt ac hefyd y rheini gyda phlant ac oedolion i ofalu amdanynt y sgorau uchaf i'r athrawon o'i gymharu â 49% o'r dysgwyr sydd heb unrhyw gyfrifoldebau o'r fath)





**Tabl 4.15: Pa radd fyddech chi'n ei rhoi i'r athrawon/hyfforddwyr/aseswyr am yr agweddau yma (% yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10) yn ôl cyflogaeth, anableddau/ anawsterau dysgu a chyfrifoldebau (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | | Cyflogaeth | | Anableddau/ anawsterau dysgu | | Prif gyfrifoldebau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr ABO i gyd yn rhoi sgôr | Cyfan-swm | Ddim yn gweithio | Yn gweithio | Gydag anabledd/ anhawster dysgu | Dim anabledd/ anhawster dysgu | Cyfrifoldebau – plant yn unig | Cyfrifoldebau – plant a/neu oedolion | Dim cyfrifoldebau o'r fath |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Eu gallu i esbonio'r pwnc | 64 | 69 | 56 | 71 | 625 | 68 | 67 | 62 |
| Yn gwrando ar eich anghenion | 62 | 70 | 53 | 71 | 60 | 67 | 68 | 59 |
| Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog | 63 | 69 | 55 | 69 | 61 | 62 | 63 | 63 |
| Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu | 57 | 65 | 46 | 65 | 54 | 64 | 62 | 54 |
| Y gefnogaeth a gewch ganddynt | 52 | 56 | 45 | 59 | 50 | 57 | 57 | 49 |
| Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn | 58 | 65 | 49 | 71 | 54 | 58 | 57 | 58 |
| Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu | 51 | 55 | 46 | 59 | 49 | 54 | 53 | 50 |
| Yn gosod targedau neu amcanion dysgu eglur | 47 | 53 | 41 | 60 | 44 | 52 | 50 | 46 |
| Yn darparu adborth prydlon a rheolaidd | 53 | 54 | 51 | 65 | 49 | 55 | 55 | 51 |
| Yn ymdrin â dysgwyr aflonyddgar | 59 | 63 | 55 | 58 | 60<br>56 | 56<br>62 | | |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor.
Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

**Darlun disgrifiadol: Dysgwr mewn addysg barhaus oedolion**

Mae'r dysgwr yma'n ddyn 69 oed ac mae'n gwneud cwrs rhan amser (tair awr neu'n llai bob wythnos) yn yr iaith Gymraeg.

Penderfynodd wneud y cwrs er mwyn gwella ei wybodaeth am y pwnc, i ddysgu sgiliau newydd, i hybu ei ddatblygiad personol, i gyfarfod pobl newydd ac i wneud rhywbeth defnyddiol â'i amser rhydd. Hefyd, roedd eisiau gallu cyfathrebu gyda'i wyrion yn yr iaith Gymraeg.

Mae'n mynychu'r cwrs a'r sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddo, a dewisodd y sefydliad yma oherwydd ei leoliad.

Yn anffodus, mae'n eithriadol anfodlon ag ansawdd y dysgu yn gyffredinol. Ar gyfer y dangosyddion sy'n ymwneud â'r athrawon mae'n tueddu i roi sgôr o 5 neu 6 allan o 10 iddynt ac mae'r un peth yn wir am y sgôr ar gyfer y ffordd mae ei ddarparwr yn rheoli ei ddysgu. Mae wedi cael problemau gydag aros yn frwdfrydig ac mae'n credu nad oedd gan yr athro'r gallu i gyfathrebu'n ddigonol.

Mae'r dysgwr yma'n weddol fodlon yn gyffredinol. Mae'n dweud ei fod wedi dod yn ei flaen yn ei astudiaethau a'i fod yn bwriadu parhau. Bydd yn gwneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf.

### 4.4.3 Rheoli dysgu

Fe dderbyniodd y dangosyddion i gyd y sgorau uchaf gan oddeutu chwech ymhob deg o ddysgwyr addysg barhaus oedolion wedi'i hachredu. Pan archwiliwyd y dangosyddion sy'n ymwneud â'r athrawon yn yr adran flaenorol, cafwyd cryn dipyn o amrywiaeth rhwng y sgorau boddhad gan y dynion iau a'r merched hŷn (roedd yr ail grŵp yn llawer mwy bodlon). Gwelwyd patrwm tebyg wrth ystyried y sgorau am y ffordd mae'r darparwr yn trin y cwrs. Ond, er mai dynion dan 55 oed yw'r lleiaf bodlon, nid yw'r gwahaniaeth mor amlwg ar gyfer nifer o'r dangosyddion.

Dyma'r materion y mae'r dynion dan 55 oed yn lleiaf bodlon â nhw:

- 'Rheoli amserlenni' (rhoddodd 37% sgôr o 9 neu 10 allan o 10 i'w darparwr o'i gymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 58%)
- 'Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau' (rhoddodd 45% sgôr o 9 neu 10 allan o 10 i'w darparwyr o'i gymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 59%)

Canfyddiad positif arall yw bod pobl gydag anableddau a/neu anawsterau dysgu yn rhoi sgôr uwch na'r cyfartaledd am y ffordd y rheolir y dysgu mewn addysg barhaus oedolion yn gyffredinol. Dyma rai y dylid eu nodi'n arbennig:

- 'Helpu pobl newydd i setlo i mewn' (rhoddodd 74% y sgôr uchaf i'w darparwyr o'i gymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 63% a'r ffigur ar gyfer y rheini heb anableddau/anawsterau dysgu yw 60%)
- 'Rheoli amserlenni' (rhoddodd 70% y sgôr uchaf i'w darparwyr o'i gymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 58% a'r ffigur ar gyfer y rheini heb anableddau/anawsterau dysgu yw 54%)



**Tabl 4.16: Pa mor dda gafodd y materion yma eu rheoli yn eich barn chi? (% yn sgorio 9 neu 10 allan o 10) yn ôl eu hoedran o fewn y rhywiau ac anableddau/ anawsterau dysgu (ABO)**

| | | Oedran o fewn y rhywiau | | | | Anableddau/ Anawsterau dysgu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr ABO i gyd sy'n rhoi sgôr | Cyfan-swm | Gwryw <55 | Gwryw >55 | Benyw <55 | Benyw >55 | Gydag anabledd /anhawster dysgu | Dim anabledd /anhawster dysgu |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael | 61 | 50 | 65 | 58 | 70 | 66 | 60 |
| Darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ddysgwyr eraill | 63 | 52 | 62 | 65 | 66 | 68 | 61 |
| Helpu pobl newydd i setlo i mewn | 63 | 51 | 58 | 65 | 69 | 74 | 60 |
| Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr | 58 | 37 | 55 | 59 | 68 | 70 | 54 |
| Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau | 59 | 45 | 56 | 57 | 72 | 66 | 57 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

Newidynnau eraill sy'n dangos y tebygolrwydd o roi sgôr uwch am y ffordd y rheolir y dysgu yw:

- Rheini sydd wedi gadael addysg yn gynnar (mae'r grŵp yma'n fwy tebygol o roi sgorau uwch na'r rheini sydd wedi aros yn yr ysgol yn hirach)
- Mae dysgwyr gyda chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill ychydig yn fwy tebygol o roi'r sgorau uchaf am 'ddarparu cefnogaeth pan fyddwch chi neu ddysgwyr eraill ei hangen' (65% o'i gymharu â 57% heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu)

## 4.5 CYMHARIAETH RHWNG Y MATHAU O DDARPARIAETH

Mae boddhad gyda'r dysgu/hyfforddiant yn uchel iawn yn y tri math o ddarpariaeth gyda mwy na 90% bob tro yn nodi rhyw radd o foddhad (naill ai'n eithriadol fodlon, yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon). Dyma'r gwahaniaethau allweddol yn ôl y math o ddarpariaeth:

- Dysgwyr mewn addysg barhaus oedolion yw'r grŵp sy'n fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn eithriadol fodlon (39% o'i gymharu â 30% mewn AB a 22% mewn DyG)
- Mae myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yn llai parod i nodi eu boddhad na mathau eraill o ddysgwyr, ac mae llai ohonynt yn disgyn i'r categori 'eithriadol fodlon' ac mae mwy ohonynt yn eu disgrifio eu hunain fel 'gweddol fodlon' yn unig

**Tabl 4.17:Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu/hyfforddiant yn ôl y math o ddarpariaeth**

| | Y math o ddarpariaeth | | |
|---|---|---|---|
| Sail:Y dysgwyr i gyd | AB | DyG | ABO |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Eithriadol fodlon | 31 | 22 | 39 |
| Bodlon iawn | 36 | 37 | 40 |
| Gweddol fodlon | 24 | 33 | 15 |
| Heb fod yn un na'r llall | 3 | 3 | 2 |
| Gweddol anfodlon | 3 | 3 | 2 |
| Anfodlon iawn | 1 | 1 | 1 |
| Eithriadol anfodlon | 1 | 1 | 1 |
| | | | |
| Cyfanswm eithriadol/bodlon iawn | 67 | 59 | 79 |
| Cyfanswm bodlon | 91 | 92 | 94 |
| Cyfanswm anfodlon | 5 | 5 | 4 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Rhoddwyd sgorau i ddangosyddion manwl o ansawdd yr addysgu ar sail pwyntiau allan o 10. Wrth ddadansoddi'r canlyniadau, rydym wedi trin sgôr o 9 neu 10 allan o 10 fel sgôr uchel. Dyma'r dangosyddion dderbyniodd y sgorau uchaf mewn perthynas â pherfformiad yr athrawon/ hyfforddwyr:

- 'Eu gallu i esbonio'r pwnc'
- 'Gwrando ar eich anghenion'
- Mewn perthynas â'r ddwy elfen yma, rhoddwyd y sgorau uchaf gan fwy na 50% o'r dysgwyr AB, ychydig yn llai na 50% o'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith a mwy na 60% o'r dysgwyr addysg barhaus oedolion
- Roedd 'gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn hwyliog' yn un o'r dangosyddion a gafodd y sgorau uchaf gan y dysgwyr mewn addysg barhaus oedolion a dysgwyr mewn AB (63% a 47% yn y drefn honno)

Dyma'r dangosyddion gafodd sgorau isel (gyda 40% neu lai yn rhoi 9 neu 10 allan o 10):

- Mewn AB ,'Gosod targedau' (39%) ac 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' (40%)





**Tabl 4.18: Pa radd fyddech chi'n ei rhoi i'r athrawon/hyfforddwyr/aseswyr am yr agweddau yma (% yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10) yn ôl y math o ddarpariaeth**

| | Y math o ddarpariaeth | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd sy'n rhoi sgôr | AB | DyG | ABO |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Eu gallu i esbonio'r pwnc | 54 | 48 | 64 |
| Yn gwrando ar eich anghenion | 51 | 47 | 62 |
| Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog | 47 | 36 | 63 |
| Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu | 40 | 39 | 57 |
| Y gefnogaeth a gewch ganddynt | 43 | 40 | 52 |
| Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn | 44 | 37 | 58 |
| Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu | 43 | 38 | 51 |
| Gosod targedau neu amcanion dysgu eglur | 39 | 38 | 47 |
| Darparu adborth prydlon a rheolaidd | 42 | 37 | 53 |
| Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar | 43 | 36 | 59 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

- Ar gyfer myfyrwyr sy'n dysgu yn y gwaith, mae nifer o ddangosyddion yn derbyn sgorau isel. Dyma nhw:
  - 'Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog' (36%)
  - 'Yn ymdrin â dysgwyr aflonyddgar' (36%)
  - 'Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn' (37%)
  - 'Yn darparu adborth prydlon a rheolaidd' (37%)
  - 'Ansawdd a hygyrchedd y defnyddiau addysgu' (37%)
  - 'Gosod targedau neu amcanion dysgu eglur' (38%)
  - 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' (39%)
  - 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt' (40%)
- Ar gyfer dysgwyr mewn addysg barhaus oedolion mae pob dangosydd yn derbyn sgôr uchel

Mae'r dangosyddion sy'n ymwneud â rheoli a gweinyddu agweddau o'r profiad dysgu yn ymwneud â ffactorau fel hygyrchedd athrawon/hyfforddwyr, amserlenni, y cyfnodau cyflwyno a pharhad y gefnogaeth. Mae tabl 98 yn dangos mai'r dysgwyr ABO yn gyffredinol oedd y mwyaf bodlon tra bo'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith a'r dysgwyr mewn AB yn nodi lefelau is o foddhad gydag agweddau penodol.

**Tabl 4.19: Pa radd fyddech chi'n ei rhoi i'r athrawon/hyfforddwyr/aseswyr am yr agweddau yma (% yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10) yn ôl y math o ddarpariaeth**

| | Y math o ddarpariaeth | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd | AB | DyG | ABO |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael | 43 | 45 | 61 |
| Darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ddysgwyr eraill | 50 | 45 | 63 |
| Helpu pobl newydd i setlo i mewn | 54 | 48 | 63 |
| Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr | 45 | 42 | 58 |
| Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau | 41 | 35 | 59 |
| Aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd | N/A | 52 | N/A |
| Gweld yr un aseswr bob tro | N/A | 56 | N/A |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

Dyma'r materion a dderbyniodd sgorau arbennig o isel gan ddysgwyr AB o'i gymharu â dysgwyr ABO:

- Sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael' (43% o'i gymharu â 61%)
- 'Darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ddysgwyr eraill' (50% o'i gymharu â 63%)
- 'Helpu pobl newydd i setlo i mewn' (54% o'i gymharu â 63%)
- 'Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau' (41% o'i gymharu â 59%)

## 4.6 FFACTORAU SY'N DYLANWADU AR FODDHAD GYDA'R ADDYSGU A'R RHEOLI

### 4.6.1 Addysg Bellach

Gwnaethpwyd dadansoddiad ystadegol i weld pa gyfraniad yr oedd y gwahanol elfennau o addysgu yn ei wneud i greu boddhad a beth oedd barn y dysgwyr am berfformiad ymhob elfen.

Mae Siart 99 yn mapio'r dadansoddiad ystadegol drwy roi'r agweddau o addysgu yn eu safle yn ôl y cyfraddau boddhad a chyfraniad pob agwedd i greu boddhad. Mae hyn yn creu pedwar cwadrant:

**Y cwadrant chwith uchaf:** Cyfraniad uchel ond boddhad is yn golygu bod angen gweithredu

**Y cwadrant dde uchaf:** Cyfraniad uchel a boddhad uchel yn dangos bod angen hybu'r cryfderau yma

**Y cwadrant chwith isaf:** Cyfraniad is a boddhad is yn dangos bod angen monitro'r agweddau yma


**Y cwadrant dde isaf:** Cyfraniad is ond boddhad uchel yn dangos bod angen cynnal perfformiad







### Siart 4.8: Pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu (AB)




Nodwch: Mae'r echelin ar y grid wedi'i adeiladu o amgylch y sgorau a roddwyd felly nid ydynt yn cychwyn ar sero.
Nid oes sgorau boddhad cymedrig sy'n is na 7 allan o 10 a dim sgorau pwysigrwydd cymedrig sy'n is na 3.

### Tabl 4.20: Agweddau o'r rheoli sy'n dylanwadu ar foddhad (FE)

| Trefn blaen-oriaeth | Agweddau o Reoli | Cyfraniad at greu boddhad | Sgôr am foddhad gyda pherfformiad (allan o 10) |
|---|---|---|---|
| 1 | Hysbysu'r myfyrwyr am newidiadau yn amseroedd y gwersi | 20% | 7.6 |
| 2 | Sicrhau bod digon o diwtoriaid a/neu athrawon ar gael | 20% | 7.7 |
| 3 | Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr | 20% | 7.8 |
| 4 | Darparu cefnogaeth pan fydd gennych chi neu ddysgwr arall broblemau | 20% | 8.1 |
| 5 | Helpu pobl newydd i setlo i mewn | 20% | 8.3 |

Dyma'r elfennau addysgu sy'n disgyn i'r cwadrant 'gweithredu':

- Y gefnogaeth a gewch ganddynt, e.e. i wella eich technegau astudio neu reoli amser
- Darparu adborth prydlon am ddatblygiad
- Gosod targedau neu amcanion dysgu clir i'ch helpu i wella
- Gwneud defnydd da o amser y wers
- Yn deall sut yr ydych yn hoffi dysgu

Byddai gwella'r elfennau yma'n cael yr effaith fwyaf ar y lefelau boddhad cyffredinol.

Dyma'r agweddau o addysgu fyddai'n elwa o hybu parhaus:

- Eu gallu i esbonio'r pwnc
- Gwrando ar eich anghenion
- Gwneud y pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog

#### 4.6.1.1 Rheoli

Mae pob agwedd yn y maes Rheoli yn gwneud cyfraniad i greu boddhad. Ond, mae'r lefelau boddhad yn amrywio.Y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yw'r agweddau hynny sy'n derbyn sgorau boddhad rhywfaint yn is. Dyma nhw:

- Hysbysu'r myfyrwyr am newidiadau yn amseroedd y gwersi
- Sicrhau bod digon o diwtoriaid/athrawon ar gael
- Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr

### 4.6.2 Dysgu yn y Gwaith

Ar gyfer myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith, dyma'r elfennau o 'addysgu/hyfforddiant' sy'n mynd i'r cwadrant 'gweithredu':

- Gwneud defnydd da o amser y sesiwn
- Gosod targedau neu amcanion dysgu clir i'ch helpu i wella
- Y gefnogaeth a gewch ganddynt, e.e. i wella eich technegau astudio neu reoli amser
- Darparu adborth rheolaidd a phrydlon am ddatblygiad
- Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog i chi

#### 4.6.2.1 Rheoli

Y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yw'r ffactorau sy'n derbyn y sgorau boddhad is. Dyma nhw:

- Hysbysu'r dysgwyr am newidiadau yn amser y sesiynau
- Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib ar gyfer y dysgwr
- Sicrhau bod digon o diwtoriaid/athrawon ar gael

### 4.6.3 Addysg barhaus oedolion wedi'i hachredu

The elements of 'Teaching' that fall into the 'action' quadrant are as follows:

- Y gefnogaeth a gewch ganddynt, e.e. i wella eich technegau astudio neu i reoli eich amser
- Darparu adborth rheolaidd a phrydlon am ddatblygiad
- Gosod targedau neu amcanion dysgu clir i'ch helpu i wella
- Gwneud defnydd da o amser y wers
- Deall sut yr ydych yn hoffi dysgu

Byddai gwella'r elfennau yma'n cael yr effaith fwyaf ar y lefelau boddhad yn gyffredinol.


#### 4.6.3.1 Rheoli

Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:

- Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr
- Hysbysu'r myfyrwyr am newidiadau yn amseroedd y gwersi
- Sicrhau bod digon o diwtoriaid/athrawon ar gael



**Siart 4.9: Pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu: Addysg barhaus oedolion**





Nodwch: Mae'r echelin ar y grid wedi'i adeiladu o amgylch y sgorau a roddwyd felly nid ydynt yn cychwyn ar sero.
Nid oes sgorau boddhad cymedrig sy'n is na 7 allan o 10 a dim sgorau pwysigrwydd cymedrig sy'n is na 5.

**Tabl 4.21: Agweddau o'r rheoli sy'n dylanwadu ar foddhad (WBL)**

| Trefn y blaenor-iaeth | Agweddau o Reoli | Cyfraniad i greu boddhad | Sgôr am foddhad gyda pherfformiad (allan o 10) |
|---|---|---|---|
| 1 | Hysbysu'r myfyrwyr am newidiadau yn amseroedd y gwersi | 14% | 7.5 |
| 2 | Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib ar gyfer y dysgwr | 14% | 7.8 |
| 3 | Sicrhau bod digon o diwtoriaid a/neu athrawon ar gael | 14% | 7.8 |
| 4 | Darparu cefnogaeth pan fydd gennych chi neu ddysgwr arall broblemau | 14% | 7.9 |
| 5 | Aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd | 14% | 8.1 |
| 6 | Helpu pobl newydd i setlo i mewn | 14% | 8.2 |
| 7 | Gweld yr un aseswr bob tro | 14% | 8.2 |

**Siart 4.10: Pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu : Addysg barhaus oedolion**




Nodwch: Mae'r echelin ar y grid wedi'i adeiladu o amgylch y sgorau a roddwyd felly nid ydynt yn cychwyn ar sero.
Nid oes sgorau boddhad cymedrig sy'n is na 7 allan o 10 a dim sgorau pwysigrwydd cymedrig sy'n is na 5.

**Tabl 4.22: Agweddau o'r rheoli sy'n dylanwadu ar foddhad (ACE)**

| Trefn y blaenor-iaeth | Agweddau o Reoli | Cyfraniad i greu boddhad | Sgôr am foddhad gyda pherfformiad (allan o 10) |
|---|---|---|---|
| 1 | Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr | 20% | 8.4 |
| 2 | Hysbysu'r myfyrwyr am newidiadau yn amseroedd y gwersi | 20% | 8.5 |
| 3 | Sicrhau bod digon o diwtoriaid a/neu athrawon ar gael | 20% | 8.5 |
| 4 | Darparu cefnogaeth pan fydd gennych chi neu ddysgwr arall broblemau | 20% | 8.6 |
| 5 | Helpu pobl newydd i setlo i mewn | 20% | 8.8 |





## 4.7 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA

### AB

Yn gyffredinol, mae'r boddhad gyda'r dysgu yn uchel (mae 66% naill ai yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn, mae 90% yn nodi rhywfaint o foddhad). Ychydig o amrywiaeth sydd mewn boddhad yn gyffredinol yn ôl oedran a rhyw, ond mae rhai grwpiau yn llai bodlon ag agweddau arbennig o'r addysgu.

Mae dysgwyr iau, yn arbennig y rhai 19-24 oed, yn llawr llai bodlon gyda'r agweddau nesaf yma (o'i gymharu â'r grŵp hynaf, y rhai 55+):

- 'Eu gallu i esbonio'r pwnc' (44% o'i gymharu â 61% o'r rheini sy'n 55+ oed)
- 'Yn gwrando ar eich anghenion' (44% o'i gymharu â 59%)
- 'Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog' (35% o'i gymharu â 64%)
- 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' (30% o'i gymharu â 53%)
- 'Yn defnyddio amser y wers/sesiwn yn dda' (31% o'i gymharu â 55%)

Hefyd, mae dysgwyr iau yn llai bodlon gyda materion rheoli e.e. eu gallu i gael gafael ar athrawon, y ffordd y mae eu hathrawon yn rheoli amserlenni ac yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr am newidiadau ynddynt. Mae hyn yn awgrymu naill ai bod y dysgwyr hŷn yn fwy parod i dderbyn ffactorau o'r fath neu fod y dysgwyr iau yn gorfod wynebu mwy o sefyllfeydd fel yma.

Mae'n ymddangos bod dysgwyr gwrywaidd yn llai bodlon na'u cymheiriaid benywaidd gyda'r deialog y maent wedi llwyddo i'w sicrhau gyda'u hathrawon. Maen nhw'n rhoi sgorau is am foddhad gyda'r pethau nesaf yma'n arbennig:

- 'Gwrando ar eich anghenion' (47% o'i gymharu â 55% o'r merched)
- 'Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' (35% o'i gymharu â 44%)
- 'Yn defnyddio amser y wers yn dda' (40% o'i gymharu â 46%)

**Mae'r Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu** mewn perthynas â gweithgareddau addysgu yn ymwneud gan fwyaf â rheoli'r broses ddysgu:

- Cefnogaeth
- Adborth
- Gosod targedau
- Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu

Mae'r rhain, ynghyd â 'defnyddio amser y wers yn dda' yn nodweddion sy'n derbyn sgorau is mae'n ymddangos, yn arbennig gan y dynion iau. Dylai targedu'r meysydd yma, gan ganolbwyntio'n fwy trwyadl ar y dysgwyr yma, helpu i'w gwneud nhw'n fwy bodlon.

**Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu mewn perthynas â gweithgareddau rheoli:**

- Rheoli amserlenni fel eu bod yn addas ar gyfer y dysgwr
- Hysbysu'r myfyrwyr am newidiadau yn amseroedd y gwersi
- Sicrhau bod digon o athrawon/tiwtoriaid ar gael

## Dysgu yn y Gwaith

Yn gyffredinol, mae'r boddhad gyda'r hyfforddwyr/aseswyr yn uchel. Ond, mae dynion yn llai tueddol o fod yn fodlon (yn arbennig y dynion 19+ oed). Fel grŵp, mae'r merched yn rhoi sgôr uwch i'r hyfforddwyr/aseswyr ond mae'r merched 19+ oed ychydig bach yn llai bodlon na'r merched 16-18 oed. Mae'r gwahaniaeth mewn sgorau rhwng y dynion a'r merched yn gallu bod yn ddramatig iawn weithiau, yn arbennig ar gyfer:

- 'Gwrando ar eich anghenion' rhoddodd 38% o'r dynion y sgorau gorau o'i gymharu â 59% o'r merched
- 'Darparu adborth prydlon a rheolaidd' (31% o'i gymharu â 44%)
- 'Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar' (30% o'i gymharu â 46%)

Ar ben hynny, mae'r dynion 19+ oed yn fwy tebygol o deimlo nad yw'r hyfforddwyr yn gallu gwneud y pwnc yn hwyliog ac yn ddiddorol ac nad ydynt yn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt. Maen nhw hefyd yn rhoi sgorau is bob tro am y ffordd mae eu rhaglenni hyfforddi wedi'u rheoli.

Dyma'r newidynnau eraill sydd fel pe baent yn effeithio ar foddhad y grŵp yma:

- Os ydynt mewn swydd (mwy bodlon)
- Y pwnc (bydd y pynciau lle mae mwy o ddynion yn astudio yn derbyn sgorau is)
- Os yw'r cyflogwr yn gefnogol mae'r dysgwr yn fwy bodlon gyda'r hyfforddwr/asesydd

## Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

Mae gradd gweddol gryf o orgyffwrdd rhwng y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu mewn Addysg Bellach a'r rheini a bennwyd ar gyfer dysgu wedi'i seilio yn y gwaith.

Addysgu yw'r prif ffactor sy'n creu boddhad ac yn y cyswllt hwnnw y meysydd i'w blaenoriaethu yw:

- Gwneud defnydd da o amser y wers
- Gosod targedau neu amcanion dysgu clir i'ch helpu i wella
- Y gefnogaeth a gewch ganddynt, e.e. i wella eich technegau astudio neu reoli amser
- Darparu adborth rheolaidd a phrydlon am ddatblygiad
- Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog i chi

Mae'r ffactorau rheoli sydd angen sylw yn union yr un fath â'r rheini a bennwyd ar gyfer AB:

- Hysbysu'r dysgwyr am newidiadau yn amser y sesiynau
- Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib ar gyfer y dysgwr
- Sicrhau bod digon o diwtoriaid/athrawon ar gael

## Addysg barhaus oedolion

Rhoddwyd sgorau boddhad eithriadol o uchel gyda'r dysgu gan y grŵp yma. Wrth edrych ar agweddau unigol o addysgu mae oedran a rhyw yn effeithio ar lefelau'r boddhad. Mae'r merched yn fwy bodlon yn gyffredinol a'r merched hŷn yw'r mwyaf bodlon. Y dynion ieuengaf (dan 55 oed) yw'r lleiaf bodlon. Newidynnau eraill sydd fel pe baent yn dangos lefel uwch o foddhad ar gyfer y grŵp yma yw os yw'r ymatebwr:

- Wedi gadael yr ysgol yn gynnar
- Heb fod yn gweithio
- Bod ganddo anabledd neu anhawster dysgu

Ymysg y grwpiau yma i gyd mae'r gyfran sy'n rhoi'r sgorau uchaf o leiaf 10% yn uwch na'r cyfartaledd yn gyffredinol.

### Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

Er bod y sgorau ar gyfer y math yma o ddarpariaeth yn uchel iawn yn gyffredinol, mae'r meysydd o wendid perthynol yn union yr un fath â'r rheini a amlygwyd ar gyfer AB. O ystyried y sgorau uchel, fodd bynnag, mae'n anodd canfod yr union agweddau o addysgu a rheoli sydd angen sylw ar unwaith.

# 5. CYFLEUSTERAU

**Cyflwyniad:**

Mae'r adran yma'n ymdrin â barn y dysgwyr am y cyfleusterau yn eu colegau neu sefydliadau darparu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Llyfrgell neu ganolfan ddysgu
- Offer/cyfleusterau TG
- Gwasanaethau cefnogi dysgu
- Gwasanaethau cefnogi eraill
- Cyfleusterau gofal plant
- Cyngor gyrfaol
- Y ffreutur/caffi
- Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/ anawsterau dysgu
- Offer/cyfleusterau chwaraeon
- Offer/cyfleusterau arbenigol eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs chi

Gofynnwyd i'r dysgwyr i gyd sy'n mynychu coleg neu sefydliad darparu hyfforddiant roi sgôr ar gyfer y cyfleusterau yma ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 yn golygu gwael a 10 yn golygu rhagorol. Os nad oedd gan y dysgwr brofiad o gyfleuster, roedden nhw'n tueddu i beidio â rhoi sgôr. Mae'r dadansoddiad nesaf wedi'i seilio ar bawb a roddodd sgôr ar gyfer y cyfleuster, ac mae'n canolbwyntio ar y sgorau uchaf (h.y. y rheini a roddodd 9 neu 10 allan o 10).

## 5.1 BRASOLWG

Yn gyffredinol, mae sgôr y dysgwr ar gyfer cyfleusterau yn is na'r sgorau a roddwyd am y safonau addysgu. Y cyfleusterau craidd, sy'n berthnasol i ddysgu e.e. cyfleusterau TG, llyfrgelloedd a gwasanaethau cefnogi dysgu yw'r cyfleusterau gafodd y sgorau uchaf. Yr adnoddau gafodd y sgorau isaf yw'r ffreutur a chyfleusterau cymdeithasu. Er bod modd dadlau bod y rhain yn gyfleusterau ymylol i'r broses o ddysgu, mae manteision cymdeithasol y dysgu'n bwysig iawn i'r dysgwyr felly gallai hwn fod yn faes i'w ystyried.

**Tabl 5.1: Y graddau a roddwyd i'r adnoddau mewn coleg / sefydliad darparu (ac yn sgorio 9 neu 10 allan o 10)**

| **Sail: Y dysgwyr i gyd sy'n mynychu coleg neu sefydliad darparwr** | **5757** |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 5757 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 5911 |
| | % |
| Llyfrgell neu ganolfan ddysgu | 50 |
| Offer/cyfleusterau TG | 55 |
| Gwasanaethau cefnogi dysgu | 48 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 43 |
| Cyfleusterau gofal plant | 47 |
| Cyngor gyrfaol | 42 |
| Y ffreutur/caffi | 33 |
| Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/anawsterau dysgu | 50 |
| Offer/cyfleusterau chwaraeon | 41 |
| Offer/cyfleusterau eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs | 41 |
| Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill | 32 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu y byddent ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.





**Tabl 5.2:Y graddau a roddwyd i'r cyfleusterau mewn coleg/darparwr (AB): (pawb oedd yn sgorio 9/10 allan o 10 a 7/8 a 6 neu'n is)**

| Sail:Yr holl ddysgwyr AB | Y sgôr ar gyfer y cyfleuster | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli: 4707 | | | |
| Sail: Wedi'i bwysoli: 4707 | | | |
| | Sgôr o 9 neu 10 | Sgôr o 7 neu 8 | Sgôr o 6 neu'n is |
| | % | % | % |
| Llyfrgell neu ganolfan ddysgu | 52 | 34 | 14 |
| Offer/cyfleusterau TG | 55 | 32 | 13 |
| Gwasanaethau cefnogi dysgu | 48 | 34 | 18 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 43 | 32 | 25 |
| Cyfleusterau gofal plant | 49 | 24 | 28 |
| Cyngor gyrfaol | 41 | 38 | 21 |
| Y ffreutur/caffi | 33 | 41 | 27 |
| Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/anawsterau dysgu | 52 | 33 | 16 |
| Offer/cyfleusterau chwaraeon | 41 | 34 | 25 |
| Offer/cyfleusterau eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs | 40 | 39 | 21 |
| Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill | 31 | 38 | 31 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

## 5.2 ADDYSG BELLACH

Mae tabl 106 yn dangos bod y gyfran uchaf o ddysgwyr (o leiaf 50% ymhob achos) o'r dysgwyr AB hynny sy'n rhoi sgôr ar gyfer cyfleusterau'r coleg/darparwr, yn rhoi sgôr o 9 neu 10 ar gyfer y pethau yma:

- Llyfrgell neu ganolfan ddysgu (52%)
- Offer/cyfleusterau TG (55%)
- Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/ anawsterau dysgu (52%)

Mae'r cyfleusterau gafodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10 gan lai na 40% o'r grŵp yn cynnwys y ffreutur/caffi a chyfleusterau ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill. Er nad yw'r rhain yn ganolog efallai i'r gwir weithgaredd dysgu, mae hi werth nodi'r anfodlonrwydd perthynol gyda'r agwedd yma o'r ddarpariaeth.

Mae dadansoddiad demograffig o'r rheini sy'n rhoi sgôr o 9 neu 10 am gyfleusterau yn datgelu rhai amrywiadau, yn arbennig mewn perthynas â'r grŵp oedran 19-24, fel a ganlyn:

- Mae dynion yn y grŵp oedran 19-24 yn llai tebygol na dysgwyr eraill o roi sgôr o 9 neu 10 am:
  - Llyfrgell/canolfannau dysgu (41% o'i gymharu â 49% neu fwy)
  - Gwasanaethau cefnogi dysgu (31% o'i gymharu â 42% neu fwy ymysg dysgwyr eraill)
  - Cyfleusterau ar gyfer cymdeithasu (19% o'i gymharu â 27% neu fwy ymysg grwpiau eraill)
- Mae'r grŵp oedran 19–24 yn tueddu i roi sgôr is am offer/cyfleusterau TG a chyngor gyrfaol

Mae hi werth nodi bod y rheini sydd ag anableddau a/neu anawsterau dysgu yn tueddu i roi sgorau uwch i'r mwyafrif o gyfleusterau na'r dysgwyr eraill, yn arbennig:

- Y llyfrgell/ganolfan ddysgu – mae'r rheini gydag anawsterau dysgu yn fwy tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 na'r rheini heb anawsterau dysgu (63% o'i gymharu â 51%). Yn yr un modd, mae'r rheini gydag anableddau'n fwy tebygol na dysgwyr eraill o roi'r sgorau uchaf ar gyfer y cyfleuster yma (69% o'i gymharu â 50%)
- Cyngor gyrfaol – mae'r rheini sydd ag anableddau yn fwy tebygol na'r dysgwyr eraill o roi sgôr o 9 neu 10 am gyngor gyrfaol (54% o'i gymharu â 40%). Mae'r un peth yn wir am y dysgwyr gydag anawsterau dysgu (rhoddodd 51% ohonynt y sgôr uchaf o'i gymharu â 40% o ddysgwyr eraill)
- Gwasanaethau cefnogi dysgu – mae'r rheini sydd ag anawsterau dysgu yn fwy positif am y cyfleusterau yma na'r rheini sydd heb ddim (54% o'i gymharu â 47%), ac mae hyn yn adlewyrchu mwy o brofiad gwirioneddol
- Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anawsterau dysgu neu anableddau – mae'r rheini sydd ag anawsterau dysgu yn fwy tebygol nag eraill o roi sgôr uchel (60% o'i gymharu â 50% o ddysgwyr eraill). Fodd bynnag, mae'r gyfran o ddysgwyr gydag anableddau sy'n rhoi sgôr o 9 neu 10 yn debyg i'r gyfran o ddysgwyr heb anableddau sy'n rhoi sgôr o 9 neu 10 Pwynt arall sydd werth ei nodi yw hwnnw'n ymwneud â chyfleusterau gofal plant. Yn nodedig, ychydig o amrywiaeth sydd yn nhermau'r cyfraneddau o ddysgwyr sy'n rhoi'r ddau sgôr uchaf wrth gymharu dynion a merched, ac ychydig o amrywiaeth hefyd sydd rhwng y rheini gyda phlant a'r rheini heb blant.

Mae rhai gwahaniaethau rhwng y rhanbarthau yn nhermau ansawdd y cyfleusterau (ond rhaid nodi bod y sail ar gyfer Canolbarth Cymru'n rhy fach yn gyffredinol i'w gynnwys yn y dadansoddiadau). Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn y De Ddwyrain yn llai tebygol na dysgwyr yng Ngogledd Cymru neu'r De Orllewin o roi sgorau o 9 neu 10 am y canlynol:

- Cyfleusterau gofal plant
- Cyngor gyrfaol
- Cyfleusterau chwaraeon

Ond, mae dysgwyr yng Ngogledd Cymru yn fwy tebygol o roi'r sgorau gorau na dysgwyr mewn rhanbarthau eraill am y canlynol:

- Gwasanaethau cefnogi dysgu
- Gwasanaethau cefnogi eraill
- Cyfleusterau ar gyfer yr anabl a'r rheini sydd ag anableddau dysgu

### 5.3 DYSGU YN Y GWAITH

Ymysg y myfyrwyr sy'n Dysgu yn y Gwaith a roddodd sgôr am gyfleusterau, rhoddodd y gyfran fwyaf (54%) y sgôr uchaf o 9 neu 10 allan o 10 am offer/cyfleusterau TG. Yn wir, y cyfleuster yma oedd yr unig un lle rhoddodd mwy na hanner y dysgwyr y sgôr uchaf (Tabl 107).

Rhoddodd llai na 40% o'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith sgôr uchaf o 9 neu 10 allan o 10 am y cyfleusterau yma:

- Offer/cyfleusterau arbenigol eraill sy'n berthnasol i'ch hyfforddiant (39%)
- Llyfrgell neu ganolfan ddysgu (37%)
- Y ffreutur/caffi (37%)
- Offer/cyfleusterau chwaraeon (35%)
- Gwasanaethau cefnogi eraill (34%)
- Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu (32%)
- Cyfleusterau gofal plant (30%)

**Tabl 5.3:Y graddau a roddwyd i'r cyfleusterau mewn coleg/sefydliad darparu (Dysgu yn y Gwaith): (pawb roddodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10)**

| **Sail:Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd** | **Y sgôr am y cyfleuster yma** | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli: 542 | | | |
| Sail: Wedi'i bwysoli: 536 | | | |
| | Yn sgorio 9/10 | Yn sgorio 7/8 | Yn sgorio 6 neu'n is |
| | % | % | % |
| Llyfrgell neu ganolfan ddysgu | 37 | 37 | 26 |
| Offer/cyfleusterau TG | 54 | 28 | 17 |
| Gwasanaethau cefnogi dysgu | 44 | 36 | 20 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 34 | 32 | 34 |
| Cyfleusterau gofal plant | 30 | 29 | 42 |
| Cyngor gyrfaol | 41 | 35 | 24 |
| Y ffreutur/caffi | 37 | 30 | 32 |
| Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/ anawsterau dysgu | 47 | 29 | 24 |
| Offer/cyfleusterau chwaraeon | 35 | 30 | 35 |
| Offer/cyfleusterau eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs | 39 | 38 | 24 |
| Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill | 32 | 37 | 30 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

Mae dadansoddiad pellach o'r canlyniadau Dysgu yn y Gwaith yn gyfyngedig am fod maint y sail ar gyfer rhai o'r cwestiynau am gyfleusterau yn fach (yn fwyaf nodedig, nid yw dadansoddiad rhanbarthol yn bosib). Ond, mae rhai amrywiadau wrth ystyried newidynnau demograffig. Yn arbennig, mae merched yn fwy tebygol na dynion o roi'r sgôr uchaf o 9 neu 10 allan o 10 ar gyfer y canlynol:

- Offer/ cyfleusterau TG (62% o'i gymharu â 51% o ddynion yn rhoi'r sgôr uchaf)
- Gwasanaethau cefnogi dysgu (54% o'i gymharu â 39% o ddynion)
- Gwasanaethau cefnogi eraill (44% o'i gymharu â 29% o ddynion)
- Cyfleusterau gofal plant (46% o'i gymharu â 20% o ddynion)
- Cyngor gyrfaol (49% o'i gymharu â 36% o ddynion)
- Cyfleusterau ar gyfer cymdeithasu (42% o'i gymharu â 28% o ddynion)

**Tabl 5.4: Y graddau a roddwyd i'r cyfleusterau mewn colegau/sefydliadau darparu (Dysgu yn y Gwaith): (pawb oedd yn sgorio 9 neu 10 allan o 10)**

| | | Lleoliad yr hyfforddiant | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd sy'n mynychu coleg neu sefydliad darparu ac yn rhoi sgôr | Cyfanswm | Coleg | Darparwr hyfforddiant |
| Sail: Heb ei bwysoli | 542 | 328* | 232* |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 536 | 319 | 236 |
| | % | % | % |
| Llyfrgell a chanolfan ddysgu | 37 | 43 | 29 |
| Offer/cyfleusterau TG | 54 | 53 | 59 |
| Gwasanaethau cefnogi dysgu, e.e. cefnogaeth gyda darllen, ysgrifennu neu fathemateg | 44 | 40 | 51 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill, e.e. cynghori, cyngor am dai neu gefnogaeth ariannol | 34 | 30 | 38 |
| Cyfleusterau gofal plant | 30 | 28 | 31 |
| Cyngor gyrfaol | 41 | 36 | 46 |
| Ffreutur/caffi | 37 | 37 | 37 |
| Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/anawsterau dysgu | 47 | 50 | 46 |
| Offer/cyfleusterau chwaraeon | 35 | 36 | 36 |
| Offer/cyfleusterau arbenigol eraill sy'n berthnasol i'ch hyfforddiant | 39 | 38 | 40 |
| Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â hyfforddeion eraill | 32 | 28 | 36 |

*Mae'r seiliau'n adio i roi cyfanswm rhy uchel a'r rheswm am hyn yw bod rhai o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn astudio yn y ddau
Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

Mae'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu yn eu cartrefi'n llawer mwy tebygol na'r rheini sydd heb y cyfrifoldebau yma o roi sgôr uchel o 9 neu 10 am gyfleusterau gofal plant (50% gyda chyfrifoldebau adref o'i gymharu â 21% o'r lleill).

O edrych ar y canlyniadau yn ôl lleoliad yr hyfforddiant, mae darparwyr yr hyfforddiant yn derbyn sgorau uwch yn gyffredinol na cholegau am eu cyfleusterau. Yr eithriad yw'r sgôr ar gyfer y llyfrgell/ganolfan ddysgu.





**Tabl 5.5:Y sgôr a roddwyd am gyfleusterau mewn coleg/gan sefydliad darparu (ABO: pawb a roddodd sgôr ar gyfer bob cyfleuster)**

| | Y sgôr ar gyfer y cyfleuster | | |
|---|---|---|---|
| Sail:Y dysgwyr ABO i gyd a roddodd sgôr: 508 | | | |
| | Sgôr o 9/10 | Sgôr o 7/8 | Sgôr o 6 neu'n is |
| | % | % | % |
| Llyfrgell neu ganolfan ddysgu | 51 | 20 | 29 |
| Offer/cyfleusterau TG | 56 | 30 | 14 |
| Gwasanaethau cefnogi dysgu | 61 | 26 | 13 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 54 | 34 | 13 |
| Cyfleusterau gofal plant | 67 | 13 | 20 |
| Cyngor gyrfaol | 51 | 32 | 18 |
| Y ffreutur/caffi | 33 | 29 | 38 |
| Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/ anawsterau dysgu | 42 | 30 | 29 |
| Offer/cyfleusterau chwaraeon | 48 | 28 | 24 |
| Offer/ cyfleusterau eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs | 50 | 29 | 22 |
| Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill | 39 | 34 | 28 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor.
Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl. Mae'r tabl yn dangos canrannau mewn rhesi.

## 5.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU

Mae'r mwyafrif o ddysgwyr mewn Addysg Barhaus Oedolion yn rhoi sgorau uchel (h.y. mwy na 50% yn sgorio 9 neu 10 allan o 10) ar gyfer y mwyafrif o gyfleusterau yn eu sefydliad darparu, ac eithrio:

- Y ffreutur/caffi (33%)
- Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/ anawsterau dysgu (42%)
- Offer/cyfleusterau chwaraeon (48%)
- Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill (39%)

Fodd bynnag, yn gyffredinol, dylech gofio bod lleiafswm o ddysgwyr addysg barhaus oedolion sy'n rhoi sgorau i'r cyfleusterau yn nodi naill ai nad yw cyfleusterau o'r fath ar gael neu nad ydynt yn eu defnyddio'n aml. Mae hyn hefyd yn golygu bod maint y seiliau yn fach ar gyfer nifer o'r cyfleusterau.

## 5.5 CYMHARIAETH RHWNG Y MATHAU O DDARPARIAETH

Y cyfleusterau craidd sy'n berthnasol i ddysgu, e.e. cyfleusterau TG, llyfrgelloedd a gwasanaethau cefnogi dysgu yw'r cyfleusterau gafodd y sgorau uchaf ar gyfer AB ac addysg barhaus oedolion wedi'i hachredu.

**Tabl 5.6:Y sgôr a roddwyd am gyfleusterau mewn coleg/gan sefydliad darparu (ABO: pawb a roddodd sgôr ar gyfer bob cyfleuster)**

| Sail:Y dysgwyr i gyd | Y math o ddarpariaeth | | |
|---|---|---|---|
| | AB | DyG | ABO |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 542 | 508 |
| Sail:Wedi'i bwysoli | 4707 | 536 | 508 |
| | % | % | % |
| Llyfrgell neu ganolfan ddysgu | 52 | 37 | 51 |
| Offer/cyfleusterau TG | 55 | 54 | 56 |
| Gwasanaethau cefnogi dysgu | 48 | 44 | 61 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 43 | 34 | 54* |
| Cyfleusterau gofal plant | 49 | 30 | 67* |
| Cyngor gyrfaol | 41 | 41 | 51* |
| Y ffreutur/caffi | 33 | 37 | 33 |
| Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/ anawsterau dysgu | 52 | 47 | 42 |
| Offer/cyfleusterau chwaraeon | 41 | 35 | 48* |
| Offer/cyfleusterau eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs | 40 | 39 | 50 |
| Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill | 31 | 32 | 39 |

* Seiliau sy'n is na 100 o ymatebion
Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir yn y tabl.

Myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yw'r lleiaf positif am ansawdd nifer o'r cyfleusterau a dysgwyr mewn addysg barhaus oedolion yw'r mwyaf positif. Fodd bynnag, i roi hyn yn ei gyd-destun, ni allai llawer o'r dysgwyr ABO roi sgôr i'r cyfleusterau am nad oedd ganddynt unrhyw brofiad ohonynt. Ni roddodd y myfyrwyr dysgu yn y gwaith sgôr i'r cyfleusterau os nad oeddent yn mynychu coleg neu sefydliad darparu. Mae'r sgorau y mae myfyrwyr dysgu yn y gwaith wedi'u rhoi yn llawer is nag a gafwyd gan ddysgwyr yn y mathau eraill o ddarpariaeth.



### 5.6 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA

**AB**

O'r dysgwyr AB hynny a roddodd sgôr ar gyfer cyfleusterau, rhoddodd y cyfraneddau mwyaf o'r grŵp yma sgôr o 9 neu 10 allan o 10 i'r rhain:

- Llyfrgell neu ganolfan ddysgu (52%)
- Offer/cyfleusterau TG (55%)
- Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau neu anawsterau dysgu (52%)

Mae amrywiadau yn y sgorau a roir gan wahanol grwpiau demograffig. Yn fwyaf nodedig, mae dynion yn y categori 19-24 oed yn llai tebygol na dysgwyr AB eraill o roi'r sgorau uchaf (9 neu 10) ar gyfer llyfrgelloedd/ canolfan ddysgu, gwasanaethau cefnogi dysgu a chyfleusterau ar gyfer cymdeithasu.

Mae'r dadansoddiad rhanbarthol wedi'i gyfyngu i'r De Ddwyrain, y De Orllewin a Gogledd Cymru. Ond, mae'n amlwg bod dysgwyr AB yng Ngogledd Cymru yn fwy tebygol na'r rheini mewn ardaloedd eraill o roi'r sgorau uchaf (9 neu 10 allan o 10) i'r gwasanaethau cefnogi dysgu, gwasanaethau cefnogi eraill a chyfleusterau ar gyfer yr anabl neu'r rheini gydag anawsterau dysgu.

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu**

Ar gyfer gwneud dadansoddiad ystadegol, wedi'i lunio i ganfod pa gyfraniad yr oedd gwahanol agweddau o'r ddarpariaeth yn ei wneud i foddhad yn gyffredinol, roedd y cyfleusterau wedi'u grwpio'n ddau gategori ar wahân:

- Cynghori/Cyfleusterau gofal plant
- Cyfleusterau Dysgu ac 'Arall'

Yn y categori cyntaf, y targedau gweithredu posib yw:

- Cyfleusterau gofal plant
- Gwasanaethau cefnogi eraill e.e. cynghori, cyngor am dai neu gefnogaeth ariannol
- Cyngor gyrfaol

Yn y categori cyfleusterau dysgu dylid targedu'r meysydd nesaf yma:

- Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill
- Offer/cyfleusterau arbenigol eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs
- Ffreutur/caffi
- Offer/cyfleusterau chwaraeon

## DyG

I fyfyrwyr Dysgu yn y Gwaith, offer/cyfleusterau TG yw'r unig gyfleusterau y rhoddodd mwy na hanner y grŵp y sgôr uchaf o 9 neu 10 allan o 10 iddynt.

Yn gyffredinol, mae merched yn fwy tebygol na dynion o roi'r sgorau uchaf i gyfleusterau, ac eithrio'r llyfrgell/canolfan ddysgu, y ffreutur/caffi, cyfleusterau ar gyfer myfyrwyr gydag anableddau neu anawsterau dysgu a chyfleusterau arbenigol eraill.

Rhannodd y dadansoddiad atchweliad y cyfleusterau DyG yn 3 chategori ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn nhrefn ddisgynnol y cyfraniad y maent yn ei wneud i foddhad:

- Cyfleusterau ar gyfer cymdeithasu
- Cynghori/Cyfleusterau gofal plant
- TG a chyfleusterau eraill

Y cyfleusterau yma sydd angen eu gwella fwyaf (yn nhrefn eu blaenoriaeth):

- Ffreutur/caffi
- Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill
  - Cyfleusterau gofal plant
  - Gwasanaethau cefnogi eraill e.e. cynghori, cyngor am dai neu gefnogaeth ariannol
- Offer/cyfleusterau chwaraeon

## Addysg barhaus oedolion

Rhoddodd mwy na hanner y grŵp dysgwyr yma a roddodd sgôr, y sgôr uchaf (9 neu 10 allan o 10) ar gyfer bob cyfleuster, ac eithrio'r ffreutur/caffi, cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau neu anawsterau dysgu, cyfleusterau/offer chwaraeon a chyfleusterau ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill. Mae'r mwyafrif yn methu rhoi sgôr am nad ydynt wedi defnyddio neu wedi gallu cael gafael ar y cyfleusterau yma.

### Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

Er bod y sgorau ar gyfer darpariaeth ABO yn uchel iawn yn gyffredinol, darpariaeth y cyfleusterau oedd yr unig agwedd y derbyniodd rhai ffactorau sgorau perfformiad cymedrig is nag 8 allan o 10 amdanynt. Dyma'r cyfleusterau ddylai fod yn flaenoriaethau ar gyfer gwella:

- Ffreutur/caffi
- Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau
- Llyfrgell a chanolfan ddysgu
- Cyfleusterau arbenigol eraill sy'n berthnasol i'r cwrs yma

# 6. FAINT O ADDYSG DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG SYDD AR GAEL





**Cyflwyniad:**

Mae'r adran yma'n ymdrin â nifer o gwestiynau'n ymwneud â'r galw am a chyflenwad hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnwyd y cwestiynau yma gyda'r nod o ganfod unrhyw fylchau mewn darpariaeth, a dyma'r cwestiynau hynny:

- Sut fyddai dysgwyr yn asesu eu gallu eu hunain mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar a beth yw'r brif iaith a ddefnyddiant gartref a'r tu allan i'r cartref?
- Beth fyddai eu dewisiadau ar gyfer y cydbwysedd rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg?
- Faint o ddysgu sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg?
- A fyddai dysgwyr yn hoffi gwneud unrhyw ran o'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

## 6.1 BRASOLWG

Roedd un ymhob deg o'r dysgwyr a gyfwelwyd yn siarad Cymraeg yn rhugl. Dywedodd ychydig dros hanner y dysgwyr nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg. Roedd y mwyafrif o'r gweddill yn tueddu i ddisgrifio eu gallu i siarad Cymraeg fel gallu 'sylfaenol'. Mae'r ffigurau'n weddol debyg ar gyfer y gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg ond mae cyfran uwch (60%) yn methu darllen nag ysgrifennu Cymraeg.

O ystyried y cefndir yma efallai nad yw'n syndod bod cyfran gweddol fechan o ddysgwyr (7%) yn nodi y byddai'n well ganddynt gael rhywfaint o'u haddysg o leiaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Tabl 6.1: Gallu yn yr iaith Gymraeg**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| Cymraeg Llafar | % |
| Yn rhugl mewn unrhyw sefyllfa | 7 |
| Yn rhugl mewn sefyllfeydd anffurfiol | 3 |
| Rhywfaint o allu | 10 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 29 |
| Ddim o gwbl | 51 |
| Cymraeg Ysgrifenedig | |
| Yn hyderus mewn unrhyw sefyllfa | 7 |
| Yn hyderus mewn sefyllfeydd anffurfiol | 4 |
| Yn hyderus wrth ddarllen yn unig | 5 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 24 |
| Ddim o gwbl | 60 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

**Tabl 6.2: Dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| | % |
| Cymraeg i gyd fyddai'n well ganddynt | 2 |
| Rhywfaint yn y Gymraeg fyddai'n well ganddynt | 5 |
| Byddai'n well ganddynt beidio â chael y Gymraeg o gwbl | 73 |
| Dim ffafriaeth ar gyfer yr un na'r llall | 19 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Fel y gwelwch yn y tabl isod, mae'r gyfran o ddysgwyr sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn uwch o ddau ffactor neu fwy na'r gyfran sy'n dweud y byddai'n well ganddynt dderbyn eu hyfforddiant yn y Gymraeg.

**Tabl 6.3: Dysgu sydd ar gael yn y Gymraeg**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| Cefnogaeth | % |
| Dim | 67 |
| Rhywfaint | 11 |
| I gyd | 9 |
| Ni wn | 12 |
| Cyfathrebiad | |
| Dim | 70 |
| Rhywfaint | 11 |
| I gyd | 7 |
| Ni wn | 12 |
| Defnyddiau ysgrifenedig | |
| Dim | 65 |
| Rhywfaint | 14 |
| I gyd | 11 |
| Ni wn | 10 |

## 6.2 ADDYSG BELLACH

### 6.2.1 Gallu yn yr iaith Gymraeg

Roedd gan ychydig yn llai na hanner y dysgwyr AB a gyfwelwyd (49%) allu sylfaenol o leiaf i siarad Cymraeg. Mae'r gallu yn yr iaith Gymraeg yn amrywio yn ôl oedran gyda phobl 16-18 oed yn llawer mwy tebygol o fod â gallu sylfaenol o leiaf er nad oedd y canran oedd yn gallu siarad yn rhugl yn uwch nag ydoedd ymysg y grwpiau hŷn.

Mae lefelau'r hyder wrth ddelio â Chymraeg ysgrifenedig yn is nag ydynt ar gyfer Cymraeg llafar gyda 61% o ddysgwyr yn methu darllen nag ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae'r patrwm yn ôl oedran yn debyg i hwnnw a welwyd ar gyfer Cymraeg llafar.





**Tabl 6.4: Gallu yn yr iaith Gymraeg (Dysgwyr AB)**

| | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1387 | 704 | 555 | 1328 | 733 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1153 | 659 | 786 | 1555 | 554 |
| Cymraeg Llafar | % | % | % | % | % | % |
| Yn rhugl mewn unrhyw sefyllfa | 6 | 5 | 6 | 5 | 8 | 7 |
| Yn rhugl mewn sefyllfeydd anffurfiol | 3 | 5 | 4 | 1 | 2 | 6 |
| Rhywfaint o allu | 10 | 16 | 10 | 9 | 7 | 8 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 29 | 36 | 32 | 30 | 25 | 25 |
| Ddim o gwbl | 51 | 39 | 49 | 55 | 57 | 54 |
| Cymraeg Ysgrifenedig | | | | | | |
| Yn hyderus mewn unrhyw sefyllfa | 7 | 8 | 7 | 5 | 6 | 8 |
| Yn hyderus mewn sefyllfeydd anffurfiol | 3 | 5 | 4 | 1 | 4 | 3 |
| Yn hyderus wrth ddarllen yn unig | 5 | 6 | 4 | 3 | 4 | 6 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 24 | 36 | 26 | 23 | 18 | 19 |
| Ddim o gwbl | 61 | 45 | 58 | 68 | 69 | 63 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

### 6.2.2 Dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

O'r dysgwyr AB a gyfwelwyd, dywedodd tri o bob pedwar dysgwr y byddai'n well ganddynt beidio â chael hyfforddiant yn y Gymraeg o gwbl, a dywedodd 19% arall nad oedd ots ganddynt yr un ffordd na'r llall.

Nid yw rhyw'r ymatebwr yn cael unrhyw effaith ar y dewis yma ond y dysgwyr iau (16-18 oed) a'r dysgwyr hŷn (55+ oed) yw'r grwpiau sy'n fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn ffafrio dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (8% ymhob achos).

**Tabl 6.5: Dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl Oedran (AB)**

| | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1387 | 704 | 555 | 1328 | 733 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1153 | 659 | 786 | 1555 | 554 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Cymraeg i gyd fyddai'n well ganddynt | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 3 |
| Rhywfaint yn y Gymraeg fyddai'n well ganddynt | 5 | 7 | 5 | 3 | 4 | 5 |
| Dim Cymraeg fyddai orau | 75 | 70 | 66 | 77 | 78 | 80 |
| Dim ffafriaeth ar gyfer y naill na'r llall | 19 | 22 | 27 | 18 | 16 | 11 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae'r rheini sydd â gallu yn yr iaith Gymraeg yn fwy tebygol o ddewis dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i lefel gallu'r ymatebwr yn yr iaith Gymraeg fynd yn uwch, mae'r ffafriaeth am ddysgu yn y Gymraeg yn cynyddu.





**Tabl 6.6: Dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl gallu yn yr iaith Gymraeg (AB)**

| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Ffafriaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli: 4707<br>Sail: Wedi'i bwysoli: 4707 | Cymraeg i gyd fyddai'n well ganddynt | Rhywfaint yn y Gymraeg fyddai'n well ganddynt | Dim Cymraeg fyddai orau | Dim ffafriaeth ar gyfer y naill na'r llall |
| Llafar | % | % | % | % |
| Yn rhugl mewn unrhyw sefyllfa | 6 | 23 | 27 | 44 |
| Yn rhugl mewn sefyllfeydd anffurfiol | 7 | 14 | 48 | 31 |
| Rhywfaint o allu | 3 | 11 | 50 | 34 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 1 | 4 | 77 | 17 |
| Ddim o gwbl | * | 2 | 86 | 12 |
| Ysgrifenedig | | | | |
| Yn hyderus bob amser | 3 | 19 | 38 | 40 |
| Yn hyderus mewn sefyllfa anffurfiol | 6 | 18 | 48 | 28 |
| Yn hyderus wrth ddarllen yn unig | 6 | 9 | 53 | 31 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 1 | 6 | 66 | 24 |
| Ddim o gwbl | * | 2 | 85 | 12 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

### 6.2.3 A ofynnwyd i'r dysgwyr a fydden nhw'n hoffi dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r darparwyr dysgu wedi gofyn i 1 ymhob 3 bron iawn o ddysgwyr a fydden nhw'n hoffi gwneud unrhyw ran o'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n fwy tebygol bod darparwyr wedi gofyn hyn i ddysgwyr iau (24 oed neu'n iau) na'r rheini sy'n 25 neu'n hŷn. Gofynnwyd i oddeutu 35% o bobl 16-24 oed o'i gymharu ag oddeutu 30% o'r rheini sy'n 25+ oed.

Mae dysgwyr sydd â gallu yn yr iaith Gymraeg yn fwy tebygol o fod wedi cael y dewis yma. Mae'r gwahaniaeth yma wedi'i amlygu lle mae dysgwyr yn siarad/ysgrifennu/ysgrifennu'n hyderus mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

**Tabl 6.7: A ofynnwyd i'r dysgwyr a hoffent ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl eu gallu yn yr iaith Gymraeg (AB)**

| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 |
| Cymraeg Llafar | % |
| Yn rhugl mewn unrhyw sefyllfa | 35 |
| Yn rhugl mewn sefyllfeydd anffurfiol | 40 |
| Rhywfaint o allu | 34 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 35 |
| Ddim o gwbl | 28 |
| Cymraeg Ysgrifenedig | |
| Yn hyderus mewn unrhyw sefyllfa | 28 |
| Yn hyderus mewn sefyllfeydd anffurfiol | 37 |
| Yn hyderus wrth ddarllen yn unig | 43 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 37 |
| Ddim o gwbl | 29 |

Nodwch: Mae'r canrannau'n llorweddol h.y. maen nhw'n dangos y canran, e.e. o'r bobl hynny sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, sydd wedi derbyn y cyfle i ddysgu yn y Gymraeg. Nid ydym wedi dangos yr ateb 'Ni wn'.

Mae'r dull astudio ac amseriad y cwrs yn dylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd modd i'r dysgwyr ddewis astudio yn y Gymraeg. Mae hi werth nodi nad oes tystiolaeth i ddangos sut y byddai darparwyr wedi ateb cais gan ddysgwyr i wneud eu dysgu yn y Gymraeg.

O'r dysgwyr a gyfwelwyd, mae dysgwyr sydd ar gyrsiau yn ystod y dydd yn fwy tebygol o gael y dewis i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg na'r rhai sy'n astudio gyda'r nos. Mae un ymhob tri o'r dysgwyr (35%) sydd ar gyrsiau yn ystod y dydd yn cael y cyfle yma o'i gymharu ag un ymhob pedwar (25%) ar gyrsiau gyda'r nos.

Mae rhyw gyfatebiaeth rhwng y dysgwyr y gofynnwyd iddynt a hoffent wneud eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r boddhad cyffredinol gyda'u profiad dysgu.

Dywedodd 39% o'r dysgwyr sy'n eithriadol fodlon gyda'u cwrs, 33% o'r rhai bodlon iawn, 25% o'r rhai gweddol fodlon a dim ond 18% o'r rheini na ddangosodd unrhyw foddhad o gwbl, eu bod wedi cael y dewis.

### 6.2.4 Yr agweddau penodol o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael

Mae hygyrchedd elfennau fel defnyddiau ysgrifenedig, cyfathrebiad llafar neu gefnogaeth yn y Gymraeg yn isel. Y defnyddiau ysgrifenedig sy'n fwyaf hygyrch gydag oddeutu 1 ymhob 4 (23%) yn dweud bod y defnyddiau i gyd neu rywfaint o'r defnyddiau ar gael yn y Gymraeg. Dywedodd 1 ymhob 5 (19%) o'r dysgwyr bod rhywfaint o'u cefnogaeth/eu cefnogaeth i gyd y tu allan i'r gwersi ar gael yn y Gymraeg. Dim ond 1 ymhob 10 (11%) o'r dysgwyr ddywedodd bod yna rywfaint o gyfathrebiad llafar mewn gwersi a 6% pellach bod y cyfathrebiad llafar i gyd yn y Gymraeg.

Dywedodd un ymhob tri (35%) o siaradwyr Cymraeg rhugl bod yr elfennau yma ar gael ar eu cyrsiau. Roedd hyn oddeutu dwywaith y gyfran o bobl sy'n methu siarad Cymraeg a nododd eu bod ar gael.





**Tabl 6.8: Faint o ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael ar gyfer amrywiol agweddau (AB)**

| | Y Gweithgaredd Dysgu | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Y gefnogaeth y tu allan i'r sesiynau | Cyfathrebiad llafar mewn sesiynau | Defnyddiau ysgrifenedig |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 4707 | 4707 |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 4707 | 4707 |
| | % | % | % |
| Rhywfaint | 11 | 11 | 13 |
| I gyd | 9 | 6 | 10 |
| Dim | 69 | 72 | 68 |
| Ni wn | 12 | 11 | 9 |

Roedd amseriad y cwrs yn cael dylanwad ar hygyrchedd hefyd, gyda'r cyrsiau a gynigir yn ystod y dydd yn dangos lefelau uwch o'r 3 ffactor.

- Hygyrchedd y taflenni gwaith oedd yr uchaf gyda mwy na 26% o ddysgwyr ar gyrsiau yn ystod y dydd yn nodi bod rhywfaint o'u taflenni gwaith/eu taflenni gwaith i gyd ar gael yn y Gymraeg, o'i gymharu â dim ond 15% o ddysgwyr ar gyrsiau gyda'r nos
- Roedd mwy nag 1 ymhob 5 (22%) o ddysgwyr ar gyrsiau yn ystod y dydd yn dweud bod cefnogaeth y tu allan i'r gwersi ar gael iddynt yn y Gymraeg, o'i gymharu â dim ond 14% o ddysgwyr ar gyrsiau gyda'r nos

Cyfathrebiad llafar yn y Gymraeg yw'r math o gyfathrebiad sy'n lleiaf cyffredin: roedd rhyw elfen o gyfathrebiad llafar ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyrsiau 19% o'r dysgwyr yn ystod y dydd o'i gymharu â 12% o'r dysgwyr gyda'r nos.

## 6.3 DYSGU YN Y GWAITH

### 6.3.1 Gallu yn yr iaith Gymraeg

Roedd gan y mwyafrif o'r myfyrwyr dysgu yn y gwaith (56%) allu sylfaenol o leiaf mewn Cymraeg llafar ac roedd gan ychydig yn llai na'u hanner allu sylfaenol o leiaf i ddelio â Chymraeg ysgrifenedig. Roedd y rheini yn y grŵp oedran 16-18 yn tueddu i roi sgôr uwch i'r galluoedd na'r rheini yn y grŵp oedran 19+.

### 6.3.2 Dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Ychydig o amrywiaeth a welwyd rhwng y dynion a'r merched yn eu dewis i ddysgu yn y Gymraeg, er bod y merched 16-18 oed yn fwy tebygol o fynegi ffafriaeth am rywfaint o'u dysgu o leiaf drwy gyfrwng y Gymraeg (13%). Mae hyn yn adlewyrchu eu gallu uwch na'r cyfartaledd yn yr iaith Gymraeg fel y nodwyd uchod.

Ar y cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol y mae'r grŵp mwyaf o ddysgwyr fyddai'n hoffi rhywfaint o'u dysgu/eu dysgu i gyd yn y Gymraeg (15%). Ar y cyrsiau rheoli a busnes y mae'r grŵp uchaf o ddysgwyr yn dweud mai dim Cymraeg fyddai orau, gyda 3 neu 4 o'r dysgwyr yn nodi'r dewis yma.

**Tabl 6.9: Gallu yn yr iaith Gymraeg (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Oedran o fewn y rhywiau | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd | Cyfanswm | Gwryw 16-18 | Gwryw 19+ | Benyw 16-18 | Benyw 19+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 218 | 361 | 133 | 288 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 220 | 361 | 136 | 285 |
| Cymraeg Llafar | % | % | % | % | % |
| Yn rhugl mewn unrhyw sefyllfa | 11 | 13 | 9 | 10 | 13 |
| Yn rhugl mewn sefyllfeydd anffurfiol | 5 | 4 | 6 | 3 | 4 |
| Rhywfaint o allu | 13 | 13 | 10 | 20 | 11 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 27 | 25 | 26 | 31 | 29 |
| Ddim o gwbl | 44 | 45 | 48 | 36 | 43 |
| Cymraeg Ysgrifenedig | | | | | |
| Yn hyderus mewn unrhyw sefyllfa | 12 | 17 | 8 | 15 | 12 |
| Yn hyderus mewn sefyllfeydd anffurfiol | 6 | 5 | 5 | 9 | 6 |
| Yn hyderus wrth ddarllen yn unig | 6 | 8 | 6 | 6 | 4 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 24 | 21 | 22 | 33 | 23 |
| Ddim o gwbl | 52 | 49 | 57 | 37 | 54 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Y De Ddwyrain sydd â'r canran mwyaf o ddysgwyr fyddai'n dewis peidio â chael Cymraeg o gwbl ar eu cyrsiau (70%). Yn dilyn hynny mae Canolbarth Cymru (69%), De Orllewin Cymru (65%) a Gogledd Cymru (59%).

### 6.3.3 A ofynnwyd i'r dysgwyr a hoffent ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

Yn gyffredinol, gofynnwyd i ychydig dros un ymhob tri dysgwr (35%) a gyfwelwyd a hoffent wneud unrhyw ran o'u dysgu yn y Gymraeg. Dywedodd 5% arall nad oeddent yn gwybod, sy'n gadael 3 allan o 5 (60%) na chafodd yr opsiwn o gwbl.

O'r dysgwyr a gyfwelwyd, roedd lleoliad yn chwarae rhan bwysig yn y posibilrwydd y byddai'r dysgwyr yn cael y cyfle i dderbyn eu hyfforddiant yn y Gymraeg. Gofynnwyd i fwy na hanner (53%) y dysgwyr oedd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru a hoffent wneud unrhyw ran o'u dysgu yn y Gymraeg. Roedd hyn yn llawer uwch na'r 39% o ddysgwyr yng Nghanolbarth Cymru, 34% yn Ne Orllewin Cymru a dim ond 26% o ddysgwyr yn y De Ddwyrain.






**Tabl 6.10: Ffafriaeth am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Oedran o fewn y rhywiau | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd | Cyfanswm | Gwryw 16-18 | Gwryw 19+ | Benyw 16-18 | Benyw 19+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 218 | 361 | 133 | 288 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 220 | 361 | 136 | 285 |
| | % | % | % | % | % |
| Cymraeg i gyd fyddai'n well ganddynt | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 |
| Rhywfaint yn y Gymraeg fyddai'n well ganddynt | 6 | 7 | 5 | 12 | 5 |
| Dim Cymraeg fyddai orau | 66 | 64 | 68 | 55 | 72 |
| Dim ffafriaeth ar gyfer y naill na'r llall | 25 | 26 | 26 | 32 | 22 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

**Siart 6.1: A ofynnodd y darparwr i'r ymatebwr a hoffai ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl y rhanbarth (DyG)**




Ychydig iawn o amrywiaeth a welwyd rhwng y rhywiau a'r gwahanol oedrannau wrth ystyried a ofynnwyd i'r dysgwyr a hoffent wneud eu hyfforddiant yn y Gymraeg. Fodd bynnag, gwelwyd amrywiaeth sylweddol rhwng y pynciau gyda 45% o'r dysgwyr oedd yn hyfforddi mewn 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn cael y cyfle i hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y gyfran yn llawer is (27%) ymysg y dysgwyr oedd yn astudio'r 'Ieithoedd/Y Dyniaethau/Y Celfyddydau a'r Gwyddorau'.

Yn debyg i ddysgwyr AB po fwyaf bodlon oedd y dysgwr, y mwyaf tebygol oeddent o fod wedi derbyn y cyfle i dderbyn eu haddysg yn y Gymraeg. Yn yr un modd, mae'r rheini sydd wedi derbyn y cyfle yn llai tebygol o fod wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu hyfforddiant (37%) na'r rheini oedd heb dderbyn y cynnig i ddysgu yn y Gymraeg (58%).

### 6.3.4 Faint o agweddau penodol o ddysgu sydd ar gael yn y Gymraeg?

Mae'r lefelau cyffredinol o hygyrchedd yn uwch nag ydynt ar gyfer dysgwyr AB ac ABO.

- Dywedodd 22% o ddysgwyr bod rhywfaint o'r defnyddiau ysgrifenedig ar gael yn y Gymraeg a dywedodd 15% pellach bod y defnyddiau i gyd ar gael yn y Gymraeg
- Dywedodd bron i 1 ymhob 3 (32%) o ddysgwyr eu bod yn derbyn eu holl/rhywfaint o'u cefnogaeth y tu allan i'r gwersi yn y Gymraeg
- Mewn 12% o achosion roedd yr holl gyfathrebiad llafar mewn sesiynau yn y Gymraeg a dywedodd 17% pellach bod rhywfaint o'r cyfathrebiad llafar yn y Gymraeg

**Tabl 6.11: Faint o ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael, yn ôl agweddau amrywiol o'r ddarpariaeth ddysgu (Dysgu yn y Gwaith)**

| | Y gweithgaredd dysgu | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd | Y gefnogaeth y tu allan i'r sesiynau | Cyfathrebiad llafar mewn sesiynau | Defnyddiau ysgrifenedig |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 1000 | 1000 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 1001 | 1001 |
| | % | % | % |
| Rhywfaint | 18 | 17 | 22 |
| I gyd | 15 | 12 | 15 |
| Dim | 48 | 52 | 47 |
| Ni wn | 19 | 19 | 16 |

Nid oes gwahaniaeth rhwng faint o gefnogaeth, cyfathrebiad a defnyddiau Cymraeg sydd ar gael i'r dynion a'r merched. Ond, mae ychydig bach mwy ar gael i ddysgwyr rhwng 16-18 oed yn y 3 achos na'r myfyrwyr 19+ (edrychwch ar dabl 122).

**Table 6.12: Faint o ddarpariaeth ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael, yn ôl oedran y dysgwr (Dysgu yn y Gwaith)**

| | Y gweithgaredd dysgu | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd | Y gefnogaeth y tu allan i'r sesiynau | Cyfathrebiad llafar mewn sesiynau | Defnyddiau ysgrifenedig |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 1000 | 1000 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 1001 | 1001 |
| | % | % | % |
| 16 – 18 (Rhywfaint/I gyd) | 35 | 34 | 42 |
| 19+ (Rhywfaint/I gyd) | 31 | 27 | 34 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'





**Tabl 6.13: Faint o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael, yn ôl y rhanbarth (DyG)**

| | | Y Rhanbarth | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd | Cyfan-swm | Y Gogledd | Canolbarth Cymru | De Orllewin | De Ddwyrain |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 217 | 126 | 203 | 454 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 233 | 63 | 218 | 487 |
| Cefnogaeth | % | % | % | % | % |
| Dim | 48 | 37 | 44 | 48 | 55 |
| Rhywfaint | 18 | 25 | 19 | 19 | 12 |
| I gyd | 15 | 22 | 18 | 12 | 12 |
| Ni wn | 19 | 16 | 19 | 21 | 21 |
| Cyfathrebiad | | | | | |
| Dim | 52 | 40 | 48 | 53 | 58 |
| Rhywfaint | 17 | 21 | 21 | 19 | 13 |
| I gyd | 12 | 21 | 8 | 10 | 10 |
| Ni wn | 19 | 18 | 24 | 18 | 18 |
| Defnyddiau ysgrifenedig | | | | | |
| Dim | 47 | 37 | 44 | 45 | 53 |
| Rhywfaint | 22 | 30 | 22 | 26 | 16 |
| I gyd | 15 | 21 | 13 | 13 | 14 |
| Ni wn | 16 | 16 | 19 | 21 | 20 |

O'r dysgwyr a gyfwelwyd, roedd y rheini oedd wedi'u seilio yn y Gogledd yn nodi lefelau uwch o hygyrchedd na'r rhanbarthau eraill yn y 3 achos.

Mae'r math o hyfforddiant yn cael dylanwad ar hygyrchedd y gefnogaeth, y cyfathrebiad a'r defnyddiau ysgrifenedig Cymraeg hefyd. Roedd y dysgwyr sy'n astudio 'Llythrennedd/Rhifedd/Sgiliau Sylfaenol' yn nodi'r lefel uchaf o hygyrchedd yn y 3 achos gyda 43% yn dweud bod eu cefnogaeth i gyd/rhywfaint o'u cefnogaeth ar gael yn y Gymraeg. Nododd y rheini oedd yn astudio 'Ieithoedd/Y Dyniaethau/Y Celfyddydau a'r Gwyddorau' yr hygyrchedd isaf – dim ond 23% oedd â rhywfaint o gefnogaeth ar gael yn y Gymraeg.

**Tabl 6.14: Gallu yn yr iaith Gymraeg (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | | Oedran o fewn y rhywiau | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Gwryw iau na 55 | Gwryw 55+ | Benyw iau na 55 | Benyw 55+ |
| Sail:Y dysgwyr ABO i gyd | 508 | 66 | 94 | 202 | 145 |
| Cymraeg Llafar | % | % | % | % | % |
| Yn rhugl mewn unrhyw sefyllfa | 4 | 3 | 4 | 3 | 6 |
| Yn rhugl mewn sefyllfeydd anffurfiol | 3 | 2 | 5 | 3 | 3 |
| Rhywfaint o allu | 9 | 9 | 11 | 10 | 7 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 25 | 35 | 17 | 25 | 26 |
| Ddim o gwbl | 59 | 52 | 63 | 59 | 59 |
| Cymraeg Ysgrifenedig | | | | | |
| Yn hyderus mewn unrhyw sefyllfa | 4 | 3 | 3 | 3 | 6 |
| Yn hyderus mewn sefyllfeydd anffurfiol | 5 | 6 | 4 | 4 | 6 |
| Yn hyderus wrth ddarllen yn unig | 8 | 8 | 13 | 5 | 10 |
| Gallu sylfaenol yn unig | 17 | 26 | 12 | 20 | 11 |
| Ddim o gwbl | 67 | 58 | 68 | 68 | 68 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

## 6.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU

### 6.4.1 Gallu yn yr iaith Gymraeg

Roedd gallu'r dysgwyr ABO yn yr iaith Gymraeg yn weddol isel, gan adlewyrchu proffil oedran y grŵp yma. Roedd gan oddeutu 4 ymhob 10 (41%) ryw allu sylfaenol o leiaf mewn Cymraeg Llafar ac roedd gan drydedd ran ohonynt (33%) rywfaint o allu sylfaenol o leiaf mewn delio â Chymraeg ysgrifenedig. Mae'r rheini sy'n 55+ oed yn fwy tebygol o'u disgrifio eu hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl na'r rheini sy'n iau na 55 oed (9% o'i gymharu â 6%).





**Tabl 6.15: Ffafriaeth am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | | Oedran o fewn y rhywiau | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfan-swm | Gwryw iau na 55 | Gwryw 55+ | Benyw iau na 55 | Benyw 55+ |
| Sail: Y dysgwyr ABO i gyd | 508 | 66 | 94 | 202 | 145 |
| | % | % | % | % | % |
| Cymraeg i gyd fyddai'n well ganddynt | 6 | 9 | 10 | 4 | 3 |
| Rhywfaint yn y Gymraeg fyddai'n well ganddynt | 7 | 14 | 4 | 8 | 4 |
| Prefer no Welsh | 69 | 55 | 74 | 69 | 74 |
| Not concerned either way | 16 | 17 | 12 | 18 | 17 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Ymysg y dysgwyr ABO a gyfwelwyd mae'n ymddangos bod rhyw yr ymatebwr yn dylanwadu ar eu ffafriaeth am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Dynion yw'r mwyaf tebygol o ddewis dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gyda 9% yn dewis derbyn eu haddysg i gyd yn y Gymraeg ac 8% arall yn dewis rhywfaint o leiaf o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Y canrannau ar gyfer y merched oedd 4% a 7% yn y drefn honno
- Pan ystyriwyd rhyw gydag oedran, y dynion dan 55 oed oedd y mwyaf tebygol o ddewis derbyn rhywfaint o'u haddysg/eu haddysg i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg. O'r grŵp yma, dywedodd bron i 1 ymhob 4 (23%) eu bod yn ffafrio hyn o'i gymharu â'r grŵp lleiaf, merched dros 55 oed, lle'r oedd yn ffigur yn 7% yn unig

Roedd dysgwyr yn y dosbarth proffesiynol yn fwy tebygol o nodi bod yn well ganddynt dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg: byddai 17% o ddysgwyr yn y grŵp cymdeithasol economaidd AB (proffesiynol a rheolwyr) yn dewis derbyn rhywfaint o'u haddysg/eu haddysg i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg o'i gymharu â 10% o C1 (canolradd a swyddi is nad ydynt yn rhai llaw), 12% o C2 (gwaith llaw sgiliedig) ac 11% o DE (gwaith llaw heb sgiliau a lled-sgiliedig).

Learners attending evening courses voiced a greater preference for learning in Welsh compared to their daytime counterparts. Of the evening course attendees 18% stated they would like all or some of their learning to be in Welsh compared to only 8% of daytime learners.

### 6.4.2 A ofynnwyd i'r dysgwyr a hoffent wneud eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

Mae'r dysgwyr iau (wedi'u diffinio fel pobl dan 55 oed yn y grŵp dysgwyr yma) dwywaith mor debygol â dysgwyr hŷn o fod wedi cael y cyfle i wneud unrhyw ran o'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae amseriad y cwrs yn dylanwadu ar y tebygolrwydd y cânt ddewis derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y cyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gael yn ehangach gyda'r nos, gydag 1 ymhob 3 (33%) o ddysgwyr oedd yn dysgu gyda'r nos yn derbyn y cyfle o'i gymharu â dim ond 1 ymhob 5 (20%) o ddysgwyr yn ystod y dydd.

**Tabl 6.16: Faint o ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael, yn ôl agweddau amrywiol o'r ddarpariaeth ddysgu (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | Y gefnogaeth y tu allan i'r sesiynau | Cyfathrebiad llafar mewn sesiynau | Defnyddiau ysgrifenedig |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr ABO i gyd | 508 | 508 | 508 |
| | % | % | % |
| Rhywfaint | 9 | 9 | 11 |
| I gyd | 6 | 8 | 10 |
| Dim | 72 | 72 | 68 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

### 6.4.3 Faint o agweddau penodol o ddysgu oedd ar gael yn y Gymraeg?

Yn debyg i'r dysgwyr AB, dim ond y lleiafrif oedd yn cael y cyfle i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg:

- Defnyddiau ysgrifenedig yn y Gymraeg oedd y mwyaf cyffredin gydag 11% o'r dysgwyr yn dweud bod rhywfaint o ddefnyddiau ar gael yn y Gymraeg a 10% arall o'r dysgwyr yn nodi eu bod i gyd ar gael, sy'n cyfateb ag oddeutu 1 ymhob 5 (21%) o fyfyrwyr sydd â thaflenni gwaith ar gael yn y Gymraeg
- Dywedodd 15% o'r dysgwyr eu bod yn derbyn rhywfaint o'u cefnogaeth/eu cefnogaeth i gyd y tu allan i'r gwersi yn y Gymraeg
- Dywedodd llai na 10% o'r dysgwyr bod rhywfaint o'r cyfathrebiad llafar yn y gwersi yn y Gymraeg a dywedodd 8% arall ei fod i gyd yn y Gymraeg

## 6.5 CYMHARIAETH RHWNG Y MATHAU O DDARPARIAETH A CHRYNODEB

### 6.5.1 Dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'n ymddangos bod yr awydd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn isel ymysg dysgwyr ymhob math o ddarpariaeth. Yn gyffredinol, dywedodd mwy o ddysgwyr ABO eu bod yn dewis dysgu yn y Gymraeg na'r myfyrwyr sy'n dysgu yn y gwaith a dysgwyr AB, ond roedd mwy o addysg Gymraeg ar gael i'r myfyrwyr sy'n dysgu yn y gwaith na dysgwyr ABO. Os edrychwn ar y ddarpariaeth i gyd, roedd llawer mwy o addysg ar gael yn y Gymraeg na'r gyfran o ddysgwyr oedd yn dewis derbyn eu haddysg i gyd neu rywfaint o'u haddysg yn y Gymraeg.

Mae'n ymddangos bod llawer mwy o ddysgwyr wedi cael cyfle i ddysgu yn y Gymraeg na'r nifer sy'n debygol o gymryd mantais o'r cyfle, er nad oes tystiolaeth i ddangos y byddai'r darparwyr yn gallu ateb y galw pe bai pawb sy'n cael y cyfle yn dweud yr hoffent ddysgu yn y Gymraeg. Mae'n ddiddorol hefyd bod cyfran gweddol uchel ymhob grŵp o ddysgwyr yn dweud nad oes ffafriaeth ganddynt yr un ffordd na'r llall pa iaith a ddefnyddir fel y cyfrwng y dysgu.







**Tabl 6.17: Dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y math o ddarpariaeth**


| | Y math o ddarpariaeth | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd | AB | DyG | ABO |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Cymraeg i gyd fyddai'n well ganddynt | 1 | 2 | 6 |
| Rhywfaint yn y Gymraeg fyddai'n well ganddynt | 5 | 6 | 7 |
| Byddai'n well ganddynt beidio â chael y Gymraeg o gwbl | 75 | 66 | 69 |
| Dim ffafriaeth ar gyfer y naill na'r llall | 19 | 25 | 16 |

Dywedodd oddeutu trydedd ran o'r dysgwyr i gyd (31%) eu bod wedi cael cyfle i wneud rhywfaint o'u dysgu yn y Gymraeg. Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith oedd y mwyaf tebygol o fod wedi derbyn y cyfle yma.

**Tabl 6.18: A ofynnwyd i'r dysgwyr a hoffent ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y math o ddarpariaeth**

| | Math o ddarpariaeth | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd | AB | DyG | ABO |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Do | 32 | 35 | 25 |
| Naddo | 60 | 61 | 66 |
| Ni wn | 8 | 4 | 7 |

**Siart 6.2: Faint o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael**




Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Wrth asesu faint o ddysgu oedd wedi'i gynnig yn y Gymraeg, archwiliwyd tri ffactor:

- Cefnogaeth gan yr athrawon y tu allan i'r gwersi/sesiynau
- Cyfathrebiad llafar yn y gwersi/sesiynau
- Defnyddiau ysgrifenedig, taflenni gwaith, nodiadau, ac ati

Mae'n ymddangos mai'r defnyddiau ysgrifenedig yw'r cyfleusterau mwyaf cyffredin, gyda chefnogaeth y tu allan i'r sesiynau yn dilyn hynny ac, yn olaf, y cyfathrebiad llafar mewn gwersi.

Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith sy'n gallu cael gafael ar y 3 pheth yma, ac i'r dysgwyr ABO y mae'r gyfran isaf o'r ffactorau yma ar gael (ychydig bach yn is na'r dysgwyr AB).



### 6.6 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA:

**AB**

Gofynnwyd i drydedd ran o'r dysgwyr AB (32%) a hoffent wneud rhan o'u dysgu yn y Gymraeg. Dyma'r grwpiau oedd yn fwyaf tebygol o fod wedi derbyn y cyfle yma:

- Dysgwyr iau (pobl 16-24 oed) (35%)
- Dysgwyr yn ystod y dydd (35%)
- Rheini sydd â rhywfaint o leiaf o allu yn y Gymraeg (36% ar gyfartaledd)

Byddai llai nag 1 ymhob 10 (6%) yn hoffi i'w dysgu fod drwy gyfrwng y Gymraeg. Pobl hŷn yw'r lleiaf tebygol o fod eisiau hynny. Rheini sydd â gallu yn yr iaith Gymraeg yw'r mwyaf tebygol o ddewis derbyn rhywfaint o'u haddysg yn y Gymraeg (26% ar gyfartaledd sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl a 23% sy'n gallu darllen neu ysgrifennu'n hyderus yn y Gymraeg).

Mae rhyw elfen addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i oddeutu chwarter y dysgwyr (23%) ac ychydig yn llai na thrydedd rhan (27%) o'r dysgwyr sy'n siarad Cymraeg. Defnyddiau ysgrifenedig yw'r elfen fwyaf cyffredin.

**DyG**

Myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yw'r mwyaf tebygol o gael y cyfle i ddysgu yn y Gymraeg (35% yn codi i 53% o ddysgwyr yng Ngogledd Cymru). Mae'n ymddangos bod rhywfaint o amrywiaeth rhwng y pynciau a'r rheini ar raglenni 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yw'r mwyaf tebygol o fod wedi derbyn yr opsiwn cyfrwng Cymraeg.

Merched iau sy'n fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn hoffi gwneud rhywfaint o'u dysgu o leiaf yn y Gymraeg, ond dim ond 8% o'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd sy'n nodi'r dewis yma. I'r perwyl yma, gellir dweud bod y cyflenwad yn uwch na'r galw am fod 37% yn dweud bod rhywfaint neu bob un o'u defnyddiau ysgrifenedig yn y Gymraeg a bod 33% yn dweud bod rhywfaint neu'r cyfan o'u cefnogaeth y tu allan i'r sesiynau yn y Gymraeg.

**ABO**

Dyma'r dysgwyr sy'n fwyaf tebygol o fod wedi derbyn y cyfle i ddysgu yn y Gymraeg:

- Dysgwyr iau (31% o'r rhai sy'n iau na 55 oed o'i gymharu â 25% yn gyffredinol)
- Rheini sy'n gwneud cyrsiau gyda'r nos (patrwm cyferbyniol i'r un a welwyd ar gyfer AB) (33%)

Dyma'r rhai sydd fwyaf tebygol o ddweud y byddai'n well ganddynt ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:

- Dynion iau na 55 oed (23%)
- Rheini yn y grŵp cymdeithasol-economaidd AB h.y. proffesiynol/rheoli (17%)
- Rheini ar gwrs gyda'r nos (18%)

Dywedodd un ymhob pump (21%) bod y defnyddiau ysgrifenedig i gyd, neu ran ohonynt, ar gael yn y Gymraeg a dywedodd 17% ohonynt fod rhywfaint o gyfathrebiad llafar o leiaf ar gael yn y Gymraeg.

# 7. PROBLEMAU

**Cyflwyniad:**

Mae'r adran yma'n ymdrin â pha broblemau, os oedd rhai o gwbl, sydd wedi wynebu dysgwyr ac a ydynt wedi ystyried gadael eu cyrsiau. Mae hefyd yn edrych yn benodol ar faterion yn ymwneud â chefnogaeth y cyflogwr ar gyfer myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith.

Er mwyn asesu pa broblemau yr oeddent wedi'u hwynebu, dangoswyd y rhestr nesaf o broblemau posib i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi cael profiad o unrhyw rai ohonynt yn ystod eu haddysg:

- Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol
- Aros yn frwdfrydig
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref
- Ymdrin â phwysau ariannol
- Teithio i'r coleg/sefydliad darparu
- Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff
- Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu
- Sgiliau mathemateg neu rifedd
- Problemau o unrhyw fath gyda dysgwyr eraill
- Sgiliau darllen/ysgrifennu
- Dim problemau

## 7.1 BRASOLWG

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i gyd a oeddent wedi cael unrhyw broblemau ers dechrau'r cwrs neu'r cyrsiau yn eu colegau/sefydliadau darparu. Y pwynt cyntaf i'w nodi yw bod oddeutu hanner y dysgwyr heb gael unrhyw broblemau (49%).

Mae'r problemau a gafwyd amlaf yn gyson ar draws y gwahanol fathau o ddarpariaeth ac maent yn ymwneud â:

- Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol (18%)
- Aros yn frwdfrydig (16%)
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd (16%)
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref (15%)

Mae'r rhain yn cyfateb â'r darlun a ddaeth i'r amlwg pan drafodwyd disgwyliadau'r dysgwyr cyn eu cyrsiau (edrychwch ar adran 4) lle mae disgwyliadau anghywir yn ymwneud gan fwyaf â maint a safon y gwaith.

**Tabl 7.1: Problemau yn ôl y math o ddarpariaeth**

| Sail: Y dysgwyr i gyd | Y dysgwyr i gyd |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 |
| | % |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 18 |
| Aros yn frwdfrydig | 16 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd | 16 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref | 15 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 11 |
| Teithio i'r coleg/sefydliad darparu | 8 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 6 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu | 6 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 5 |
| Problemau o unrhyw fath gyda dysgwyr eraill | 4 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 5 |
| | |
| Dim problemau | 49 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb





Yna gofynnwyd i'r dysgwyr hynny oedd heb adael eu cyrsiau'n fuan a oeddent wedi meddwl yn ddifrifol erioed am adael eu cyrsiau. Mae'r gyfran o ddysgwyr sydd wedi ystyried gadael ychydig yn is nag un ymhob pump.

**Tabl 7.2:Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau yn ôl y math o ddarpariaeth**

| **Sail:Y dysgwyr i gyd heblaw'r rhai adawodd yn fuan** | |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 5517 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 5500 |
| | % |
| Do | 18 |
| Naddo | 82 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

## 7.2 ADDYSG BELLACH

O'r problemau y mae'r ymatebwyr yn honni eu bod wedi'u hwynebu, mae'r rhain wedi'u nodi gan o leiaf un ymhob deg:

- Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol (18%)
- Aros yn frwdfrydig (16%)
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd (16%)
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref (15%)
- Ymdrin â phwysau ariannol (11%)

Roedd bron i hanner (49%) yr ymatebwyr heb gael unrhyw broblemau ers iddyn nhw gychwyn eu cwrs/cyrsiau. Nid yw'n ymddangos bod y problemau'n berthnasol i ryw yr ymatebwyr heblaw bod dynion yn fwy tebygol o nodi pwysau ariannol ac yn llai tebygol o nodi ymrwymiadau yn y cartref fel problem.

Mae dysgwyr iau yn fwy tebygol o gael problemau gyda:

- Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol – mae 22% o'r dysgwyr 16-18 oed yn nodi hyn, o'i gymharu â 18% o'r dysgwyr AB i gyd
- Pwysau ariannol – mae 17% o'r dysgwyr 19-24 oed yn nodi hyn o'i gymharu ag un ymhob deg (11%) o'r ymatebwyr i gyd
- Teithio i'r coleg ac adref eto – nodwyd hyn gan 15% o'r dysgwyr 16-18 oed
- Problemau gyda sgiliau mathemateg neu rifedd; nodwyd hyn gan 11% o'r dysgwyr 16-18 oed

Yn gyffredinol, mae'r problemau a nodwyd gan ddysgwyr hŷn yn adlewyrchu eu cam arbennig mewn bywyd:

- Mae 'llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd' wedi'i nodi gan 21% o bobl 25-34 oed a 20% o bobl 35-54 oed
- Mae 'llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref' wedi'i nodi fel problem gan 21% o ymatebwyr 25-34 oed a 19% o ymatebwyr 35-54 oed

Mae'r bobl sy'n hŷn na 55 oed yn llai tebygol na'r cyfartaledd o gael problemau, ac eithrio 'Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol' (21%).

**Tabl 7.3: Problemau yn ôl rhyw (AB)**

| | | Rhyw | |
|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | Gwryw | Benyw |
| Sail: Heb ei bwysoli: | 4707 | 1759 | 2948 |
| Sail: Wedi'i bwysoli: | 4707 | 2005 | 2702 |
| | % | % | % |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 18 | 19 | 17 |
| Aros yn frwdfrydig | 16 | 17 | 16 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref | 15 | 13 | 16 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd | 16 | 15 | 16 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 11 | 13 | 10 |
| Teithio i'r coleg/sefydliad darparu | 8 | 9 | 7 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 6 | 5 | 6 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd sydd heb ei ddarparu | 6 | 5 | 6 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 5 | 7 | 4 |
| Problemau o unrhyw fath gyda dysgwyr eraill | 4 | 4 | 3 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 5 | 7 | 3 |
| | | | |
| Dim problemau | 9 | 50 | 48 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

### 7.2.1 Anableddau ac anawsterau dysgu

Mae ychydig yn llai na chwarter (23%) y dysgwyr i gyd sydd ag anawsterau dysgu yn honni eu bod yn cael problemau gydag aros yn frwdfrydig, o'i gymharu ag 16% o'r rheini sydd heb anawsterau dysgu. Mae'r broblem yn fwy arwyddocaol eto ymysg dysgwyr hŷn (31% o'r rheini sy'n hŷn na 19 o fewn y grŵp yma).

Fel y gwelwch yn nhabl 134, yn y mwyafrif o feysydd mae cyfraneddau uwch o'r rheini gydag anableddau a'r rheini gydag anawsterau dysgu wedi cael problemau. Er bod rhai o'r problemau yma'n ymwneud â natur anabledd/anawsterau dysgu'r ymatebwr, mae'n amlwg bod angen mwy o gefnogaeth ar gyfer y grwpiau yma o ddysgwyr mewn rhai meysydd.

**Tabl 7.4: Problemau yn ôl Oedran (AB)**

| | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1387 | 704 | 555 | 1334 | 724 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1153 | 659 | 786 | 1555 | 554 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 18 | 22 | 17 | 16 | 16 | 21 |
| Aros yn frwdfrydig | 16 | 16 | 18 | 19 | 17 | 12 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref | 15 | 8 | 11 | 21 | 19 | 14 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd | 16 | 8 | 16 | 21 | 20 | 10 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 11 | 14 | 17 | 14 | 7 | 5 |
| Teithio i'r coleg/sefydliad darparu | 8 | 15 | 12 | 4 | 4 | 4 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 6 | 10 | 8 | 5 | 3 | 3 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd sydd heb ei ddarparu | 6 | 8 | 6 | 5 | 4 | 3 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 5 | 11 | 8 | 4 | 2 | 1 |
| Problemau o unrhyw fath gyda dysgwyr eraill | 4 | 6 | 5 | 4 | 2 | 2 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 5 | 7 | 5 | 5 | 3 | 2 |
| | | | | | | |
| Dim problemau | 49 | 48 | 48 | 45 | 51 | 54 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

**Tabl 7.5: Problemau yn ôl anableddau ac anawsterau dysgu (AB)**

| | | Anabledd | | Anhawster dysgu | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | Do | Naddo | Do | Naddo |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 338 | 4359 | 286 | 4411 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 435 | 4265 | 326 | 4375 |
| | % | % | % | % | % |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 18 | 27 | 17 | 37 | 16 |
| Aros yn frwdfrydig | 16 | 16 | 16 | 23 | 16 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref | 15 | 15 | 15 | 21 | 15 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd | 16 | 9 | 16 | 14 | 16 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 11 | 21 | 10 | 34 | 9 |
| Teithio i'r coleg/sefydliad darparu | 8 | 7 | 8 | 17 | 7 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 6 | 8 | 6 | 13 | 6 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd sydd heb ei ddarparu | 6 | 10 | 5 | 16 | 5 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 5 | 16 | 4 | 32 | 3 |
| Problemau o unrhyw fath gyda dysgwyr eraill | 6 | 8 | 6 | 13 | 6 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 5 | 20 | 3 | 36 | 2 |
| | | | | | |
| Dim problemau | 49 | 36 | 50 | 20 | 51 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Er bod y rheini gydag anableddau yn fwy tebygol o ddioddef pwysau ariannol (21% o'i gymharu â 10% o'r rheini heb anableddau), mae'r gwahaniaeth hyd yn oed yn fwy amlwg ar gyfer y rheini gydag anawsterau dysgu (34% o'i gymharu â 9% o'r rheini heb anawsterau dysgu). Yn arbennig, mae'r ymatebwyr 16-18 oed sydd â naill ai anableddau (37%) neu anawsterau dysgu (37%) yn fwy tebygol o wynebu pwysau ariannol.

Mae rhai problemau sy'n fwy tebygol o gael eu dioddef gan ddysgwyr ar gyrsiau academaidd na'r rheini sydd ar gyrsiau galwedigaethol:





Aros yn frwdfrydig:

- Mae chwarter (24%) yr ymatebwyr ar gyrsiau 'y dyniaethau/gwyddor gymdeithasol' neu 'wyddoniaeth a mathemateg' yn dweud bod aros yn frwdfrydig yn broblem
- Mae 23% o ymatebwyr ar gyrsiau 'llythrennedd/rhifedd' yn nodi hyn hefyd
- Ar y llaw arall, dim ond 11% o fyfyrwyr 'sgiliau sylfaenol/sylfaen' sy'n nodi hyn fel problem

Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol:

- Mae rhwng pumed rhan a thrydedd rhan o'r rheini sy'n astudio 'gwyddoniaeth a mathemateg' (28%), 'llythrennedd/rhifedd' (22%), 'y dyniaethau/gwyddor cymdeithasol' (26%) ac 'addysg/hyfforddiant' (22%) yn nodi problemau gyda darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol
- Ar y llaw arall dim ond 14% o'r rheini sy'n astudio 'lletygarwch/arlwyo ac adwerthu/gwasanaeth y cwsmer' sy'n nodi hyn
- Mae dysgwyr sy'n gwneud cyrsiau galwedigaethol yn fwy tebygol o nodi problemau gyda llwyddo i ganfod amser ar gyfer y cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref ac yn y gwaith
- Mae un rhan o dair (35%) o'r bobl sy'n gwneud cyrsiau 'addysg/hyfforddiant' yn nodi problemau gyda chanfod lle i'w cyrsiau rhwng ymrwymiadau yn y gwaith o'i gymharu ag 16% o'r ymatebwyr cyfan

Ymysg y rheini sy'n nodi problemau gyda chanfod amser i'w cyrsiau rhwng ymrwymiadau yn y cartref mae:

- Y rheini sy'n astudio 'sgiliau sylfaenol/sylfaen' (27%) o'i gymharu â'r cyfartaledd ymysg y dysgwyr i gyd (sef 15%)
- Rheini sy'n gwneud cyrsiau ysgrifenedig (21%) o'i gymharu â'r rheini sy'n astudio wyneb yn wyneb (15%)
- Rheini sy'n astudio gyda'r nos (20%) o'i gymharu ag 13% o'r rheini sy'n astudio yn ystod y dydd

Mae mwy o ddysgwyr sy'n astudio'n llawn amser (17% o'i gymharu ag 11% o'r rheini sy'n astudio'n rhan amser) yn cael problemau gyda phwysau ariannol.

Fel y gwelwch yn nhabl 135, mae chwarter y bobl hynny sy'n gweithio mwy na 21 awr bob wythnos yn cael problemau gyda llwyddo i ganfod amser ar gyfer y cwrs rhwng ymrwymiadau eu swyddi ac, yn anochel efallai, nhw hefyd yw'r mwyaf tebygol o gael problem gyda chanfod amser ar gyfer y cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref.

**Tabl 7.6: Problemau a wynebwyd yn ôl statws cyflogaeth (AB)**

| | | Cyflogaeth | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr ymatebwyr AB i gyd | Cyfanswm | Heb swydd | Llai na 7 awr | 7 – 20 awr | 21+ awr |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1835 | 151 | 986 | 1634 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1737 | 157 | 822 | 1897 |
| | % | % | % | % | % |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 18 | 18 | 29 | 20 | 16 |
| Aros yn frwdfrydig | 16 | 16 | 25 | 16 | 17 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref | 15 | 12 | 10 | 14 | 19 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd | 16 | 4 | 14 | 15 | 26 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 11 | 13 | 18 | 14 | 7 |
| Teithio i'r coleg/sefydliad darparu | 8 | 10 | 11 | 9 | 6 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 6 | 6 | 11 | 10 | 5 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd sydd heb ei ddarparu | 6 | 7 | 10 | 6 | 4 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 5 | 7 | 16 | 5 | 3 |
| Problemau o unrhyw fath gyda dysgwyr eraill | 4 | 4 | 12 | 6 | 2 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 5 | 5 | 10 | 4 | 3 |
| | | | | | |
| Dim problemau | 49 | 50 | 42 | 48 | 49 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb



**Darlun Disgrifiadol: Dysgwr AB, problemau gydag ymrwymiadau yn y cartref ac yn y gwaith**

Mae'r dysgwr yma'n 32 oed ac mae hi wedi gadael y coleg yn fuan cyn cwblhau ei chwrs. Roedd hi'n gwneud astudiaethau rhan amser (llai na 3 awr yr wythnos) yn hyfforddi ym maes Gofal Plant, Iechyd a Chymdeithasol a chwrs mynediad rhan amser mewn astudiaethau cyfreithiol (sy'n gyfatebol ag NVQ lefel 2). Penderfynodd wneud y cwrs am nifer o resymau yn cynnwys sicrhau swydd well a dysgu sgiliau ar gyfer swydd oedd ganddi ar y pryd.

Er ei bod yn fodlon iawn gydag ansawdd yr addysgu, cafodd broblemau gyda chanfod amser ar gyfer y cwrs rhwng ymrwymiadau yn ei swydd ac yn y cartref, yn ogystal â darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol. Roedd hi'n fodlon â nifer o'r cyfleusterau, ond dywedodd bod safon y gwasanaethau cefnogi eraill a'r cyfleusterau gofal plant yn isel.

Un peth annisgwyl meddai hi oedd faint o waith yr oedd yn rhaid iddi ei wneud. Roedd hyn yn llawer mwy nag yr oedd hi wedi'i ddisgwyl.

Mae'r dysgwr yn weddol fodlon yn gyffredinol, ac mae hi hyd yn oed yn meddwl ei bod hi'n debygol iawn o wneud mwy o ddysgu yn y tair blynedd nesaf. Fel y dwed, 'pe bawn i wedi aros ar y cwrs, byddwn wedi cael gyrfa well ar y diwedd'. Erbyn hyn mae hi mewn swydd ran amser (yn gweithio llai na 31 awr yr wythnos).

### 7.2.2 Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny oedd heb adael eu cyrsiau'n gynnar a oeddent wedi meddwl yn ddifrifol erioed am adael eu cyrsiau.

Ymysg dysgwyr AB, mae un ymhob pump (18%) yn honni eu bod wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau. Fel y mae tabl 136 yn ei ddangos isod, mae dysgwyr iau yn fwy tebygol o fod wedi ystyried gadael.

Er bod y seiliau'n fach, mae dysgwyr iau (16-18 oed) sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu yn llawer mwy tebygol nag unrhyw grŵp arall o ddysgwyr o fod wedi ystyried gadael.

Mae pobl sy'n astudio'n llawn amser yn fwy tebygol o fod wedi meddwl am adael.

Mae ychydig dros chwarter (26%) y myfyrwyr ar gyrsiau 'gwyddoniaeth/mathemateg' a'r 'dyniaethau/gwyddorau cymdeithasol' wedi meddwl am adael. Yn yr un modd, 24% o ymatebwyr ar gyrsiau 'rheoli/busnes/y gyfraith' ac 'iechyd/gofal cymdeithasol'.

Rheini sy'n astudio Lefelau A/AS yw'r rhai mwyaf tebygol o'r gwahanol fathau o gymwysterau o fod wedi ystyried gadael (44%).

### Tabl 7.7: Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau yn ôl Oedran (AB)

| | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55 + |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4142 | 1211 | 610 | 486 | 1189 | 643 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4138 | 1009 | 566 | 683 | 1391 | 490 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Do | 18 | 25 | 21 | 20 | 15 | 10 |
| Naddo | 82 | 75 | 79 | 80 | 85 | 90 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

### Tabl 7.8: Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau yn ôl anabledd ac anawsterau dysgu (AB)

| | | Anabledd | | Anabledd ac oedran | | Anhawster dysgu | | Anhawster dysgu ac oedran | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr AB i gyd | Cyfan-swm | Do | Na | Anabl 16-18 | Anabl 19+ | Do | Na | Anhaws-ter dysgu 16-18 | Anhaws-ter dysgu 19+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4142 | 280 | 3852 | 32 * | 248 | 238 | 3896 | 92 * | 146 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4138 | 379 | 3753 | 37 * | 342 | 279 | 3854 | 98 * | 181 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Do | 18 | 17 | 19 | 40 | 15 | 20 | 18 | 31 | 14 |
| Naddo | 82 | 83 | 81 | 60 | 85 | 80 | 82 | 69 | 86 |

*Sail fechan. Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'



**Tabl 7.9:Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau yn ôl y dull astudio (AB)**

| Sail:Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | Llawn amser | Rhan amser – mwy na 3 awr | Rhan amser – llai na 3 awr |
|---|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 4142 | 1548 | 1178 | 1375 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4138 | 1302 | 1368 | 1431 |
| | % | % | % | % |
| Do | 18 | 26 | 18 | 13 |
| Naddo | 82 | 74 | 82 | 87 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

### 7.3 DYSGU YN Y GWAITH

Dyma'r prif broblemau a nodwyd gan fyfyrwyr sy'n Dysgu yn y Gwaith:

- Llwyddo i ganfod amser i hyfforddi rhwng ymrwymiadau eraill eu swyddi (17%)
- Llwyddo i weithio i'r safon sy'n ofynnol (16%)
- Ymdrin â phwysau ariannol (15%)
- Aros yn frwdfrydig (13%)
- Llwyddo i ganfod amser i hyfforddi rhwng ymrwymiadau eraill yn eu cartrefi (12%)

Mae ychydig dros hanner (53%) y myfyrwyr sy'n Dysgu yn y Gwaith heb unrhyw broblemau i'w nodi.

Mae ymatebwyr benywaidd ychydig bach yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o nodi problemau gyda llwyddo i ganfod amser i'w hyfforddiant rhwng ymrwymiadau eraill eu swyddi. Mae hyn yn arbennig o wir am ferched sy'n hŷn nag 19 oed, gydag un ymhob pedwar bron iawn (23%) yn dweud bod hyn yn broblem, o'i gymharu â'r cyfartaledd o 17% a nodwyd gan y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd.

Hefyd, mae cyfran uwch o ferched yn nodi problemau gyda llwyddo i ganfod amser i'w hyfforddiant rhwng ymrwymiadau eraill yn eu cartrefi. Mae hyn yn effeithio ar gyfran uwch o ferched sy'n hŷn nag 19 oed (15%) o'i gymharu â grwpiau eraill.

Mae dysgwyr sydd â chyfrifoldeb am blant a/neu oedolion yn eu cartrefi yn fwy tebygol o nodi problemau gyda llwyddo i ganfod amser i hyfforddi rhwng ymrwymiadau eraill yn eu cartrefi a darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol.

Am ryw reswm, mae dysgwyr sy'n gwneud cyrsiau 'rheoli/busnes/y gyfraith' yn nodi mwy o broblemau na dysgwyr sydd ar gyrsiau eraill:

- Mae 29% o'r grŵp yma'n cael problemau gyda llwyddo i ganfod amser i'w hymrwymiadau hyfforddiant rhwng ymrwymiadau eraill yn y gwaith
- Mae 19% yn nodi problemau gydag aros yn frwdfrydig
- Mae 18% yn dweud eu bod yn cael problemau gyda llwyddo i ganfod amser i'w hyfforddiant rhwng ymrwymiadau eraill yn y cartref. Mewn cyferbyniad, dim ond 10% o'r rheini sy'n gwneud cyrsiau 'lletygarwch/hamdden/adwerthu' sy'n nodi'r broblem yma

**Tabl 7.10: Problemau a wynebwyd yn ôl rhyw ac oedran o fewn y rhywiau (Dysgu yn y Gwaith)**

| | | Rhyw | | Oedran o fewn y rhywiau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd | Cyfan-swm | Gwryw | Benyw | Gwryw 16-18 | Gwryw 19+ | Benyw 16-18 | Benyw 19+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 579 | 421 | 218 | 361 | 133 | 288 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 580 | 421 | 220 | 361 | 136 | 285 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 16 | 18 | 14 | 19 | 17 | 15 | 13 |
| Aros yn frwdfrydig | 13 | 14 | 12 | 14 | 14 | 10 | 13 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref | 12 | 11 | 14 | 9 | 12 | 10 | 15 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd | 17 | 15 | 19 | 11 | 18 | 12 | 23 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 15 | 16 | 14 | 18 | 14 | 17 | 12 |
| Teithio i'r coleg/sefydliad darparu | 9 | 11 | 7 | 12 | 10 | 10 | 6 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 7 | 6 | 7 | 6 | 6 | 8 | 7 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd sydd heb ei ddarparu | 8 | 8 | 8 | 10 | 6 | 5 | 10 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 7 | 7 | 6 | 10 | 5 | 6 | 7 |
| Problemau o unrhyw fath gyda hyfforddeion eraill | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 | 6 | 2 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 5 | 6 | 4 | 8 | 4 | 4 | 4 |
| | | | | | | | |
| Dim problemau | 53 | 54 | 51 | 54 | 55 | 54 | 49 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb



**Tabl 7.11: Problemau a wynebwyd yn ôl y pwnc (Dysgu yn y Gwaith)**

| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd | Cyfanswm | Adeiladu/Peirianneg/ Gweithgynhyrchu | Lletygarwch/Arlwyo/ Hamdden/Teithio/ Adwerthu/Gwas.cwsmer | TGCh | Busnes/Y Gyfraith | Iechyd/Gofal Cymdeithasol | Llythrennedd/Rhifedd/ Sgiliau Sylfaenol | Ieithoedd/Y Dyniaethau/Y Celfyddydau a'r Gwyddorau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 305 | 300 | 174 | 156 | 114 | 84 | 54 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 304 | 298 | 174 | 157 | 113 | 84 | 56 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 16 | 15 | 17 | 16 | 16 | 19 | 20 | 23 |
| Aros yn frwdfrydig | 13 | 15 | 14 | 15 | 19 | 11 | 17 | 19 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau'r cartref | 12 | 11 | 10 | 11 | 18 | 16 | 11 | 10 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd | 17 | 13 | 13 | 13 | 29 | 18 | 23 | 19 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 15 | 18 | 15 | 13 | 12 | 18 | 16 | 17 |
| Teithio i'r coleg/sefydliad darparu | 9 | 10 | 9 | 10 | 10 | 5 | 10 | 21 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 7 | 5 | 5 | 5 | 6 | 13 | 8 | 7 |
| Cymorth ychwanegol heb ei ddarparu | 8 | 7 | 8 | 8 | 10 | 11 | 6 | 10 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 7 | 8 | 6 | 7 | 3 | 9 | 12 | 15 |
| Problemau o unrhyw fath gyda hyfforddeion eraill | 4 | 2 | 3 | 5 | 2 | 3 | 8 | 6 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 5 | 6 | 7 | 6 | 1 | 6 | 7 | 10 |
| | | | | | | | | |
| Dim problemau | 53 | 57 | 54 | 54 | 49 | 49 | 48 | 43 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

**Tabl 7.12: Problemau a wynebwyd gan bobl ag anableddau/anawsterau dysgu (DyG)**

| | | Anableddau/ Anawsterau Dysgu | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd | Cyfanswm | Do | Naddo |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 87 | 913 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 86 | 915 |
| | % | % | % |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 16 | 29 | 15 |
| Aros yn frwdfrydig | 13 | 19 | 12 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref | 12 | 20 | 11 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd | 17 | 20 | 17 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 15 | 25 | 14 |
| Teithio i'r coleg/sefydliad darparu | 9 | 19 | 8 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 7 | 13 | 6 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd sydd heb ei ddarparu | 8 | 17 | 7 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 7 | 26 | 5 |
| Problemau o unrhyw fath gyda hyfforddeion eraill | 4 | 7 | 3 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 5 | 24 | 3 |
| | | | |
| Dim problemau | 53 | 34 | 55 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Fel oedd yn wir am y dysgwyr AB, roedd myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith gydag anableddau/anawsterau dysgu yn cael mwy o broblemau yn arbennig gyda:

- Llwyddo i weithio i'r safon sy'n ofynnol: 29% o'i gymharu â 16% o'r myfyrwyr dysgu yn y gwaith i gyd
- Ymdrin â phwysau ariannol: mae un ymhob pedwar o'r grŵp yma (25%) yn nodi hyn o'i gymharu â 15% o'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd
- Cymorth ychwanegol wedi'i addo ond heb ei ddarparu: 17% o'i gymharu â dim ond 7% o'r rheini sydd heb anableddau neu anawsterau dysgu



**Darlun disgrifiadol: dysgwr DyG, Problemau gyda sgiliau rhifedd**

Mae'r dysgwr yn ddyn 25 oed ac, yn ddiweddar, mae wedi cwblhau ei gyrsiau mewn rhifedd ac mewn gyrru fforch godi. Roedd wedi'i seilio yn ei weithle ar gyfer yr hyfforddiant yma, yn treulio llai na 2 awr yr wythnos yn hyfforddi y tu allan i'r swydd. Penderfynodd wneud y cwrs i'w helpu i gael swydd wahanol neu swydd well; i ddysgu sgiliau ar gyfer ei swydd gyfredol; i ddatblygu ei yrfa yn gyffredinol; i wella ei wybodaeth am y pwnc; i ddysgu sgiliau newydd a gwella ei ddatblygiad personol. Ei gyflogwr wnaeth y penderfyniad i fynd at y darparwr penodol.

Mae'n weddol fodlon â'r addysgu, gan ddweud bod nifer o'r gwahanol agweddau addysgu yn dda. Yn nodedig, mae'n dweud bod gallu'r athrawon i 'wneud defnydd da o amser y sesiwn' yn rhagorol, ond mae 'ansawdd a hygyrchedd y defnyddiau addysgu' yn isel.

Mae'n llai na hapus gyda nifer o faterion rheoli e.e. 'rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau' ac 'aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd' – mae'n crybwyll bod yr hyfforddwr wedi colli rhai o'r sesiynau hyfforddi 'am ei fod yn gwylio'r pêl-droed'- a 'rheoli amserlenni' fel eu bod yn addas i'r dysgwr. Mae hefyd yn cyfeirio at y ffaith nad oedd yr hyfforddwr wedi rhoi gwybod iddo a oedd wedi pasio neu beidio.

Mae'r dysgwr yn weddol niwtral am y gefnogaeth mae wedi'i derbyn gan ei gyflogwr, ond dwed nad oedd 'ganddo [y cyflogwr] ddiddordeb ymarferol, dim ond talu am y cwrs, ac ni wthiodd fi yr un ffordd na'r llall.'

Mae wedi cael nifer o broblemau wrth wneud y cwrs – sef, llwyddo i ganfod amser i'w hyfforddiant rhwng ei ymrwymiadau eraill yn y gwaith, llwyddo i gynhyrchu gwaith i'r safonau gofynnol; aros yn frwdfrydig; ac mae'n cael problemau â sgiliau mathemateg neu rifedd (felly, un o'r cyrsiau).

Er gwaethaf y problemau y mae wedi'u hwynebu ac agweddau negyddol ei hyfforddiant ni ystyriodd adael y cwrs o gwbl ac mae'n cydnabod bod yr hyfforddiant wedi bod yn weddol ddefnyddiol i'w swydd. Yn gyffredinol, mae'n weddol fodlon, mae'n debygol iawn o gael mwy o hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf.

### 7.3.1 Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau

Mae 21% o'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith yn nodi eu bod wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau. Mae hyn yn debyg i'r ffigur o 18% ar gyfer dysgwyr AB. Mae'r gyfran yn tueddu i fod yn debyg mewn perthynas â'r rhan fwyaf o newidynnau'r dysgwr. Ond mae'r grwpiau nesaf yma ymysg y rheini fyddai'n fwyaf tebygol o fod wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau:

- Roedd chwarter (25%) y merched oedd yn hŷn nag 19 oed wedi ystyried gadael
- Hefyd mae 24% o'r dysgwyr sydd ag anableddau/ anawsterau dysgu yn dweud eu bod wedi meddwl am adael
- Mae 28% o'r rheini ar gyrsiau rheoli/busnes/y gyfraith wedi ystyried gadael
- Mae bron i chwarter (24%) y dysgwyr ar gyrsiau sy'n para fwy na blwyddyn ond yn llai na dwy flynedd yn nodi eu bod wedi meddwl am adael. Mae hyn yn cymharu â 18% o'r rheini sy'n gwneud cyrsiau sy'n hirach na 2 flynedd

**Tabl 7.13:Y boddhad gyda chefnogaeth y cyflogwr yn ôl eu hoedran pan adawsant addysg lawn amser**

| | | Oedran yn gadael addysg amser llawn | | |
|---|---|---|---|---|
| Sail:Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd | Cyfanswm | Iau na 16 | 16-18 | 19+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 787 | 61 | 663 | 56 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 787 | 61 | 664 | 56 |
| | % | % | % | % |
| Eithriadol fodlon | 29 | 34 | 29 | 25 |
| Bodlon iawn | 33 | 28 | 34 | 23 |
| Gweddol fodlon | 26 | 30 | 25 | 39 |
| Heb fod yn fodlon nac yn anfodlon | 4 | 3 | 4 | 5 |
| Gweddol anfodlon | 1 | 2 | 4 | 2 |
| Anfodlon iawn | 2 | 2 | 1 | 2 |
| Eithriadol anfodlon | 1 | 2 | 1 | 4 |
| I gyd yn fodlon | 88 | 92 | 88 | 88 |
| I gyd yn anfodlon | 7 | 5 | 7 | 7 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

### 7.3.2 Y boddhad gyda chefnogaeth y cyflogwr

Weithiau mae diffyg cefnogaeth y cyflogwr wedi'i nodi fel rheswm am adael rhaglenni DyG. Felly, gofynnwyd cwestiynau penodol i'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith er mwyn archwilio'r mater yma.

Gofynnwyd i'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith sy'n gyflogedig ar hyn o bryd (79% o'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd) pa mor fodlon oeddent â'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn gan eu cyflogwyr i'w helpu nhw i lwyddo yn eu hyfforddiant. Yna gofynnwyd iddynt pam yr oedden nhw'n fodlon neu'n anfodlon.

Mae bron i 9 ymhob 10 yn dweud eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth; mae 62% yn fodlon iawn neu'n eithriadol fodlon. Mae hyn yn ganfyddiad positif iawn ac yn gyson yn y rhan fwyaf o'r newidynnau dysgwyr yn cynnwys oedran a rhyw.

Mae'r rheini a adawodd addysg lawn amser yn 19+ oed yn tueddu fwy tuag at gweddol fodlon na bodlon iawn neu eithriadol fodlon gyda chefnogaeth y cyflogwr. Roedd 48% o'r grŵp yma'n eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn o'i gymharu â 62% o'r sampl cyfan. Ond nid ydynt yn fwy tebygol o fod yn anfodlon na grwpiau eraill.

- Mae cyfran fwy o'r rheini gydag anableddau a/neu anawsterau dysgu yn nodi boddhad na'r cyfartaledd. Mae 94% yn dweud eu bod yn eithriadol fodlon/bodlon iawn neu'n weddol fodlon (mae 61% yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn), a dim ond 2% sy'n dweud eu bod yn anfodlon
- Y lefelau boddhad gyda chefnogaeth y cyflogwr oedd yr uchaf yn y De Ddwyrain (93% yn fodlon) - ychydig yn uwch o'i gymharu â'r rhanbarthau eraill



### 7.3.3 Y rhesymau am y boddhad

Dyma'r prif resymau am y boddhad gyda chefnogaeth y cyflogwr. Gofynnwyd y cwestiwn yma fel cwestiwn agored.

**Tabl 7.14: Y rhesymau am y boddhad gyda chefnogaeth y cyflogwr**

| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd a atebodd | Cyfan-swm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 695 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 698 |
| | % |
| Mae'r cyflogwr yn gefnogol iawn/yn barod i helpu, yn fy annog i hyfforddi | 36 |
| Maen nhw'n fy nghynghori, yn esbonio pethau, yn fy helpu i wneud y gwaith cwrs | 22 |
| Yn caniatáu amser i mi astudio/hyfforddi | 12 |
| Yn hapus iawn, mae'n gweithio'n dda, yn darparu popeth yr wyf ei angen | 5 |
| Maen nhw'n iawn, ond does ganddyn nhw ddim diddordeb/dydyn nhw ddim eisiau gwneud mwy na sydd raid | 5 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

Y rheswm am y boddhad a nodwyd amlaf oedd cadarnhad bod y cyflogwr yn gefnogol neu'n annog y dysgwr i hyfforddi. Nododd mwy na thrydedd rhan o'r ymatebwyr bodlon y rheswm yma (36%). Yn dilyn hynny, mae 'maen nhw'n fy nghynghori, yn esbonio pethau/yn fy helpu i wneud y gwaith cwrs' gyda 22%.

Mae rhai o'r rhesymau am foddhad yr ymatebwyr yn gryfach mewn rhai pynciau fel mae tabl 144 yn ei ddangos. Er bod 40% o'r ymatebwyr ar gyrsiau 'iechyd/gofal cymdeithasol' yn dweud bod eu cyflogwyr yn gefnogol, dim ond 5% sy'n dweud eu bod yn caniatáu amser iddynt hyfforddi.

**Tabl 7.15: Y rhesymau am y boddhad gyda chefnogaeth y cyflogwr yn ôl y pwnc**

| Sail: Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd a atebodd | Cyfanswm | Adeiladu/Peirianneg/ Gweithgynhyrchu | Lletygarwch/Arlwyo/ Hamdden/travel/retail/ customer service | TGCh | Rheoli/Busnes/Y Gyfraith | Iechyd/Gofal Cymdeithasol | Llythrennedd/Rhifedd/ Sgiliau Sylfaenol | Ieithoedd/Y Dyniaethau/Y Celfyddydau a'r Gwyddorau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 695 | 234 | 196 | 95 | 114 | 74* | 58* | 36* |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 698 | 234 | 197 | 97 | 114 | 74* | 57* | 37* |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae'r cyflogwr yn gefnogol iawn/yn barod i helpu | 36 | 34 | 30 | 28 | 35 | 40 | 30 | 39 |
| Maen nhw'n fy nghynghori, yn esbonio pethau | 22 | 28 | 27 | 29 | 15 | 22 | 27 | 24 |
| Yn caniatáu amser i mi astudio/hyfforddi | 12 | 12 | 13 | 18 | 20 | 5 | 22 | 13 |
| Yn hapus iawn, mae'n gweithio'n dda | 5 | 6 | 7 | 5 | 4 | 6 | 6 | 3 |
| Maen nhw'n iawn, ond dydyn nhw ddim yn gwneud mwy na sydd raid | 5 | 3 | 3 | 4 | 9 | 7 | 3 | - |

* Mae maint y sail yn fach; Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Roeddem wedi caniatáu mwy nag un ateb

### 7.3.4 Y rhesymau am yr anfodlonrwydd

Dim ond 7% o'r ymatebwyr cyflogedig oedd yn anfodlon neu heb farn am y gefnogaeth a gawsent gan eu cyflogwyr.

Mae tabl 145 yn amlygu'r prif resymau am yr anfodlonrwydd. Mae chwarter y dysgwyr anfodlon yn dweud nad yw eu cyflogwyr yn rhoi unrhyw gymorth, cyngor na chefnogaeth iddynt gyda'u prosiectau.





**Tabl 7.16:Y rhesymau am y difaterwch/ anfodlonrwydd â chefnogaeth y cyflogwr**

| Sail:Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd sy'n anfodlon â chefnogaeth y cyflogwr | Cyfan-swm |
|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 85 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 83 |
| | % |
| Nid yw'r cyflogwr yn rhoi unrhyw gymorth/gyngor/gefnogaeth i mi gyda'r prosiectau | 25 |
| Nid yw'n caniatáu digon o amser i mi hyfforddi/astudio/rwy'n gorfod cymryd diwrnod yn rhydd | 19 |
| Maen nhw'n iawn, ond dydyn nhw ddim yn gwneud mwy na sydd raid/yn dangos diddordeb | 15 |
| Pwysau gwaith/dim amser i astudio/hyfforddi | 12 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall';
Caniatawyd mwy nag un ateb

## 7.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU

Ymysg dysgwyr ABO, doedd gan chwech ymhob deg o ymatebwyr (58%) ddim problemau i'w nodi. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o'r ffaith eu bod yn hŷn, gan olygu bod ganddynt well adnoddau i ymdrin â'r amrywiol sialensiau sy'n codi wrth ddysgu. Dim ond tri math o broblem oedd wedi'u profi gan fwy na 10% o ddysgwyr ABO:

- Aros yn frwdfrydig (13%)
- Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol (13%)
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref (12%)

Mae pumed rhan (19%) o'r rheini gyda phlant a/neu oedolion i ofalu amdanynt yn nodi problemau gyda chanfod amser i'w cyrsiau rhwng ymrwymiadau yn y cartref, mae hyn yn cymharu ag 8% o'r rheini sydd heb gyfrifoldebau adref.

Dywedodd pumed rhan (18%) o'r dynion sy'n iau na 55 oed bod ganddynt broblemau gyda darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol a llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd.

Pwyntiau eraill i'w nodi:

- Mae bron i chwarter (23%) y dysgwyr ABO sydd ar gyrsiau 2 flynedd neu fwy yn dweud ei bod hi'n broblem aros yn frwdfrydig. Mae hyn yn gyferbyniol â'r 11% o'r rheini sy'n astudio cwrs nad yw'n hirach na blwyddyn
- Roedd mwy o ddysgwyr ag anableddau/ anawsterau dysgu wedi nodi problemau gyda darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol; 19% o'i gymharu ag 11% o'r rheini sydd heb anableddau/anawsterau dysgu
- Hefyd, mae myfyrwyr llawn amser yn nodi problemau gyda darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol. Mae 26% yn nodi hyn, o'i gymharu â 13% o'r dysgwyr ABO i gyd

**Tabl 7.17: Problemau a wynebwyd yn ôl rhyw ac oedran o fewn y rhywiau (ACE)**

| | | Rhyw | | Oedran o fewn y rhywiau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfan-swm | Gwryw | Benyw | Gwryw iau na 55 | Gwryw hŷn na 55 | Benyw iau na 55 | Benyw hŷn na 55 |
| Sail: Y dysgwyr ABO i gyd | 508 | 160 | 348 | 66 | 94 | 202 | 145 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Aros yn frwdfrydig | 13 | 11 | 14 | 12 | 11 | 15 | 14 |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 13 | 16 | 11 | 18 | 15 | 10 | 14 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau'r cartref | 12 | 9 | 13 | 14 | 6 | 17 | 7 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau gwaith | 9 | 9 | 9 | 18 | 2 | 13 | 3 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 5 | 5 | 5 | 6 | 4 | 7 | 3 |
| Teithio i'r coleg/sefydliad darparu | 4 | 5 | 4 | 8 | 3 | 4 | 3 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 3 | 4 | 3 | 8 | 2 | 2 | 3 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd sydd heb ei ddarparu | 2 | 3 | 1 | 5 | 2 | 2 | 1 |
| Problemau o unrhyw fath gyda hyfforddeion eraill | 2 | 3 | 1 | 5 | 1 | 1 | 1 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 3 | 3 | 3 | 5 | 2 | 3 | 1 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 2 | 3 | 1 | 5 | 1 | 2 | - |
| | | | | | | | |
| Dim problemau | 58 | 58 | 58 | 47 | 65 | 55 | 62 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb





**Darlun disgrifiadol: Dysgwr ABO, problemau gyda chydbwyso ymrwymiadau ac aros yn frwdfrydig**

Mae'r dysgwr yn 75 oed, yn anabl ac wedi gorffen ei hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf. Roedd ei chwrs yn un rhan amser (llai na 3 awr bob wythnos), sef credydau Coleg Agored mewn Ysgrifennu Creadigol.

Ei disgwyliadau am y cwrs oedd cael mwy o foddhad o'i gwaith; mynd ar gyrsiau eraill neu ddatblygu ei haddysg; gwella ei datblygiad personol; cyfarfod pobl newydd a gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'i hamser sbâr.

Cafodd le gyda'r darparwr oedd yn ddewis cyntaf ganddi – roedd yn cynnig y cwrs yr oedd ei eisiau a chafodd ei gwahodd i fynychu'r coleg. Mae hi'n gwneud y cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddi hefyd.

Mae hi'n sôn am broblemau gyda chanfod amser ar gyfer y cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref; darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol ac aros yn frwdfrydig.

Yn gyffredinol, mae hi'n dweud ei bod yn eithriadol fodlon ag ansawdd yr addysgu, gan ddweud bod llawer o agweddau o'r addysgu yn rhagorol. Ond, un cliw i ddangos pam y gallai fod yn cael problemau gyda darparu gwaith i'r safon oedd yn ofynnol ac aros yn frwdfrydig yw'r ffaith iddi nodi bod gallu ei thiwtor i esbonio'r pwnc a rhoi cefnogaeth iddi yn isel. Nid yw ei disgwyliadau am y dulliau a'r arddulliau dysgu a ddefnyddir mewn gwersi wedi'u gwireddu. Mae hi hefyd yn rhoi sgôr isel i'r athrawon am fethu â bod ar gael iddi.

Ychydig iawn sydd ganddi i'w ddweud am nifer o'r cyfleusterau – efallai nad yw llawer ohonynt yn berthnasol iddi hi, ond mae hi'n nodi rhai cyfleusterau arbenigol sy'n berthnasol i'w chwrs a'r cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill fel rhai o safon isel.

Mae'r dysgwr yn weddol fodlon yn gyffredinol ac yn dweud ei bod yn weddol debygol o wneud mwy o hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf.

### 7.4.1 Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau

Ymysg y dysgwyr ABO, mae 16% yn dweud eu bod wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau. Mae hyn yn uwch ymysg dynion (21%) na merched (14%).

Mae'n arbennig o wir ymysg dynion dan 55 oed, lle mae 32% ohonynt wedi ystyried gadael. Ar gyfartaledd, fodd bynnag, y grŵp oedran 35-54 oed yw'r mwyaf tebygol o fod wedi meddwl am adael; mae 21% ohonynt yn dweud hynny.

**Tabl 7.18: Y dysgwyr sydd wedi ystyried gadael eu cyrsiau yn ôl eu hoedran a'u hoedran o fewn y rhywiau (Addysg Barhaus Oedolion)**

| | | Oedran o fewn y rhywiau | | | | Oed | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfan-swm | Gwryw dan 55 | Gwryw 55 + | Benyw dan 55 | Benyw 55 + | 16-34 | 35-54 | 55 + |
| Sail: Y dysgwyr ABO i gyd | 450 | 50 | 91 | 181 | 127 | 63 | 168 | 218 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Do | 16 | 32 | 14 | 15 | 11 | 14 | 21 | 12 |
| Naddo | 84 | 68 | 86 | 85 | 89 | 86 | 79 | 88 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

Yn ddiddorol, mae'r rheini sy'n astudio ar gyrsiau sydd ar lefel fwy sylfaenol (lefelau 2 neu 1) yn fwy tebygol o fod wedi ystyried gadael na'r rheini sy'n gweithio ar lefelau uwch, 21% o'i gymharu â 15%.

## 7.5 CYMHARIAETH RHWNG Y MATHAU O DDARPARIAETH

Mae'r problemau a geir yn fwyaf aml yn gyson yn y gwahanol fathau o ddarpariaeth ac yn ymwneud â:

- Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol
- Aros yn frwdfrydig
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref

Mae'r gyfran o ddysgwyr sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau'n weddol gyson ymhob un o'r mathau darpariaeth hefyd, sef oddeutu un ymhob pump.

**Tabl 7.19: Problemau yn ôl y math o ddarpariaeth**

| | Math o ddarpariaeth | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd | AB | DyG | ABO |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1000 | 508 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 1001 | 508 |
| | % | % | % |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 18 | 16 | 13 |
| Aros yn frwdfrydig | 16 | 13 | 13 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd | 16 | 17 | 9 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref | 15 | 12 | 12 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 11 | 15 | 5 |
| Teithio i'r coleg/sefydliad darparu | 8 | 9 | 4 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 6 | 7 | 3 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd sydd heb ei ddarparu | 6 | 8 | 2 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 5 | 7 | 2 |
| Problemau o unrhyw fath gyda dysgwyr eraill | 4 | 4 | 2 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 5 | 5 | 3 |
| | | | |
| Dim problemau | 49 | 53 | 58 |

Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr atebion 'ni wn' ac 'arall'; Caniatawyd mwy nag un ateb

**Tabl 7.20: Y dysgwyr a ystyriodd adael eu cyrsiau yn ôl y math o ddarpariaeth**

| | Math o ddarpariaeth | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd heblaw ymadawyr cynnar | AB | DyG | ABO |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4142 | 925 | 450 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4138 | 925 | 450 |
| | % | % | % |
| Do | 18 | 21 | 16 |
| Naddo | 82 | 79 | 84 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

## 7.6 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA

### AB

Mae bron i hanner (49%) yr ymatebwyr yn honni eu bod wedi cael rhyw broblemau ers iddyn nhw gychwyn eu cyrsiau.

Mae'r problemau'n amrywio yn ôl cam bywyd yr ymatebwr ond mae'r problemau mwyaf cyffredin yn ymwneud â:

- Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol (18%)
- Aros yn frwdfrydig (16%)
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd (16%)
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref (15%)

Mae ymatebwyr canol oed ac ymatebwyr sy'n hŷn na hynny yn fwy tebygol o nodi problemau gyda llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref ac yn y gwaith, ond i ddysgwyr iau mae'r problemau'n ymwneud fwyfwy â'r dysgu ei hun a gyda chynhyrchu gwaith yn gyson i'r safon sy'n ofynnol.

Mae cyfraneddau uwch o ddysgwyr sydd ag anableddau ac anawsterau dysgu yn nodi problemau mewn meysydd megis 'problemau ariannol' a'r ffaith bod 'cymorth ychwanegol a addawyd iddynt heb ei ddarparu'.

Mae'r dysgwyr hynny sydd ar gyrsiau academaidd yn tueddu i gael mwy o broblemau gyda chymhelliant a darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol, ond i'r rheini sydd ar gyrsiau galwedigaethol, roeddent yn cael mwy o broblemau gyda chanfod amser i'w cyrsiau rhwng eu hymrwymiadau yn y cartref ac yn y gwaith.

Mae ychydig yn llai na phumed rhan o'r ymatebwyr wedi ystyried gadael eu cyrsiau (18%). Mae hyn ychydig bach yn uwch ymysg pobl 16-18 oed (25%), yn arbennig rheini o'r grŵp oedran yma sydd ag anabledd (40%) neu anhawster dysgu (31%).





## DyG

Doedd gan ychydig yn fwy na hanner (53%) yr ymatebwyr ddim problemau i'w nodi. Ymysg y rheini sydd â phroblemau, mae'r prif rai yn debyg i'r rheini a brofwyd gan ddysgwyr AB er bod pwysau arian yn fwy amlwg:

- Llwyddo i ganfod amser i hyfforddi rhwng ymrwymiadau eraill eu swyddi (17%)
- Llwyddo i weithio i'r safon sy'n ofynnol (16%)
- Ymdrin â phwysau ariannol (15%)
- Aros yn frwdfrydig (13%)
- Llwyddo i ganfod amser i hyfforddi rhwng ymrwymiadau eraill yn eu cartrefi (12%)

Mae merched yn fwy tebygol o gael problem gyda chanfod amser i'w hyfforddiant rhwng ymrwymiadau yn y gwaith ac yn y cartref, ond mae dynion ychydig yn fwy tebygol o nodi problemau gyda darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol.

Mae'n ymddangos bod y rheini sy'n gwneud cyrsiau busnes yn cael mwy o broblemau na'r rheini sy'n astudio pynciau eraill, yn arbennig gyda chydbwyso ymrwymiadau ac aros yn frwdfrydig.

Yn debyg i'r myfyrwyr AB, mae cyfraneddau uwch o ddysgwyr gydag anableddau ac anawsterau dysgu yn nodi problemau – mae bron i draean ohonynt (29%) yn nodi problemau gyda darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol, ac mae eu chwarter (25%) yn nodi 'ymdrin â phwysau ariannol' fel problem.

Mae ychydig dros bumed rhan ohonynt (21%) yn dweud eu bod wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau. Dyma'r rhai sydd yn fwyaf tebygol o fod wedi meddwl am wneud hynny:

- Merched dros19 oed (25%)
- Rheini sydd ag anawsterau dysgu neu anableddau (24%)
- Rheini sydd ar gyrsiau astudiaethau busnes (28%)

Mae bron i naw ymhob deg (88%) o'r myfyrwyr dysgu yn y gwaith sydd mewn swydd ar hyn o bryd yn fodlon â'r gefnogaeth a gânt gan eu cyflogwyr.

## ABO

Mae bron i chwech ymhob deg (58%) heb broblemau o gwbl. Dyma'r prif broblemau ar gyfer y gweddill:

- Aros yn frwdfrydig (13%)
- Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol (13%)
- Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref (12%)

Ychydig iawn (16%) sydd wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu cyrsiau, ond mae'r nifer ychydig bach yn uwch ymysg dynion dan 55 oed (dywedodd 32% eu bod wedi ystyried gwneud hynny).

# 8. YMADAWYR CYNNAR

**Cyflwyniad:**

Mae'r adran yma'n archwilio rhesymau pobl am adael eu cyrsiau neu raglenni hyfforddi. Mae'n edrych ar ymadawyr cynnar yn nhermau eu proffil demograffig neu addysgol ac yn archwilio'r agweddau hynny o'u profiad dysgu sydd wedi'u harwain at adael y cwrs yn fuan. Mae hefyd yn edrych ar yr hyn y maen nhw'n ei wneud yn awr.

Mae ymadawyr cynnar wedi'u diffinio fel pobl a benderfynodd adael eu cyrsiau cyn eu cwblhau. Gan gofio ein bod wedi tynnu ein sampl o gyfrifiad y dysgwyr ym mis Mawrth, bydd yr ymadawyr cynnar sydd wedi'u disgrifio isod, yn gyffredinol, wedi gadael eu cyrsiau yn y cyfnod rhwng y gwaith samplo a'r gwaith maes.

Nid yw'n bosib i ni ddadansoddi ymadawyr cynnar ymysg myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith neu Addysg Barhaus Oedolion (mae llai na 60 o ymadawyr cynnar ymhob un o'r rhain). Felly, mae'r adran yma wedi'i chyfyngu i ddadansoddiad o ymadawyr cynnar ymysg ymatebwyr mewn Addysg Bellach yn unig. Fodd bynnag, mae barn ymadawyr cynnar mewn DyG ac ABO wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad cyffredinol a geir ar gyfer y tair darpariaeth drwy'r adroddiad yma i gyd.

Fel sylw cyffredinol, mae'n amlwg bod ymadawyr cynnar, ar y cyfan, yn fwy negyddol am agweddau o'u profiad dysgu na'r rheini sy'n dysgu ar hyn o bryd a'r rheini sydd wedi cwblhau eu cyrsiau. I ryw raddau, mae'r patrwm yma'n anochel, ac mae'n angenrheidiol i ni edrych yn ddwfn i'r data er mwyn canfod pa ffactorau sy'n allweddol i hybu dysgwyr i adael eu cyrsiau'n gynnar.

## 8.1 BRASOLWG O YMADAWYR CYNNAR MEWN ADDYSG BELLACH

### 8.1.1 Newidynnau demograffig

Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y rhywiau a'r grwpiau oedran pan gymharwn ymadawyr cynnar â dysgwyr cyfredol/ dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau. Ond, mae'r grŵp sydd wedi ymadael yn gynnar yn fwy tebygol o:

- Fod â'r TGAU fel cymhwyster lefel uchaf (29% o'i gymharu â 22% o'r dysgwyr eraill) ac o fod wedi gadael addysg lawn amser yn 16 oed (42% o'i gymharu â 36% o'r dysgwyr eraill)
- Yn perthyn i'r grŵp cymdeithasol-economaidd C2DE (gwaith llaw sgiliedig, gwaith llaw lled-sgiliedig a heb sgiliau) (56% o'i gymharu â 46% yn y drefn honno)
- Fod yn gwneud gwaith cyflogedig yn ystod y tymor (mae 48% o'r ymadawyr cynnar nad ydynt yn gwneud gwaith gyda thâl, o'i gymharu â 36% o'r dysgwyr eraill)

### 8.1.2 Newidynnau yn ymwneud â'r rhaglen

Y pwyntiau cyntaf i'w codi am ymadawyr cynnar yw nad ydynt yn llai tebygol nag ymatebwyr eraill o fod wedi astudio yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt, ac nid ydynt chwaith yn llai tebygol o fod wedi astudio ar y rhaglen hyfforddi oedd yn ddewis cyntaf ganddynt.

Ond, mae rhywfaint o wahaniaethau yn y math o gyrsiau yr oeddent yn eu gwneud o'u cymharu â dysgwyr eraill, fel a ganlyn:

- Roedd ymadawyr cynnar yn fwy tebygol o fod yn astudio cwrs oedd yn para rhwng 6 a 12 mis (44% o'i gymharu â 30% o'r dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau), ond yn llai tebygol o fod yn astudio cwrs oedd yn para rhwng blwyddyn a 2 flynedd (22% o'i gymharu â 29% o'r dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau)






- Roedd ymadawyr cynnar yn fwy tebygol na dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau o fod yn astudio cwrs llawn amser (39% o'i gymharu â 31% yn y drefn honno)
- Roedd y grŵp yma'n fwy tebygol o fod yn astudio TGCh (35% o'i gymharu â 24% o ddysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau)

### 8.1.3 Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu

Yn nhermau eu boddhad cyffredinol, dim ond 42% o'r ymadawyr cynnar sy'n dweud eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn, ac mae hyn yn cymharu â 74% o'r dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau.

**Siart 8.1: Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu (Ymadawyr cynnar AB)**

Sail: Ymadawyr cynnar mewn AB (426)




| Crynodeb | |
|---|---|
| Cyfanswm eithriadol/bodlon iawn | 43% |
| Cyfanswm bodlon | 76% |
| Cyfanswm anfodlon | 16% |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'Ni wn' and 'Heb fod yn un na'r llall'

Pan archwiliwn y rhesymau cyffredinol am y boddhad a'r anfodlonrwydd, nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng barn yr ymadawyr cynnar a'r dysgwyr cyfredol/ dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau. Nid yw'r ymadawyr cynnar yn fwy negyddol o gwbl am eu profiadau yn yr ysgol na dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau (mae gan 47% o'r ymadawyr cynnar deimladau positif am yr ysgol yn gyffredinol, o'i gymharu â 43% o'r lleill).

Ond, maen nhw'n llawer llai tebygol o ddweud y byddent yn gwneud dysgu pellach yn y tair blynedd nesaf (mae 76% o'r ymadawyr cynnar yn dweud bod hyn yn debygol iawn neu'n weddol debygol, o'i gymharu â 86% o'r dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau).

## 8.2 PROFIADAU A DISGWYLIADAU YMADAWYR CYNNAR

### 8.2.1 Eu hamcanion cyn y cwrs

O gymharu'r amcanion oedd gan yr ymadawyr cynnar cyn eu cyrsiau ag amcanion y dysgwyr cyfredol/ dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau, mae ychydig o wahaniaethau arwyddocaol rhwng y ddau grŵp. Yr eithriadau yw bod ymadawyr cynnar fel petaent yn ymwneud llai â datblygiad gyrfaol/addysgol ac felly'n llai tebygol o:

- Feddwl y byddent yn dysgu sgiliau newydd ar gyfer swydd roedden nhw'n ei gwneud ar y pryd (45% o'i gymharu â 54% o'r dysgwyr cyfredol/ dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau)
- Ddisgwyl i'w dysgu eu helpu i ddatblygu eu gyrfa yn gyffredinol (68% o'i gymharu â 76%)
- Ddisgwyl mynd ar gwrs arall neu ddatblygu eu haddysg (71% o'i gymharu â 77%)

Fel mae Tabl 151 yn ei ddangos, mae ymadawyr cynnar yn llawer llai tebygol hefyd o deimlo bod eu cyrsiau wedi'u helpu nhw'n fawr i:

- Wella eu gwybodaeth am bwnc (56% o'i gymharu â 85% o'r rheini a barhaodd gyda'u cyrsiau)
- Dysgu sgiliau newydd (48% o'i gymharu â 77%)
- Gwella eu datblygiad personol (31% o'i gymharu â 67%)
- Cyfarfod pobl newydd (53% o'i gymharu â 70%)

**Tabl 8.1: A gyrhaeddwyd amcanion y dysgwyr cyn y cwrs (dysgwyr cyfredol/wedi cwblhau eu cyrsiau mewn AB)**

| | Dysgwyr cyfredol/wedi cwblhau'r cwrs | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB gyda disgwyliadau cyn y cwrs | Wedi helpu'n fawr | Wedi helpu ychydig | Heb helpu o gwbl |
| Sail: Heb ei bwysoli: 1159 | | | |
| Sail: Wedi'i bwysoli: 1145 | | | |
| | % | % | % |
| Gwella eu gwybodaeth am bwnc | 85 | 14 | 1 |
| Dysgu sgiliau newydd | 77 | 20 | 3 |
| Gwella'u datblygiad personol | 67 | 26 | 5 |
| Cyfarfod pobl newydd | 70 | 25 | 4 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'. Mae'r tabl yn dangos canrannau mewn rhesi. Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor; mewn rhai sefyllfaoedd, felly, bydd y seiliau'n is na'r rheini sydd yn y tabl

**Tabl 8.2: A gyrhaeddwyd yr amcanion oedd gan y dysgwyr cyn y cwrs? (Ymadawyr cynnar mewn AB)**

| | Early leavers | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Yr ymadawyr cynnar i gyd mewn AB | Wedi helpu'n fawr | Wedi helpu ychydig | Heb helpu o gwbl |
| Sail: Heb ei bwysoli: 416 | | | |
| Sail: Wedi'i bwysoli: 426 | | | |
| | % | % | % |
| Gwella eu gwybodaeth am bwnc | 56 | 27 | 15 |
| Dysgu sgiliau newydd | 48 | 29 | 22 |
| Gwella'u datblygiad personol | 31 | 33 | 33 |
| Cyfarfod pobl newydd | 53 | 36 | 11 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'. Mae'r tabl yn dangos canrannau mewn rhesi. Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor; mewn rhai sefyllfaoedd, felly, bydd y seiliau'n is na'r rheini sydd yn y tabl

Mae'n ymddangos bod llai o ddisgwyliadau'r ymadawyr cynnar mewn AB wedi'u hateb mewn perthynas â'r hyn y byddai'r cwrs yn ei gynnwys, yn arbennig mewn perthynas â 'dulliau ac arddulliau addysgu a ddefnyddir mewn sesiynau' (roedd 21% o'r ymadawyr cynnar yn teimlo nad oedd eu disgwyliadau wedi'u hateb o'i gymharu â 6% o'r dysgwyr eraill) a 'chynnwys y cwrs' (15% o'i gymharu â 5%).

**Darlun Disgrifiadol: Merch 19 oed sydd wedi ymadael yn gynnar**

Mae'r ferch 19 oed yma wedi gadael ei chwrs yn gynnar. Roedd yn astudio'n llawn amser ar gwrs NVQ Lefel 2 yn cynnwys Rhifedd a Thrin Gwallt. Roedd hi'n astudio'r cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddi yn y sefydliad oedd yn ddewis cyntaf ganddi hefyd, a chafodd gyngor am ei hastudiaethau gan ei rhieni/ aelodau eraill o'i theulu. Ond, cafodd broblemau gyda chanfod amser i'r cwrs rhwng ei hymrwymiadau adref, gydag ymdrin â phwysau ariannol, gydag aros yn frwdfrydig a gyda theithio i'r coleg.

Roedd hi'n eithriadol anfodlon ag ansawdd cyffredinol yr addysgu yn ei choleg, ac yn rhoi'r sgorau isaf (1 allan o 10) am yr agweddau yma mewn perthynas â'i thiwtoriaid: gwrando ar ei hanghenion, gwneud defnydd da o amser y sesiwn, gosod targedau neu amcanion dysgu eglur i'w helpu i wella a darparu adborth rheolaidd a phrydlon am ddatblygiad. Mae hi hefyd yn feirniadol iawn o'r coleg am nad oedd yn sicrhau bod digon o diwtoriaid ar gael ac am nad oedd yn rheoli'r amserlenni fel eu bod yn addas i'r dysgwr.

Roedd llawer o'i disgwyliadau mewn perthynas â'i dysgu heb eu hateb. Dyma oedd yr achos yn arbennig y maint o waith y byddai'n rhaid iddi ei wneud, strwythur y cwrs, faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid iddi ei gymryd a'r dulliau ac arddulliau addysgu a ddefnyddiwyd yn y gwersi. Mae hi'n dweud nad oedd yn teimlo bod ei thiwtoriaid yn barod i "wthio" dysgwyr yn ddigonol, ac yn dweud nad oeddent yn barod i addysgu ar brydiau, felly roedd y myfyrwyr yn gwneud y gwaith i gyd eu hunain.

Mae hi'n eithriadol anfodlon â'r profiad dysgu yn gyffredinol. Mae hi'n dweud nad oedd gan ei dosbarth ddiddordeb am nad oedd gan y tiwtoriaid ddiddordeb. Ond mae hi'n dweud ei bod hi'n weddol debygol o wneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf.

**Darlun Disgrifiadol: Dyn 38 mlwydd oedd gydag anableddau, sydd wedi ymadael yn gynnar**

Roedd y dyn anabl 38 oed yma sydd wedi ymadael yn gynnar yn astudio'n rhan amser (mwy na 3 awr yr wythnos) ar gyfer cymhwyster City & Guilds lefel 2 mewn Peirianneg Drydanol. Penderfynodd adael ei gwrs yn ystod y 12 mis diwethaf heb ennill unrhyw gymhwyster. Ar hyn o bryd mae gartref ac nid yw'n chwilio am waith.

Roedd ei gwrs a'i goleg yn ddewisiadau cyntaf ganddo. Cafodd gyngor gan adran fynediadau'r coleg ac roedd yn teimlo bod y cyngor yma'n weddol ddefnyddiol. Ond, mae'n eithriadol anfodlon ag ansawdd cyffredinol yr addysgu. Yn arbennig, mae'n rhoi sgôr o 1 allan o 10 yn unig i'r tiwtoriaid am wrando ar ei anghenion, am wneud y pwnc yn ddiddorol, am ei ddeall ef a sut mae'n hoffi dysgu, am roi cefnogaeth, am ansawdd ac am hygyrchedd y defnyddiau addysgu, am osod targedau neu amcanion dysgu eglur, am ddarparu adborth rheolaidd a phrydlon am ddatblygiad ac am ymdrin â dysgwyr aflonyddgar.

Yn gyffredinol, mae'n weddol anfodlon â'r profiad dysgu. Yn aml iawn, nid oedd ei ddisgwyliadau am y profiad dysgu wedi'u gwireddu. Dyma ddigwyddodd mewn perthynas â faint o waith yr oedd yn rhaid ei wneud, strwythur y cwrs, faint o ddyddiadau cwblhau gwaith oedd ar y cwrs a'r dulliau ac arddulliau addysgu a ddefnyddiwyd mewn gwersi. Mae ei sylwadau'n awgrymu ei fod yn disgwyl cwrs mwy ymarferol, ond yn lle hynny canfu bod gormod o waith papur a gormod o ddyddiadau cwblhau ar y cwrs. Mae hefyd yn teimlo ei fod wedi ei roi ar y cwrs anghywir a'i fod wedi ei gamarwain yn y cyswllt hwn ynglŷn â'r hyn y byddai'n ei wneud.

Pan ofynnwyd iddo am unrhyw broblemau a wynebodd yn ystod y profiad dysgu, cyfeiriodd at y pethau yma: aros yn frwdfrydig, teithio i'r coleg, ni dderbyniodd gymorth ychwanegol oedd wedi'i addo iddo, sgiliau mathemateg/rhifedd, llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref, llwyddo i gynhyrchu gwaith i'r safon oedd yn ofynnol bob amser, ymdrin â phwysau ariannol a phroblemau ag aelod o staff y coleg.

Ond, mae'r dysgwr yma'n dweud ei bod hi'n debygol iawn y bydd yn gwneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf.

**8.2.2 Y patrymau ceisio cyngor**

Pan archwiliwyd ymddygiad ymadawyr cynnar o ran ceisio cyngor cyn dechrau'r cwrs, dim ond dau wahaniaeth amlwg sydd rhwng y grŵp yma a'r dysgwyr AB cyfredol/ dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau:

- Dim ond 34% o'r ymadawyr cynnar sy'n nodi athrawon yn y coleg/sefydliad darparu fel ffynhonnell, o'i gymharu â 40% o'r dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau
- Mae 14% o'r ymadawyr cynnar wedi ceisio cyngor gan gyflogwr, o'i gymharu â 25% o'r dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau



**Tabl 8.3: Problemau a wynebwyd ar y cwrs yn ôl statws y dysgwr (AB)**

| | Statws y dysgwyr | |
|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Dysgwyr cyfredol/ yn cwblhau'r cwrs | Ymadawyr cynnar |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4142 | 416 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4138 | 426 |
| | % | % |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref | 14 | 24 |
| Llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau swydd | 15 | 24 |
| Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol | 16 | 32 |
| Ymdrin â phwysau ariannol | 10 | 19 |
| Problemau o unrhyw fath gyda dysgwyr eraill | 3 | 5 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o'r staff | 5 | 12 |
| Aros yn frwdfrydig | 14 | 33 |
| Teithio i'r coleg | 7 | 14 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd sydd heb ei ddarparu | 5 | 13 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 5 | 4 |
| Sgiliau mathemateg/rhifedd | 5 | 6 |
| Arall | 8 | 10 |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'Dim problemau', 'Ni wn' and 'Dim ateb'.

### 8.2.3 Problemau a wynebwyd yn ystod y cyrsiau

Mae dadansoddiad o'r problemau a wynebwyd yn rhoi darlun eglur i ni o'r rhesymau posib am ymadawiad cynnar y bobl yma. Er bod ymadawyr cynnar, yn gyffredinol, yn fwy tebygol o nodi'r holl broblemau a restrir na'r dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau, mae'r materion allweddol yn troi o amgylch 'Aros yn frwdfrydig' a 'Darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol' (Tabl 154).

### 8.2.4 Ansawdd yr addysgu

Mae ymadawyr cynnar yn llawer mwy beirniadol na dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau o ansawdd yr addysgu a gawsent yn ystod eu cyrsiau. Er bod 69% o'r dysgwyr cyfredol/ dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau yn dweud eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn ag ansawdd yr addysgu, mae llai na hanner (48%) yr ymadawyr cynnar yn dweud yr un peth.

## Darlun Disgrifiadol: Dyn 19 oed sydd wedi ymadael yn gynnar

Gadawodd y dyn 19 oed yma ei gwrs City and Guild canolradd yn y Celfyddydau a'r Cyfryngau yn ystod y 12 mis diwethaf heb unrhyw gymhwyster na rhan o gymhwyster. Gadawodd ei gwrs oherwydd y pwysedd oedd arno i gwblhau aseiniadau erbyn dyddiadau arbennig, ac roedd ei ddyslecsia yn gwneud hyn yn anodd. Ni allai'r coleg roi cymorth iddo hyd y tymor canlynol ac roedd ar ei hôl hi ar y cwrs. Mae mewn swydd lawn amser ar hyn o bryd.

Roedd yn astudio ar gwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddo ac mewn sefydliad oedd yn ddewis cyntaf ganddo ond, yn gyffredinol, mae'n weddol anfodlon ag ansawdd yr addysgu a ddarparwyd. Mae'n rhoi sgôr arbennig o isel (llai na 5 allan o 10) i'r tiwtoriaid am wrando ar ei anghenion, ei ddeall ef a'r ffordd mae'n hoffi dysgu ac am osod targedau neu amcanion dysgu eglur i'w helpu i wella. Mae hefyd yn feirniadol o'r tiwtoriaid yn nhermau darparu cefnogaeth pan oedd ganddo ef neu'r dysgwyr eraill broblemau (4 allan o 10) ac am helpu pobl newydd i setlo (5 allan o 10).


Cafodd y dysgwr yma nifer o broblemau tra bu'n astudio ar y cwrs, yn cynnwys sgiliau darllen/ysgrifennu, sgiliau mathemateg/rhifedd, llwyddo i ganfod amser i'r cwrs rhwng ymrwymiadau yn y cartref, darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol, ymdrin â phwysau ariannol, problemau â dysgwyr eraill, a'r ffaith nad oedd cymorth ychwanegol a addawyd iddo wedi'i ddarparu.

Atebwyd y mwyafrif o'i ddisgwyliadau am y cwrs. Yr eithriad yw faint o ddyddiadau cwblhau y byddai'n rhaid iddo orffen gwaith ar eu cyfer, ac mae'n nodi bod ei diwtor yn newid y dyddiadau yma drwy'r amser a hynny heb roi gwybod i'r myfyrwyr yn eglur beth oedd y dyddiadau newydd.

Ond, yn gyffredinol, mae'n weddol fodlon â'r profiad dysgu ac mae'n dweud ei bod hi'n weddol debygol y bydd yn gwneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf. Mae'n teimlo nad oedd wedi derbyn unrhyw gymorth bron iawn yn ystod y profiad dysgu yma.

### Siart 8.2: Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu (Ymadawyr cynnar AB)

Sail: Ymadawyr cynnar AB: (426)




Nodwch: Nid ydym wedi dangos yr atebion 'Ni wn' a 'Heb fod yn un na'r llall'. Efallai nad yw cyfanswm yr atebion 'Bodlon/Anfodlon' yn adio i roi 100% am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

| Crynodeb | |
|---|---|
| Cyfanswm eithriadol/bodlon iawn | 48% |
| Cyfanswm bodlon | 79% |
| Cyfanswm anfodlon | 16% |

**Tabl 8.4: Boddhad gyda'r dangosyddion dysgu (sgôr o 9 neu 10 allan o 10) yn ôl statws y dysgwr**

| | Statws y dysgwyr | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Yr holl ddysgwyr AB | Dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau | Early leavers | Dysgwyr sydd wedi ymadael yn gynnar – sgôr yn fwy na 15% o bwyntiau'n is |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4142 | 416 | |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4138 | 426 | |
| | % | % | |
| Eu gallu i esbonio'r pwnc | 55 | 39 | ✓ |
| Yn gwrando ar eich anghenion | 52 | 35 | ✓ |
| Yn gwneud y pwnc yn ddiddorol/hwyliog | 48 | 30 | ✓ |
| Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu | 41 | 30 | |
| Y gefnogaeth a gewch ganddynt | 43 | 26 | ✓ |
| Yn defnyddio amser y wers yn dda | 44 | 27 | ✓ |
| Ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu | 43 | 31 | |
| Gosod targedau neu amcanion dysgu eglur | 39 | 27 | |
| Darparu adborth prydlon a rheolaidd | 43 | 27 | ✓ |
| Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar | 26 | 17 | |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir ar y tabl.

Mae Tabl 155 yn dangos faint o'r dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau sy'n rhoi'r sgorau uchaf o 9 neu 10 allan o 10 ar gyfer pob dangosydd o'i gymharu â'r gyfran gyfatebol o ymadawyr cynnar. Pan ystyriwn y dangosyddion addysgu manwl, mae'n amlwg bod ymadawyr cynnar yn llawer mwy beirniadol am bob agwedd o'r addysgu ond yn arbennig y rheini sy'n ymwneud â chyfraniad yr athrawon/tiwtoriaid.

**Darlun Disgrifiadol: Merch 55 oed sydd wedi ymadael yn gynnar**

Mae'r ferch yma sydd wedi ymadael yn gynnar yn 55 oed, nid oes ganddi gymwysterau ac roedd yn astudio'n rhan amser (mwy na 3 awr yr wythnos) i gael cymhwyster City & Guilds lefel 1 yn y Celfyddydau a'r Cyfryngau.

Gadawodd ei chwrs yn gynnar gan ei disgrifio ei hun yn eithriadol anfodlon ag ansawdd gyffredinol yr addysgu a ddarparwyd yn ei choleg. Yn wir, mae hi'n rhoi sgôr isel iawn (1 allan o 10) am yr agweddau nesaf yma gan ei thiwtoriaid: eu gallu i esbonio'r pwnc, gwrando ar ei hanghenion, gwneud defnydd da o amser y sesiwn, ansawdd a hygyrchedd defnyddiau addysgu, a darparu adborth rheolaidd a phrydlon am ddatblygiad. Yn nhermau rheoli'r addysgu, mae hi'n feirniadol iawn am nad oedd y coleg yn sicrhau bod digon o diwtoriaid ar gael, am nad oeddent yn darparu cefnogaeth pan oedd ganddi hi neu ddysgwyr eraill broblem, am y ffordd yr oeddent yn rheoli amserlenni fel eu bod yn addas i'r dysgwr a'r ffordd nad oeddent yn hysbysu'r myfyrwyr am newidiadau yn amseroedd y gwersi.

Her particular problems related to fitting the course in with commitments at home, and problems with a member of staff. In terms of her expectations of her course, these were primarily met, with the exceptions of the structure of the training (relating to problems with her tutor being disorganised) and the teaching styles/methods used (she felt that the teacher was not well qualified). Overall, she describes herself as very dissatisfied with the learning experience. However, she thinks it very likely that she will undertake further learning in the next 3 years.

Hefyd, rhoddwyd rhestr i'r dysgwyr o'r dangosyddion sy'n ymwneud ag agweddau rheoli a gweinyddu'r profiad dysgu a gofynnwyd iddynt roi sgôr iddynt yn yr un ffordd h.y. drwy roi pwyntiau allan o 10 lle mae 1 yn wael a 10 yn rhagorol. Y tro yma, roedd y dangosyddion yn ymwneud â hygyrchedd yr athrawon/hyfforddwyr, amserlenni, cyfnodau cyflwyno a pharhad y gefnogaeth. Mae Tabl 156 yn dangos, unwaith eto, bod dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau yn tueddu i fod yn llawer mwy positif mewn perthynas â'r dangosyddion i gyd na'r dysgwyr sydd wedi ymadael yn gynnar.





**Tabl 8.5:Y boddhad gyda dangosyddion sydd wedi'u seilio ar reolaeth (sgôr o 9 neu 10 allan o 10) yn ôl statws y dysgwr (AB)**

| | Statws y dysgwyr | |
|---|---|---|
| Sail:Yr holl ddysgwyr AB | Dysgwyr cyfredol/dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau | Ymadawyr cynnar |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4142 | 416 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4138 | 426 |
| | % | % |
| Yn sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael | 40 | 28 |
| Yn darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ddysgwyr eraill | 50 | 34 |
| Yn helpu pobl newydd i setlo i mewn | 49 | 40 |
| Yn rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr | 42 | 32 |
| Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau | 36 | 21 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir ar y tabl.

### 8.2.5 Sgorau ar gyfer Cyfleusterau'r Darparwyr (AB)

Mae ymadawyr cynnar yn tueddu bod ychydig yn llai positif am y mwyafrif o'r cyfleusterau a ddarperir yn eu colegau/sefydliadau darparu na dysgwyr cyfredol/ dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau (Tabl 157). Unwaith eto, mae cefnogaeth yn fater allweddol – mae ymadawyr cynnar yn fwy beirniadol na dysgwyr cyfredol/ dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau am y gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi'r dysgwyr. Mae'r farn yma am brinder cefnogaeth yn cyfuno efallai â'r ffaith fod ymadawyr cynnar yn llawer mwy tebygol nag eraill o ddweud eu bod wedi cael problemau gyda darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol ar eu cyrsiau.

**Tabl 8.6:Y boddhad gyda dangosyddion sydd wedi'u seilio ar reolaeth (sgôr o 9 neu 10 allan o 10) yn ôl statws y dysgwr (AB)**

| | Statws y dysgwyr | |
|---|---|---|
| Sail:Yr holl ddysgwyr AB | Dysgwyr cyfredol/ dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau | Ymadawyr cynnar |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4142 | 416 |
| Sail:Wedi'i bwysoli | 4138 | 426 |
| | % | % |
| Yn sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael | 40 | 28 |
| Yn darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ddysgwyr eraill | 50 | 34 |
| Yn helpu pobl newydd i setlo i mewn | 49 | 40 |
| Yn rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr | 42 | 32 |
| Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau | 36 | 21 |

Nodwch: Mae'r canrannau a welwch wedi'u seilio ar y rheini a roddodd sgôr i bob ffactor. Mae hyn yn golygu eu bod ychydig yn is ar brydiau na'r rheini a roir ar y tabl.

## 8.3 LLWYDDIANT I ENNILL CYMWYSTERAU/MODIWLAU

Pan fyddwn yn ystyried yr holl ddysgwyr AB sydd wedi gadael eu cyrsiau astudio, er bod y mwyafrif o'r rheini a gwblhaodd eu cyrsiau wedi pasio eu cymhwyster yn gyfan gwbl (65%), nid yw'n syndod mai lleiafrif bychan yn unig (6%) o'r rheini a adawodd eu cyrsiau'n gynnar sydd wedi ennill eu cymwysterau. Yn wir, mae'r mwyafrif o'r ymadawyr cynnar (75%) heb ennill cymhwyster llawn a heb ennill rhan o'u cymhwyster neu fodiwl.





**Tabl 8.7:Y canlyniadau a gafwyd gan y rheini a adawodd eu cyrsiau yn ôl statws y dysgwr**

| Sail: Pawb sydd wedi ymadael ag AB | Yn cwblhau'r cwrs i gyd | Ymadawyr cynnar |
|---|---|---|
| Sail: Heb ei bwysoli | 2255 | 416 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 2392 | 426 |
| | % | % |
| Wedi pasio'r cymhwyster yn gyfan gwbl | 65 | 6 |
| Wedi ennill rhan o gymhwyster neu fodiwl | 6 | 15 |
| Dim un o'r rhain | 16 | 75 |
| Ni wn | 13 | 4 |

## 8.4 BETH MAEN NHW'N EI WNEUD YN AWR

Er gwaethaf eu gwahaniaethau yn nhermau'r cymwysterau a enillwyd, mae cyfraneddau tebyg o ymadawyr cynnar a'r rheini a gwblhaodd eu cyrsiau mewn swydd erbyn hyn, naill ai'n llawn amser neu'n rhan amser (tabl 9.7). Ond, mae ymadawyr cynnar ychydig bach yn fwy tebygol na'r rheini a gwblhaodd eu cyrsiau o ddweud eu bod wedi'u cofrestru'n ddi-waith/yn hawlio Lwfans Chwilio am Swydd, ac o ddweud eu bod gartref/heb fod yn ceisio gwaith.

**Tabl 8.8: Beth Ydych chi'n ei Wneud yn Awr? Yn ôl statws y dysgwr (AB)**

| | Statws y dysgwyr | | |
|---|---|---|---|
| Sail: Pawb sydd wedi ymadael ag AB | Cyfanswm | Yn cwblhau'r cwrs | Ymadawyr cynnar |
| Sail: Heb ei bwysoli | 2820 | 2255 | 416 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 2961 | 2392 | 426 |
| | % | % | % |
| Swydd lawn amser (31+ o oriau bob wythnos) | 43 | 43 | 40 |
| Swydd ran amser(< 31 o oriau yr wythnos) | 19 | 20 | 17 |
| Hunangyflogedig | 3 | 3 | 3 |
| Cynllun hyfforddi lleol neu gynllun hyfforddi'r llywodraeth sy'n cynnwys gwaith gyda thâl | * | * | * |
| Cynllun hyfforddi lleol neu'r llywodraeth nad yw'n cynnwys gwaith gyda thâl | * | * | * |
| Wedi'u cofrestru'n ddi-waith/yn hawlio Lwfans Ceisio Swydd | 2 | 1 | 4 |
| Heb eu cofrestru'n ddi-waith ond yn chwilio am swydd | 3 | 3 | 8 |
| Yn dioddef o salwch tymor hir neu'n anabl | 2 | 2 | 2 |
| Wedi ymddeol | 7 | 8 | 5 |
| Gartref/heb fod yn ceisio gwaith | 10 | 9 | 14 |
| Addysg lawn amser | 7 | 8 | 4 |
| Addysg ran amser | 3 | 3 | 2 |
| Di-waith (amhenodol) | 1 | 1 | * |
| Yn chwilio am gwrs arall | * | * | - |
| Yn mynd i'r coleg/yn gwneud cwrs | 1 | 1 | * |
| Gwaith gwirfoddol | * | 1 | - |
| Absenoldeb mamolaeth/ beichiog | * | * | * |
| Arall | * | * | * |

Nodwch: Nid ydym wedi dangos 'ni wn'

## 8.5 Y PWYNTIAU ALLWEDDOL A GODWYD YN YR ADRAN YMA

Mae ymadawyr cynnar yn fwy tebygol na dysgwyr eraill o fod:

- Yn gweithio yn ystod y tymor (48% o'i gymharu â 36%)
- Wedi gadael addysg lawn amser yn 16 oed (42% o'i gymharu â 36%)
- Yn dod o gefndir cymdeithasol economaidd tlotach (56% o'i gymharu â 46% )
- Yn astudio'n llawn amser (39% o'i gymharu â 31%)
- Yn astudio TGCh (35% o'i gymharu â 24%)

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, maen nhw'n llai bodlon gyda'r mwyafrif o agweddau eu profiad dysgu na'r rheini sydd wedi cwblhau eu cyrsiau neu sy'n parhau gyda'u cyrsiau. Dyma'r canfyddiadau sy'n gwahaniaethu'r ymadawyr cynnar fwyaf oddi wrth y dysgwyr eraill:

- Yn gyffredinol, maen nhw'n llai tebygol o deimlo bod eu disgwyliadau wedi'u gwireddu
- Mae'r rhain yn dod i'r amlwg fel grŵp sy'n rhoi sgorau is am rywfaint o sgiliau cefnogi'r athrawon/hyfforddwyr e.e.
- 'Gwrando ar eich anghenion' (mae 35% o'r ymadawyr cynnar yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10 o'i gymharu â 52% o'r dysgwyr eraill)
- 'Y gefnogaeth a gewch ganddynt' (26% o'i gymharu â 43%)
- 'Darparu adborth prydlon a rheolaidd' (27% o'i gymharu â 43%)

Maen nhw hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cael problemau, yn arbennig broblemau gyda darparu gwaith i'r safon sy'n ofynnol (32% o'i gymharu â 16% o'r dysgwyr eraill) a gydag aros yn frwdfrydig (33% o'i gymharu â 14% o'r dysgwyr eraill).

# 9. BWRIADAU YN Y DYFODOL

**Cyflwyniad:**

Mae'r adran yma'n edrych ar fwriadau'r dysgwyr yn y dyfodol mewn perthynas â dysgu. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor debygol fydden nhw o wneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf.

## 9.1 BRASOLWG

Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr (84%) naill ai'n debygol iawn neu'n weddol debygol o wneud dysgu pellach o fewn y 3 blynedd nesaf. Mae hyn ychydig bach yn uwch ymysg y merched (87%) na'r dynion (81%).

**Tabl 9.1: Y tebygolrwydd o ymgymryd â dysgu yn y 3 blynedd nesaf yn ôl rhyw (Y dysgwyr i gyd)**

| | | Rhyw | |
|---|---|---|---|
| Sail: Y dysgwyr i gyd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw |
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 | 2498 | 3717 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 | 2671 | 3544 |
| | % | % | % |
| Yn debygol iawn | 58 | 55 | 60 |
| Yn weddol debygol | 26 | 26 | 27 |
| Nid yw'n debygol iawn | 9 | 10 | 7 |
| Nid yw'n debygol o gwbl | 5 | 6 | 4 |
| Ni wn | 2 | 3 | 2 |

Yn nhermau oedran, mae dysgwyr iau ychydig bach yn llai tebygol o fod yn ystyried gwneud mwy o ddysgu, yn arbennig yn y grŵp oedran 19-24 (dim ond 80% sy'n debygol iawn neu'n weddol debygol o wneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf). Mae'r tebygolrwydd o wneud mwy o ddysgu yn cyrraedd ei bwynt uchaf yn y grŵp oedran 25-34 (89% yn debygol iawn neu'n weddol debygol) ac yn gostwng ychydig yn y grŵp oedran 35+.

Os edrychwn yn fwy manwl ar y grŵp 19-24 oed, fe welwn mai'r dynion sy'n gostwng y ffigurau am mai dim ond 75% ohonynt sy'n dweud y byddent yn debygol o wneud mwy o ddysgu, o'i gymharu â 85% o'r merched o'r un oedran.





**Tabl 9.2:Y tebygolrwydd o wneud dysgu yn y 3 blynedd nesaf yn ôl yr oedran (Y dysgwyr i gyd)**

| | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail:Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 6215 | 1742 | 1204 | 681 | 1601 | 987 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 6215 | 1428 | 1019 | 936 | 1913 | 918 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Yn debygol iawn | 58 | 56 | 55 | 62 | 59 | 58 |
| Yn weddol debygol | 26 | 30 | 25 | 27 | 25 | 25 |
| Nid yw'n debygol iawn | 9 | 8 | 13 | 5 | 8 | 9 |
| Nid yw'n debygol o gwbl | 5 | 5 | 5 | 3 | 5 | 5 |
| Ni wn | 2 | 1 | 2 | 4 | 2 | 2 |

**Tabl 9.3:Y tebygolrwydd o wneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf yn ôl y rhyw (AB)**

| | | Rhyw | |
|---|---|---|---|
| Sail:Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | Gwryw | Benyw |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1759 | 2948 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 4707 | 2005 | 2702 |
| | % | % | % |
| Yn debygol iawn | 59 | 57 | 60 |
| Yn weddol debygol | 26 | 25 | 27 |
| Nid yw'n debygol iawn | 8 | 10 | 7 |
| Nid yw'n debygol o gwbl | 5 | 5 | 4 |
| Ni wn | 2 | 3 | 2 |

**Tabl 9.4:Y tebygolrwydd o wneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf yn ôl yr oedran (AB)**

| | | Oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail:Yr holl ddysgwyr AB | Cyfanswm | 16-18 | 19-24 | 25-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail: Heb ei bwysoli | 4707 | 1387 | 704 | 555 | 1334 | 724 |
| Sail:Wedi'i bwysoli | 4707 | 1153 | 659 | 786 | 1555 | 554 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Yn debygol iawn | 59 | 58 | 56 | 62 | 59 | 58 |
| Yn weddol debygol | 26 | 28 | 23 | 26 | 26 | 25 |
| Nid yw'n debygol iawn | 8 | 7 | 14 | 5 | 8 | 10 |
| Nid yw'n debygol o gwbl | 5 | 5 | 5 | 3 | 5 | 5 |
| Ni wn | 2 | 1 | 2 | 4 | 2 | 2 |

## 9.2 ADDYSG BELLACH

Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr AB (59%) yn teimlo eu bod yn debygol iawn o wneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf. Mae merched ychydig bach yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn weddol debygol o barhau i ddysgu (mae 87% ohonynt yn eu disgrifio eu hunain yn bobl sy'n debygol iawn neu'n weddol debygol o wneud hynny o'i gymharu â 82% o'r dynion).

Mae'n ymddangos nad yw'r tebygolrwydd o wneud mwy o ddysgu yn amrywio'n amlwg rhwng y gwahanol grwpiau oedran ond mae'n ddiddorol mai'r grŵp oedran 19-24 sy'n lleiaf tebygol o fod yn disgwyl parhau i ddysgu (mae 79% naill ai'n dweud eu bod yn debygol iawn neu'n weddol debygol o wneud hynny). Mae hyn yn cyferbynnu â'r grŵp oedran 25-34 sef y grŵp mwyaf positif am barhau i ddysgu lle mae 88% yn debygol iawn/yn weddol debygol o wneud mwy o ddysgu. Os edrychwn yn fanylach ar y grŵp oedran 19-24, y dynion yn y grŵp yma sy'n gostwng lefel y bwriadau (roedd 73% yn debygol iawn neu'n weddol debygol o wneud mwy o ddysgu o'i gymharu â 85% o ferched).

Os edrychwn ar newidynnau dysgwyr eraill, dyma'r rhai sy'n fwyaf tebygol o ddylanwadu ar fwriad y dysgwyr mewn AB i ddysgu yn y dyfodol:

- A oes ganddynt blant?: rheini gyda phlant o oedran cyn ysgol (dan 5 oed) yw'r mwyaf tebygol o'r grwpiau i gyd o fod yn bwriadu dysgu (90%)
- A oes ganddynt anawsterau dysgu?: mae 89% o'r merched sydd ag anawsterau dysgu yn bwriadu dysgu ymhellach

## 9.3 DYSGWYR WEDI'U SEILIO YN Y GWAITH

Fel y gwelsom gyda'r dysgwyr mewn AB, mae'r merched ychydig bach yn fwy positif am ddysgu yn y dyfodol.

Ond, yn gyffredinol, mae lefel y bwriadau yn weddol gyson ymysg y mwyafrif o newidynnau'r dysgwyr. Yr unig eithriad yw'r cymhwyster uchaf wrth gychwyn y cwrs: roedd y rheini oedd â chymwysterau NVQ lefel 1/2 neu gymhwyster cyfatebol yn fwy tebygol o fod yn cynllunio mwy o ddysgu (83%) o'i gymharu â'r rheini gyda chymwysterau Lefel 3 (76%).





**Tabl 9.5:Y tebygolrwydd o wneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf yn ôl y rhyw (DyG)**

| | | Rhyw | |
|---|---|---|---|
| Sail:Y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw |
| Sail: Heb ei bwysoli | 1000 | 579 | 421 |
| Sail: Wedi'i bwysoli | 1001 | 580 | 421 |
| | % | % | % |
| Yn debygol iawn | 46 | 44 | 48 |
| Yn weddol debygol | 34 | 34 | 33 |
| Nid yw'n debygol iawn | 12 | 13 | 12 |
| Nid yw'n debygol o gwbl | 6 | 6 | 5 |
| Ni wn | 3 | 3 | 2 |

**Tabl 9.6:Y tebygolrwydd o wneud mwy o ddysgu yn y 3 blynedd nesaf yn ôl y rhyw (ABO)**

| | | Rhyw | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Gwryw | Benyw |
| Sail:Y dysgwyr ABO i gyd | 508 | 160 | 348 |
| | % | % | % |
| Yn debygol iawn | 65 | 64 | 66 |
| Yn weddol debygol | 24 | 22 | 26 |
| Nid yw'n debygol iawn | 6 | 8 | 5 |
| Nid yw'n debygol o gwbl | 3 | 4 | 3 |
| Ni wn | 2 | 3 | 1 |

## 9.4 ADDYSG BARHAUS OEDOLION WEDI'I HACHREDU

Yn unol â'u lefelau boddhad uchel, gan y dysgwyr ABO y mae'r lefelau uchaf o fwriad i ddysgu ymhellach gyda naw allan o ddeg o ddysgwyr (90%) yn bwriadu parhau i ddysgu.

# 10. ATODIAD TECHNEGOL

## 10.1 CYNLLUN Y SAMPL

### 10.1.1 Cynnwys y sampl

Roedd yr arolwg yn ymdrin â dysgwyr yn y mathau yma o ddarpariaeth:

- Addysg Bellach (AB)
- Dysgu yn y Gwaith (DyG)
- Addysg Oedolion a Chymunedol wedi'i Hachredu (Addysg Barhaus Oedolion)

Dyma'r manylion am y ffordd y samplwyd dysgwyr ymhob un o'r mathau darpariaeth yma.

### 10.1.2 Y sampl o AB ac ABO wedi'i Hachredu

Roedd y broses yma'n cynnwys camau cysylltu amrywiol:

- Cofnodion Myfyrwyr Unigol dienw a anfonwyd at yr NOP
- Samplodd yr NOP ddysgwyr unigol ac anfon rhifau cyfeirnod y myfyrwyr i'r colegau
- Gofynnwyd i'r colegau anfon manylion cyswllt y dysgwyr yn ôl at yr NOP (ar daenlen neu gopi caled) neu anfon yr wybodaeth allan eu hunain
- Anfonwyd llythyr at y dysgwyr yn rhoi gwybod iddynt am yr arolwg ac yn nodi rhif rhadffon rhag ofn bod ganddynt unrhyw ymholiadau neu rhag ofn eu bod yn dewis peidio â chymryd rhan. Roedd y dysgwyr yn deialu rhif rhadffon NOP i ddweud eu bod yn dewis peidio â chymryd rhan
- Tynnwyd enw pawb ddewisodd beidio â chymryd rhan o'r ffeil sampl ar gyfer bob coleg cyn gosod y ffeil yn y brif ffrâm samplo

Cymerwyd sampl o'r dysgwyr yn y sector AB a'r rheini yn y sector ABO wedi'i hachredu o'r Cofnod Myfyrwyr Unigol (CMU) ym mis Ebrill 2003. Felly, daethant o gyfrifiad Rhagfyr 2002. Nid yw'r CMU yn nodi enwau neu fanylion cyswllt y dysgwyr felly roedd yr ymarfer samplo yn gofyn haenu cofnodion y dysgwyr yn ôl y newidynnau nesaf yma ac yna dynnu hapsampl o rifau cyfeirnod y myfyrwyr:

- Rhanbarth
- Rhyw
- Oedran
- Math o raglen/cwrs

Wrth dynnu sampl o fyfyrwyr AB, tynnwyd sampl rhy fawr o fyfyrwyr 16-18 oed, o'r dysgwyr yng Nghanolbarth Cymru a hefyd o rai mathau arbennig o gyrsiau (gyda'r bwriad o sicrhau digon o gyfweliadau ymhob grŵp er mwyn gallu dadansoddi'r rhain ar wahân).

Roedd dosbarthu'r mathau o gyrsiau ar gyfer AB yn gofyn dewis y pwnc yr oedd y myfyriwr yn treulio'r mwyafrif o'i amser arno (pan oedd yn astudio mwy nag un pwnc). Roedd hyn yn anodd iawn ac, fel y digwyddodd, roedd y cais i dynnu sampl rhy fawr mewn rhai pynciau arbennig fel bod digon o gyfweliadau i ddadansoddi'r pynciau yma ar wahân, yn frasgywir iawn.

Unwaith yr oedd rhifau cyfeirnod y myfyrwyr wedi'u cynhyrchu cawsant eu dosbarthu i'r colegau. Cafodd y colegau yr opsiwn o naill ai gysylltu â'r myfyrwyr yn uniongyrchol i roi'r cyfle iddynt ddewis peidio â chymryd rhan yn yr arolwg neu roi'r manylion cyswllt i'r NOP er mwyn i ni allu gweithredu'r rhan yma o'r broses.

Unwaith y derbyniwyd manylion cyswllt y dysgwyr gan y colegau, anfonwyd llythyr at y dysgwyr yn disgrifio'r arolwg ac yn rhoi'r cyfle iddynt ddewis peidio â chymryd rhan drwy ffonio rhif rhadffon.

Cysylltwyd â 21 o golegau er mwyn cael sampl, a chydweithredodd cyfanswm o 16 o golegau drwy anfon sampl o'r dysgwyr AB. Anfonodd 9 o golegau sampl ar gyfer y dysgwyr mewn addysg barhaus oedolion wedi'i hachredu.



### 10.1.3 Y sampl Dysgu yn y Gwaith

Cymerwyd y sampl Dysgu yn y Gwaith o Gronfa Ddata Hyfforddiant Cenedlaethol (NTD) Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Tynnwyd hapsampl o 4,000 o enwau gan raglen hap gychwyn ar gyfrifiadur. Cymerwyd sampl gormodol o'r dysgwyr yng Nghanolbarth Cymru a chywirwyd hwn drwy bwysoli'r canlyniadau wrth ddadansoddi'r data.

Nid oedd angen anfon llythyrau dewis peidio â chymryd rhan yn yr achos hwn am fod y myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith i gyd wedi arwyddo datganiad i ddynodi a oeddent yn barod neu beidio i'r colegau basio eu henwau at drydydd parti i bwrpasau ymchwil. Anfonwyd llythyr er cwrteisi, fodd bynnag, i esbonio'r arolwg ac i adael i'r dysgwyr ddynodi nad oeddent am gymryd rhan os oedden nhw'n dewis hynny.

## 10.2 STRWYTHUR Y SAMPL

Cynhaliwyd y nifer nesaf yma o gyfweliadau:

**Tabl 10.1: Nifer y cyfweliadau yn ôl y math o ddarpariaeth**

| Math o ddarpariaeth | Nifer o gyfweliadau |
|---|---|
| Addysg Bellach | 4,707 |
| Dysgu yn y Gwaith | 1,000 |
| Addysg Barhaus Oedolion wedi'i Hachredu | 508 |

## 10.3 Y GWAITH MAES A'R CYFRADDAU YMATEB

Gweithredwyd yr arolwg drwy gyfweliad ffôn, oedd yn para 20 munud ar gyfartaledd. Dewiswyd cyfweliadau ffôn yn lle dulliau eraill o gasglu data am y rhesymau yma:

- Mae cyfweliadau ffôn yn osgoi'r angen am sampl clwstwr
- Yn gyffredinol, mae'n llawer cyflymach na chyfweliadau wyneb yn wyneb neu brosesau lle mae'r ymatebwyr yn cwblhau holiaduron eu hunain
- Mae'r pwnc ei hun yn briodol iawn ar gyfer holi dros y ffôn

Roedd yr opsiwn o gael cyfweliad yn y Gymraeg wedi'i gynnwys yn yr astudiaeth ar gyfer y rheini fyddai'n dewis derbyn cyfweliad Cymraeg. Er bod 34 o bobl wedi dweud y byddai'n well ganddynt dderbyn eu cyfweliad yn y Gymraeg, dim ond 7 ddewisodd yr opsiwn yma pan gysylltodd cyfwelydd oedd yn siarad Cymraeg â hwy. Roedd hi'n ymddangos bod y mwyafrif o'r gweddill wedi defnyddio'r opsiwn yma fel ffordd o ohirio'r cyfweliad/wrthod y cyfweliad yn anuniongyrchol.

Cafwyd gwaith maes rhwng Gorffennaf 4ydd 2003 ac Awst 18fed 2003.

Mae data cyflawn am y gyfradd ymateb i'w gael yn Nhabl 165. Pan edrychwn ar y manylion, mae hi werth nodi'r canlynol:

- Roedd ansawdd y data am gysylltu'n ddigon isel ei safon, gydag achosion niferus o rifau ffôn nad oedd modd cysylltu â hwy neu nad oeddent yn perthyn i'r unigolyn yr oedd y cyfwelydd yn ceisio cysylltu ag o/â hi
- Mewn AB ac Addysg Barhaus Oedolion wedi'i hachredu, roedd rhaid i'r gwaith maes gychwyn cyn i'r sampl cyfan gyrraedd. Roedd llai o siawns felly o gysylltu'n llwyddiannus â'r sampl a gyrhaeddodd tua diwedd cyfnod y gwaith maes na'r rheini oedd ar gael yn gynharach yn y broses

Dyma oedd y cyfraddau ymateb:

**Tabl 10.2: Y cyfraddau ymateb yn ôl y math o ddarpariaeth**

| | AB | DyG | ABO |
|---|---|---|---|
| Cyfweliadau wedi'u cwblhau | 4707 | 1000 | 508 |
| Apwyntiadau caled a meddal | 1124 | 224 | 120 |
| Cyfweliadau wedi'u stopio | 168 | 37 | 33 |
| Wedi'u cyfeirio i rywle arall/yr ymatebwr wedi symud | 452 | 263 | 44 |
| Wedi gwrthod | 1797 | 389 | 266 |
| Nid oeddent yn y llyfr ffôn | 27 | 12 | 4 |
| Nid oedd yr ymatebwr ar gael drwy gydol cyfnod y gwaith maes | 135 | 51 | 4 |
| CYFANSWM Y CYSYLLTIADAU | 8410 | 1976 | 979 |
| Heb eu defnyddio | 1475 | 2 | 165 |
| Dim ateb/prysur/peiriant ateb | 4199 | 702 | 556 |
| CYFANSWM BYW OND HEB GYSYLLTIAD | 5674 | 704 | 721 |
| Y rhif heb fod yn gweithio | 1348 | 586 | 157 |
| Yn honni rhif dyblyg | 19 | 18 | 3 |
| Dim ymatebwr cymwys | 161 | 101 | 27 |
| Iau nag 16 oed | 3 | 2 | 1 |
| Y cwrs wedi'i gwblhau cyn y dyddiad gorffen | 170 | 31 | 25 |
| Heb fod ar y cwrs | 283 | 30 | 93 |
| Y rhif wedi'i newid | 18 | 60 | 2 |
| Nid y prif rif | 2 | 1 | 0 |
| I ddefnydd busnes yn unig | 45 | 20 | 5 |
| Cyfrifiadur/ffacs/modem | 50 | 16 | 4 |
| Ni allai'r lleill barhau | 176 | 55 | 22 |
| CYFANSWM Y SAMPL AFLWYDDIANNUS | 2275 | 920 | 339 |
| CYFANSWM Y SAMPL I GYD | 16359 | 3600 | 2039 |
| Y GYFRADD YMATEB GAN Y SAMPL Y CYSYLLTWYD Â HWY | 56% | 51% | 52% |
| Y GYFRADD YMATEB GAN Y SAMPL Y CYSYLLTWYD Â HWY A'R SAMPL BYW ARALL | 33% | 37% | 30% |
| Y GYFRADD YMATEB GAN Y SAMPL CYFAN | 29% | 28% | 25% |





## 10.4 CYNLLUN YR HOLIADUR

Datblygwyd holiaduron yr arolwg mewn ymgynghoriad ag ELWa ac roeddent yn cynnwys rhywfaint o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd yn Arolwg Cenedlaethol Lloegr o Foddhad y Cwsmer gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau. Datblygwyd pedwar holiadur; sef i:

- Ddysgwyr cyfredol mewn AB/ABO
- Ymadawyr ag AB/ ABO
- Dysgwyr cyfredol Dysgu yn y Gwaith
- Ymadawyr Dysgu yn y Gwaith

Mae copi o'r holiadur a ddefnyddiwyd gyda'r dysgwyr cyfredol mewn AB/ABO yn yr atodiad. Mae copïau o'r amrywiadau eraill ar yr holiaduron ar y wefan http://www.elwa.org.uk.

Cafwyd cyfnod arbrofol pan roddwyd cynnig ar yr holiaduron. Roedd yr arbrawf yma'n cynnwys 30 cyfweliad dros y ffôn rhwng Gorffennaf 2il a'r 10fed 2003.

## 10.5 RHEOLI'R CYFWELIADAU FFÔN

### Cynllun Rheoli Ansawdd y Cyfwelydd (IQCS)

Mae ansawdd y gwaith a wnaed gan Wasanaethau Cyfweliadau Ffôn yr NOP yn cyfateb â'r safonau sydd wedi'u nodi gan yr IQCS. Mae pob cwmni sy'n aelod o'r IQCS yn derbyn arolygiad blynyddol gan arolygydd annibynnol sydd wedi'i benodi gan Gyngor yr IQCS. Mae'r arolygydd yn asesu perfformiad y cwmni a chaiff yr asesiad ei gyflwyno i Gyngor Rheoli'r IQCS i'w gymeradwyo.

Dyma'r amodau ar gyfer aelodau'r IQCS:

- Pan gânt eu penodi, bydd pob cyfwelydd yn derbyn copi cyfredol o God Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwilio i'r Farchnad (MRS), sy'n ymdrin â'r adrannau yn ymwneud â'r canlynol o leiaf:
  - cyfrifoldebau i'r ymatebwyr
  - cyfrifoldebau i'r cyhoedd ac i'r gymuned fusnes
- Mae'r geiriau "Wedi'i weithredu o fewn Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwilio'r Farchnad" wedi'u cynnwys, lle bo'n ymarferol, ar y sgrin ar ddechrau ac ar ddiwedd bob cyfweliad neu shifft, gan ei gwneud hi'n ofynnol i'r cyfwelydd gadarnhau cydymffurfiad ar yr amser hwnnw neu dylai dderbyn sylw ar daflen ar wahân, sy'n pennu cyfnod penodol o amser ar waith penodol ac sydd wedi'i arwyddo gan y cyfwelydd
- Rhoir gwybod i'r cyfwelwyr am gyfleuster Rhadffon yr MRS, sy'n gwirio a yw cwmnïau sy'n gwneud gwaith ymchwilio'r farchnad go iawn yn ddilys

Mae'r cyfwelwyr yn derbyn hyfforddiant sylfaenol am leiafswm o 2 ddiwrnod gan ddysgu am faterion yn ymwneud ag ansawdd, e.e.:

- Pwrpas a gwerth Ymchwilio'r Farchnad
- Pwysigrwydd cyfweld manwl gywir a moesegol
- Cod Ymddygiad yr MRS
- Gofal arbennig wrth gyfweld plant, pensiynwyr ac ati
- Defnyddio rhifau Rhadffon
- Sicrhau cyfrinachedd yr ymatebwyr a'u cadw'n anhysbys
- Trefnau Rheoli Ansawdd
- Cwrteisi/dull cyfweld
- Techneg cyfweld
- Mathau o gwestiynau yn cynnwys Annog a Chwilio
- Graddio Demograffeg/Dosbarthiad/Cymdeithasol
- Rhywfaint o brofiad ymarferol o gyfweld

Caiff 10% o'r holl gyfweliadau a gwblheir eu monitro drwy wiriad gwrando o bell ac ar-sgrin.

**Tabl 10.3 Cyfran y cyfweliadau sydd wedi'u pwysoli (AB)**

| | Nifer y cyfweliadau | | Data wedi'i bwysoli | |
|---|---|---|---|---|
| | Na | % | Na | % |
| **Oedran o fewn y rhywiau** | | | | |
| Dynion | | | | |
| 16-18 | 700 | 15 | 598 | 13 |
| 19-24 | 326 | 7 | 320 | 7 |
| 25-39 | 236 | 5 | 499 | 11 |
| 40-59 | 302 | 6 | 452 | 10 |
| 60+ | 195 | 4 | 136 | 3 |
| Merched | | | | |
| 16-18 | 687 | 15 | 555 | 12 |
| 19-24 | 378 | 8 | 339 | 7 |
| 25-39 | 722 | 15 | 828 | 18 |
| 40-59 | 845 | 18 | 791 | 17 |
| 60+ | 316 | 7 | 188 | 4 |
| **Rhanbarth** | | | | |
| De Ddwyrain Cymru | 2240 | 48 | 1742 | 37 |
| Gogledd Cymru | 700 | 15 | 1553 | 33 |
| De Orllewin Cymru | 1168 | 25 | 1177 | 25 |
| Canolbarth Cymru | 599 | 13 | 235 | 5 |
| **Pynciau'r cyrsiau** | | | | |
| Addysg + Hyfforddiant | 490 | 10 | 861 | 18 |
| Rheoli + Busnes | 367 | 8 | 692 | 15 |
| TG | 543 | 12 | 603 | 13 |
| Iechyd + Cymdeithasol | 859 | 18 | 433 | 9 |
| Peirianneg | 209 | 4 | 343 | 7 |
| Adeiladu | 184 | 4 | 216 | 5 |
| Y Celfyddydau | 472 | 10 | 174 | 4 |
| Lletygarwch + Arlwyo | 199 | 4 | 132 | 3 |
| Hamdden + Teithio | 86 | 2 | 127 | 3 |
| Sail Tir | 152 | 3 | 85 | 2 |
| Gwyddoniaeth + Mathemateg | 305 | 6 | 85 | 2 |
| Arall | 335 | 7 | 560 | 12 |





Ar ben hynny, mae gan Wasanaeth Cyfweliadau Ffôn yr NOP reol 7 awr sy'n sicrhau fod pob cyfwelydd unigol wedi'u monitro bob 7 awr o waith a wnânt i sicrhau nad oes tueddiadau yn nhermau pwy sy'n cael eu monitro o fewn y targed 10% cyffredinol.

Mae'r Arweinwyr Tîm yn sganio'r atebion gair am air bob yn sesiwn i sicrhau bod ansawdd yr atebion agored yma'n cyrraedd y safon sy'n ofynnol ar gyfer bob prosiect.

Caiff y camgodau eu hadolygu a'u cywiro yn y Ganolfan lle bo'n bosib sicrhau bod y data mor gywir ag sy'n bosib cyn iddo adael y Ganolfan.

## 10.6 DADANSODDI'R DATA

### 10.6.1 Pwysoli'r Data

Cafodd y data o'r sector AB ei bwysoli i gywiro gorgynrychiolid o'r grŵp 16 -18 oed, o grŵp Canolbarth Cymru ac o rai pynciau astudio arbennig. Dyma oedd y pwysau a ddefnyddiwyd:

Roedd y data Dysgu yn y Gwaith wedi cynnwys gor-samplo yn y grŵp o Ganolbarth Cymru. Dyma oedd y pwysau a ddefnyddiwyd ar gyfer y grŵp yma:

**Tabl 10.4: Cyfran y cyfweliadau wedi'u pwysoli (Dysgu yn y Gwaith)**

| | Nifer y cyfweliadau | | Data wedi'i bwysoli | |
|---|---|---|---|---|
| | **Na** | **%** | **Na** | **%** |
| **Rhanbarth** | | | | |
| De Ddwyrain Cymru | 454 | 45 | 487 | 49 |
| De Orllewin Cymru | 203 | 20 | 218 | 22 |
| Canolbarth Cymru | 126 | 13 | 63 | 6 |
| Gogledd Cymru | 217 | 22 | 233 | 23 |

### 10.6.2 Dadansoddi'r data

Mae'r grid nesaf yma'n batrwm defnyddiol i'w ddefnyddio wrth farnu arwyddocâd ystadegol y ffigurau sydd yn yr adroddiad yma:

**Tabl 10.5: Cyfyngau hyder ar gyfer gwahanol feintiau sampl a chyfraneddau disgwyliedig (Wedi'i seilio ar 95% o'r hyder)**

| | Y Gyfran Ddisgwyliedig | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Maint y Sampl | | 50% | | 40% | | 30% | | 20% |
| | neu | 50% | | 60% | | 70% | | 80% |
| 100 | +/- | 9.8% | +/- | 9.6% | +/- | 9.0% | +/- | 7.8% |
| 200 | +/- | 6.9% | +/- | 6.8% | +/- | 6.4% | +/- | 5.5% |
| 300 | +/- | 5.7% | +/- | 5.5% | +/- | 5.2% | +/- | 4.5% |
| 400 | +/- | 4.9% | +/- | 4.8% | +/- | 4.5% | +/- | 3.9% |
| 500 | +/- | 4.4% | +/- | 4.3% | +/- | 4.0% | +/- | 3.5% |
| 600 | +/- | 4.0% | +/- | 3.9% | +/- | 3.7% | +/- | 3.2% |
| 700 | +/- | 3.7% | +/- | 3.6% | +/- | 3.4% | +/- | 3.0% |
| 800 | +/- | 3.5% | +/- | 3.4% | +/- | 3.2% | +/- | 2.8% |
| 900 | +/- | 3.3% | +/- | 3.2% | +/- | 3.0% | +/- | 2.6% |
| 1,000 | +/- | 3.1% | +/- | 3.0% | +/- | 2.8% | +/- | 2.5% |
| 1,500 | +/- | 2.5% | +/- | 2.5% | +/- | 2.3% | +/- | 2.0% |
| 2,000 | +/- | 2.2% | +/- | 2.1% | +/- | 2.0% | +/- | 1.8% |
| 2,500 | +/- | 2.0% | +/- | 1.9% | +/- | 1.8% | +/- | 1.6% |

Nodwch, mae hyn yn tybio bod yr ymatebion gan hapsampl hollol ddiglwstwr





## 10.7 Dadansoddiad Atchweliad

Mae dadansoddiad atchweliad yn ffordd ystadegol o fesur y berthynas rhwng lefel boddhad y dysgwr gyda chydrannau penodol o'r dysgu a lefel eu boddhad yn gyffredinol. Po gryfaf yw'r berthynas rhwng ffactor arbennig a lefel y boddhad cyffredinol, y mwyaf pwysig yw'r ffactor hwnnw. Os bydd ffactor yn codi neu'n gostwng yn unol â'r boddhad cyffredinol gallwn ei ystyried yn un o'r ffactorau allweddol sy'n creu boddhad.

Mae'r broses ddadansoddi'n gofyn:

- Defnyddio dadansoddiad ffactorau i gywasgu pob agwedd o'r ddarpariaeth yn wahanol ddimensiynau gwasanaeth sy'n dal lefelau da o gydberthynas yn y data
- Canfod pa gyfraniad mae pob dimensiwn o'r gwasanaeth yn ei wneud i'r lefelau boddhad cyffredinol

Pan ddefnyddiwyd y dadansoddiad gyda chanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr yng Nghymru 2003, cafwyd y dimensiynau o wasanaeth sydd yn y rhestr isod. Nodwch os gwelwch yn dda bod y ffactorau wedi'u grwpio'n wahanol ymhob gwahanol fath o sefydliad darparu.

Y dimensiynau gwasanaeth ar gyfer AB oedd:

**AB**

- Addysgu
- Rheoli
- Cyfleusterau – Dysgu
- Cyfleusterau – Cynghori
- Cyfleusterau – Arall
- Gwneud y dewis cywir

Dyma oedd y cwestiynau yr ymdriniwyd â hwy ymhob gwahanol ddimensiwn o'r gwaith gwasanaethu:

### Addysgu

- Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog i chi
- Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu
- Y gefnogaeth a gewch ganddynt, er enghraifft i wella eich technegau astudio neu i reoli eich amser
- Yn defnyddio amser y wers yn dda
- Ansawdd a hygyrchedd y defnydd addysgu a ddefnyddient
- Gosod targedau neu amcanion dysgu clir i'ch helpu i wella
- Darparu adborth rheolaidd a phrydlon am ddatblygiad
- Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar
- Eu gallu i esbonio'r pwnc
- Gwrando ar eich anghenion

### Rheoli

- Sicrhau bod digon o diwtoriaid a/neu athrawon ar gael
- Darparu cefnogaeth pan fydd gennych chi neu ddysgwr arall broblemau
- Helpu pobl newydd i setlo i mewn
- Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr
- Rhoi gwybod i bobl am newidiadau yn amseroedd y gwersi

### Cyfleusterau - Dysgu

- Llyfrgell a chanolfan ddysgu
- Offer/cyfleusterau TG
- Cyfleusterau/offer arbenigol eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs
- Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill

### Cyfleusterau – Cynghori

- Cyfleusterau gofal plant
- Cefnogaeth arall e.e. Cynghori, cyngor am dai neu gyngor ariannol
- Cyngor gyrfaol
- Gwasanaethau cefnogi'r dysgu

### Cyfleusterau – Arall

- Ffreutur/caffi
- Offer/cyfleusterau chwaraeon
- Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/anawsterau dysgu

### Gwneud y dewis cywir

- Pa mor ddefnyddiol yw'r cyngor
- Y cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt
- Y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt

### Dysgu yn y Gwaith

Dyma oedd y gwahanol ddimensiynau gwasanaeth ar gyfer Dysgu yn y Gwaith:

- Addysgu
- Rheoli
- Cyfleusterau – Cymdeithasu
- Cyfleusterau – Cynghori
- Cyfleusterau – TG
- Cyfleusterau – Arall

### Addysgu

- Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog i chi
- Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu
- Y gefnogaeth a gewch ganddynt, er enghraifft i wella eich technegau astudio neu i reoli eich amser
- Yn defnyddio amser y wers yn dda
- Ansawdd a hygyrchedd y defnydd addysgu a ddefnyddient
- Gosod targedau neu amcanion dysgu clir i'ch helpu i wella
- Darparu adborth rheolaidd a phrydlon am ddatblygiad
- Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar
- Eu gallu i esbonio'r pwnc
- Gwrando ar eich anghenion

### Rheoli

- Sicrhau bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael
- Yn darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf i neu ar ddysgwyr eraill
- Helpu pobl newydd i setlo i mewn
- Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr
- Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau
- Aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd
- Gweld yr un aseswr bob tro

### Cyfleusterau – Cymdeithasu

- Ffreutur/caffi
- Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill
- Cyfleusterau/offer arbenigol eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs

### Cyfleusterau – Cynghori

- Cyfleusterau gofal plant
- Gwasanaethau cefnogi eraill e.e. Cynghori, cyngor am dai neu gyngor ariannol
- Cyngor gyrfaol
- Gwasanaethau cefnogi dysgu

### Cyfleusterau – TG

- Cyfleusterau ac offer TG

### Cyfleusterau – Arall

- Offer/cyfleusterau chwaraeon
- Llyfrgell a chanolfan ddysgu
- Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/anawsterau dysgu

### Addysg Barhaus Oedolion wedi'i Hachredu

Dyma oedd y dimensiynau gwasanaeth:

- Addysgu
- Rheoli
- Cyfleusterau – Dysgu
- Cyfleusterau – Cymdeithasol
- Cyfleusterau – Gofal Plant/Cynghori
- Gwneud y dewis cywir

### Addysgu

- Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog i chi
- Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu
- Y gefnogaeth a gewch ganddynt, er enghraifft i wella eich technegau astudio neu i reoli eich amser
- Yn defnyddio amser y wers yn dda
- Ansawdd a hygyrchedd y defnydd addysgu a ddefnyddient
- Gosod targedau neu amcanion dysgu clir i'ch helpu i wella
- Darparu adborth rheolaidd a phrydlon am ddatblygiad
- Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar
- Eu gallu i esbonio'r pwnc
- Gwrando ar eich anghenion

**Rheoli**

- Sicrhau bod digon o diwtoriaid a/neu athrawon ar gael
- Darparu cefnogaeth pan fydd gennych chi neu ddysgwr arall broblemau
- Helpu pobl newydd i setlo i mewn
- Rheoli'r amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr
- Rhoi gwybod i bobl am newidiadau yn amseroedd y gwersi

**Cyfleusterau – Dysgu**

- Cyfleusterau/offer arbenigol eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs
- Offer/cyfleusterau TG
- Llyfrgell a chanolfan ddysgu
- Gwasanaethau cefnogi dysgu

**Cyfleusterau – Cymdeithasu**

- Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill
- Ffreutur/caffi
- Offer/cyfleusterau chwaraeon
- Cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau/anawsterau dysgu

**Cyfleusterau – Gofal Plant/Cynghori**

- Cyfleusterau gofal plant
- Gwasanaethau cefnogi eraill e.e. Cynghori, cyngor am dai neu gyngor ariannol
- Cyngor gyrfaol

**Gwneud y dewis cywir**

- Pa mor ddefnyddiol yw'r cyngor?
- Y cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt
- Y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt

# 11. RHESTR TERMAU





**AB**

Mae'r dysgwyr o'r sector Addysg Bellach wedi'u tynnu o Golegau AB. Mae'r sampl yn cynnwys yr amrediad cyfan o ddysgwyr, yn llawn amser a rhan amser.

**Dysgu yn y Gwaith (DyG)**

Mae'r rhaglenni yr ymdriniwyd â hwy yn cynnwys Rhaglenni Hyfforddeion Cenedlaethol, Prentisiaeth Fodern, Skillbuild, Dysgu yn y Gwaith ar gyfer Oedolion a rhaglenni ieuenctid eraill.

**Addysg Barhaus Oedolion (ABO)**

Mae'r sampl yma'n ymdrin ag Addysg Barhaus Oedolion wedi'i hachredu. Mae felly'n ymdrin â dysgu AB a ddarperir gan ddarparwyr dysgu i oedolion. Er bod y sampl wedi'i chasglu drwy'r colegau AB, roedd y dysgwr yn rhoi sgôr i'r darparwr a ddarparodd y cwrs hwnnw.

**Ymadawyr cynnar**

Diffinnir ymadawyr cynnar fel y bobl a benderfynodd adael y cwrs cyn ei gwblhau.

**Anabledd**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt anabledd, felly mae hwn yn grŵp sydd wedi'i ddiffinio ei hun.

**Pobl ddibynnol**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt blant yn eu cartrefi ac os felly a oeddent yn perthyn i'r grwpiau oedran yma: iau na 5, 5-16, 16+. Hefyd, gofynnwyd i'r ymatebwyr ai hwy oedd y prif ofalwr am unrhyw oedolion (gallai hyn fod o fewn neu y tu allan i'w cartrefi), e.e. perthnasau hŷn.

**Learning Difficulty**

Respondents were asked if they had a learning difficulty, this is therefore a self-defined group.

**Grŵp Cymdeithasol Economaidd (SEG)**

Ar rai pwyntiau yn ystod yr adroddiad disgrifiwyd ymatebwyr yn nhermau eu grŵp cymdeithasol-economaidd. Dyma'r dosbarthiad:

**AB: Proffesiynol a rheolwyr**
- **C1: Canolradd ac Is heb fod yn weithiwr llaw**
- **C2: Gwaith llaw sgiliedig**
- **DE: Gwaith llaw lled-sgiliedig a di-sgiliedig**

**Atchweliad**

Pan gyfeiriwn at ddadansoddiad atchweliad mae hon yn broses o ddadansoddiad ystadegol sy'n cynnwys olrhain cydberthnasau o fewn data'r arolwg fel y gallwn ganfod pa ffactorau sy'n dylanwadu fwyaf ar ganlyniad penodol.

# 12. ATODIADAU

## 12.1 ATODIAD A – STRATEGAETH YMCHWILIO'R CWSMER

Roedd Cynllun Corfforaethol 2002-3 y Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn cynnwys gofyniad i sefydlu 'Rhaglen integredig i ddeall anghenion ein cwsmeriaid er mwyn sicrhau bod yr holl ddatblygiad cynnyrch yn y dyfodol wedi'i seilio ar eu hanghenion' (Y Cynllun Corfforaethol – 2002-03 cyf. P13).

Yn dilyn proses ymgynghori fewnol eang datblygwyd Strategaeth Ymchwilio'r Cwsmer i sicrhau dealltwriaeth o anghenion, cymhelliant a boddhad y dysgwyr. Byddai'r gweithgaredd yma'n caniatáu i ELWa:

- Ddeall beth sy'n cymell cwsmeriaid i ddysgu, ac felly'n ein galluogi ni i ehangu a dyfnhau cyfranogaeth mewn dysgu;
- Deall beth mae cwsmeriaid yn ei feddwl am y gwasanaethau Addysg and Dysgu a dderbyniant, yn arbennig y rheini a ariannwn; ac
- Olrhain a deall y gyfranogaeth mewn gwahanol grwpiau cwsmer

Amlinellwyd y rhaglen ymchwilio tair blynedd arfaethedig i'r Cyngor ym mis Mai 2003 ac mae'n cynnwys yr elfennau yma:

- Arolwg cyffredinol o Foddhad y Dysgwr yn ystod Haf 2003, yn cynnwys cyfweliadau ffôn 20 munud gyda mwy na 6,200 o ddysgwyr;
- Datblygiad methodoleg i gasglu gwybodaeth debyg gan fyfyrwyr Chweched Dosbarth ledled Cymru
- Sefydlu panel unigolion a phanel cyflogwyr er mwyn olrhain newidiadau mewn agweddau tuag at ddysgu a chyfranogaeth mewn dysgu; a
- Chynhyrchu amrediad o adroddiadau gyda thema drwy fywyd cyfan y rhaglen

Mae'r tabl nesaf yma'n rhoi manylion pob elfen ymchwilio unigol:


